Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD LLUN<br>28 MEDI 2020<br>10.00 o'r gloch** | | **MONDAY<br>28 SEPTEMBER 2020<br>10.00 am** |
| **CYFARFOD RHITHIOL** | | **VIRTUAL MEETING** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes<br>01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/Party of Wales**

Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS, Robin Wyn Williams

**Annibynnol/Independent**

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.**
**Bydd recordiad o'r cufarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosib.**

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2** **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Awst 2020.

**4** **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**5** **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1, 2020/21** (Tudalennau 21 - 46)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**6** **MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 1, 2020/21** (Tudalennau 47 - 58)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**7** **MONITRO CYLLIDEB Y CRT - CHWARTER 1, 2020/21** (Tudalennau 59 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**8** **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2021/22 – 2023/24** (Tudalennau 67 - 84)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**9** **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL 2019/20** (Tudalennau 85 - 96)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

**10** **DIWEDDARIAD O'R PANEL GWELLA GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 97 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro.

**Ar hyn o bryd nid yw'r Pwyllgor hwn yn cael ei wê-ddarlledu'n fyw.**
**Bydd recordiad o'r cufarfod ar wefan y Cyngor cyn gynted â phosib.**

**11** **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2019/20**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro. **– I DDILYN**

**12** **TIR AR STAD DDIWYDIANNOL MONA - CAIS GAN GYMDEITHAS AMAETHYDDOL YNYS MÔN I DDIWYGIO AMODAU'R BRYDLES** (Tudalennau 105 - 112)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn rhithiol ar 17 Awst, 2020

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Llinos Medi (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Richard Dew, Carwyn Jones, R. Meirion Jones, Alun Mummery, R.G.Parry, OBE, FRAgS, Dafydd Rhys Thomas, Robin Williams. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc<br>Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol/Pennaeth Gwasanaethau Plant<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br>Strategaeth Gwasanaethau Tai, Polisi a Chomisiynu<br>Rheolwr (ar gyfer eitemau 5 a 6)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Cynghorwyr Kenneth Hughes, Aled Morris Jones, R. Llewelyn Jones, Bryan Owen, Dylan Rees, Alan Hughes (Archwilio Cymru fel Arsylwr) Mr Gareth Wyn Williams (Gohebydd Democratiaeth Lleol) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Gwaith.

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni wnaed unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2. MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDI**

Dim i'w hadrodd.

**3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cyflwynwyd i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2020.

**Penderfynwyd cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf, 2020 fel rhai cywir.**

## 4. Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF AR GYNLLUNIO A CHYFLAWNI ADFERIAD O'R CORONAFEIRWS

Cyflwynwyd adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn nodi'r cynnydd hyd yma o ran cynllunio a chyflawni adferiad lleol i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Gwaith am gynnydd o ran adferiad lleol a rhanbarthol a nododd, yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf o'r strwythurau a'r cyfrifoldebau mewnol i oruchwylio datblygiad ac adferiad pellach y Cyngor Sir a'r Ynys yn sgil argyfwng y Coronafeirws, fod y flaenoriaeth a'r ffocws wedi parhau ar lacio ymhellach y cyfyngiadau, cynnal diogelwch swyddogion a thrigolion a sicrhau canlyniadau cadarnhaol gan gydweithio'n ystyrlon â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol.

Arweiniodd y Dirprwy Brif Weithredwr y Pwyllgor Gwaith drwy brif bwyntiau'r adroddiad fel a ganlyn –

- Dywedodd ei fod yn parhau i fod yn gyfnod heriol ac ansicr i drigolion, cymunedau a busnesau gyda newidiadau sy'n effeithio ar adferiad yr Ynys yn economaidd ac o ran y gymuned bob wythnos. Mae gan y Cyngor rôl i'w chwarae i arwain ar gamau tuag at adferiad ac mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r camau i'w cymryd wrth i'r adferiad fynd rhagddo.
- Amlinellodd y newidiadau cenedlaethol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst i lacio'r cyfyngiadau ynghyd â'r penderfyniadau lleol a wnaed gan y Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth a galluogi'r sefydliad, swyddogion, trigolion a busnesau lleol i symud i'r "normal nesaf" yn ddiogel a phwysleisiodd fod Swyddogion yn gwneud llawer iawn o waith yn y cefndir cyn i bob penderfyniad gael ei weithredu.
- Cyfeiriodd at gynnydd o ran adferiad rhanbarthol a'r rhan a chwaraeir gan y Cyngor mewn ymdrechion cydweithredol. Tynnodd sylw at y ffaith, er bod blaenoriaethau a ffocws y Cyngor yn parhau ar alluogi a hwyluso adferiad lleol, ei fod yn ceisio gwneud hynny mewn partneriaeth a dysgu o'r hyn y mae awdurdodau a sefydliadau eraill yn ei wneud o ran dulliau gweithio ac ymarfer. Mae'r rôl ranbarthol yn datblygu i fod yn un sy'n cydgysylltu a chynllunio ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor gyda chamau gweithredu a phenderfyniadau uniongyrchol o ddydd i ddydd yn digwydd ar lefel leol.
- Manylodd ar wahanol elfennau'r broses adfer leol gan gadarnhau bod gwaith wedi dechrau ar baratoi 4 cynllun adfer lleol yn seiliedig ar yr Economi; Gwasanaethau Twristiaeth a Chyrchfannau sy'n cynnwys agweddau cymunedol ac amgylcheddol; Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymunedol a Dylunio a Diwylliant Sefydliadol (Gweithio'n Wahanol).
- Pwysleisiodd bwysigrwydd cynlluniau cyfalaf i adferiad economaidd. Mae'r awdurdodau yng Ngogledd Cymru wedi ceisio tynnu sylw at rôl hollbwysig awdurdodau lleol wrth hyrwyddo prosiectau cyfalaf gydag amserlen o gynlluniau posibl wedi'u paratoi yn barod ar gyfer rhyddhau cyllid cyfalaf ychwanegol. Fodd bynnag, er mwyn manteisio'n llawn, mae angen datblygu cynlluniau'n llawn ac 'yn barod i'w gweithredu" felly argymhellir yn yr adroddiad y dylid rhyddhau cyllid i ddatblygu cynlluniau cyfalaf â blaenoriaeth.
- Cyfeiriodd at gydweithrediad parhaus y Cyngor a chyflawni'r Strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu leol sy'n hanfodol wrth reoli achosion lleol ochr yn ochr â gwaith gwerthfawr y tîm bach o weithwyr iechyd yr amgylchedd proffesiynol sydd wedi ymgymryd â chyfuniad o fesurau rhagweithiol ac adweithiol (gorfodi) i gynnal iechyd y cyhoedd, hyder a chydymffurfiaeth yn ystod yr achosion yn ffatri Llangefni ac er mwyn lleihau'r risg o achosion pellach yn y dyfodol.
- Tynnodd sylw at bwysigrwydd y Cyngor yn gweithio'n wahanol fel sefydliad o ganlyniad i'r profiadau a gafwyd wrth ymateb i'r pandemig, ac at gynnwys newidiadau cadarnhaol yn ei brosesau, ei ymddygiadau a'i werthoedd yn seiliedig ar y themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg ynghylch cyfleoedd Technoleg Gwybodaeth; sicrhau manteision

amgylcheddol, hinsawdd a datgarboneiddio; gweithio thematig; gwell effeithlonrwydd drwy amseroedd teithio llai a phrosesau swyddfa â llaw; gwell cydbwysedd rhwng gweithio yn y swyddfa a gweithio gartref; datblygu newid ac addasu galluoedd, a chynnal a gwella cydraddoldeb, hygyrchedd gwasanaethau a gofal cwsmeriaid.

- Esboniodd fod angen i Ynys Môn, fel awdurdod llai o faint, flaenoriaethu ei adnoddau a'i gapasiti'n ddoeth wrth ymateb i'r her o gydbwyso camau gweithredu presennol yn erbyn cynllunio hirdymor gan nodi hefyd na fydd yn bosibl i'r Awdurdod arwain ar bob maes o'r gwaith adfer lleol heb adnoddau ychwanegol. Bydd pob cynllun adfer nid yn unig yn nodi'r hyn y gall y Cyngor ei hun ei gyflawni ar hyn o bryd ynghyd â'r amserlenni a'r canlyniadau arfaethedig, ond bydd pob un hefyd yn nodi'r hyn sy'n ofynnol o safbwynt Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran cymorth, penderfyniadau ac adnoddau i alluogi'r Ynys i adfer yn gyflym, yn llawn ac yn effeithiol.
- Cynigiwyd addasu model gweithredu blaen tŷ presennol y Cyngor - Cyswllt Môn - fel rhan o'r newid yn y dull o ddiogelu'r gweithlu, y trigolion a'r gwasanaethau a ddarperir. Y nod fydd cynnal mynediad cyfartal, safonau gofal cwsmeriaid, cynhwysiant a lleihau teithio. Bydd ar ffurf treialu trefniadau cyswllt aml-sianel, gan ddefnyddio cyfleusterau yn y gymuned gan gynnwys llyfrgelloedd ar gyfer cyswllt rhithiol â Thîm Cyswllt Môn, hybu sianelau digidol a sicrhau mynediad i bawb.
- Cynigiwyd y dylid gostwng Cyllidebau Teithio a Chynhaliaeth 2020/21 25% i adlewyrchu'r tanwariant ar y cyllidebau hyn o ganlyniad i roi'r gorau i bob ymweliad/taith nad yw'n hanfodol yn sgil y pandemig a chynnal lefel o wasanaethau dros y ffôn, dulliau fideo a rhithiol, gyda'r arian a geir yn cael ei ailddyrannu i weithgarwch adfer arall.

Ymatebodd y Pwyllgor Gwaith i'r wybodaeth a gyflwynwyd fel a ganlyn –

- Diolchodd holl Aelodau'r Pwyllgor Gwaith i Swyddogion y Cyngor am eu gwaith caled drwy gydol y cyfnod anodd hwn a chydnabu eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb yn y ffordd yr oeddent wedi ymateb i'r argyfwng uniongyrchol ac wrth gynllunio ar gyfer adferiad.
- Wrth ymhelaethu ar y cymorth ariannol ac fel arall a roddwyd i fusnesau lleol i'w helpu drwy'r cyfnod heriol hwn, tynnodd y Cynghorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio dros Ddatblygu Economaidd sylw at y newidiadau yr oedd Covid-19 wedi'u gwneud i'r amgylchedd busnes o ran llai o wariant mewn siopau oherwydd y cyfyngiadau a'r pwyslais ar weithio gartref, gyda newid sylweddol i wariant ar-lein, gan ei gwneud yn glir hefyd y byddai angen cymorth ar fusnesau i addasu a delio â'r ansicrwydd parhaus ynglŷn ag ail don o'r feirws yn ogystal â dirwasgiad economaidd a Brexit.
- Wrth groesawu'r cynlluniau ar gyfer adfer canol trefi, gwnaed pwynt ynghylch peidio ag anghofio pentrefi mwy yr Ynys sy'n haeddu'r un gefnogaeth fel cyfranwyr pwysig i'r economi twristiaeth a busnes leol.
- Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at brif gyfrifoldebau'r Cyngor fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus a theimlai y dylai'r Awdurdod ganolbwyntio ar adfer ei holl wasanaethau i'r safon uchel o ddarpariaeth cyn dechrau'r pandemig gan fanteisio ar y profiadau a gafwyd wrth ddelio â'r argyfwng i wella prosesau busnes.
- Cydnabu holl aelodau'r Pwyllgor Gwaith fod yr argyfwng wedi newid y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal sawl agwedd ar ei fusnes a bod nifer o'r newidiadau hynny er gwell o ran dod yn sefydliad mwy effeithlon. Dylid ei atgyfnerthu ac adeiladu ar hyn wrth gynllunio ar gyfer normal newydd a thu hwnt, yn enwedig o ran cyfarfod o bell, lleihau amser teithio a gwneud mwy ar-lein gan fod yn ymwybodol hefyd o'r angen i sicrhau mynediad at wasanaethau i bob dinesydd.
- Croesawodd Cynghorydd Richard Dew, yr Aelod Portffolio dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd hyn ac fe'i calonogwyd gan gynlluniau i wella'r broses o reoli, monitro ac adrodd ar gontractau yn arbennig o ran sicrhau bod mwy o fanteision lleol yn cael eu sicrhau drwy gontractau.

DRAFT

- Cydnabu’r Pwyllgor Gwaith rôl bwysig Tîm Cyfathrebu'r Cyngor drwy gydol yr argyfwng a'i ddefnydd o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gyfleu negeseuon clir.
- Cytunwyd ynglŷn â’r angen i ganolbwyntio ar ôl y pandemig ar ganlyniadau ac ar y gwersi a ddysgwyd o ran yr hyn y gellir ei wneud yn wahanol er mwyn gwneud gwahaniaeth.

**Penderfynwyd –**

- **Rhyddhau £200,000 o’r Cyfraniadau Refeniw sydd ar gael i’r Gronfa wrth Gefn a glustnodwyd (balans cyfredol £842,917) er mwyn ariannu cost datblygu cynlluniau cyfalaf â blaenoriaeth a gweithio tuag at sicrhau cyllid grant cyfalaf ychwanegol i roi’r cynlluniau hynny ar waith.**
- **Dad-neilltuo 25% o gyllideb teithio a chynhaliaeth 2020/21 (£115,420) a’i ail-neilltuo i waith adfer brys:-**

    - **Arbrawf rhithiol Cyswllt Môn yn holl lyfrgelloedd yr Ynys.**
    - **Galluogi trawsnewid prosesau busnes cyn gynted â phosibl.**
    - **Cyflwyno system ddigidol a phecyn hyfforddi newydd i wella a mireinio’r broses o fonitro gwaith rheoli contractau, adrodd arnynt a sicrhau manteision.**

## 5. Y POLISI GOSOD AR GYFER TAI CYMDEITHASOL A COVID-19

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer newid rhannol dros dro i'r Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer tai mewn ymateb i effaith Covid-19 ar lety brys/dros dro i aelwydydd digartref yn dilyn argymhelliad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â digartrefedd.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio dros Dai a Chymorth Cymunedol yr adroddiad gan nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd dyletswydd lawn i ail-letya’n barhaol unrhyw aelwydydd y darperir llety brys iddynt yn ystod y cyfyngiadau. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen dull hyblyg ar y Gwasanaethau Tai i allu symud aelwydydd o lety brys neu lety dros dro i lety sefydlog, ac felly cynigir newid dros dro arfaethedig i'r Polisi Gosod Cyffredin am gyfnod o hyd at 6 mis. Drwy gymeradwyo'r argymhelliad, bydd y dull gosod uniongyrchol yn cael ei wneud ar gyfer hyd at 50% o'r achosion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwn.

Wrth gefnogi'r cynnig, gofynnodd y Cadeirydd am ddiweddariad ymhen blwyddyn ynglŷn ag effeithiau'r newid polisi rhannol dros dro.

**Penderfynwyd cymeradwyo’r canlynol –**

- **Newid rhannol dros dro i’r Polisi Gosod Cyffredin ar gyfer tai mewn ymateb i effaith Covid-19 ar lety brys/dros dro i aelwydydd digartref am gyfnod o hyd at 6 mis yn dilyn argymhelliad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â digartrefedd.**
- **Bod achosion o osod llety yn ystod y cyfnod hwn i Aelwydydd Digartref yn cael eu cymeradwyo gan Reolwr y Tîm Opsiynau Tai.**
- **Bod y Pwyllgor Gwaith yn derbyn diweddariad ymhen blwyddyn ar effaith y newid rhannol dros dro i’r Polisi Gosod Tai Cyffredin.**

## 6. CAU ALLAN Y WASG A’R CYHOEDD

**Penderfynwyd –**

**“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gallai olygu datgelu**



DRAFT

**gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd fel y cyflwynwyd nhw."**

**7. CYNLLUN TAI CYNGOR NEWYDD RHOSYBOL - DATBLYGU TAI YCHWANEGOL**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu 5 uned dai ychwanegol ar safle Marquis, Rhosybol.

Cyflwynodd yr Aelod Portffolio dros Dai a Chymorth Cymunedol yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y Pwyllgor Gwaith, ar 15 Gorffennaf 2019, wedi cymeradwyo adeiladu 10 uned ar y safle sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer 15 uned. Penderfynwyd yn wreiddiol y dylid bwrw ymlaen â 10 uned yn unol â lefel yr angen a nodwyd am dai yn y pentref. Mae'r ffigurau presennol yn dangos bod yr angen am dai wedi cynyddu ac y gellir cynnig rhai eiddo drwy gynllun cydberchnogaeth. Dywedodd yr Aelod Portffolio mai'r argymhellir bellach yw y dylid adeiladu'r 5 uned arall ar y safle a chynigiodd yr argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith.

**Penderfynwyd bwrw ymlaen i adeiladu pum uned ychwanegol ar safle'r Marcwis, Rhosybol.**

**Cynghorydd Llinos Medi**
**Cadeirydd**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28 Medi 2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng Llinos Medi** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**<br>**01248 752108**<br>**JHuwJones@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Hydref 2020 – Mai 2021;**

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor yn ystod argyfwng Covid-19 gan gydnabod y strategaeth ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor hyd at 30 Ebrill 2021 a gymeradwywyd gan arweinyddion grŵp ar 12 Mai 2020, sy'n nodi'r disgwyliadau o ran cynnal cyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini;

Nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

**-**

| **C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
| --- |
| Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
| --- |
| Ydy'. |

| **D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| --- |
| Amherthnasol. |

| **DD – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
| --- | --- | --- |
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein anghenion tymor hir fel Ynys** | Ddim yn berthnasol. |
| **2** | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cyd-gweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda pwy-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'i rhan yn drafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch yr effeithiau mae'r penderfyniad hwn yn ei gael ar yr agenda cydraddoldeb ac iaith Gymraeg** | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)** | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen).<br><br>Fe'i cylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddaru. |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Hydref 2020 – Mai 2021. |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | **Y pwnc a'i gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Hydref 2020** | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |
| 2 | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol (Cynllun Gwella) 2019/20**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Hydref 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | Cyngor Llawn<br><br>27 Hydref 2020 |
| 3 | **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Llythyr Blynyddol 2019/20** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |
| 4 | **Adroddiad Monitro Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | **Y pwnc a'i gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Strategaeth Ataliol Corfforaethol** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |
| 6 | **Ffioedd Casglu Gwastraff Gwyrdd** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Huw Percy Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Cyng R G Parry OBE | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 | |
| 7 | **Codi Tâl Galw Gofal – Tenantiaid Tai Cyngor** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Hydref 2020 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| | **Tachwedd 2020** | | | | | | |
| 8 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 9 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | **Y pwnc a'i gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | **Dogfen Gyflawni Blynyddol 2020/21 (Cynllun Gwella)**<br><br>Cymeradwyaeth ac argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 (dyddiad i'w gadarnhau | Cyngor Llawn<br><br>8 Rhagfyr 2020 (dyddiad i'w gadarnhau) |
| 11 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid, 21 Hydref, 2020;<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17 Tachwedd 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 12 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid, 21 Hydref, 2020;<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 17 Tachwedd 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | **Y pwnc a'i gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2020/21 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 14 | **Sail y Dreth Gyngor 2021/22**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2021/22 | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 15 | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | |
| 16 | **Datganiad Polisi Trwyddedu** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Richard Dew | | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | Cyngor Llawn<br><br>8 Rhagfyr 2020 |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | Y pwnc a'i gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | **Cytundeb Twf 2 – Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Prif Weithredwr | Annwen Morgan<br>Prif Weithredwr<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>22 Hydref 2020 | Pwyllgor Gwaith<br><br>30 Tachwedd 2020 | Cyngor Llawn<br><br>8 Rhagfyr 2020 |
| | | | | **Rhagfyr 2020** | | | |
| 18 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Rhagfyr 2020 | |
| 19 | **Rheoli'r Trysorlys – Adolygiad canol blwyddyn 2020/21** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Rhagfyr 2020 | |
| 20 | **Cwrs Golff Llangefni** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheolaiddio a Datblygu Economaidd dros dro<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Rhagfyr 2020 | |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | Y pwnc a'i gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ionawr 2021** | | | | | | |
| 21 | **Cyllideb 2021/22 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (dyddiadau i'w cadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>Ionawr 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| | | | | | | | |
| 22 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ionawr 2021 | |
| | **Chwefror 2021** | | | | | | |
| 23 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>15 Chwefror 2021 | |
| | **Mawrth 2021** | | | | | | |
| 24 | **Monitro Cyllideb Refeniw 20120/21 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | Y pwnc a'i gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2020/21 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| 26 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| 27 | **Strategaeth Rheoli Trysorlys 2021/22**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | Cyngor Llawn<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) |
| 28 | **Taliadau am Wasanaethau Di-Breswyl 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | |

Tudalen 17

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | **Y pwnc a'i gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 29 | **Ffi Safonol ar gyfer Cartrefi Preswyl y Cyngor Sir yn ystod 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| 30 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2021/22**<br><br>Cymeradwyaeth. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Gwasanaethau Oedolion | Iola Richards<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion dros dro<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| 31 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2021/22** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun W Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | |
| 32 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2021/22 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell il'r Cyngor Sir. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | Cyngor Llawn<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | **Y pwnc a'i gategori a** beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 33 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | Cyngor Llawn<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) |
| 34 | **Cyllideb Gyfalaf 2021/22** | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Wyn Williams | Panel Sgriwtini Cyllid / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) | Cyngor Llawn<br><br>Mawrth 2021 (dyddiad i'w gadarnhau) |
| | | | | | | | |
| 35 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |
| 36 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2020/21 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Pwyllgor Gwaith / Arweinydd y Cyngor | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Dafydd Rhys Thomas | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith<br><br>22 Mawrth 2021 | |

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Hydref 2020 – Mai 2021

Diweddarwyd 16 Medi 2020

| | Y pwnc a'i gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ebrill 2021** | | | | | | |
| 37 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>26 Ebrill 2021 | |
| | **Mai 2021** | | | | | | |
| 38 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Pwyllgor Gwaith | Busnes y Cyngor | Huw Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2021 | |

Tudalen 20

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **28 MEDI 2020** |
| **PWNC:** | **MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 1 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **CLAIRE KLIMASZEWSKI**<br>01248 751865<br>ClaireKlimaszewski@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a Rheswm/rhesymau**

1. Ar 10 Mawrth 2020, gosododd y Cyngor gyllideb net ar gyfer 2020/21 gyda swm net gwariant y gwasanaethau o £142.146m, i gael ei gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o £1.115m ar gyfer eitemau cyffredinol ac eitemau nas cynlluniwyd ar eu cyfer. Cafodd y gyllideb ar gyfer Premiwm y Dreth Gyngor ei gostwng £0.0.51m i £1.393m.

2. Roedd y gyllideb am 2020/21 yn cynnwys yr angen i wneud arbedion gwerth £0.307m. Mae'r rhain wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau unigol y gwasanaethau a chaiff llwyddiant neu fethiant i'w cyflawni eu hadlewyrchu yn y (tan)/gorwariant a ddangosir. Roedd y targed arbedion ar gyfer 2020/21 yn sylweddol is nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd cynnydd o 3.8% yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru. Croesawyd y cynnydd hwn ar ôl gostyngiad mewn cyllid dros nifer o flynyddoedd a arweiniodd at osod targedau arbedion sylweddol o dros £2m bob blwyddyn. Ni fu'n bosib i Lywodraeth Cymru roi unrhyw arwydd o lefel arfaethedig y cyllid tu hwnt i 2020/21 oherwydd i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU gael ei ganslo yn sgil Brexit, yr Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019 ac yna delio gyda'r pandemig Coronafeirws.

3. Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £232m i gwrdd â chostau ychwanegol a gafwyd gan Gynghorau wrth ddelio â'r pandemig, gan gynnwys costau prynu offer diogelu personol (PPE), cefnogi'r Sector Gofal Oedolion, darparu gwasanaethau ychwanegol i'r digartref, helpu gyda chostau symud staff i weithio gartref, ariannu cost taliadau wythnosol i rieni plant a fyddai fel arfer yn derbyn cinio ysgol am ddim a digolledu am incwm a gollwyd gan Gynghorau o ganlyniad i gau gwasanaethau. Ar 17 Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gronfa ychwanegol o £260m i helpu Cynghorau yn ystod chwarter i 3 a 4. Dyrannwyd cyllid y mae'n rhaid ei hawlio i'r 22 Cyngor yng Nghymru ac mae'r symiau a hawliwyd yn chwarter 1 wedi'u hymgorffori yn y rhagamcanion yn yr adroddiad hwn.

4. Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd chwarter 1, sef 30 Mehefin 2020. Ceir hefyd grynodeb o'r sefyllfa ragdybiedig ar gyfer y flwyddyn gyfan. Dylid nodi fod rhagdybio'r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd chwarter 1 yn anodd a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i ni symud drwy weddill y flwyddyn ariannol. Mae hyd yn oed anoddach rhagdybio'r sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn am 2020/21 oherwydd nad yw'n glir eto pryd fydd rhai o wasanaethau'r Cyngor yn gweithredu fel arfer a pha gostau ychwanegol fydd ynghlwm â darparu'r gwasanaethau hynny mewn modd sy'n lleihau'r risg o ledaenu'r feirws e.e. PPE ychwanegol, mwy o lanhau, gostyngiad mewn capasiti gwasanaethau yn effeithio ar lefelau incwm.

**5.** Hyd yma, gwnaed 3 cais i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r argyfwng Cofid 19, am gyfanswm o £1.665m, ar gyfer gwariant ychwanegol yr aethpwyd iddi yn ystod chwarter1. At ddibenion adrodd chwarter 1, cynhwyswyd £725k ar gyfer y ffigyrau a ragwelwyd ar gyfer colli incwm, oherwydd y swm yma cadarnhawyd gan Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd cais am £95k a fydd yn cael ei adlewyrchu yn adroddiadau monitro pellach unwaith bydd y cais yn cael ei gadarnhau. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bydd cyllid pellach yn cael ei ryddhau ar gyfer colli incwm yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol, ond ni ystyriwyd hyn wrth lunio'r rhagolwg. Bydd derbyn y cyllid ychwanegl yma'n gwella sefyllfa derfynol rhai gwasanaethau o'u cymharu â'r rhagolwg yma.

**6.** Nid yw'r ffigyrau yma'n cymryd i ystyriaeth pwysau;r gaeaf. Yn hanesyddol, gellir gweld pwysau;r gaeag yng ngwasanaethau Priffyrdd ac Oedolion a gellid bod yn anodd mesur yn llawn, mor fuan a hyn yn y flwyddyn ariannol, y costau ychwanegol y gellir mynd iddynt. Adroddir yr adroddiadau monitro chwarteri 3 a 4 y rhagolygon a'r costau llawn.

**7.** Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir ar gyfer 2020/21, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a'r Gronfa Dreth Gyngor, yw cyllideb sydd bron iawn yn gytbwys, gyda gorwariant bach o £0.027m. Mae hyn yn cyfateb i 0.02% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2020/21.

**8.** Argymhellir y dylid:-

**(i)** Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B yng nghyswllt perfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2020/21. Mae'r sefyllfa yma'n ddibynnol ar gymorth parhaus Llywodraeth Cymru i gyllido'r golled ariannol ar costau ychwanegol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod gweddill y flwyddyn gyllidol o ganlyniad i Coronafirws:
**(ii)** Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2020/21 fel y manylir arnynt yn Atodiad C;
**(iii)** Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;
**(iv)** Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2020/21 yn Atodiad D;
**(v)** Nodi'r modd y caiff costau staff asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2020/21 yn Atodiadau DD, E ac F.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan yr UDA ac mae'r sylwadau a wnaed wedi eu cynnwys yr yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Swyddog Adran 151** (mandadol) | d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro wedi eu cynnwys fel aelod o'r UDA |
| 4 | **Adnoddau Dynol** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |
| **E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| **7** | **Arall** | |

**F - Atodiadau**

- Atodiad A –Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2020/21
- Atodiad B – Tabl o'r Alldro Dros Dro ar gyfer 2020/21
- Atodiad C – Crynodeb o'r Cyllidebau Wrth Gefn 2020/21
- Atodiad CH – Adolygiad o'r Prosiectau Buddsoddi i Arbed 2020/21
- Atodiad D - Adolygiad o Arbedion Effeithlonrwydd 2020/21
- Atodiad DD – Gwybodaeth ynghylch monitro Staff Asiantaeth 2020/21
- Atodiad E - Gwybodaeth ynghylch monitro Ymgynghorwyr 2020/21
- Atodiad F – Gwybodaeth fanwl mewn perthynas â'r gwariant ar Ymgynghorwyr

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Refeniw 2020/21 (fel y cafodd ei hargymell gan y Pwyllgor hwn ar 2 Mawrth 2020 a'i mabwysiadu gan y Cyngor Sir ar 10 Mawrth 2020).

**ATODIAD A**

## MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW – CHWARTER 1 2020/21

### 1. Balans Cyffredinol

Roedd gan Gronfa'r Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig gwerth £8.760m a chronfeydd wrth gefn yn yr ysgolion a oedd yn werth cyfanswm o £0.197m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Arweiniodd yr alldro drafft ar gyfer 2019/20 at falans cyffredinol a oedd yn £7.060m ar gychwyn y flwyddyn ariannol gyfredol. Roedd hyn yn well na'r balans agoriadol ar gyfer y flwyddyn flaenorol, 2018/19, lle gwelwyd y balans cyffredinol yn gostwng i £5.912m. Cyfrannodd y tanwariant drafft o £308k at hyn a symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn, megis dychwelyd cronfeydd wrth gefn clustnodedig nad oedd eu hangen mwyach. Fodd bynnag, gall hyn newid yn sgil unrhyw addasiadau a wneir ar ôl archwilio'r cyfrifon.

| Cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith | Swm £m | Pwrpas |
|---|---|---|
| Balans agoriadol drafft | -7.060 | Cronfa wrth gefn gyffredinol archwiliedig ddrafft ar 31 Mawrth 2020 |
| | | |
| **Balans Cyffredinol Dywigiedig Cronfa'r Cyngor** | **-7.060** | **Fel y sonnir uchod, gall hyn newid yn dilyn unrhyw addasiadau ar ôl archwilio'r cyfrifon.** |

Yr alldro cyfredol tybiedig a ragamcenir ar gyfer 2020/21 yw tanwariant amcangyfrifiedig o £0.027m. Os yw'r duedd hon yn parhau, mae'n debygol y bydd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn gostwng i £7.033m erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn agos i'r isafswm balans o £7.1m a bennwyd ar gyfer y gronfa wrth gefn gyffredinol ar gyfer 2020/21 ac a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020.

### 2. Perfformiad Ariannol fesul Gwasanaeth

**2.1** Mae manylion y perfformiad ariannol fesul gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcaniedig ar gyfer pob un wedi'i nodi yn Atodiad B. Rhagwelir tanwariant o £0.959m ar wasanaethau ar 31 Mawrth 2020. Amcangyfrifir gorwariant o £0.241m ar Gyllid Corfforaethol. Yn ogystal, rhagwelir gorwariant o £0.745m mewn perthynas â chasglu'r Dreth Gyngor - mae £1.2m ohono i'w briodoli i ddiffyg wrth gasglu'r Dreth Gyngor gyffredinol. Fodd bynnag, mae gwarged o £0.445m ar Bremiwm y Dreth Gyngor yn gwrthbwyso cyfran sylweddol o'r diffyg yn y Dreth Gyngor. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd tanwariant o £0.027m yn y gyllideb refeniw yn 2020/21, sef 0.02% o gyllideb refeniw net y Cyngor.

**2.2** Mae'r tabl isod yn crynhoi'r amrywiadau sylweddol (oddeutu £100k neu uwch). Nodwch os gwelwch yn dda bod y ffigyrau hyn yn ymwneud â'r sefyllfa o ran y cyllidebau y mae modd eu rheoli ym mhob gwasanaeth:-

| Crynodeb o'r amrywiadau rhagamcaniedig ar gyfer 31 Mawrth 2021<br>yn seiliedig ar wybodaeth ariannol fel yr oedd ar 30 Mehefin 2020 | |
|---|---|
| | **(Tan) / Gorwariant £000** |
| Dysgu | (1,139) |
| Oedolion | 195 |
| Gwasanaethau Plant | (1,382) |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 138 |
| Rheoleiddio ac Economaidd | 1,023 |
| Budd-daliadau a roddwyd | 207 |
| Y Dreth Gyngor, gan gynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | 745 |
| Costau ni chyllidebwyd amdanynt a nad oes modd eu rheoli – dyledion drwg, yswiriant a chostau cyfalaf pensiwn | 200 |
| Arall (cyfanswm amrywiadau llai na £100k) | 40 |
| **Cyfanswm yr Amrywiadau gor/(tan) wariant** | **27** |

## 3. Esboniad o Amrywiadau Sylweddol

### 3.1 Dysgu Gydol Oes

#### 3.1.1 Cyllidebau Datganoledig Ysgolion

Ar ôl i'r Cyngor osod cyllidebau ysgolion, mae cyfrifoldeb am y gyllideb yn cael ei ddatganoli i'r ysgolion ac mae unrhyw dan neu orwariant blynyddol yn cael ei ddal yng nghronfeydd wrth gefn yr ysgolion unigol. Gan fod y mwyafrif o ysgolion ar gau yn ystod tymor yr haf, heblaw am un wythnos pan oeddent ar agor, bydd costau ysgolion yn is na'r arfer e.e. cyflenwadau a gwasanaethau, athrawon llanw a ffioedd arholiadau. Bydd unrhyw danwariant sy'n deillio o hynny yn cynyddu balansau ysgolion. Nid yw'r Cyngor yn bwriadu cymryd dim o'r tanwariant yn ôl. Ni fydd y sefyllfa gyffredinol o ran cyllidebau datganoledig ysgolion yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Addysg Ganolog**

**3.1.2** Roedd tanwariant o £449k (23.09%) yn y gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 1. Y rhagamcan ar gyfer diwedd y flwyddyn yw tanwariant o £1,238k (26.07%). Mae nifer o'r cyllidebau'n cael eu harwain gan y galw, felly, oherwydd i ysgolion orfod cau yn sgil y Pandemig Coronafeirws, nid oes unrhyw alw neu mae'r galw wedi gostwng, fel y nodir yn 3.1.3 isod. Gallai'r gwasanaethau a arweinir gan y galw hwn newid pan fydd ysgolion yn gweithredu'n llawn, gan gynyddu costau.

**3.1.3** Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario ar draws y Gwasanaeth. Rhestrir y rhai mwyaf isod:-

- Rhagwelir tanwariant o £504k ar brydau ysgol oherwydd nad oedd galw am brydau ysgol yn ystod 4 mis cyntaf y flwyddyn ariannol pan oedd ysgolion ar gau. Mae'r Cyngor yn sybsideiddio prydau ysgol, felly, mae llai o alw yn arwain at lai o wariant yn erbyn y gyllideb prydau ysgol.
- Roedd llai o alw ar y gyllideb lleoliadau all-sirol yn 2019/20 gan fod un ar ddeg o blant wedi gadael lleoliadau all-sirol ar ôl iddynt droi'n 16+ neu ddychwelyd i leoliadau ar Ynys Môn. Dim ond pedwar lleoliad newydd a gafwyd. Rhagwelir tanwariant o £783k ar leoliadau all-sirol. Wrth i'r cyfnod clo lacio, efallai y bydd cynnydd yn nifer y plant sydd angen lleoliadau all-sirol, gan effeithio ar y tanwariant a ragwelir.

- Mae rhai cyllidebau yn y gwasanaeth dan bwysau ond mae'r tanwariant a ragwelir yn gwneud yn iawn am hynny. Rhagwelir y bydd Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Môn a Gwynedd yn gorwario £194k. Mae tua £50k yr un o bwysau cyllidebol yn y meysydd anghenion dysgu ychwanegol uwchradd, Clwb Gofal ac addysg bellach.

**3.1.2 Diwylliant**

**3.1.2.1** Roedd tanwariant o £2k (0.50%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod ac mae'r alldro a ragwelir ar gyfer y flwyddyn yn orwariant o £99k (7.71%). Mae hyn oherwydd y rhagamcan fod £136k o incwm wedi ei golli yn sgil cau'r Oriel. Mae hyn yn rhagdybio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r gorau i ddigolledu awdurdodau lleol am incwm a gollwyd ar ôl chwarter 1, pan ganiatawyd i'r Oriel agor. Bydd unrhyw gyllid ychwanegol yn lleihau'r gorwariant hwn. Mae llyfrgelloedd yn helpu i leihau gorwariant y gwasanaeth a disgwylir tanwariant o £50k o ganlyniad i swyddi gweigion ac arbedion ar staff llanw tra'r oedd llyfrgelloedd ar gau oherwydd Covid-19. Disgwylir ychydig o orwariant ar grantiau bach ac archifau.

## 3.2 Gofal Cymdeithasol Oedolion

**3.2.1** Roedd gorwariant o £716k (11.07%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £195k (0.72%) ar ddiwedd y flwyddyn. Nid yw'r ffigwr hwn yn cynnwys y grant pwysau'r gaeaf posib gan nad yw'r Cyngor wedi derbyn cynnig o grant tuag at y pwysau hwn hyd yma. Os bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig arian grant, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu mewn adroddiad monitro'r gyllideb yn y dyfodol. Y gorwariant sylfaenol ar gyfer y gwasanaeth yw £446k ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag, pan ychwanegir cyllideb wrth gefn o £251k ar gyfer galw ychwanegol am ofal cymdeithasol Oedolion, mae'r gorwariant yn gostwng i £195k. Dengys hyn fod y galw am wasanaethau cymdeithasol oedolion yn parhau i fod yn uchel. Rhoddwyd cyllideb ychwanegol o £1.028m i'r gwasanaeth fel rhan o broses gosod cyllideb 2020/21 gan fod cyllidebau'r Gwasanaethau Oedolion dan bwysau yn 2019/20. Cafodd cyllideb wrth gefn o £251k ei chynnwys hefyd wrth osod y gyllideb ar gyfer Galw yn y Gwasanaethau Oedolion, ac mae hynny wedi cael ei gymryd i ystyriaeth wrth lunio'r rhagamcan uchod.

**3.2.2** Roedd yr elfennau o ran yr amrywiad yn yr alldro a ragamcanwyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed: Gorwariant rhagamcanedig o £102k - mae yna orwariant sylfaenol o £353k, fodd bynnag, mae'r ffigwr yn gostwng i £102k drwy ddefnyddio'r gyllideb wrth gefn o £251k ar gyfer Galw yn y Gwasanaethau Oedolion. Mae nifer o feysydd yn gor a thanwario yn y Gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r gorwariant mwyaf a ragwelir i'w briodoli i ofal preswyl (£280k) a gofal nyrsio ar gyfer pobl hŷn (£250k).
- Anableddau Corfforol (AC): Rhagamcenir gorwariant o £84k - mae'r tanwariant mwyaf yn ymwneud â chymorth yn y cartref (£35k) ac offer ac addasiadau (£37k). Gwnaed llai o waith gosod cymhorthion ac addasu oherwydd y pandemig Covid-19.
- Anableddau Dysgu (AD): Rhagamcenir gorwariant o £291k – rhagwelir gorwariant o £182k ar ofal preswyl oherwydd galw ychwanegol a chost uchel lleoliadau ar gyfer unigolion sydd ag anghenion dwys. Mae gofal dydd dan bwysau hefyd, a disgwylir gorwariant o £66k ar gyfer y flwyddyn. Rhagwelir gorwariant o £301k mewn llety â chymorth a llety arall. Disgwyliwyd arbedion o £300k yn y maes hwn o ganlyniad i ymarfer tendro, fodd bynnag, ni chafodd hyn ei weithredu oherwydd Covid-19. Gohiriwyd y broses dendro. Rhagwelir tanwariant sylweddol o £221k ar gyfer gofal cartref wrth i fwy o unigolion ddewis taliadau uniongyrchol a threfnu eu gofal cartref eu hunain.
- Iechyd Meddwl (IM): Rhagwelir gorwariant o £53k – rhagwelir gorwariant o £165k ar ofal preswyl oherwydd y galw uchel am leoliadau preswyl iechyd meddwl. Rhagwelir tanwariant o £107k ar gefnogaeth gymunedol oherwydd swyddi gweigion.

- ➢ Uned Ddarparu a Rheoli a Chefnogaeth: Rhagwelir tanwariant o £167k. Mae hyn oherwydd swyddi gweigion a phrosiect trawsnewid rhanbarthol a fyddai wedi costio £68k nad yw'n symud ymlaen oherwydd Covid-19.

**3.2.3** Mae'r ffigyrau ar gyfer chwarter 1 yn dangos pwysau sylweddol o ran y galw am wasanaethau yn ystod y chwarter. Er mwyn ymchwilio'n llawn i'r materion hyn, bydd yr adran yn ystyried pob llinell benodol sydd wedi arwain at y gorwariant sylweddol a ragamcenir. Yn achos pob un, rhoddir ystyriaeth i'r canlynol:-

- Natur y tueddiadau cylchol (tueddiadau blwyddyn ar ôl blwyddyn a mis ar ôl mis);
- Y rhesymau y tu ôl i'r tueddiadau;
- Camau pellach y gellir eu cymryd i reoli galw.

Adroddir ar unrhyw adborth i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Cyllid.

## 3.3 Gwasanaethau Plant

**3.3.1** Roedd tanwariant o £292k (9.84%) yn ystod y cyfnod, a rhagwelir tanwariant o £1,382k (12.62%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o adeiniau o fewn y Gwasanaethau Plant yn tanwario a rhagwelir y bydd tanwariant o £1,336k ar blant sy'n derbyn gofal. Disgwylir gorwariant o £194k ar blant ag anableddau.

**3.3.2** Rhagwelir y bydd plant sy'n derbyn gofal yn tanwario oherwydd tanwariant disgwyliedig o £1,500k ar leoliadau all-sirol. Mae hyn yn gysylltiedig â thanwariant sylweddol yn y Gwasanaeth Dysgu gan fod y Gwasanaeth Dysgu a Gwasanaethau Plant yn cyllido lleoliadau all-sirol. Gadawodd nifer o bobl ifanc leoliadau all-sirol yn 2019/20 oherwydd eu hoedran neu iddynt gael eu lleoli ar yr Ynys. Bu cynnydd yn y lleoliadau gyda gofalwyr maeth o ganlyniad i'r buddion Gofalwyr Maeth a gyflwynwyd y llynedd. Rhagwelir y bydd gorwariant o £113k ar leoliadau gofal maeth a rhagwelir gorwariant o £117k ar leoliadau nad ydynt yn rhai safonol. Mae'r tanwariant ar leoliadau all-sirol yn fwy na digon i wneud yn iawn am y gorwariant hyn. Mae'n bryder y gallai rhywfaint o'r tanwariant ymwneud â llai o gyfleoedd i adnabod plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed sylweddol oherwydd y cyfnod clo. Mae gwasanaethau plant ag anableddau'n gorwario oherwydd cost uchel lleoliadau arbenigol a fydd yn y pendraw yn cael eu symud i Gartref Grŵp Bach Arbenigol y Cyngor pan fydd yn weithredol.

**3.3.3** Oherwydd y pandemig, mae nifer yr atgyfeiriadau i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi gostwng a gwelwyd ychydig o ostyngiad yn nifer y plant sy'n dod i ofal yr Awdurdod Lleol. Rhagwelir y bydd atgyfeiriadau'n cynyddu ac, yn wir, mae'n bosib y bydd rhaid i ni ddod â rhai plant i mewn i ofal gan y byddant wedi dioddef niwed sylweddol. Felly, rhaid i ni ystyried gofynion ariannol y pwysau hwn yn ystod y misoedd nesaf.

## 3.4 Tai (Cronfa'r Cyngor)

**3.4.1** Roedd tanwariant o £6k (1.33%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod a rhagamcenir y bydd y gyllideb yn gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn. Mae costau Digartrefedd (gwely a brecwast) yn parhau i greu pwysau ar y gyllideb gyda gorwariant o £12k hyd yma. Rhagwelir y bydd tanwariant ar gyllidebau eraill mewn mannau eraill yn y Gwasanaeth yn cyd-fynd â'r gorwariant ar y gyllideb Digartrefedd.

## 3.5 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd

### 3.5.1 Economaidd a'r Gymuned (yn cynnwys Cyrchfan a Hamdden)

**3.5.1.1** Yn gyffredinol, roedd tanwariant o £194k (32.67%) yn y gwasanaeth am y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig yw gorwariant o £920k (4.88%).

**3.5.1.2** Rhagamcenir y bydd elfen Datblygu Economaidd y gwasanaeth yn gorwario o £23k erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn oherwydd diffyg a ragwelir mewn targedau incwm o ganlyniad i'r cyfnod clo a'r pandemig Covid-19.

**3.5.1.3** Rhagamcenir y bydd tanwariant o £20k yn yr adain Cyrchfan. Er bod yr incwm wedi gostwng oherwydd y cyfnod clo, bydd arbedion oherwydd fod y swydd Rheolwr Cyrchfan yn wag ac arbedion ar staff tymhorol yn gwneud yn iawn am hyn, a dyma pam y rhagwelir tanwariant.

**3.5.1.4** Mae'r adain Hamdden wedi cael ei tharo'n galed oherwydd i'r holl ganolfannau hamdden gael eu cau yn ystod y cyfnod clo. Mae Llywodraeth Cymru'n digolledu'r gwasanaeth am yr incwm a gollwyd hyd at ddiwedd chwarter 1. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £917k yn y gwasanaeth ond mae hyn yn rhagdybio na fydd Llywodraeth Cymru'n darparu unrhyw gymorth ychwanegol am incwm a gollwyd yn y dyfodol oherwydd bod y Canolfannau Hamdden ar gau tan ganol mis Awst ac yna'n gweithredu gyda llai o gapasiti. Fodd bynnag, gallai'r sefyllfa hon newid yn sgil cyhoeddiad ar 17 Awst 2020 y byddai £260m o gyllid ychwanegol ar gael ar draws Cymru a gallai olygu fod y Cyngor yn derbyn cyllid ychwanegol. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu hymgorffori yn adroddiad monitro cyllideb chwarter 2.

### 3.5.2 Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

**3.5.2.1** Roedd gorwariant o £16k (3.88%) yn y gwasanaeth hwn yn ystod y cyfnod. Yr alldro rhagamcanedig ar gyfer y flwyddyn yw gorwariant o £103k (4.83%).

**3.5.2.2** Roedd tanwariant o £24k yn yr adain Gwarchod y Cyhoedd ar gyfer y cyfnod ond yr alldro rhagamcanedig yw gorwariant o £33k. Rhagwelir y bydd rheoli cŵn/pla, Iechyd yr Amgylchedd a Chofrestryddion yn gorwario tua £20k yr un. Maent oll wedi cael eu heffeithio gan ddiffyg mewn incwm oherwydd y pandemig. Rhagwelir tanwariant yn yr adain Safonau Masnach ac Iechyd a Diogelwch Corfforaethol oherwydd swyddi gweigion.

**3.5.2.3** Roedd gorwariant o £40k yn yr adain Gynllunio ar gyfer y cyfnod a rhagamcenir gorwariant o £70k erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagamcenir y bydd gorwariant o £50k ar reoli cynllunio oherwydd diffyg yn y cyllidebau incwm o ganlyniad i hanner cyntaf y cyfnod clo. Rhagamcenir gorwariant o £20k ar reoli adeiladu, unwaith eto oherwydd diffyg yn y targedau incwm. Nid oedd y gyfran gyntaf o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru'n cynnwys yr agweddau hyn gan y gallai lefelau incwm gael eu hadfer yn ystod gweddill y flwyddyn wrth i'r cyfyngiadau symud lacio ac i geisiadau cynllunio a rheoli adeiladu a ohiriwyd gael eu cyflwyno yn ystod ail hanner y flwyddyn.

## 3.6 Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

### 3.6.1 Priffyrdd

**3.6.1.1** Roedd gorwariant o £145k (11.51%) yn y gwasanaeth hwn ar gyfer y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd tanwariant o £43k (0.68%) yn y gwasanaeth erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.6.1.2** Mae tan neu orwariannau bach mewn nifer o feysydd yn gwneud yn iawn am hyn. Y gorwariant mwyaf sylweddol yw £70k ar Fflyd oherwydd diffyg mewn incwm gan wasanaethau eraill yn sgil cyfyngiadau Covid. Gwneir yn iawn am hyn drwy danwariant o £70k ar gefnogaeth adrannol o ganlyniad i swydd wag ac arbedion mewn costau cludiant a chostau cyflenwadau a gwasanaethau. Nid yw'r rhagolwg hwn yn cynnwys costau cynnal a chadw'r gaeaf gan ei bod yn rhy gynnar yn y flwyddyn i ragfynegi'r alldro ar y costau hyn. Byddai unrhyw gostau sylweddol yn ystod misoedd y gaeaf yn gwaethygu'r alldro a ragamcenir yn ystod y chwarter hwn. Fodd bynnag, mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn glustnodedig o £54k sydd ar gael i helpu gyllido unrhyw gostau sylweddol a all godi yn ystod cyfnod y gaeaf.

**3.6.2 Gwastraff**

**3.6.2.1** Roedd gorwariant o £32k (2.07%) yn y gwasanaeth Gwastraff ar gyfer y cyfnod a'r alldro rhagamcanedig yw gorwariant o £10k (0.12%).

**3.6.2.2** Mae'r rhagolwg ar gyfer diwedd y flwyddyn yn cynnwys gorwariannau a thanwariannau i wneud yn iawn am hynny mewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth. Mae un o'r amrywiadau mwyaf nodedig yn cynnwys tanwariant o £40k ar ailgylchu oherwydd swydd wag, mwy o incwm na'r disgwyl o ddeunyddiau ailgylchu a llai o wariant ar gyflenwadau a gwasanaethau. Mae Casglu Gwastraff yn rhoi pwysau ar y gyllideb a rhagamcenir gorwariant o £50k ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd costau gweddilliol cyn dyfarnu'r contract casglu gwastraff newydd. Cafwyd costau cyfreithiol a thechnegol hefyd yn gysylltiedig â'r ymarfer tendro. Yn ogystal, rhagamcenir gorwariant o £35k ar doiledau cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn.

**3.6.3 Eiddo**

**3.6.3.1** Sefyllfa'r gwasanaeth ar gyfer y cyfnod yw tanwariant o £22k (3.63%), ond rhagwelir gorwariant o £171k (19.19%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.6.3.2** Y prif reswm am y gorwariant rhagamcaniedig yn y gwasanaeth Eiddo yw tangyflawni ffioedd proffesiynol wedi'u cyfalafu gan £114k oherwydd oedi yn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sydd i'w briodoli'n rhannol i'r cyfnod clo. Mae oedi mewn prosiectau cyfalaf o fewn y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi lleihau'r gwaith sy'n ennill ffi o fewn Eiddo yn y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith hwn gynyddu mewn blynyddoedd ariannol yn y dyfodol pan fydd prosiectau Band B y rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu datblygu. Yn ogystal, disgwylir diffyg o £50k ar renti Unedau Diwydiannol oherwydd i'r Cyngor ganiatáu 'un mis di-rent' i holl denantiaid unedau diwydiannol y Cyngor ac eiddo amrywiol i gefnogi busnesau lleol yn ystod y cyfnod clo. Nid yw Llywodraeth Cymru'n digolledu'r Cyngor am yr incwm hwn gan mai penderfyniad lleol ydoedd ac nid oedd yr incwm a gollwyd yn deillio'n uniongyrchol o'r cyfnod clo.

## 3.7 Trawsnewid

**3.7.1** Roedd gorwariant o £363k (22.66%) yn y swyddogaeth Trawsnewid am y cyfnod. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd tanwariant o £57k (1.14%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.7.1.1** Roedd gorwariant o £464k (43.75%) yn yr adain TGCh am y cyfnod a disgwylir gorwariant o £115k (4.12%) erbyn diwedd y flwyddyn. Yn hanesyddol nid yw cyllidebau meddalwedd wedi bod yn ddigonol, yn arbennig gan fod y Cyngor wedi gwella ei swyddogaethau a'i alluedd TGCh i ganiatáu i staff weithio gartref. Yn 2019/20 roedd £213k o orwariant yn yr adain TGCh. Darparwyd cyllideb ychwanegol i liniaru pwysau ar y gyllideb ond, mae'n debygol y bydd yn parhau i orwario. Mae cynyddu trwyddedau Citrix a VASCO i ganiatáu gweithio gartref ar raddfa eang yn ystod y cyfnod clo a thu hwnt wedi cynyddu'r pwysau ar y gyllideb ymhellach, er bod Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r Cyngor drwy ddarparu 50% tuag at y costau ychwanegol TGCh.

**3.7.1.2** Roedd tanwariant o £106k (28.18%) yn y swyddogaeth AD ar gyfer y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £76k (5.65%) erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir i swyddi gweigion greu tanwariant o £27k. Rhagamcenir hefyd y bydd tanwariant o £45k ar hyfforddiant canolog. Mae hyn oherwydd i'r feirws Covid-19 atal hyfforddiant arferol rhag digwydd.

**3.7.1.3** Roedd gorwariant o £5k (2.82%) yn yr adain Trawsnewid Corfforaethol ar gyfer y cyfnod, ond disgwylir tanwariant o £96k (11.25%) erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir i bob maes danwario gyda'r tanwariant mwyaf sylweddol o £58k ar Bartneriaeth Ynys Môn a Gwynedd.

**3.8 Adnoddau (ac eithrio Budd-daliadau a Roddwyd)**

**3.8.1** Roedd tanwariant o £48k (5.64%) yn y swyddogaeth Adnoddau ar gyfer y cyfnod gydag alldro rhagamcanedig o orwariant o £19k (0.61%).

**3.8.2** Disgwylir gorwariant o £94k yn Refeniw a Budd-daliadau yn ystod y flwyddyn, yn bennaf oherwydd gostyngiad o £106k mewn incwm costau llys. Mae'r adain Gyfrifeg yn edrych ar orwariant o £56k, yn bennaf oherwydd costau banc o £40k. Disgwylir tanwariant o £18k yn yr adain Archwilio Mewnol o ganlyniad i swyddi gweigion. Disgwylir tanwariant o £113k yn yr adain Gaffael oherwydd eu mentrau caffael, h.y. cyllidebau prynu wedi eu canoli ac ad-daliadau ar gardiau caffael.

**3.9 Busnes y Cyngor**

**3.9.1** Roedd tanwariant o £47k (10.57%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod, ond rhagwelir y bydd gorwariant o £24k (1.44%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.9.2** Disgwylir gorwariant o £41k yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn bennaf oherwydd diffyg yn yr incwm ffioedd cyfreithiol a phridiannau tir, o bosib oherwydd cyfnod clo'r pandemig. Disgwylir gorwariant o £12k ar staff asiantaeth Cyfreithiol i lenwi mewn ar gyfer swyddi gweigion/absenoldeb staff. Rhagwelir y bydd tanwariant o £17k yn y Gwasanaethau Democrataidd. Rhagwelir tanwariant ym mhob un o'i swyddogaethau, gyda'r tanwariant mwyaf yn y gwasanaethau Etholiadau (£9k).

**3.10 Costau Corfforaethol a Democrataidd**

**3.10.1** Roedd gorwariant o £23k (2.97%) yn y gyllideb Gorfforaethol a Democrataidd ar gyfer y cyfnod a rhagwelir y bydd gorwariant o £57k (2.05%) erbyn diwedd y flwyddyn.

**3.10.2** Mae yna adeiniau yn yr adran sy'n rhagweld gorwariant ar ddiwedd y flwyddyn, tra bod tanwariannau sy'n gwneud i fyny am hynny mewn adeiniau eraill. Mae'r prif feysydd sy'n peri pryder yn y maes Corfforaethol arall, a disgwylir gorwariant o £95k yn y maes hwn; o fewn hyn, disgwylir gorwariant o £25k ar gwnsela staff. Disgwylir tanwariant o £31k ar yr ardoll brentisiaethau a rhagwelir tanwariant o £16k ar gostau cefnogi Aelodau a threuliau.

### 3.11 Rheolaeth Gorfforaethol

**3.11.1** Roedd tanwariant o £11k (6.98%) yn y swyddogaeth ar gyfer y cyfnod a rhagwelir tanwariant o £37k (5.91%) erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hyn yn ymwneud â'r gyllideb weddilliol o £58k yn dilyn ailstrwythuro'r tîm rheoli yn 2019/20. Mae hyn yn gostwng i £37k oherwydd gwariant ar gludiant a chyflenwadau cyffredinol nad oedd cyllideb ar eu cyfer.

## 4. Cyllid Corfforaethol (yn cynnwys Budd-daliadau a Roddwyd)

**4.1** Disgwylir i Gyllid Corfforaethol, gan gynnwys Budd-daliadau a Roddwyd, orwario £241k (1.41%) ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagwelir gorwariant o £207k ar fudd-daliadau a roddwyd o ganlyniad i gynnydd yn y nifer sy'n hawlio dan y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor oherwydd cynnydd yn y nifer sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol yn sgil effeithiau economaidd yr argyfwng Covid-19. Rhagwelir gorwariant o £34k ar log a dderbynnir oherwydd i'r gyfradd llog sylfaenol ostwng i 0.01% o ganlyniad i effaith economaidd Covid-19.

**4.2** Roedd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yn cynnwys rhai eitemau a gadwyd yn ganolog fel cyllidebau wrth gefn, sy'n dod i gyfanswm o £1,115k. Mae'r gyllideb wrth gefn gyffredinol yn £371.5k ar gyfer pwysau cyllidebol ad-hoc annisgwyl a gyfyd yn ystod y flwyddyn. Mae cyllideb wrth gefn cyflogau a graddio o £150k wedi'i gynnwys ar gyfer costau cyflogau a graddio nad oes cyllideb ar eu cyfer, megis taliadau diswyddo. Roedd cyllidebau wrth gefn gwerth £593k wedi'u cynnwys yn y gyllideb y gellir ond eu defnyddio ar gyfer y costau a gymeradwywyd. Cynhwyswyd £250k ar gyfer galw ychwanegol yn y Gwasanaethau Oedolion ac mae hwn wedi cael ei ddefnyddio'n barod i gyllido galw ychwanegol am wasanaethau i'r Henoed. Cynhwyswyd cyllideb wrth gefn risg o £235k yn y gyllideb hefyd i gyfrannu at gostau unrhyw ddyfarniad cyflog ar gyfer 2020/21 sydd yn uwch na'r 2% y cyllidebwyd ar ei gyfer wrth osod y gyllideb. Erbyn hyn, cytunwyd ar ddyfarniad cyflog o 2.75%. Bydd hyn yn golygu cost ychwanegol o £340k i'r Cyngor, felly, bydd y gyllideb wrth gefn risg yn cael ei defnyddio tuag at y dyfarniad cyflog. Bydd y balans o £105k yn cael ei gyllido o'r gyllideb wrth gefn cyflogau a graddio. Mae yna gronfeydd wrth gefn llai hefyd ar gyfer y Bid Twf Rhanbarthol, STEM a gweithwyr ar eu pen eu hunain. Rhagdybir ar hyn o bryd y bydd yr holl gyllidebau wrth gefn wedi cael eu defnyddio erbyn diwedd y flwyddyn.

## 5. Casglu'r Dreth Gyngor

**5.1** Penderfynir ar gyllideb Cronfa'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio'r rhagamcan o'r ddyled gasgladwy ar gyfer y flwyddyn gyfredol yn unig, a hynny'n seiliedig ar y ffigwr a osodwyd ar gyfer sylfaen y dreth ym mis Tachwedd 2019. Nid yw'n darparu ar gyfer ôl-ddyledion a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol, addasiadau i rwymedigaethau sy'n deillio o flynyddoedd blaenorol (eithriadau, disgowntiau pobl sengl ac ati), newidiadau i sylfaen y dreth ar gyfer y flwyddyn gyfredol neu'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus. Ni ellir amcangyfrif y newidiadau hyn ac, yn anorfod, maent yn arwain at wahaniaeth rhwng balans terfynol y Gronfa Casglu'r Dreth Gyngor a'r gyllideb wreiddiol. Ar hyn o bryd, rhagamcenir y bydd Cronfa'r Dreth Gyngor £1,200k yn brin o'r targed, sydd yn swm sylweddol, oherwydd erydiad parhaus i sail y dreth yn sgil nifer sylweddol o eiddo hunanarlwyo yn trosglwyddo i gyfraddau busnes. Mae Covid-19 yn cael effaith hefyd ar gasglu'r Dreth Gyngor a chynyddwyd y ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg i adlewyrchu'r effaith hwn. Mae posibilrwydd y bydd cyllideb Premiwm y Dreth Gyngor, sef taliad Dreth Gyngor ychwanegol a godir ar ail gartrefi ar Ynys Môn (ers 1 Ebrill 2017), £455k yn uwch na'r gyllideb. Mae hyn yn gwella'r diffyg ar y Dreth Gyngor. At ei gilydd, felly, rhagwelir diffyg o £745k ar gasglu'r Dreth Gyngor.

## 6. Buddsoddi i Arbed

**6.1** Ymgymerwyd â rhaglen buddsoddi i arbed yn 2016/17, gyda dyraniad o £983k ar gyfer prosiectau unigol. Hyd yma, mae £699k wedi cael ei wario neu ei ymrwymo o'r cyllid hwn hyd at ac yn cynnwys 2020/21. Mae'r holl brosiectau wedi eu datblygu i raddfeydd amrywiol, gyda rhai yn nes i'w cwblhau nac eraill. Gellir gweld manylion llawn y gwariant a'r cynnydd ar bob un o'r prosiectau yn Atodiad CH. Lle na fydd prosiectau wedi eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn, byddent yn parhau i 2021/22 a bydd y gyllideb yn parhau i fod ar gael yn 2021/22 a bydd y gyllideb yn parhau i fod ar gael o fewn y gronfa wrth gefn buddsoddi i arbed.

## 7. Arbedion Cyllidebol 2020/21

**7.1** Tynnwyd arbedion cyllidebol o £307k o gyllidebau'r gwasanaethau ar gyfer 2020/21. Mae £224k o'r arbedion hyn yn debygol o gael eu cyflawni, fodd bynnag, ni ddisgwylir i £63k o arbedion gael eu cyflawni. Bydd y diffyg mwyaf sylweddol yn y gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, lle y bydd yn anodd cyflawni £57k o arbedion oherwydd gostyngiad mewn incwm meysydd parcio yn sgil y cyfnod clo Covid-19. Ceir dadansoddiad manwl ar gyfer pob Gwasanaeth yn Atodiad D.

## 8. Costau Asiantaeth ac Ymgynghorwyr

**8.1** Yn ystod y flwyddyn hyd yma, mae £104k wedi cael ei wario ar staff Asiantaeth. Ar y cyfan, roedd y rhain yn cael eu cyllido'n rhannol o gyllidebau staffio oherwydd eu bod yn gysylltiedig â swyddi gweigion. Mae'r manylion llawn i'w gweld yn Atodiad DD.

**8.2** Gwariwyd £47k ar wasanaethau ymgynghori yn chwarter 1 ac roedd hyn yn sylweddol is na'r arfer oherwydd Covid-19 (£159k yn chwarter 1 2019/20). Mae manylion llawn y gwariant fesul gwasanaeth a gwybodaeth ychwanegol am y gwariant i'w gweld yn Atodiad E.

## 9. Casgliad

**9.1** Yr amcanestyniad cychwynnol ar ddiwedd y chwarter cyntaf yw y bydd yr alldro yn agos iawn i fod yn gyllideb gytbwys, gyda gorwariant o £27k ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2021. Disgwylir i gyllidebau gwasanaeth danwario o £959k oherwydd gostyngiad mewn galw am Wasanaethau Plant a'r effaith gaiff cau ysgolion yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2020 ar gyllidebau addysg ganolog. Rhagwelir y bydd cyllid Corfforaethol yn gorwario £241k oherwydd cynnydd mewn budd-daliadau a roddwyd a diffyg yn y llog a dderbynnir oherwydd effaith economaidd Covid-19. Disgwylir y bydd y Dreth Gyngor safonol £1,200k yn is na'r disgwyl. Rhagwelir gwarged o £455k ar Bremiwm y Dreth Gyngor. Y diffyg net ar y Dreth Gyngor yn gyffredinol yw £745k.

**ATODIAD B**

## Alldro Refeniw Rhagamcaniedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol yn diweddu 31 Mawrth 2021 – Chwarter 1

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2020/21 Cyllideb Flynyddol | Ch1 2020/21 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch1 2020/21 Gwariant gwirioneddol a Gwariant wedi ei ymrwymo | Ch1 2020/21 Amrywiant | Ch1 2020/21 Gwariant Gwirioneddol a Gwariant wedi ei ymrwymo | Ch1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2021 | Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 gor/(tan)wariant | Ch1 gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/(Tan)wariant Drafft y Flwyddyn Diwethaf 2019/20 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | |
| Cyllideb Ddatganoledig Ysgolion | 47,579 | 11,402 | 11,402 | 0 | 0.00% | 47,579 | 0 | 0.00% | 0 |
| Addysg Ganolog | 4,748 | 1,946 | 1,497 | (449) | -23.09% | 3,510 | (1,238) | -26.07% | (272) |
| Diwylliant | 1,285 | 500 | 497 | (2) | -0.50% | 1,384 | 99 | 7.71% | 29 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | 26,911 | 6,468 | 7,184 | 716 | 11.07% | 27,106 | 195 | 0.72% | 1,085 |
| | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Plant** | 10,951 | 2,964 | 2,672 | (292) | -9.84% | 9,569 | (1,382) | -12.62% | 156 |
| | | | | | | | | | |
| **Tai** | 1,168 | 448 | 442 | (6) | -1.33% | 1,168 | 0 | 0.00% | (77) |
| | | | | | | | | | |
| **Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** | | | | | | | | | |
| Priffyrdd | 6,287 | 1,256 | 1,401 | 145 | 11.51% | 6,244 | (43) | -0.68% | (192) |
| Eiddo | 891 | (613) | (635) | (22) | 3.63% | 1,062 | 171 | 19.19% | 44 |
| Gwastraff | 8,030 | 1,563 | 1,595 | 32 | 2.07% | 8,040 | 10 | 0.12% | (208) |
| | | | | | | | | | |
| **Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | | | | | | | | | |
| Datblygu Economaidd | 1,882 | 593 | 399 | (194) | -32.67% | 2,802 | 920 | 48.88% | 0 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 2,131 | 413 | 429 | 16 | 3.88% | 2,234 | 103 | 4.83% | (117) |
| | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | |
| Adnoddau Dynol | 1,346 | 375 | 269 | (106) | -28.18% | 1,270 | (76) | -5.65% | (35) |
| TGCh | 2,794 | 1,062 | 1,526 | 464 | 43.75% | 2,909 | 115 | 4.12% | (85) |
| Trawsnewid Corfforaethol | 853 | 167 | 172 | 5 | 2.82% | 757 | (96) | -11.25% | (192) |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2020/21 Cyllideb Flynyddol | Ch1 2020/21 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch1 2020/21 Gwariant gwirioneddol a Gwariant wedi ei ymrwymo | Ch1 2020/21 Amrywiant | Ch1 2020/21 Gwariant Gwirioneddol a Gwariant wedi ei ymrwymo | Ch1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2021 | Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 gor/(tan)wariant | Ch1 gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/(Tan)wariant Drafft y Flwyddyn Diwethaf 2019/20 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | % | £'000 |
| **Adnoddau** | 3,109 | 843 | 795 | (48) | -5.64% | 3,128 | 19 | 0.61% | (170) |
| **Busnes y Cyngor** | 1,669 | 448 | 401 | (47) | -10.57% | 1,693 | 24 | 1.44% | (2) |
| **Costau Corfforaethol a Democrataidd** | 2,785 | 781 | 804 | 23 | 2.97% | 2,842 | 57 | 2.05% | (99) |
| **Rheolaeth Gorfforaethol** | 626 | 155 | 145 | (11) | -6.98% | 589 | (37) | -5.91% | (70) |
| Costau nad oes cyllideb ar eu cyfer ac na ellir eu rheoli: yswiriant, costau pensiwn a dileu dyledion drwg/lwfansau amhariad ar incwm gwasanaethau | | | | | | 200 | 200 | 0.00% | 241 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | 125,046 | 30,771 | 31,030 | 224 | 0.73% | 124,087 | (959) | -0.77% | 36 |
| Ardollau | 3,599 | 3,599 | 900 | (2,698) | -74.99% | 3,599 | 0 | 0.00% | 0 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 95 | 0 | 0 | 0 | 0.00% | 95 | 0 | 0.00% | 11 |
| Cyllido Cyfalaf | 6,939 | 1,049 | 1,054 | 5 | 0.00% | 6,973 | 34 | 0.50% | (277) |
| Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill | 1,065 | 1,065 | 2 | (1,062) | -99.78% | 1,065 | 0 | 0.00% | (447) |
| Gwasanaethau Cefnogol – Cyfraniad CRT | (700) | 0 | 0 | 0 | 0.00% | (700) | 0 | 0.00% | (86) |
| Budd-daliadau a Roddwyd | 6,103 | (754) | (754) | 0 | 0.00% | 6,310 | 207 | 3.39% | 248 |
| **Cyfanswm Cyllid Corfforaethol** | 17,100 | 4,958 | 1,202 | (3,756) | -75.76% | 17,342 | 241 | 1.41% | (551) |
| **Cyfanswm 2020/21** | **142,146** | **35,729** | **32,232** | **(3,532)** | **-9.89%** | **141,429** | **(718)** | **-0.50%** | **(515)** |

| Gwasanaeth/Swyddogaeth | 2020/21 Cyllideb Flynyddol | Ch1 2020/21 Blwyddyn Gyllidol hyd yma | Ch1 2020/21 Gwariant gwirioneddol a Gwariant wedi ei ymrwymo | Ch1 2020/21 Amrywiant | Ch1 2020/21 Gwariant Gwirioneddol a Gwariant wedi ei ymrwymo | Ch1 Amcangyfrif Gwariant i 31 Mawrth 2021 | Ch1 Amcangyfrif o Alldro 31 Mawrth 2021 gor/(tan)wariant | Ch1 gor/(tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan | Gor/(Tan)wariant Drafft y Flwyddyn Diwethaf 2019/20 (Amodol ar Archwiliad) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** | **£'000** | **%** | **£'000** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyllido** | | | | | | | | | |
| Trethi Annomestig | (24,313) | | | | | (24,313) | 0 | 0.00% | 0 |
| Y Dreth Gyngor | (39,749) | | | | | (38,549) | 1,200 | -3.02% | 207 |
| Premiwm y Dreth Gyngor | (1,393) | | | | | (1,848) | (455) | 32.67% | |
| Grant Cynnal Refeniw | (76,692) | | | | | (76,692) | 0 | 0.00% | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid 2020/21** | **(142,146)** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(141,401)** | **745** | **0.00%** | **207** |
| | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm yr alldro yn cynnwys effaith y cyllido** | **0** | **35,729** | **32,232** | **(3,532)** | **-9.89%** | **27** | **27** | **0.02%** | **(308)** |

**ATODIAD C**

**<u>Crynodeb o’r Sefyllfa Alldro ar Gyllidebau Wrth Gefn 2020/21</u>**

| | Cyllideb Wreiddiol<br>£ | Trosglwyddiadau<br>£ | Cyllideb Ddiwygiedig hyd yma<br>£ | Ymrwymiedig hyd yma<br>£ | Cyllidebau sydd heb ei hymrwymo ar hyn o bryd<br>£ | Rhagolwg Cyllideb<br>£ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol | 371,550 | (49,600) | 321,950 | 2,340 | 319,610 | - |
| Cyflogau a Graddio | 150,000 | -<br>(540) | 149,460 | - | 149,460 | - |
| Cronfa Wrth Gefn Glusnodedig | 593,350 | - | 593,350 | - | 593,350 | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill** | **1,114,900** | **(50,140)** | **1,064,760.00** | **2,340.00** | **1,062,420.00** | **0.00** |

## Adolygiad o Brosiectau Buddsoddi i Arbed 2020/21

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig) £ | Balans ar 1 Ebrill 2020 £ | Dyraniad 2020/21 £ | Gwariant hyd yma 2020/21 £ | Cyllideb sy'n weddill 2020/21 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau | System Rheoli Dogfennau Electronig (EDMS) ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | Datrysiad sganio a llif gwaith ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau | 170,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach. |
| TG | Mynegai Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) | Gweithredu system LLPG ar draws y Cyngor | 10,800 | 0 | 0 | 0 | 0 | Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach. |
| TG / Trawsnewid | System Rheoli Cysylltiadau gyda'r Cwsmer (CRM) | Prynu a gweithredu system CRM | 255,000 | 100,132 | 100,132 | 2,000 | 98,132 | Mae'r CRM bellach wedi hen ennill ei blwyf, gyda dros 18,000 o gwsmeriaid cofrestredig ers mis Ionawr 2016, ac mae'n gweithredu fel 'Busnes fel Arfer' yn awr. Mae TG yn gweithio gyda gwasanaethau dan gyfarwyddyd y Bwrdd Trawsnewid Prosesau Busnes i sicrhau fod mwy o ffurflenni talu ar-lein ar gael drwy'r CRM er mwyn gwella prosesau swyddfa gefn, sicrhau effeithlonrwydd a gwella'r profiad i gwsmeriaid. Mae'r system wedi bod yn amhrisiadwy yn ystod yr argyfwng Covid-19 presennol ac fe'i defnyddiwyd i gasglu gwybodaeth ar gyfer grantiau cefnogi busnes, prydau ysgol am ddim, ailagor canolfannau ailgylchu Penhesgyn a Gwalchmai, i enwi dim ond ychydig o'r ffurflenni newydd a ddatblygwyd. Hefyd, rydym yn edrych ar system logi er mwyn gallu ailagor nifer o adeiladu'r Cyngor, megis Oriel Môn. |
| TG / Adnoddau | Porth Taliadau | Prynu a gweithredu porth talu a fydd yn golygu y gellir derbyn taliadau drwy'r Ap | 27,000 | 13,583 | 13,583 | 0 | 13,583 | Caewyd y prosiect. Dim diweddariad pellach. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig) £ | Balans ar 1 Ebrill 2020 £ | Dyraniad 2020/21 £ | Gwariant hyd yma 2020/21 £ | Cyllideb sy'n weddill 2020/21 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwella gwydnwch y systemau cynllunio | Systemau cynllunio awtomataidd newydd | 118,000 | 15,374 | 15,374 | 0 | 15,374 | Dim gwariant pellach hyd yma. Mae'r diweddariad ERDMS yn mynd rhagddo ac mae Enterprise Live wedi cael ei osod ar liniaduron pob aelod perthnasol o staff ac mae o ar gael drwy Citrix i sicrhau y gall staff barhau i weithio o bell. Anogir staff i ymgyfarwyddo â'r diweddariad a threfnir hyfforddiant hefyd. Bydd y system yn mynd drwy gyfnod profi helaeth i sicrhau fod yr holl swyddogaethau'n gweithio cyn mynd yn 'fyw', gobeithio yn ystod mis Tachwedd 2020, gyda I@W ac Enterprise yn cael eu defnyddio tan hynny. |
| Adnoddau | Gwella Systemau Casglu Incwm | Prynu a gweithredu system rheoli incwm newydd sy'n cysylltu gyda'r ffrydiau incwm presennol ac yn caniatáu dulliau newydd ar gyfer casglu incwm (ApMon ac ati) gysylltu i'r system rheoli arian | 150,000 | 42,799 | 42,799 | 24,503 | 18,297 | Mae ymrwymiadau llawn wedi eu gwneud bellach ac oddi fewn i'r cyllidebau bid. Fodd bynnag, bydd y gwaith gweithredu'n parhau i'r flwyddyn ariannol nesaf oherwydd gohirio'r gwaith o ganlyniad i faterion yn gysylltiedig â Covid-19, gan i nifer o staff prosiect yn Capita, ein cwmni Meddalwedd Rheoli Incwm, gael eu rhoi ar y cynllun ffyrlo yn fuan ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau. Bydd y balans sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw eitemau annisgwyl. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio prosesau busnes a pherfformiad | Gweithredu modiwlau nad oeddent yn cael eu defnyddio yn y system Rheoli Gwybodaeth ONE | 67,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | Caewyd y Prosiect. Dim diweddariad pellach. |
| Dysgu Gydol Oes | Moderneiddio Busnes | Gwefan ar gyfer yr Oriel | 20,000 | 11,474 | 11,474 | 0 | 11,474 | Bu peth oedi gyda'r cwmni a Covid-19. Mae'r rhannau olaf o'r siop ar-lein bron wedi'u cwblhau ac mae'r wefan wedi ei chwblhau ond yn cael ei phrofi. Bydd y cwmni'n cael ei dalu ddiwedd Awst/dechrau Medi pan fydd TG yn hapus fod y wefan yn gweithio'n dda, ayb. |
| TG / Trawsnewid | Digidol yn Gyntaf / Digidol yn Awtomatig | Cyflogi Swyddog Digidol Arweiniol a Dadansoddwr Gwasanaethau Digidol | 120,000 | 99,130 | 50,000 | 16,486 | 33,514 | Recriwtiwyd dau berson i'r swyddi Technegydd Digidol Dros Dro (Gradd 5) ac maent yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd. |

| Gwasanaeth | Teitl | Disgrifiad | Swm a Gymeradwywyd (cyfanswm – nid Bl 1 yn unig) £ | Balans ar 1 Ebrill 2020 £ | Dyraniad 2020/21 £ | Gwariant hyd yma 2020/21 £ | Cyllideb sy'n weddill 2020/21 £ | Diweddariad ar y Prosiect |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwarchod y Cyhoedd | Gwella Cysylltedd Digidol yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Gweithredu system yn seiliedig ar y cwmwl i gofnodi ymweliadau archwilio. Mae'r feddalwedd yn ddatrysiad Cymru gyfan sydd wedi cael ei chaffael drwy gytundeb fframwaith a gefnogir gan 19 o'r 22 gyngor yng Nghymru | 45,000 | 45,000 | 10,000 | 0 | 10,000 | Dim datblygiadau i'w hadrodd yn 2020/21. Oherwydd Covid-19 a'r pwysau ar Gwarchod y Cyhoedd, nid oedd capasiti i symud ymlaen. |
| | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | **982,800** | **327,492** | **243,362** | **42,989** | **200,373** | |
| | | | | | | | | |

## Adolygiad o Arbedion EffeithIonrwydd 2020/21

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2020/21 £'000 | Arbedion y mae modd eu cyflawni 2020/21 £'000 | Arbedion nad oes modd eu cyflawni yn 2020/21 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 68 | 11 | 57 | Ar hyn o bryd mae'n annhebygol y bydd £10k o arbedion yn cael eu cyflawni drwy leihau cost rhedeg fflyd cerbydau'r Cyngor drwy fuddsoddi mewn cerbydau sy'n rhatach ar danwydd a gwella gweithdrefnau gweinyddol i leihau amser segur cerbydau. Mae hyn oherwydd gostyngiad sylweddol yn nefnydd cerbydau fflyd oherwydd Covid-19. Derbyniwyd pedwar cerbyd LPG ym mis Gorffennaf a fydd yn rhatach ar danwydd. |
| | | | | Mae'n annhebygol hefyd y bydd cynnydd o £47k mewn ffioedd meysydd parcio'n cael ei gyflawni. Mae hyn oherwydd i feysydd parcio gael eu cau fel rhan o gyfyngiadau Covid-19. Bellach mae'r holl feysydd parcio wedi ailagor ond nid yw'r ffioedd parcio diwygiedig wedi cael eu gweithredu yn y meysydd parcio arfordirol a ni chodir ffioedd parcio yn y meysydd parcio trefol tan fis Awst, yn unol â chyfarwyddyd y Pwyllgor Gwaith. Mae gwaith yn mynd rhagddo i weithredu'r ffioedd diwygiedig. Cyflwynwyd cais am incwm a gollwyd i Lywodraeth Cymru ac mae'r Awdurdod yn disgwyl am gadarnhad ffurfiol ynghylch a fydd yr hawliad yn cael ei dalu. |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 65 | 59 | 6 | Gweithredwyd arbediad o £22k yn llawn drwy leihau capasiti gweinyddol y Tîm Rheoli Datblygu. Cyflawnwyd hyn yn sgil y buddsoddiad diweddar yn y system gynllunio. |
| | | | | Mae'n annhebygol y bydd y cynnydd disgwyliedig o £1k yn cael ei gyflawni oherwydd y pandemig cyfredol a'i effaith ar ymgynnull mewn grwpiau a digwyddiadau. |
| | | | | Mae £37k o arbedion drwy ddileu gweddill y gyllideb Cyfleusterau Awyr Agored yn dilyn trosglwyddo'r asedau o reolaeth y Cyngor wedi cael ei gyflawni'n llawn. |
| | | | | Cynyddwyd y ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau morwrol, er nad yw'r arbediad o £5k yn debygol o gael ei gyflawni oherwydd cyfyngiadau'n gysylltiedig â COVID-19 a byrhau'r tymor agor. |
| Tai | 101 | 101 | 0 | Cyflawnwyd arbediad o £37k drwy ddileu swydd wag Swyddog Datblygu Strategol. |
| | | | | Mae arbedion o £4k drwy leihau cost cefnogaeth weinyddol i'r Pennaeth Tai yn cael ei gyflawni. |

| Gwasanaeth/ Swyddogaeth | Arbedion Cyllidebol 2020/21 £'000 | Arbedion y mae modd eu cyflawni 2020/21 £'000 | Arbedion nad oes modd eu cyflawni yn 2020/21 £'000 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd arbediad o £36k drwy gyfalafu costau staffio ynghlwm â darparu grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cael ei gyflawni.<br>Mae arbedion o £19k a gynigiwyd drwy addasu'r costau a godir ar y Cyfrif Refeniw Tai i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau yn debygol o gael eu cyflawni yn yr adolygiad diwedd blwyddyn.<br>Nododd adolygiad o gyllideb y gwasanaeth gyllidebau o £15k nad oedd yn cael ei defnyddio ac maent bellach wedi cael eu dileu. Nid oedd gorwariant ar ddiwedd chwarter 1, felly, mae'r arbediad hwn yn cael ei gyflawni. |
| Trawsnewid | 5 | 5 | 0 | Nodwyd arbediad o £5k drwy ddileu cyllidebau ar gyfer llinellau ffôn a ffonau symudol nad oes fawr o ddefnydd yn cael ei wneud ohonynt. Ni nodwyd unrhyw arbedion llinellau pellach hyd yma ond, os byddant yn cael eu canfod, bydd yr arbedion yn cael eu canfod o feysydd eraill yng nghyllideb yr adran fel yn 2019/20. |
| Adnoddau | 60 | 60 | 0 | Cynigiwyd arbediad o £10k drwy ostwng cyllidebau postio o ganlyniad i fuddsoddiadau yn y systemau Cyflogres a Budd-daliadau Tai sydd wedi caniatáu i wybodaeth gael ei drosglwyddo'n electronig yn hytrach na phostio dogfennau papur. Mae gwariant yn chwarter 1 ychydig yn uwch na'r gyllideb, ond mae'n debyg fod hyn oherwydd amseriad y gwariant.<br>Disgwylir y bydd dull corfforaethol o brynu rhai nwyddau yn rhyddhau arbediad o £50k. Mae gwariant yn chwarter 1 o fewn y gyllideb. |
| Busnes y Cyngor | 8 | 8 | 0 | Disgwylir i leihau costau cynnal digwyddiadau Dinesig gyflawni arbediad o £8k ar gyfer y flwyddyn. Mae gwariant yn Ch1 o fewn y gyllideb. |
| **Cyfanswm** | **307** | **244** | **63** | |

## Costau Asiantaeth rhwng Ebrill a Mehefin 2020

| Gwasanaeth | Swm<br>£ | Ffynhonnell Gyllido (Cyllideb Graidd Benodol / Cyllideb staffio nas defnyddiwyd / Grant / Cyfraniad Allanol) | Parhaol / Dros Dro | Pwrpas |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion | 900 | Craidd | Dros Dro | Athrawon llanw mewn meysydd arbenigol |
| | **900** | | | |
| Gwastraff | 7,040 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Staff tymor byr – ddim ar gael drwy'r matrics adnoddau dynol |
| | 9,419 | Cyllideb Graidd Benodol | Dros Dro | Tasgau ychwanegol sydd eu hangen yn y tymor byr. Nid yw staff ar gael drwy'r matrics adnoddau dynol |
| | **16,459** | | | |
| Gwasanaethau Plant | 20,785 | Cyllideb Graidd / Cronfa Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | 19,536 | Cyllideb Graidd / Cronfa Staff Asiantaeth | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **40,322** | | | |
| Gwasanaethau Oedolion | 36,490 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | Prosiect DOLS |
| | 10,192 | Cyllideb Graidd | Dros Dro | I lenwi swyddi gwag |
| | **46,682** | | | |
| **Cyfanswm** | **104,363** | | | |

**ATODIAD E**

## Crynodeb o Wariant Ymgynghori Ch1 2020/21

| Crynodeb o Wariant Ymgynghori yn Ch1 fesul Gwasanaeth | | |
|---|---|---|
| **Gwasanaeth** | **Ch1<br>£** | **Cyfanswm 2020/21<br>£** |
| Addysg Ganolog | 8,685 | **8,685** |
| Diwylliant | 0 | **0** |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 1,125 | **1,125** |
| Eiddo | 0 | **0** |
| Priffyrdd | 0 | **0** |
| Ysgolion | 0 | **0** |
| Gwastraff | 12,883 | **12,883** |
| Tai | 0 | **0** |
| Corfforaethol a Democrataidd | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Oedolion | 0 | **0** |
| Gwasanaethau Plant | 2,466 | **2,466** |
| Corfforaethol | 0 | **0** |
| Trawsnewid | 630 | **630** |
| Busnes y Cyngor | 11,847 | **11,847** |
| Adnoddau | 9,515 | **9,515** |
| | | |
| **Cyfanswm** | **47,151** | **47,151** |
| Cyllidwyd gan: | | |
| Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | 46,016 | **46,016** |
| Grant | 630 | **630** |
| Cyfraniad Allanol | 505 | **505** |
| Arian wrth gefn | 0 | **0** |
| **Cyfanswm** | **47,151** | **47,151** |

**ATODIAD F**

## Dadansoddiad o Gostau Ymgynghori Chwarter 1 2020/21

| | Swm £ | Categori – rheswm dros Benodi | | | Ffynhonell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/ Cyllideb Staffio nas Defnyddir/ Grant/ Cyfraniad Allanol | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| Addysg Ganolog | 6,825 | | ✓ | ☐ | Craidd | Ffioedd proffesiynol – gwasanaeth fel Uwch Swyddog, Adran Addysg |
| | 1,680 | | | ✓ | Craidd | Ffioedd proffesiynol – gwasanaeth fel Uwch Swyddog, Adran Addysg |
| | 180 | | | ✓ | Craidd | Ffi lletya flynyddol ar gyfer gwefan |
| **Cyfanswm Addysg Ganolog** | **8,685** | | | | | |
| Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 505 | ✓ | ☐ | ☐ | Allanol | Prosiect Morlais G2624 |
| | 240 | ☐ | ☐ | ✓ | Craidd | Gwiriadau Strwythurol Chwefror / Mawrth 2020 |
| | 135 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Samplu siocled tywyll |
| | 245 | ✓ | ☐ | ☐ | Craidd | Worldpay – Taliadau Debyd Uniongyrchol |
| **Cyfanswm Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** | **1,125** | | | | | |
| Gwastraff | 4,288 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Darparu Cefnogaeth Dechnegol Allanol – Caffael contract casglu gwastraff a glanhau newydd |
| | 41 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | DUoS Offtake |
| | 42 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Ffi Mesuryddion a Setliad |
| | 357 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Cefnogaeth Dechnegol Nwy – Safle Tirlenwi Penhesgyn – Ebrill 2020 |
| | 438 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | SEMP cais i amrywio Trwydded Amgylcheddol Safle Tirlenwi Penhesgyn |

| | Swm £ | Categori – rheswm dros Benodi | | | Ffynhonell y Cyllid (Cyllideb Graidd Benodol/ Cyllideb Staffio nas Defnyddir/ Grant/ Cyfraniad Allanol | Disgrifiad o'r gwaith a wnaed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | I dalu am sgiliau penodol nad oes angen swydd barhaol | Maint y gwaith | Gwaith Penodol / Prosiect Unwaith ac am Byth | | |
| | 5,260 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Cais i amrywio Trwydded Amgylcheddol Safle Tirlenwi Penhesgyn – Tasg 3 |
| | 2,458 | ✓ | | Gwaith Penodol | Cyllideb Graidd Benodol | Arolwg ac Adroddiad Monitro Dŵr Blynyddol Safle Tirlenwi Penhesgyn |
| **Cyfanswm Gwastraff** | **12,883** | | | | | |
| Gwasanaethau Plant | 2,455 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Asesiad Ffurflen F |
| | 11 | | | ✓ | Cyllideb Graidd | Prynu Tystysgrif Geni |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Plant** | **2,466** | | | | | |
| Trawsnewid | 630 | ✓ | | | Grant | Asesydd – Gweithwyr Cymdeithasol dan Hyfforddiant |
| **Cyfanswm Trawsnewid** | **630** | | | | | |
| Busnes y Cyngor | 11,847 | | | ✓ | Cyllideb Staffio nas defnyddiwyd | Cyflenwi yn ystod absenoldeb staff dros dro |
| **Cyfanswm Busnes y Cyngor** | **11,847** | | | | | |
| Adnoddau | 2,065 | ✓ | | | Cyllideb Graidd Benodol | Cyngor treth a gwasanaeth ymgynghori |
| | 7,450 | ✓ | | | Cyllideb Graidd Benodol | Contractau Tâl Cadw Gwasanaethau Trysorlys |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **9,515** | | | | | |
| **Cyfanswm Ch1 – Ebrill - Mehefin** | **47,151** | | | | | |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD :** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD :** | **28 MEDI 2020** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER CYNTAF 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO :** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH / CYFARWYDDWR GWASANAETH** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD :**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL :** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

- Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn nodi cynnydd gwariant a derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2020/21 yn chwarter 1.
- Cymeradwyo £49,000 o gyllid cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Pentraeth, yn unol â pharagraff 3.1.1 o'r adroddiad hwn. Mae'r gost ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19 sydd wedi cynyddu costau'r contract i gwblhau'r cynllun.
- Cymeradwyo £39,000 o gyllid cyfatebol ychwanegol ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares, yn unol â pharagraff 3.1.1 o'r adroddiad hwn. Mae'r gost ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i Covid-19 sydd wedi cynyddu costau'r contract i gwblhau'r cynllun.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.
- Mae monitro'r gyllideb yn swyddogaeth a neilltuwyd i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Gosod y Gyllideb Gyfalaf flynyddol.

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Caffael** | |
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | |
| **2** | **A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-** | |
| **3** | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:-** | |
| **4** | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| **5** | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad A - Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 1 2020/21
Atodiad B - Crynodeb o'r Gwariant ar Brosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir ar Ddiwedd y Flwyddyn

**FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

- Cyllideb Gyfalaf 2020/21, fel yr argymhellwyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020;
- Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2020/21, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020; ac
- Adroddiad Alldro Cyfalaf 2019/20, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2020.

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro ynghylch y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol ac mae'n caniatau i Aelodau nodi'r cynnydd o ran Gwariant Cyfalaf a Derbyniadau Cyfalaf yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf.

**1.2** Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf (a oedd yn cynnwys amcangyfrif o'r llithriad) ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai o £17.050m ar gyfer 2020/21 a Rhaglen Gyfalaf o £20.255m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ychwanegol, ym mis Mehefin 2020, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith i lithriad cyfalaf o £12.109m gael ei ddwyn ymlaen o 2019/20, a daw hyn â chyfanswm y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai i £22.336m a £19.302m ar gyfer y CRT. Ers y broses gosod y gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau at y rhaglen ac mae'r mwyafrif ohonynt yn cael eu cyllido gan grant, sy'n gyfanswm o £4.664m. Daw hyn â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf gyfan ar gyfer 2020/21 i £46.032m.

## 2. CYNNYDD GWARIANT YN 2020/21

**2.1** Isod mae tabl cryno o'r gwariant Cyfalaf hyd at 30 Mehefin 2020, y gyllideb a broffiliwyd hyd at 30 Mehefin 2020 a'r cyllid arfaethedig ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2020/21:-

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Cyllideb a Broffiliwyd £'000 | Gwariant Gwirioneddol £'000 | Gwariant wedi ei Ymrwymo £'000 | Cyfanswm Gwariant £'000 | % y Gyllideb a Broffiliwyd sydd wedi ei gwario | % y Gyllideb Flynyddol sydd wedi ei gwario |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol Tai | 1,631 | 82 | 68 | 13 | 81 | 99 | 5 |
| CRT Tai | 19,032 | 1,125 | 456 | 248 | 704 | 63 | 4 |
| Dysgu Gydol Oes | 11,802 | 130 | 112 | 28 | 140 | 107 | 1 |
| Economaidd ac Adfywio | 3,526 | 833 | 354 | 93 | 447 | 54 | 13 |
| Priffyrdd | 5,026 | 679 | 294 | 212 | 506 | 74 | 10 |
| Eiddo | 1,294 | 320 | 364 | - | 364 | 114 | 28 |
| Trawsnewid | 529 | 106 | 54 | 44 | 98 | 93 | 19 |
| Cynllunio | 1,324 | 38 | - | 35 | 35 | 93 | 3 |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,867 | 3 | 3 | - | 3 | 110 | 0 |
| **Cyfanswm** | **46,032** | **3,315** | **1,705** | **673** | **2,378** | **72** | **5** |

| | |
|---|---|
| **Cyllidwyd gan:** | |
| Grant Cyfalaf | 19,182 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 414 |
| Bethyca gyda Chefnogaeth | 7,705 |
| Benthyca Digefnogaeth | 1,796 |
| Cyfraniad Refeniw | 16,133 |
| Cronfeydd Wrth Gefn | 531 |
| Benthyciad | 272 |
| **Cyfanswm Cyllido** | **46,032** |

**2.2** Y gyllideb a broffiliwyd a wariwyd hyd ddiwedd y chwarter cyntaf ar gyfer y gronfa gyffredinol yw 76%. Fodd bynnag, dim ond 6% o'r gyllideb flynyddol sydd wedi'i gwario hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn, gyda'r rhan fwyaf o'r gyllideb broffiliedig ar gyfer chwarter 1 wedi ei gwario, cynlluniau fel Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares, Grant Cyfleusterau i'r Anabl, Cynllun Porth Twristiaeth a Chynllun Adnewyddu Dyfeisiau Bwrdd Gwaith TGCh. Nid yw rhai cynlluniau cyfalaf wedi cychwyn eto, ond mae eu cyllidebau wedi eu proffilio i'w gwario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol, megis Diogelwch Ysgolion, Camerâu Gorfodaeth yn Llithrfa Porth y Wrach, Cynllun Partneriaeth Tirwedd Caergybi, Cynllun Ffyrdd Gwydn, Cynllun Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Addysg, Cynllun Adnewyddu Adeiladau Presennol ac Adeiladau Addysg a'r maes chwarae antur ym Mharc y Morglawdd. Gellir gweld y cynlluniau hyn a'u proffil yn Atodiad B. Mae yna nifer o gynlluniau Grantiau Cyfalaf yn 2020/21 a rhoddir diweddariad ar y rhain yn Adran 3.1 o'r adroddiad hwn.

**2.3** Mae'r Cyfrif Refeniw Tai wedi gwario 63% o'r gyllideb sydd wedi'i phroffilio, a 4% o'r gyllideb flynyddol. Amcangyfrifir ar hyn o bryd na fydd y gyllideb gyfan wedi ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Daeth y pandemig coronafeirws â'r holl gontractau cynnal a chadw a gynlluniwyd i stop tuag at ddiwedd chwarter 4 2019/20 ac arhosodd safleoedd ar gau yn ystod y cyfnod clo am y rhan fwyaf o chwarter 1 2020/21. Gweithiodd y Gwasanaeth Tai tuag at ailgychwyn gwaith ar nifer o safleoedd tuag at ddiwedd chwarter 1 2020/21, gan gynnwys contractau gwaith cynnal a chadw allanol a gynlluniwyd. Cyflawnwyd y nod hwn yn llwyddiannus, gyda'r holl waith yn cael ei wneud mewn modd diogel sy'n gwarchod y trigolion a gweithlu'r contractor. Wrth ailddechrau'r gwaith, canolbwyntiwyd ar gwrdd ag amodau caeth a chydymffurfio ag Asesiadau Risg a gymeradwywyd, Canllawiau Pellter Cymdeithasol a Chanllawiau'r Llywodraeth ar gyfer gwaith adeiladu yn ystod y pandemig coronafeirws a pharheir i wneud hynny. Yn anochel, cafodd y datblygiadau hyn effaith ddifrifol ar wariant disgwyliedig yn ystod chwarter 1 a gallant olygu y bydd oedi cyn y gellir buddsoddi cyfalaf ar gyfer gwaith mewnol yn ystod gweddill 2020/21. Yn ystod chwarter 2, rydym yn disgwyl gweld mwy o wariant ar waith cynnal a chadw traddodiadol yn sgil ailddechrau gwaith ar ddau gontract mawr.

Yn yr un modd, daeth yr holl waith o godi tai newydd i stop ar ddiwedd mis Mawrth 2020 oherwydd y pandemig coronafeirws. Ailgorodd safleoedd yn raddol tuag at ddechrau Mai 2020 ond, er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch gweithwyr ac i ddilyn canllawiau gweithio Covid-19, agorodd safleoedd gyda llawer llai o weithwyr a llai o effeithlonrwydd. Roedd gwariant yn ystod chwarter 1 yn sylweddol llai na'r hyn a gynlluniwyd ac, oherwydd parhau i weithio gyda gweithlu llai, mae'n debygol na fydd gwariant yn adfer yn llawn am weddill y flwyddyn.

## 3. CYLLIDO

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

**3.1.1** Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt. Rhoddir diweddariad byr ar y cynlluniau isod: -

- **Isadeiledd Strategol Llangefni** – Mae'r cynllun yn cynnwys adeiladu pum uned ddiwydiannol newydd ar hen safle Hyfforddiant Môn ac estyniad i'r Ganolfan Fusnes i'w osod i'r sector preifat. Mae'r unedau diwydiannol newydd bellach wedi'u cwblhau, ac mae'r pump wedi'u gosod. Mae'r gwaith yn y Ganolfan Fusnes bellach wedi'i gwblhau ac mae gofod swyddfa yn cael ei hysbysebu ar hyn o bryd. Mae ail-broffil wedi'i gyflwyno i Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru (WEFO) a chymeradwywyd estyniad 6 mis hyd ddiwedd mis Medi ar gyfer y prosiect. Oherwydd oedi ar y safle o ganlyniad i Covid, bydd yr estyniad hwn yn cael ei adolygu gan WEFO ym mis Awst. Mae'r gwariant sy'n weddill wedi'i neilltuo i uwchraddio'r cladin a mân waith arall yn y ganolfan fusnes gyfredol ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

- **Isadeiledd Strategol Caergybi** – Cynllun yw hwn i adeiladu deng uned ddiwydiannol newydd ym Mhenrhos, Caergybi. Ar hyn o bryd mae'r contractwr a benodwyd yn gwneud y gwaith, a disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Awst 2020. Sicrhawyd Cyllid Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (WEFO) a sefydlwyd Cyd-Fenter gyda Llywodraeth Cymru, sy'n darparu'r cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun. Rhagwelir y bydd comisiynu is-orsaf a gwaith cysylltiedig arall yn cael ei wneud ar ôl y trosglwyddo oherwydd oedi yn sgil materion cyfreithiol (sydd bellach yn y broses o gael eu cwblhau). Bydd yr unedau ar gael i'w gosod o Hydref 2020.

- **Ysgolion yr 21ain Ganrif -** O'r Prosiectau Band A, mae ysgolion newydd yn Rhyd y Llan, Ysgol Cybi ac Ysgol Santes Dwynwen i gyd wedi'u cwblhau, ynghyd ag estyniad i Ysgol Parc y Bont a gwaith adnewyddu yn Ysgol Brynsiencyn. Ymgynghorwyd ynghylch y cynllun Band A olaf, sy'n canolbwyntio ar y ddarpariaeth ysgol yn ardal Llangefni, dros gyfnod o chwe wythnos yn ystod chwarter 4. Ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad, os mai ysgol newydd yw'r opsiwn a ddewisir, bydd angen penderfynu costau'r cynllun a'u cynnwys yn yr Achos Busnes Terfynol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

- **Grant Cyfalaf Gofal Plant**– Sicrhawyd £2.718m o gyllid grant ar gyfer y cyfnod 2019 i 2021 i addasu nifer o ysgolion cynradd fel y gall y Cyngor ddarparu digon o leoedd gofal plant i ateb y galw yn sgil y cynnig gofal plant. Bydd cyfleusterau ychwanegol yn cael eu creu yn Ysgol Santes Dwynwen £0.400m, Ysgol Morswyn £0.413m, Ysgol Llandegfan £0.450m, Ysgol Pencarnisiog £0.340m, Ysgol Esceifiog £0.364m, Ysgol Henblas £0.370m, Ysgol y Tywyn £0.216m ac i gyflawni Cynllun Grantiau Bach a Rheoli Prosiect £0.165m. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau yn Ysgol Santes Dwynwen, Ysgol Morswyn ac Ysgol Pencarnisiog. Mae gwaith wedi cychwyn ar y safle yn Ysgol Tywyn ac Ysgol Esceifiog. Fe dderbynnir yr Uned Gofal Plant yn Esceifiog yng Nhorffennaf 2020 a bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn diwedd Awst 2020. Fe dderbynnir yr Uned Gofal Plant yn Ysgol y Tywyn tuag at ddiwedd Gorffennaf 2002 a bydd y gwaith wedi ei gwblhau erbyn canol mis Medi 2020.

- **Neuadd y Farchnad -** Mae'r effeithiau diweddar ar iechyd y cyhoedd wedi golygu na fu modd parhau gyda'r gwaith ac mae'r prif gontractwr, is-gontractwyr ac ymgynghorwyr wedi rhoi'r gorau i weithio am y tro. Daw'r cyfnod cywiro diffygion i ben ar 18 Gorffennaf 2020 (chwarter 2020/21), pan fydd y taliad cadw terfynol ar gyfer contract Cam II yn ddyledus. Fodd bynnag, efallai y bydd peth oedi wrth i arferion gweithio diogel diwygiedig (PPE ac ati) gael eu sefydlu a'u cymeradwyo, cyn y gall contractwyr ddychwelyd yn ddiogel i'r safle i roi sylw i'r diffygion sy'n weddill. Gofynnwyd am Ddatganiad Dull diwygiedig ar gyfer Asesu Risg, gan fod y contractwr wedi mynegi awydd i ddychwelyd i'r safle yn y dyfodol agos. Bydd gwaith arall yn cael ei raglennu i'w wneud yn y chwarter nesaf, gan gynnwys cychwyn y gwaith dehongli treftadaeth sy'n canolbwyntio ar yr adeilad fel marchnad fewnol, gan gynnwys rhodd diweddar arwydd Pollecoff i'r prosiect**.**

- **Trawsnewid Treflun Caergybi (Cam II y Fenter Treftadaeth Treflun) -** Er gwaethaf effeithiau'r cyfnod clo sydd wedi atal ymweliadau safle a thrafodaethau wyneb yn wyneb, gwnaed cynnydd rhesymol mewn trafodaethau cynnar gyda dau ymgeisydd posib sydd wedi dangos diddordeb mewn parhau i ddatblygu cynigion i'w hystyried trwy gais ffurfiol am grant. Mae gan y ddau ganiatadau statudol ond bydd colli amser yn effeithio ar ein proffil gwariant yn y flwyddyn ariannol hon, gan wthio'r rhaglen gyflawni i'r flwyddyn nesaf. Gwnaed cynnydd da mewn perthynas ag Eglwys Sant Cybi a bydd gwaith cloddio'n mynd rhagddo ym mynwent isaf yr Eglwys ym mis Gorffennaf 2020. Mae'r gwaith ar giatiau'r fynwent isaf a oedd ar stop bellach wedi ailgychwyn a rhagwelir y bydd giatiau wedi eu hailosod erbyn Awst 2020. Mae Peiriannydd wedi'i benodi i ddatblygu dyluniadau a dogfennau tendro ar gyfer y grisiau newydd a'r platfform gwylio i'r Tŵr Gogledd- Ddwyreiniol, gyda disgwyl i gynigion gael eu cyflwyno ar gyfer Caniatâd Heneb Rhestredig yng nghanol mis Awst 2020. Paratowyd brîff tendro ar gyfer gwasanaethau dylunio mewn perthynas â'r toiledau cyhoeddus ar Swift Square i'w ryddhau ym mis Gorffennaf 2020 fel y gellir symud ymlaen â'r gwaith hwn ochr yn ochr â ffrydiau gwaith eraill er mwyn sicrhau gwariant cyson trwy gydol y flwyddyn ariannol hon, tra datbylygir cynigion manylach ar gyfer y safle sy'n weddill sy'n canolbwyntio ar wella'r dirwedd, dehongli treftadaeth a gwella meysydd parcio.

- Mae cyllid wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y **Rhaglen Targedu Buddsoddi mewn Adfywio** (TRIP). Pwrpas y cyllid yw dod â 108 eiddo gwag yn ôl i ddefnydd trwy bedwar cynllun, sef Cynllun Cymorth i Brynwyr Tro Cyntaf, Cynllun Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Cynllun Ymyrraeth Uniongyrchol ynghylch Cartrefi Gwag a Chynllun Bywyd Canol Tref. Cyflawnir y cynlluniau hyn gan Gyngor Sir Ynys Môn, fel yr awdurdod sy'n arwain, a Chyngor Gwynedd fel y partner cyflawni ar y cyd. Cyhoeddwyd Llythyr Cynnig diwygiedig ar gyfer TRIP sy'n dyrannu £1.001m ar gyfer Cynllun Grantiau i Brynwyr Tro Cyntaf, Cynllun Cymorth i Landlordiaid Cartrefi Gwag, Cynllun Bywyd Canol Tref a Chynllun Ymyrraeth Uniongyrchol ynghylch Cartrefi Gwag. Dim ond Cyngor Sir Ynys Môn fydd yn cyflawni'r cynlluniau hyn yn 2020/21 oni bai y gellir sicrhau cyllid pellach i gefnogi cynlluniau yng Ngwynedd. Er gwaethaf y cyfnod clo, mae llawer o ddiddordeb yn y Grantiau i Brynwr Tro Cyntaf o hyd a rhagwelir y bydd y cyllid ar draws yr holl gynlluniau yn cael ei ddefnyddio'n llawn.

- **Partneriaeth Tirwedd Ynys Gybi** – Mae'r Bartneriaeth Tirwedd wedi sicrhau cyllid o £1.146m gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (CTLG) i gyflawni ystod o brosiectau sy'n canolbwyntio ar amgylchedd naturiol Ynys Gybi. Roedd disgwyl caniatâd gan CTLG i ddechrau'r gwaith yn chwarter 3 2019/20, ond cafodd ei ohirio yn dilyn cais am estyniad 6 mis i gyllid Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop sy'n cael ei ddefnyddio fel cyllid cyfatebol ar gyfer y Bartneriaeth Tirwedd. O ganlyniad i Bandemig Covid-19, gohiriwyd recriwtio Rheolwr Prosiect ac rydym yn dal i ddisgwyl am ganiatâd i ddechrau gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

- **Cynllun Grant Hwb ar gyfer Seilwaith mewn Ysgolion -** Oherwydd Covid-19 ni fu modd gosod yr offer rhwydwaith a chyfrifiaduron a brynwyd i staff yn chwarter 4 2019/20. Mae'r gwaith bellach wedi'i amserlennu ar gyfer Gorffennaf-Rhagfyr 2020. Mae Llywodraeth Cymru wedi dileu dyddiad cwblhau'r prosiect i gydnabod effaith Covid-19 ar yr amserlen. Mae'r cronfeydd dangosol flwyddyn 2 wedi cael eu hadolygu ac mae cyfran o'r cyllid bellach wedi'i neilltuo i dalu costau prosiect a sefydlwyd yn ystod Covid-19 i gyllido’r gwaith o ailbwrpasu dyfeisiau ysgol i'w defnyddio gan ddysgwyr difreintiedig. Efallai nad oes dan ddysgwr difreintiedig fynediad at ddyfais addas neu gysylltiad band eang i ymgysylltu'n effeithiol â'r drefn dysgu o bell. Y dyraniad diwygiedig yw £0.631m gyda 10% (£0.063m) ar gael fel costau trefnu ar ffurf grant, gan adlewyrchu trefniant blwyddyn 1 (ond heb hawl i ofyn am ddyraniad sy'n fwy na 10%). Mae £0.029m wedi'i glustnodi'n arbennig i gyllido'r rhaglen dysgwyr difreintiedig, gan adael £0.539m i'w ddefnyddio yn erbyn y catalog TGCh. Defnyddiwyd cyfres o sesiynau ymgysylltu â'r fforymau ysgolion strategol i ddod i gytundeb ynghylch yr archeb o'r gronfa hon cyn diwedd mis Gorffennaf 2020, gydag amseroedd disgwyl o hyd at dri mis oherwydd cynnydd yn y galw byd-eang a diffyg gweithgynhyrchu.

- **Porth Twristiaeth –** Mae prosiect CDT (Cyrchfan Denu Twristiaid) Porth Ymwelwyr Rhyngwladol Ynys Gybi yn becyn o brosiectau sy’n digwydd dros sawl blwyddyn, a chânt eu cyllido’n bennaf trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae Rhan 1, gwaith gosod arwyddion yn y porthladd bellach wedi’i gwblhau. Mae dyluniadau ar gyfer Rhan 2 yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd a chynhelir y broses o gael caniatâd ym mis Medi. Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i gael caniatâd ar gyfer prosiect gerllaw Eglwys Sant Cybi a maes parcio Swift Square.

- **Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd -** dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Dyfarnwyd £0.100m ar gyfer dylunio a gosod maes chwarae antur ym Mharc y Morglawdd. Ni fu unrhyw wariant hyd yn hyn a bydd y broses dendro ar gyfer dylunio'r maes chwarae antur yn dechrau ar ddechrau chwarter 2. Disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau'n llawn o fewn 2020/21**.**

- **Cronfa Ffyrdd Gwydn -** Mae hon yn ffrwd cyllid grant newydd, a gyflwynwyd eleni. Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gael cyllid o dan y grant hwn i astudio pa fesurau gwytnwch y gellid eu gweithredu ar yr A545 a'r B5109 y naill ochr a'r llall i Fiwmares. Mae gan y ddwy ffordd hyn hanes o gau ar adegau o dywydd garw, ac ni fydd y tywydd stormus cynyddol sy'n gysylltiedig â Newid Hinsawdd ond yn gwaethygu'r sefyllfa. Rhagwelir y bydd staff newydd yn cael eu penodi yn Adain Ddylunio'r Gwasanaeth Priffyrdd ar ddechrau mis Medi 2020. Unwaith y byddant yn eu swyddi, bydd y staff hyn yn dechrau'r broses o gaffael a rheoli'r gwaith ymgynghori yma. Mae'n debygol y bydd gwariant yn digwydd yn chwarter olaf eleni**.**

- **Cynlluniau draenio yng Nghaergybi ac Amlwch -** Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Yng Nghaergybi, gwnaed cynnydd o ran datblygu cytundeb gweithio gyda Dŵr Cymru fel y gellir rhannu data modelu a fydd yn caniatáu i'r astudiaeth ymchwilio i'r risgiau o lifogydd y mae ein systemau ni a rhai Dŵr Cymru yn eu hwynebu yn y dref. Yn Amlwch, mae angen gweithio'n agos gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, fel bod modd ystyried prif risg llifogydd afon yn yr astudiaeth. Ar hyn o bryd disgwylir am gytundeb gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu i hyn ddigwydd. Bydd y ddwy astudiaeth hon yn parhau ymhell i'r flwyddyn ariannol nesaf**.**

- **Mân-waith grant** (25 lleoliad) **-** Y grant hwn yw'r grant mwyaf a ddyfarnwyd erioed i'r Cyngor ar gyfer cynlluniau bach. Yn anffodus, fe'i dyfarnwyd yn ystod pandemig Covid-19 ac, o ganlyniad, ni allai’r gwaith adeiladu ddechrau ar unwaith. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo bellach ar nifer o safleoedd gyda rhaglen yn cael ei datblygu ar gyfer y gweddill. Mae risg, oherwydd bod llai o amser ar gael nawr i gyflawni'r gwaith hwn (y mae'n rhaid ei gwblhau o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol) a'r anawsterau gweithio o dan reolau pellter cymdeithasol, efallai na fydd rhai o'r 25 o gynlluniau'n cael eu cwblhau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar hyn.

- **Cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares –** Rhoddwyd y gorau i’r gwaith ar y safle tua diwedd chwarter 4 ar ôl i'r staff fynd ar y cynllun ffyrlo yn sgil Covid. Mae'r gwaith bellach wedi ailddechrau ac wedi ei gwblhau i raddau helaeth. Bu costau ychwanegol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid ychwanegol o 85% a bydd angen i'r Cyngor gyfrannu £0.039m o gyllid cyfatebol, wedi ei gyllido o'r gronfa gyfalaf wrth gefn.

- **Cynllun Lliniaru Llifogydd Pentraeth -** Dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Nant y Felin, Pentraeth yn ei rhaglen ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roedd y cynllun hwn ar y safle ond yna daethpwyd ar draws cyflwr tir nad oedd modd eu rhagweld. Rhoddwyd y gorau i'r gwaith ar y safle tua diwedd chwarter 4 ar ôl i'r staff fynd ar y cynllun ffyrflo yn sgil Covid. Sicrhawyd cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r cyflwr tir anodd ac oherwydd goblygiadau Covid. Mae angen i'r Cyngor gyfrannu cyllid cyfatebol o £0.049m, wedi'i gyllido o'r gronfa gyfalaf wrth gefn.

- **Grant Enable -** Sicrhawyd grant o £0.093m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addasiadau i gefnogi byw'n annibynnol. Disgwylir y bydd y grant hwn wedi ei ddefnyddio'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

- **Arian Cyfalaf ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd -** Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori dau brosiect sydd yn werth cyfanswm o £0.478m. Mae un prosiect yn cynnwys gosod mesurau diogelwch ar ran o ffordd yr A5025, o’r Fali i Borthaethwy, ac mae'r llall yn cyflwyno parthau 20mya y tu allan i ysgolion ynghyd â gwell cysylltiadau i gerddwyr. Ni fu unrhyw wariant yn chwarter 1, ond mae'r gwaith wedi'i raglennu ar gyfer chwarter 2.

- **Teithio Llesol** - Sicrhawyd grant o £0.200m gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mân welliannau i'r seilwaith, gan gynnwys gosod arwyddion, parcio beiciau, cael gwared ar rwystrau mynediad a lledu llwybrau, yn ogystal â datblygu'r mapiau Teithio Llesol Integredig. Pwrpas y grant yw hyrwyddo a chynyddu lefelau teithio llesol, gwella iechyd a lles, lleihau allyriadau carbon a gwella teithio llesol i'r gwaith, addysg a gwasanaethau allweddol, cyrchfannau a thrafnidiaeth gyhoeddus.

- **Cyllid Trafnidiaeth Leol** - Sicrhawyd grant o £0.376m gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Drafnidiaeth Leol, y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol a'r Gronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn. Pwrpas y cronfeydd hyn yw datblygu systemau trafnidiaeth integredig, effeithiol, hygyrch, fforddiadwy a chynaliadwy a datblygu a darparu cynlluniau sy'n cefnogi tacsis / PHV nad ydynt yn cynhyrchu allyriadau, a hynny erbyn 2028 fel sy'n uchelgais gan Lywodraeth Cymru.

    - **Cronfa Drafnidiaeth Leol -** sicrhawyd £0.242m ar gyfer cwblhau'r gwaith o adeiladu safle Parcio a Rhannu Gaerwen. Bu cynnydd mewn costau oherwydd ffactorau annisgwyl ar y safle a gofynnir am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

    - **Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol -** sicrhawyd £0.049m ar gyfer gwelliannau i arosfannau bws ac i ddatblygu cyfleusterau i deithwyr ar fysys yng nghyffordd Pencarnisiog ar yr A4080. Ni fu unrhyw wariant yn chwarter 1 a rhagwelir y bydd y gwaith yn cychwyn yn chwarter 2.

- **Cronfa Trawsnewid Cerbydau Allyriadau Isel Iawn -** sicrhawyd £0.085m ar gyfer darparu mannau gwefru cerbydau trydan ym Mharc Cyfleuster Parcio a Theithio / Rhannu Llanfairpwll fel hyb trafnidiaeth cynaliadwy. Ni fu unrhyw wariant yn chwarter 1 a rhagwelir y bydd y gwaith yn cychwyn yn chwarter 2.

**3.2 Derbyniadau Cyfalaf**

**3.2.1** Y Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer eleni hyd yma a'r Derbyniadau Cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer yw: -

| | Cyllideb 2020/2021 £'000 | Derbyniwyd hyd at 30-Mehefin-2020 £'000 | Rhagwelwyd hyd at 31-Mawrth-2021 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Cronfa'r Cyngor:** | | | |
| Mân-ddaliadau | 0 | 20 | 20 |
| Cyffredinol | 313 | 70 | 384 |
| Diwydiannol | 0 | 0 | 0 |
| Ysgolion | 554 | 0 | 554 |
| **Cyfanswm** | **868** | **90** | **957** |

**3.2.2** Y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2021 yw £0.957m, a derbyniwyd £0.090m erbyn 30 Mehefin 2020 (9%).

**3.2.3** Er bod y Derbyniadau Cyfalaf a ragwelwyd yn £0.957m, mae £2.287m o Dderbyniadau Cyfalaf ar gael i gyllido'r Rhaglen Gyfalaf oherwydd bod £1.330m o Dderbyniadau Cyfalaf wedi eu dwyn ymlaen o 2019/20 yn y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Derbyniadau Cyfalaf. Gellir defnyddio £1.733m o hyn i gyllido'r rhaglen gyfalaf gyffredinol, gyda'r £0.554m arall ar gael i gyllido rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif fel rhan o gyllid cyfatebol Cyngor Sir Ynys Môn.

## 4. <u>GWARIANT GWIRIONEDDOL AR BROSIECTAU 2020/21</u>

**4.1** Isod mae tabl gyda'r Gwariant a ragwelir erbyn 31 Mawrth 2021 a'r cyllid diwygiedig**: -**

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol £'000 | Gwariant a Ragamcenir £'000 | (Tan) / Gor Wariant a Ragamcenir £'000 | Amrywiad % |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Tai Gyffredinol | 1,631 | 1,631 | 0 | 0 |
| CRT Tai | 19,032 | 16,922 | (2,110) | (11) |
| Dysgu Gydol Oes | 11,802 | 3,825 | (7,977) | (68) |
| Economaidd ac Adfywio | 3,526 | 3,150 | (376) | (11) |
| Priffyrdd | 5,026 | 5,029 | 3 | 0 |
| Eiddo | 1,294 | 1,294 | 0 | 0 |
| Trawsnewid | 529 | 529 | 0 | 0 |
| Cynllunio | 1,324 | 846 | (478) | (36) |
| Gwasanaethau Oedolion | 1,867 | 1,867 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **46,032** | **35,093** | **(10,939)** | **(24)** |
| **Cyllidwyd gan:** | **Cyllideb Flynyddol £'000** | **Cyllid a Ragamcenir £'000** | **Amrywiad £'000** | **Amrywiad %** |
| Grant Cyfalaf | 19,182 | 14,194 | (4,988) | (26) |
| Derbyniadau Cyfalaf | 414 | 403 | (11) | (3) |
| Benthyca gyda Chefnogaeth | 7,705 | 5,354 | (2,351) | (31) |
| Benthyca Digefnogaeth | 1,796 | 136 | (1,660) | (92) |
| Cyfraniad Refeniw | 16,133 | 14,262 | (1,870) | (12) |
| Cronfeydd wrth Gefn | 531 | 472 | (59) | (11) |
| Benthyciad | 272 | 272 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **46,032** | **35,093** | **(10,939)** | **(24)** |

**4.2** Fel y gwelir yn nhabl 4.1 (uchod), y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 yw £10.939m, gyda'r swm hwn yn llithro efallai i Raglen Gyfalaf 2021/22. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2021/22 a bydd yn cael ei gymryd i ystyriaeth wrth gynhyrchu'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22. Y prif brosiect y rhagwelir y bydd yn tanwario yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sydd ar hyn o bryd ‘ar stop dros dro' ac yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach ar foderneiddio’r ddarpariaeth ysgol yn Ardal Llangefni. Fodd bynnag, pe bai hyn yn cael ei ddatrys yn y dyfodol agos, gall y tanwariant a ragwelir fod yn llai. Rhagwelir hefyd y bydd tanwariant eithaf sylweddol ar y CRT, fel yr eglurir ym mharagraff 2.3 uchod**.**

**4.3** Y Gofyniad Cyllid Cyfalaf a ragwelir ar 31 Mawrth 2021 yw £139.166m, sef yr angen sylfaenol i'r Awdurdod fenthyca er mwyn gallu cyllido ei Raglen Gyfalaf. Ar hyn o bryd, mae'r benthyciad allanol yn £135.652m, sy'n golygu bod angen i'r Awdurdod gael benthyg £3.514m i gyllido’r Rhaglen Gyfalaf gyfredol. Os bydd y benthyciad hwn yn un allanol, bydd yr Awdurdod yn dal i fod o fewn ei derfynau benthyca awdurdodedig yn unol â'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21 (Atodiad 11).

## 5. <u>BLYNYDDOEDD Y DYFODOL</u>

**5.1** Argymhellodd y Strategaeth Gyfalaf y dylai'r cyllid ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2020/21 gael ei gyfyngu i gyfanswm y grant cyfalaf cyffredinol a benthyca â chefnogaeth (fel y penderfynir gan Lywodraeth Cymru) a gwerth amcangyfrifedig unrhyw dderbyniadau cyfalaf a geir. Disgwylir y bydd Rhaglen Gyfalaf 2021/22 yn dilyn yr un egwyddorion, gyda’r Grant Cyfalaf Cyffredinol a’r Benthyca â Chefnogaeth yn cael eu defnyddio i gyllido prynu Cerbydau newydd bob blwyddyn fel y bydd angen, Buddsoddi mewn TGCh, Adnewyddu'r asedau cyfredol a dyraniad blynyddol i dalu am gost Grantiau Statudol Cyfleusterau i'r Anabl. Bydd cyllid ar gael hefyd ar gyfer ailwynebu ffyrdd a phrosiectau cyfalaf sy'n denu grantiau allanol, a bydd y rhain yn cael eu gwerthuso fesul achos.

Ar ôl i'r prosiectau uchod gael eu cyllido, efallai y bydd rhywfaint o gyllid ar gael i gyllido cynlluniau cyfalaf newydd, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau sy'n cyfrannu at amcanion y Cyngor fel y nodir nhw yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017 - 2022 ac unrhyw gynlluniau a all gynhyrchu arbedion refeniw yn y dyfodol neu gynhyrchu incwm ychwanegol.

## 6. CASGLIAD

**6.1** Mae'r canlyniadau ar ddiwedd chwarter 1 a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos bod mwyafrif y prosiectau ar darged i gael eu cwblhau o fewn y gyllideb. Oherwydd bod rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar stop am y tro ac yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad pellach ynghylch moderneiddio'r ddarpariaeth ysgol, mae risg o danwariant sylweddol yn erbyn y prosiect hwn. Mae'r Cyngor wedi sicrhau llawer o wahanol grantiau allanol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn disgwyl derbyn £0.957m o Dderbyniadau Cyfalaf yn 2020/21 i gyfrannu tuag at gyllido'r Rhaglen Gyfalaf.

## ATODIAD B

## Crynodeb o Wariant y Prosiectau Cyfalaf hyd yma yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf a'r Gwariant a Ragwelir erbyn diwedd y flwyddyn

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfa Dai Gyffredinol** | | | | | | | | | | | |
| Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl | 636,000 | 41,541 | 41,541 | 0 | 41,541 | 0 | 100 | 7 | 636,000 | 0 | 0 |
| Safle Preswyl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr | 523,506 | 16,275 | 2,963 | 12,835 | 15,798 | (477) | 97 | 3 | 523,506 | 0 | 0 |
| Grant Enable | 93,200 | 1,344 | 1,344 | 0 | 1,344 | 0 | 100 | 1 | 93,200 | 0 | 0 |
| Grant TRIP Cynllun Landlord | 147,576 | 23,000 | 22,454 | 0 | 22,454 | (546) | 98 | 15 | 147,576 | 0 | 0 |
| Grant TRIP Prynwr tro cyntaf | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | 0 | 0 |
| Tai fforddiadwy | 30,650 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,650 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,630,932** | **82,160** | **68,301** | **12,835** | **81,136** | **(1,024)** | **99** | **5** | **1,630,932** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CRT Tai** | | | | | | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | (200,000) | (50) |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 6,120,000 | 35,000 | 0 | 32,170 | 32,170 | (2,830) | 92 | 1 | 6,120,000 | 0 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 537,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 500,000 | (37,000) | (7) |
| Gwaith Amgylcheddol | 750,000 | 0 | 208 | 13,749 | 13,957 | 13,957 | 0 | 2 | 750,000 | 0 | 0 |
| Prynu Eiddo Presennol a datblygu eiddo newydd | 9,230,000 | 1,010,000 | 379,501 | 182,482 | 561,983 | (448,017) | 56 | 6 | 7,680,000 | (1,550,000) | (17) |
| Ailfodelu Llawr Y Dref | 2,218 | 0 | 2,218 | 350 | 2,568 | 2,568 | 0 | 0 | 2,218 | (0) | 100 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 30,000 | 14,990 | 16,440 | 31,430 | 1,430 | 105 | 9 | 350,000 | 0 | 0 |
| Risg Tân | 450,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 300,000 | (150,000) | (33) |
| Tir Halogedig | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 0 | 0 |
| SATC | 1,172,875 | 50,000 | 59,009 | 2,820 | 61,828 | 11,828 | 124 | 5 | 1,000,000 | (172,875) | (15) |
| **CYFANSWM** | **19,032,093** | **1,125,000** | **455,925** | **248,012** | **703,937** | **(421,063)** | **63** | **4** | **16,922,218** | **(2,109,875)** | **(11)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | | | | | | |
| Mynediad i'r Anabl mewn Adeiladau Addysgol | 500,000 | 25,000 | 7,485 | 15,409 | 22,894 | (2,106) | 92 | 5 | 500,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Adeiliadau Addysg | 2,034,000 | 5,000 | 3,346 | 0 | 3,346 | (1,654) | 67 | 0 | 2,034,000 | 0 | 0 |
| Diogelwch Ysgolion | 200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50,000 | (150,000) | (75) |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band A | 5,409,861 | 0 | 0 | 2,797 | 2,797 | 2,797 | 0 | 0 | 148,187 | (5,261,674) | (97) |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif - Moderneiddio Band B | 2,050,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 120,000 | (1,930,000) | (94) |
| Grant Cyfalaf Dechra'n Deg | 39,276 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 39,276 | 0 | 0 |
| Cynyddu'r capasiti ar gyfer cymhorthdal gofal plant | 1,569,197 | 100,000 | 100,813 | 9,864 | 110,677 | 10,677 | 111 | 7 | 933,722 | (635,475) | (40) |
| **CYFANSWM** | **11,802,334** | **130,000** | **111,644** | **28,070** | **139,715** | **9,715** | **107** | **1** | **3,825,185** | **(7,977,149)** | **(68)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Economaidd ac Adfywio** | | | | | | | | | | | |
| Gwaith ar Ystaffell Ffitrwydd Plas Arthur | 102,864 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 102,864 | 0 | 0 |
| Gwelliannau Hamdden | 250,000 | 0 | 170 | 0 | 170 | 170 | 0 | 0 | 250,000 | 0 | 0 |
| Porth Twristiaeth | 1,076,233 | 50,000 | 0 | 80,944 | 80,944 | 30,944 | 162 | 8 | 700,000 | (376,233) | (35) |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1,553,764 | 748,000 | 353,874 | 7,078 | 360,952 | (387,048) | 48 | 23 | 1,553,764 | 0 | 0 |
| Isadeiledd Strategol Llangefni | 231,360 | 35,000 | 0 | 5,280 | 5,280 | (29,720) | 15 | 2 | 231,360 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - System Gynllunio | 15,252 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 15,252 | 0 | 0 |
| Datblygu Economaidd a Lles Amgylcheddol | 95,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 95,000 | 0 | 0 |
| Llithfra Porth y Wrach - Camerau Gorfodi | 30,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 30,000 | 0 | 0 |
| Datblygu Safle Ysgol TRIP | 7,222 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7,222 | 0 | 0 |
| Datblygu Economiadd - I Geisio Cyllid Cyfatebol | 64,150 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 64,150 | 0 | 0 |
| Grant AOHN - Maes Chwarae Antur, Parc y Morglawdd | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **3,525,845** | **833,000** | **354,043** | **93,303** | **447,346** | **(385,654)** | **54** | **13** | **3,149,612** | **(376,233)** | **(11)** |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Gwariant Gwirioneddol (£) | Gwariant a Ymrwymwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad i'r Proffil (£) | Gyllideb a Broffiliwyd a Wariwyd (%) | Gyllideb Flynyddol a Wariwyd (%) | Gwariant a Ragamcenir (£) | (Tan)/ Gorwariant a Ragamcenir (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Priffyrdd** | | | | | | | | | | | |
| Uwchraddio Peiriannau Talu ac Arddangos Mewn Meysyd | 30,000 | 30,000 | 0 | 30,307 | 30,307 | 307 | 101 | 101 | 30,307 | 307 | 1 |
| Cerbydau | 593,367 | 105,000 | 0 | 105,256 | 105,256 | 256 | 100 | 18 | 593,367 | 0 | 0 |
| Ailwynebu Priffyrdd | 1,363,582 | 137,955 | 0 | 0 | 0 | (137,955) | 0 | 0 | 1,363,582 | 0 | 0 |
| Grant Adnewyddu Priffyrdd | 599,414 | 60,414 | 0 | 0 | 0 | (60,414) | 0 | 0 | 599,414 | 0 | 0 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares (LIC) | 63,000 | 60,000 | 65,245 | 0 | 65,245 | 5,245 | 109 | 104 | 65,245 | 2,245 | 4 |
| Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth (LIC) | 136,000 | 136,000 | 135,982 | 0 | 135,982 | (18) | 100 | 100 | 136,000 | 0 | 0 |
| Lliniaru Llifogydd yn Llansadwrn | 34,922 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5,000 | (29,922) | (86) |
| Astudiaethau Traenio Amlwch a Chaergybi | 69,845 | 0 | 2,285 | 0 | 2,285 | 2,285 | 0 | 3 | 69,845 | 0 | 0 |
| Buddsoddi i Arbed - Cerbydau | 72,980 | 41,000 | 0 | 40,873 | 40,873 | (127) | 100 | 56 | 72,980 | 0 | 0 |
| Gwaith Grant Graddfa Fechan | 739,921 | 6,000 | 0 | 5,900 | 5,900 | (100) | 98 | 1 | 639,921 | (100,000) | (14) |
| Teithio Llesol | 200,000 | 30,000 | 26,150 | 3,776 | 29,926 | (74) | 100 | 15 | 200,000 | 0 | 0 |
| A545 Biwmares | 24,727 | 5,132 | 5,132 | 0 | 5,132 | 0 | 100 | 21 | 24,727 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Diogelu'r Ffyrdd | 478,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 478,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Ffyrdd Gwydyn | 105,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 85,000 | (20,000) | (19) |
| Cronfa Trafnidiaeth Lleol - Parcio a Rhannu a Gaerwen | 242,000 | 2,987 | 18,593 | 0 | 18,593 | 15,606 | 622 | 8 | 392,000 | 150,000 | 62 |
| Cronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol - Gwaith gwella'r Arl | 49,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 49,000 | 0 | 0 |
| Cronfa Trawsnewid Cerbydau - Pwyntiau gwefru Cerbyda | 85,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 85,000 | 0 | 0 |
| Hyb Porth Caergybi | 139,443 | 64,163 | 40,367 | 25,712 | 66,079 | 1,916 | 103 | 47 | 139,443 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **5,026,201** | **678,651** | **293,754** | **211,824** | **505,578** | **(173,073)** | **74** | **10** | **5,028,831** | **2,630** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Eiddo** | | | | | | | | | | | |
| Adnewyddu Asedau Cyfredol | 918,773 | 50,000 | 92,425 | 0 | 92,425 | 42,425 | 185 | 10 | 918,773 | 0 | 0 |
| Eiddo - Buddsoddi i Arbed | 272,000 | 270,000 | 271,352 | 0 | 271,352 | 1,352 | 101 | 100 | 272,000 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Mânddaliadau | 100,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 100,000 | 0 | 0 |
| Fferm Cromlech | 3,172 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3,172 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,293,945** | **320,000** | **363,777** | **0** | **363,777** | **43,777** | **114** | **28** | **1,293,945** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Trawsnewid** | | | | | | | | | | | |
| TGCh - Isadeiledd Craidd | 309,898 | 40,000 | 23,000 | 0 | 23,000 | (17,000) | 57 | 7 | 309,898 | 0 | 0 |
| TGCh - Adnewyddu Cyfrifiaduron | 121,000 | 50,000 | 31,135 | 28,179 | 59,314 | 9,314 | 119 | 49 | 121,000 | 0 | 0 |
| TGCh - Cysylltu Môn i drosglwyddo PSBA | 15,169 | 15,619 | 0 | 15,619 | 15,619 | (0) | 100 | 103 | 15,169 | 0 | 0 |
| TGCh - Uwchraddio Ystafelloedd Gyfarfod | 19,964 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 19,964 | 0 | 0 |
| Hwb TG Isadeiled | 63,124 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 63,124 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **529,155** | **105,619** | **54,135** | **43,798** | **97,933** | **(7,686)** | **93** | **19** | **529,155** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cynllunio** | | | | | | | | | | | |
| Prosiect Hyb Neuadd y Farchnad, Caergybi | 281,000 | 20,000 | 0 | 17,450 | 17,450 | (2,550) | 87 | 6 | 281,000 | 0 | 0 |
| Partneriaeth Tirwedd Caergybi | 143,300 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 65,000 | (78,300) | (55) |
| Adfywio Caergybi (THI Cam II) | 900,000 | 17,500 | 0 | 17,552 | 17,552 | 52 | 100 | 2 | 500,000 | (400,000) | (44) |
| **CYFANSWM** | **1,324,300** | **37,500** | **0** | **35,002** | **35,002** | **(2,498)** | **93** | **3** | **846,000** | **(478,300)** | **(36)** |
| | | | | | | | | | | | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | | | | | | |
| ICF | 1,732,800 | 3,000 | 3,306 | 0 | 3,306 | 306 | 110 | 0 | 1,732,800 | 0 | 0 |
| Hyb Cymunedol Bryn Hwfa | 13,155 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13,155 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Crigyll | 37,978 | 0 | 1 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 37,978 | 0 | 0 |
| Adnewyddu Plas Mona | 83,371 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 83,371 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **1,867,304** | **3,000** | **3,306** | **0** | **3,306** | **306** | **110** | **0** | **1,867,304** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM** | **46,032,109** | **3,314,930** | **1,704,886** | **672,843** | **2,377,729** | **(937,201)** | **72** | **5** | **35,093,181** | **(10,938,927)** | **(24)** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **28 MEDI 2020** |
| **PWNC:** | **MONITRO CYLLIDEB Y CRT, CHWARTER 1 2020/21** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **STEPHEN MOORE**<br>01248 752634<br>StephenMoore@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **d/b** |

**A - Argymhelliad/argymhellion a Rheswm/rhesymau**

**1.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi'r canlynol:-

**(i)** Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) am Chwarter 1 2020/21.

**(ii)** Yr alldro rhagdybiedig ar gyfer 2020/21.

**2. Cefndir**

**(i)** Ym mis Mawrth 2020, cytunodd y Cyngor ar gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 a oedd yn dangos gwarged cynlluniedig o £7.8m.

**(ii)** Roedd y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2020/21 yn £19.1m, yn cynnwys lwfans am wariant nad oedd wedi'i gwblhau o gyllideb gyfalaf 2019/20.

**(iii)** Roedd y cyfuniad o'r gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf wedi'i haddasu yn rhoi diffyg cyllidebol a gynlluniwyd o £7.2m, a fyddai'n cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT.

**(iv)** Mae'r CRT wedi'i 'glustnodi' ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo ei gronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol ac ni fedrir ychwaith ddefnyddio arian o'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT.

**3.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol y CRT am y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 30 Mehefin 2020.

**4. Trosolwg**

**(i)** Mae'r sefyllfa ariannol refeniw ar gyfer Ch1 yn dangos tanwariant o £220k. Mae'r rhagolygon incwm £50k yn is na'r gyllideb wreiddiol a rhagwelir bydd gwariant £50k yn is na'r gyllideb wreiddiol, fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**(ii)** Mae'r gwariant cyfalaf £421k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae'r gwariant a ragwelir £2,112k yn is na'r gyllideb, fel yr eglurir isod. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad B.

**(iii)** Mae'r diffyg a ragwelir (yn cyfuno refeniw a chyfalaf) £2,112k yn is na'r gyllideb (gan leihau'r diffyg a gynlluniwyd i £4,976k), yn bennaf oherwydd gwariant cyfalaf is na gynlluniwyd.

**5. Incwm**

**(i)** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd yr incwm a dderbyniwyd £52k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd, fel y nodir isod.

**(ii)** Roedd incwm rhent £52k yn uwch na'r gyllideb. Fodd bynnag, mae'r gyllideb yn rhagdybio y bydd eiddo newydd a ohiriwyd yn cael eu gosod yn ystod y flwyddyn (gweler yr adran 'cyfalaf' isod hefyd). O ganlyniad, rhagwelir y bydd incwm £50k yn is na'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**(iii)** Mae incwm Taliadau Gwasanaeth, sy'n seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd, £1k yn unig yn uwch na'r gyllideb. Adolygwyd y gyllideb yn llwyr yn dilyn tanwariant sylweddol yn y gyllideb y llynedd.

**(iv)** Mae'r cynllun 30 mlynedd yn cynnwys darpariaeth o £280k tuag at ddyledion drwg; 1.5% o gyfanswm yr incwm rhent. Roedd hyn yn gynnydd o 1.25% yn y flwyddyn flaenorol gan fod y Credyd Cynhwysol yn parhau i gael ei gyflwyno. Dim ond pan nad oes gobaith realistig o adennill ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus y bydd dyled ddrwg yn codi. Roedd y ddarpariaeth wirioneddol yn y cyfrif blynyddol ar gyfer 2019/20 yn £118k, dim ond 0.65% o gyfanswm yr incwm rhent, gan adlewyrchu'r ymdrechion a wnaed i sicrhau fod y rhent sy'n ddyledus yn cael ei adennill.

Gwnaed y darpariaethau hyn cyn i'r pandemig Covid 19 gael effaith ar Ynys Môn. Ar ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd yr ôl-ddyledion rhent yn 2.41% o'r incwm rhent (£438k). Ar ddiwedd mis Mehefin, roedd wedi codi i 3.4% (£625k), cynnydd o 50%. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd faint o'r cynnydd hwn fydd yn cael ei adennill dros gyfnod o amser, neu faint ohono na fydd modd ei adennill ac y bydd rhaid ei ddileu. Mae profiad blaenorol yn awgrymu fod y ddarpariaeth yn addas ar hyn o bryd, ond bydd angen cadw llygaid arno.

**(v)** Y rhagolygon cyffredinol ar gyfer incwm erbyn hyn yw gostyngiad o £50k o gymharu â'r gyllideb wreiddiol erbyn diwedd y flwyddyn.

**6. Gwariant nad oedd yn ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Ar ddiwedd y chwarter cyntaf, roedd gwariant nad oedd yn ymwneud â gwaith trwsio a chynnal a chadw £12k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd effeithiau Covid 19, lle cafodd staff eu hadleoli gan olygu bod gwaith arall, fel y diwrnodau glanhau, wedi cael eu canslo. Adolygwyd y rhagolwg ac, er y disgwylir i gyfanswm y gwariant fod yn unol â'r gyllideb o hyd, cymerwyd i ystyriaeth leihad yng ngwaith y tîm cyfranogiad tenantiaid a'r costau ychwanegol o ddatblygu'r modiwl gweithio symudol.

**7. Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw**

**(i)** Mae'r Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) yn dangos tanwariant o £226k. Mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i sefyllfa Covid 19, gan mai gwaith trwsio hanfodol yn unig sy'n cael ei wneud ac mae hyn wedi arwain at ostyngiad yng nghostau deunyddiau a'r defnydd o isgontractwyr. Mae'n anodd meintioli effaith cynnydd mewn gweithgarwch pan fydd modd cynnig gwasanaeth arferol, ond gwnaed rhagolwg ceidwadol o £50k o ostyngiad mewn gwariant o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Bydd y sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

**(ii)** Mae gwariant ar staff cynnal a chadw adeiladau nad ydynt yn rhai'r HMU Tai £14k yn is na'r gyllideb a broffiliwyd ar ddiwedd Ch1. Rhagwelir y dylai'r gwariant fod yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**(iii)** Roedd gorwariant o £83k ar waith Trwsio a Chynnal a Chadw arall o gymharu â'r gyllideb a broffiliwyd. Mae hyn yn bennaf oherwydd natur dymhorol gwaith cynnal tiroedd, felly, rhagwelir y bydd gwariant yn unol â'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn.

**8. Addasiadau Diwedd Blwyddyn**

**(i)** Mae'r pennawd hwn yn cynnwys eitemau o wariant (costau cyllido cyfalaf ac ad-daliadau o'r Gronfa Gyffredinol) sy'n rhan o'r broses gyfrifo ar ddiwedd y flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni ragwelir unrhyw newidiadau.

**9. Gwariant Cyfalaf**

**(i)** Roedd y rhaglen gyfalaf wreiddiol, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2020, yn werth cyfanswm o £19,144k a oedd am gael ei gyllido o'r Lwfans Gwaith Trwsio Mawr (£2,660k), grantiau cyfalaf eraill (£1,450k) a chyfraniad o £15,034k o gronfa wrth gefn y CRT. Mae hyn yn cynnwys gwariant a ddygwyd ymlaen o raglen gyfalaf 2019/20. Fodd bynnag, nid oedd angen yr holl wariant a ddygwyd ymlaen, felly, erbyn hyn mae yna gyllideb gros ddiwygiedig o £19,032k a chyllideb net o £14,922k (yn cynnwys cyllid grantiau a'r lwfans Gwaith Trwsio Mawr). Yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol, rhagwelir y bydd y gwariant gwirioneddol yn £16,920k, sydd £2,112k yn is na'r gyllideb gros ddiwygiedig.

**(ii)** Mae Covid 19 wedi cael effaith ddifrifol ar brosiectau cyfalaf, gan arwain at oedi sylweddol ar brosiectau. Mae hynny'n arbennig o wir o ran caffael cyn eiddo hawl i brynu oherwydd bod y farchnad dai wedi cael ei hatal i bob pwrpas. Erbyn hyn, mae'r rhagolwg cyfalaf wedi cael ei adolygu'n llwyr ar y sail hon, a rhagwelir y bydd gwariant £2,112k yn is na'r gyllideb ddiwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B isod.

**(iii)** Mae'r tanwariant ar wariant cyfalaf yn golygu gostyngiad cyffelyb yn y swm a gyllidir o gyfrif refeniw'r CRT. Mae'r balans ar gael wedyn i gyllido prosiectau a ohiriwyd tan y flwyddyn nesaf.

**10. Balans y CRT**

**(i)** Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £8,597k. Roedd y gyllideb ddiwygiedig yn caniatáu ar gyfer defnyddio £7,088k o'r balans hwn. Fodd bynnag, bydd y tanwariant a ragwelir ar y gyllideb gyfalaf yn golygu bod swm ychwanegol o £2,112k yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn. Bydd hyn yn rhoi balans o £3,621k i'r gronfa wrth gefn erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r balans hwn wedi cael ei glustnodi, felly, nid yw ar gael ond i gyllido gwariant y CRT i'r dyfodol.

| | | |
|---|---|---|
| **B -** | **Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham y gwnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn/** | |
| | d/b | |
| **C -** | **Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** | |
| | Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith. | |
| **CH -** | **A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | |
| | Ydi | |
| **D -** | **A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | |
| | Ydi | |
| **DD -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth** (gorfodol) | |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | d/b – adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Rhan o'r ymgynghoriad â'r UDA |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| **5** | **Eiddo** | |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Sgriwtini** | |
| **8** | **Aelodau Lleol** | |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |
| **F -** | **Atodiadau:** | |
| | Atodiad A – Gwariant a rhagolygon refeniw hyd at ddiwedd chwarter 1.<br>Atodiad B – Gwariant a rhagolygon cyfalaf hyd at ddiwedd chwarter 1. | |
| **FF -** | **Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | |
| | • Cyllideb y CRT) am 2020/21 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2020).<br>• Cynllun Busnes 30 Mlynedd y CRT 2020/50 (fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mehefin 2020). | |

**ATODIAD A**

## *CYFRIF CRT 2020/21*

| | Cyllideb Flynyddol 2020/21 | Cyllideb wedi ei phroffilio hyd at Fis 3 | Gwirioneddol hyd at Fis 3 | Amrywiad hyd at Fis 3 | Rhagolygon Diwedd Blwyddyn | Amrywiad Diwedd Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| **CYFRIF REFENIW** | | | | | | |
| **Incwm** | | | | | | |
| Anheddau | (18,407,000) | (4,601,751) | (4,653,505) | (51,754) | (18,357,000) | 50,000 |
| Garejys | (218,000) | (54,501) | (54,442) | 59 | (218,000) | 0 |
| Taliadau Gwasanaeth | (212,000) | (53,000) | (54,331) | (1,331) | (212,000) | 0 |
| Arall | (199,000) | (39,000) | (37,475) | 1,525 | (199,000) | 0 |
| Darpariaeth ar gyfer Dyledion Drwg | 280,000 | 0 | 0 | 0 | 280,000 | 0 |
| **CYFANSWM INCWM** | **(18,756,000)** | **(4,748,252)** | **(4,799,753)** | **(51,501)** | **(18,706,000)** | **50,000** |
| **Gwariant nad yw'n ymwneud â gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Cyfranogiad Tenantiaid | 136,170 | 34,029 | 20,266 | (13,763) | 122,170 | (14,000) |
| Gweinyddu Rhenti | 450,220 | 112,391 | 119,071 | 6,680 | 450,220 | 0 |
| Rheoli Stadau | 247,430 | 61,785 | 41,307 | (20,478) | 247,430 | 0 |
| Gwariant Refeniw Arall | 899,340 | 224,760 | 240,355 | 15,595 | 913,340 | 14,000 |
| **Cyfanswm y gwariant nad yw'n ymwneud â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **1,733,160** | **432,965** | **420,999** | **(11,966)** | **1,733,160** | **0** |
| **Trwsio a Chynnal a Chadw** | | | | | | |
| Uned Cynnal a Chadw Tai (HMU) | 3,112,000 | 777,863 | 551,911 | (225,952) | 3,062,000 | (50,000) |
| Staff Cynnal a Chadw Tai (dim HMU) | 926,020 | 231,179 | 216,886 | (14,293) | 926,020 | 0 |
| Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw arall | 448,200 | 112,059 | 195,984 | 83,925 | 448,200 | 0 |
| **Cyfanswm Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw** | **4,486,220,** | **1,121,101** | **964,781** | **(156,320)** | **4,436,220** | **(50,000)** |
| **Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | | | | | | |
| Taliadau Cyllido Cyfalaf | 3,093,000 | 0 | 0 | 0 | 3,093,000 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaeth Tai | 790,630 | 0 | 0 | 0 | 790,630 | 0 |
| Ad-daliad o'r Gwasanaethau Canolog | 818,990 | 0 | 0 | 0 | 818,990 | 0 |
| **Cyfanswm yr Addasiadau Diwedd Blwyddyn** | **4,702,620** | **0** | **0** | **0** | **4,702,620** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT REFENIW** | **10,922,000** | **1,554,066** | **1,385,780** | **(168,286)** | **10,872,000** | **(50,000)** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM REFENIW (GWARGED) / DIFFYG** | **(7,834,000)** | **(3,194,186)** | **(3,413,973)** | **(219,787)** | **(7,834,000)** | **0** |
| | | | | | | |
| **CYFRIF GWARIANT CYFALAF** | | | | | | |
| Gwariant 2020/21 | 19,032,093 | 1,125,000 | 703,937 | (421,063) | 16,920,000 | (2,112,093) |
| | | | | | | |
| Lwfans ar gyfer Gwaith Trwsio Mawr | (2,660,000) | 0 | 0 | 0 | (2,660,000) | 0 |
| **Grantiau eraill** | (1,450,000) | 0 | 0 | 0 | (1,450,000) | 0 |
| **CYFANSWM CYFALAF (GWARGED) / DIFFYG** | **14,922,093** | **1,125,000** | **703,937** | **(421,063)** | **12,810,000** | **(2,112,093)** |
| | | | | | | |
| **(CYNNYDD) / GOSTYNGIAD NET YNG NGHRONFA WRTH GEFN Y CRT** | **7,088,093** | **(2,069,186)** | **(2,710,036)** | **(640,850)** | **4,976,000** | **(2,112,093)** |
| | | | | | | |
| **Balans Agoriadol y CRT** | (8,597,000) | | | | (8,597,000) | |
| | | | | | | |
| **(Cynnydd) / Gostyngiad Net yng Nghronfa wrth Gefn y CRT** | 7,088,093 | | | | 4,976,000 | |
| | | | | | | |
| **Balans Cau'r CRT** | **1,508,097** | | | | **(3,621,000)** | |

| Gwasanaeth | Cyllideb Flynyddol (£) | Cyllideb a Broffiliwyd (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Amrywiad o gymharu â'r Proffil (£) | Gwariant a Rhagamcenir (£) | (Tan)/Gorwariant a Ragamcenir (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CRT Tai** | | | | | | |
| Contract Gwres Canolog | 400,000 | 0 | 0 | 0 | 200,000 | (200,000) |
| Contract Gwaith Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 6,120,000 | 35,000 | 32,170 | (2,830) | 6,120,000 | 0 |
| Gwella Perfformiad Ynni | 537,000 | 0 | 0 | 0 | 500,000 | (37,000) |
| Gwaith Amgylcheddol | 750,000 | 0 | 13,957 | 13,957 | 750,000 | 0 |
| Prynu eiddo presennol / Datblygu eiddo newydd | 9,230,000 | 1,010,000 | 561,983 | (448,017) | 7,680,000 | (1,550,000) |
| Ailfodelu'r Stoc Cyfredol | 0 | 0 | 2,569 | 2,569 | 0 | 0 |
| Addasiadau Sector Cyhoeddus | 350,000 | 30,000 | 31,430 | 1,430 | 350,000 | 0 |
| Risg Tân | 450,000 | 0 | 0 | 0 | 300,000 | (150,000) |
| SATC | 1,175,093 | 50,000 | 61,828 | 11,828 | 1,000,000 | (175,093) |
| Gwaith Adfer | 20,000 | 0 | 0 | 0 | 20,000 | 0 |
| **Cyfansymiau ar gyfer y CRT Tai** | **19,032,093** | **1,125,000** | **703,937** | **(421,063)** | **16,920,000** | **(2,112,093)** |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **28 MEDI 2019** |
| **PWNC:** | **CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2021/22 – 2023/24** |
| **DEILYDD (ION) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **PENNAETH YGWASANAETH:** | **MARC JONES – CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>**2601**<br>**rmjfi@ynysmon.gov.uk** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

Mae gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o bennu'r gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol y sonnir amdano yn yr adroddiad.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi ystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?**

D/B

**C - Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

D/B

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Cafodd drafft terfynol yr adroddiad ei drafod a'i gytuno arno gan yr UDA – roedd y Prif Weithredwr yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol - y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Cafodd drafft terfynol yr adroddiad ei drafod a'i gytuno arno gan yr UDA – roedd y Swyddog Monitro yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall / eraill** | |

| E - | Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Atodiad 2 - Amcangyfrif 3 blynedd manwl o'r Gyllideb Ddisymud
Atodiad 3 - Rhagdybiaethau'r Cynllun

**FF - Papurau cefndir (cysylltwch â'r awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

**ATODIAD 1**

**CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2021/22 – 2023/24**

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi lefel yr adnoddau y mae'r Cyngor yn debygol o fod eu hangen am y tair blynedd ariannol nesaf ac yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwyso'r angen am adnoddau gyda'r cyllid sydd ar gael.

**1.2** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei gwblhau yn ystod cyfnod o ansicrwydd sylweddol mewn perthynas ag economi'r DU yn sgil y pandemig byd-eang a'r trafodaethau parhaus ynglŷn â Brexit. Mae'r ddau'n ddigwyddiad digynsail a fydd yn cael effaith ar lefelau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol. Erbyn hyn, y gobaith oedd y byddai Llywodraeth y DU wedi cwblhau ei Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr yn unol â'r cynllun, gyda hynny'n rhoi rhywfaint o sicrwydd i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'i gyllido am y 3 blynedd nesaf. Nid yw'r adolygiad hwn wedi'i gwblhau hyd yma ac mae'n annhebygol y caiff ei gwblhau cyn y bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r fersiwn drafft o'r Setliad Llywodraeth Leol.

**1.3** Mae ansicrwydd o hyd ynghylch yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r setliad drafft a'r fersiwn terfynol o Setliad Llywodraeth Cymru. Mewn cyfnod arferol, byddai'r Cyngor yn derbyn setliad drafft yn Hydref a'r setliad terfynol yn nes at y Nadolig. Ni dderbyniwyd setliad drafft 2020/21 tan fis Ionawr 2020, a'r setliad terfynol tan fis Mawrth 2020, felly, mae'r cynsail ar gyfer setliad hwyr wedi'i osod.

**1.4** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cymryd i ystyriaeth y newidiadau y gwyddys amdanynt ac yn gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflog, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid Llywodraeth Cymru, pwysau demograffig a phwysau ar y gyllideb). Mae hefyd yn ystyried unrhyw bwysau cyllidebol sy'n deillio o Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2017 – 2022.

## 2. SEFYLLFA ARIANNOL GYFREDOL Y CYNGOR

**2.1** Ym mis Mawrth 2020, gosododd y Cyngor y gyllideb ganlynol:-

**Tabl 1**
**Cyllideb Refeniw 2020/21**

| | £'m |
|---|---:|
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2019/20** | **135.210** |
| Newidiadau Contractyddol a Newidiadau Eraill yr ymrwymwyd iddynt | 1.428 |
| Chwyddiant Tâl a Phrisiau | 3.537 |
| Trosglwyddo Grantiau a Chyfrifoldebau Newydd i'r Setliad | 0.048 |
| Pwysau Cyllidebol | 2.230 |
| Arbedion Cyllidebol | (0.307) |
| **Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2020/21** | **142.146** |
| | |
| **Wedi'i gyllido gan** | |
| Cyllid Allanol Cyfun | 101.005 |
| Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm) | 41.141 |
| **Cyfanswm Cyllid 2020/21** | **142.146** |

**2.2.** Gwelwyd cynnydd o 3.78% yn y cyllid allanol cyfun (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a'r grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad) a chynyddodd debyd y Dreth Gyngor 4.9%. Cynyddodd y tâl Band D 4.5% ac roedd gweddill y cynnydd o ganlyniad i newid yn sylfaen y dreth.

**2.3.** Yn 2018/19, tanwariwyd £0.308m yn y gyllideb refeniw net. Parhaodd y Gwasanaethau Oedolion (£1.085m dros y gyllideb) a'r Gwasanaethau Plant (£0.156m dros y gyllideb) â'r perfformiad a welwyd yn 2018/19 ond roedd gorwariant y gyllideb yn y Gwasanaethau Plant gryn dipyn yn is nag yn 2018/19 yn dilyn y cynnydd o £1.4m yng nghyllideb refeniw graidd 2019/20. Gwrthbwyswyd y gorwariant hwn drwy danwario mewn gwasanaethau eraill, a oedd yn dilyn ymgyrch i ostwng gwariant ac i sicrhau arbedion unwaith ac am byth ar gostau cyllido cyfalaf. Roedd dechrau'r pandemig byd-eang hefyd yn cyfyngu ar wariant yn ystod pythefnos olaf y flwyddyn ariannol a gafodd rywfaint o effaith.

**2.4.** Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r diffyg sylfaenol yn y gyllideb, roedd cyllideb 2020/21 yn cynnwys £0.98m yn ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion, £0.25m ar gyfer cludiant i'r ysgol, £0.20m ar gyfer integreiddio ysgolion uwchradd a hefyd canslwyd toriad arfaethedig o £0.8m yng nghyllideb datganoledig ysgolion a ohiriwyd yn 2019/20. Hefyd cyllidwyd cyllideb 2020/21 gost blwyddyn lawn y cynnydd yng Nghyfraniadau Cyflogwyr Pensiynau Athrawon (£0.564m) a chynyddodd cyllideb Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor £0.627m i dalu am y nifer gynyddol o hawlwyr.

**2.5.** Arweiniodd y tanwariant net yn 2019/20 a'r symudiad rhwng cronfeydd wrth gefn at gynyddu balans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i £7.060m o £5.912m. Mae hyn yn cyfateb i 4.96% o gyllideb refeniw net 2020/21, sy'n agos iawn at y ffigwr targed isaf o 5% a bennwyd gan y Cyngor.

**2.6.** Y ffactor allweddol sy'n anhysbys yw effaith y pandemig byd-eang ar gyllid y Cyngor. Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf 2020, mae'n bosibl, o ganlyniad i golli incwm, cynnydd yn nifer yr achosion yng nghynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, colledion wrth gasglu'r Dreth Gyngor a galw ychwanegol am wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau gofal cymdeithasol, wrth i'r gymdeithas symud o'r cyfyngiadau gallai arwain at orwario posibl yn 2020/21 o tua £3.5m. Mae cryn ansicrwydd ynghylch y sefyllfa a bydd llawer yn dibynnu ar lefel y cymorth ariannol ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu dros y misoedd nesaf. Bydd yn rhaid cyllido unrhyw orwariant ar ddiwedd y flwyddyn ariannol o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ac mae'n debygol y bydd y £7m yn llawer is ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2020/21.

**2.7.** Roedd lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a gedwir gan y Cyngor i gyllido prosiectau yr ymrwymwyd iddynt ar sail unwaith ac am byth, i gyllido costau a ragwelir yn y dyfodol (e.e. colledion nad oedd yswiriant ar eu cyfer) a chyllid grant nad oedd wedi ei ddefnyddio yn £8.76m ar 31 Mawrth 2020, cynnydd o £0.032m yn ystod y flwyddyn. Er bod modd trosglwyddo rhai o'r cronfeydd hyn yn ôl i'r balansau cyffredinol e.e. prosiectau yr ymrwymwyd iddynt ond sydd ddim yn symud ymlaen, mae'r sgôp yn gyfyngedig ac ni fydd yn arwain at gynnydd sylweddol yn lefel y balansau cyffredinol.

**2.8.** Mae lefel balansau ysgolion wedi gostwng o uchafbwynt o £2.46m yn 2015/16 i £0.197m ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20, gostyngiad o 92% mewn 5 blynedd. Mae'r gostyngiad hwn i'w briodoli i'r anawsterau ariannol sy'n wynebu'r rhan fwyaf o ysgolion y Cyngor. Roedd mwyafrif yr ysgolion yn bwriadu defnyddio'r balansau a oedd yn weddill i gydbwyso eu cyllideb yn 2020/21. Fodd bynnag, gan fod ysgolion wedi cau yn ystod y rhan fwyaf o dymor yr haf bydd hynny'n sicrhau rhai arbedion i ysgolion a rhagwelir y bydd lefel gyffredinol balansau ysgolion yn cynyddu erbyn diwedd 2020/21.

**2.9.** Roedd cyllideb refeniw 2020/21 yn cynnwys cylch arall o arbedion o oedd werth cyfanswm o £0.307m, er bod y ffigwr hwn yn sylweddol is na’r arbedion a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn mynd â chyfanswm yr arbedion a nodwyd gan y Cyngor ers 2013/14 i £24.31m. Mae'n anodd cymharu faint o arbedion y mae pob gwasanaeth wedi'u cyfrannu gan fod nifer o ffactorau eraill yn newid y cyllidebau ar gyfer pob gwasanaeth dros amser. Mae’r rhain yn cynnwys: trosglwyddo elfennau gwasanaeth rhwng 2 brif wasanaeth, grantiau a chyfrifoldebau newydd sy'n trosglwyddo i mewn neu allan o wasanaeth, effaith arfarnu swyddi ac unrhyw gyllid ychwanegol sydd wedi cael ei ddyrannu i wasanaethau i dalu am newidiadau yr ymrwymwyd iddynt neu bwysau ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae cymhariaeth o gyfanswm yr arbedion y mae pob gwasanaeth wedi'u cyfrannu at gyllideb 2020/21 yn dangos ym mha wasanaethau y gwelwyd y toriadau mwyaf. Gweler y gymhariaeth hon yn Nhabl 2 isod:-

**Tabl 2**
**Arbedion fesul Gwasanaeth 2013/14 i 2020/21 o gymharu â Chyllideb Refeniw Net Cyllideb 2020/21**

| Gwasanaeth | Cyfanswm Arbedion 2013/14 i 2020/21 £ '000 | 2020/21 Cyllideb £ '000 | 2013/14 i 2020/21 Arbedion fel % o Gyllideb 2020/21 |
|---|---|---|---|
| Ysgolion | 2,640 | 41,373 | 6.4% |
| Addysg Ganolog | 2,245 | 10,954 | 20.5% |
| Llyfrgelloedd, Diwylliant a Threftadaeth | 551 | 1,285 | 42.9% |
| Gwasanaethau Oedolion | 3,998 | 26,863 | 14.9% |
| Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc | 996 | 10,951 | 9.1% |
| Hamdden, Morwrol a Datblygu Economaidd | 1,430 | 1,882 | 76.0% |
| Tai | 614 | 1,168 | 52.6% |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | 6,825 | 15,208 | 44.9% |
| Rheoleiddio | 947 | 2,132 | 44.4% |
| Busnes y Cyngor | 335 | 1,668 | 20.1% |
| Adnoddau | 673 | 3,109 | 21.6% |
| Trawsnewid | 769 | 4,993 | 15.4% |
| Cyllidebau Corfforaethol | 2,593 | 20,560 | 12.6% |
| **Cyfanswm** | **24,616** | **142,146** | **17.3%** |

**2.10** Mae'r tabl uchod yn dangos bod rhywfaint o ddiogelwch wedi'i roi i Ysgolion, Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant, gyda'r gwasanaethau rheng flaen eraill yn darparu'r gyfran fwyaf o'r arbedion mewn perthynas â'u cyllidebau net. Yn ystod y broses o osod cyllideb 2020/21, daeth yn fwyfwy anodd i nodi arbedion cyllidebol yn y rhan fwyaf o’r gwasanaethau trwy arbedion effeithlonrwydd yn unig er, yn sgil gwell setliad na’r disgwyl ni welwyd fawr o angen gweithredu cynlluniau arbed arian.

**2.11** Mae'r gwasanaethau sydd wedi'u diogelu i raddau helaeth rhag arbedion cyllidebol (Ysgolion, Gwasanaethau Oedolion, Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc) a chyllidebau corfforaethol, sy'n anos eu lleihau, yn cyfrif am £99.747m o'r gyllideb net (70.1%), mae'r 3 gwasanaeth cefnogi (Busnes y Cyngor, Adnoddau a Thrawsnewid) yn cyfrif am £9.77m o'r gyllideb net (6.9%), sy'n gadael gweddill y gwasanaethau rheng flaen (Addysg Ganolog, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Threftadaeth, Hamdden, Morol, Datblygu Economaidd, Tai, Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a Rheoleiddio) sy'n cyfrif am £32.629m o'r gyllideb net (23.0%). Ers 2013/14, mae'r gwasanaethau rheng flaen hyn sydd heb eu diogelu wedi cyflwyno 51% o gyfanswm yr arbedion.

## 3 RHAGOLYGON ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DU

**3.1** Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU sy’n darparu holl gyllid Llywodraeth Cymru ac mae'r hyn sy'n digwydd gydag economi a chyllideb y DU yn effeithio'n uniongyrchol ar y cyllid a gaiff Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Mae asesiad o sefyllfa'r DU yn elfen bwysig o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

**3.2** Mae'r pandemig byd-eang, a'r camau y mae Llywodraeth y DU wedi'u cymryd i gefnogi'r economi ers mis Mawrth 2020, wedi newid y sefyllfa economaidd yn sylweddol, gyda benthyciadau bellach yn fwy na £2 triliwn, sydd dros 100% o CMC y wlad am y tro cyntaf ers mis Mawrth 1961. Disgwylir iddo gyrraedd ei lefel uchaf fel cyfran o CMC ers yr ail ryfel byd.

**3.3** Mae lefel gwariant y sector cyhoeddus yn 2021/22 yn dibynnu i raddau helaeth ar ba mor gyflym y mae'r economi'n gwella. Os bydd nifer yr achosion o goronafeirws yn y DU yn parhau'n isel, a bod hyn yn caniatáu i fwy o normalrwydd ddychwelyd, yna gall hyn ganiatáu adferiad siâp "V" a dylai hyn ganiatáu i fusnesau ail-gyflogi staff, gan gynyddu refeniw treth a lleihau'r gyllideb les. Mae hon yn farn optimistaidd iawn a gall yr adferiad fod yn fwy o siâp "U", lle nad yw'r adferiad yn ailddechrau tan Gwanwyn 2021 neu’n adferiad siâp "W", os bydd y wlad yn wynebu ail don o achosion o goronafeirws dros gyfnod y gaeaf.

**3.4** Digwyddiad arall a allai gael effaith sylweddol ar yr economi yw p’un ai a yw'r trafodaethau Brexit yn arwain at gytundeb rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Os na fydd y trafodaethau'n dod i gasgliad llwyddiannus, yna y canlyniad fydd Brexit heb gytundeb, a allai unwaith eto leihau maint economi'r DU a naill ai arwain at fenthyca uwch neu lai o wariant cyhoeddus.

**3.5** Fel ymateb i'r pandemig, mae'n debygol y bydd ymdrech i wario mwy ar y GIG, er mwyn cynyddu capasiti a hefyd codi cyflog gweithwyr iechyd a gofal. Unwaith eto, byddai'n rhaid cyllido hyn drwy drethi uwch, benthyca uwch neu doriadau mewn cyllidebau eraill. Gan nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud unrhyw ddatganiadau cyllideb hirdymor ers y pandemig, nid yw'n glir beth fydd strategaeth gyffredinol y gyllideb.

**3.6** Roedd twf cyflogau cyn y pandemig tua 3% ond gwelwyd gostyngiad sydyn erbyn mis Mai 2020 gydag enillion cyfartalog yn gostwng 1.5% o gymharu â'r un adeg y llynedd. Cytunwyd yn ddiweddar ar ddyfarniad tâl (nad yw’n ymwneud â dysgu) llywodraeth leol ar gyfer 2020/21 ar 2.75%. Mae hyn yn unol â dyfarniad cyflog athrawon o 2.75% a oedd yn weithredol o 1 Medi 2019. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi codiadau cyflog o 2.75% ar gyfer y rhan fwyaf o athrawon ond cynnydd uwch yn y cyflog cychwynnol a phwyntiau isaf y raddfa gyflog. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a fydd yr Undebau unwaith eto'n pwyso am godiadau cyflog uwch na chwyddiant yn 2021/22 ond, o ystyried y cynnydd arfaethedig yng nghyflogau athrawon, mae'n debygol y bydd yr Undebau'n pwyso am ddyfarniad cyflog uwch na chwyddiant.

**3.7** Mae chwyddiant tua 1% ar hyn o bryd a disgwylir iddo gynyddu'n araf dros y flwyddyn i ddod gan ddychwelyd i tua 2% erbyn diwedd 2021. Fodd bynnag, gallai effaith y pandemig a Brexit newid y rhagolygon hyn yn sylweddol. Gallai cyfyngiadau pellach orfodi prisiau i lawr ond gallai Brexit heb gytundeb gynyddu cost nwyddau a gaiff eu mewnforio.

**3.8** Ar hyn o bryd, mae cyfraddau llog yn 0.1%. O ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch yr adferiad economaidd, mae'n anodd rhagweld y newid mewn cyfraddau llog dros y misoedd nesaf ac mae posibilrwydd o gyfradd llog negyddol yn y dyfodol agos. Beth bynnag fydd ffurf yr adferiad economaidd, mae'n annhebygol y bydd cynnydd mawr mewn cyfraddau llog yn y tymor canolig, pan fydd y Llywodraeth yn ceisio cael y sector preifat i fuddsoddi er mwyn creu swyddi ac ysgogi'r economi.

**3.9** Yn amlwg, mae'r sefyllfa economaidd yn wael iawn ac, o ystyried y nifer fawr o ffactorau anhysbys, mae hefyd yn anodd iawn ei ragweld. Mae'r Prif Weinidog wedi'i gwneud yn glir na fydd cyfnod o galedi arall ac y bydd y Llywodraeth yn buddsoddi mewn isadeiledd cyhoeddus fel dull o helpu'r economi i wella. Os yw gwariant ar wasanaethau cyhoeddus i gael ei gynnal neu ei gynyddu, bydd angen naill ai mwy o fenthyca neu drethiant uwch ac nid yw'n glir a yw hwn yn llwybr y mae Llywodraeth Geidwadol am ei ddilyn.

## 4 CYLLIDEB LLYWODRAETH CYMRU

**4.1** Er gwaethaf cynnydd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn 2020/21, mae cyllideb Llywodraeth Cymru'n dal tua £300m yn is mewn termau real nag yr oedd yn 2010/11. Ers 2009/10, mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi gostwng 5%, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant. Er gwaethaf hyn, gwelwyd cynnydd o 20% yn y cyllid ar gyfer y Gwasanaethau Iechyd yn ystod y cyfnod hwn, tra bod y cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol wedi gostwng 22% (ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant a throsglwyddiadau)ac mae'r ffigwr hwn yn cynyddu i 35% os ydych chi'n eithrio cyllid ysgolion.

**4.2** Yn 2020/21, cynyddodd y cyllid grant ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru 4.3% mewn termau arian parod, sy'n gynnydd o 2.4% mewn termau real ar ôl caniatáu ar gyfer chwyddiant, o'i gymharu â chynnydd o 4.1% yng ngwariant dydd i ddydd Llywodraeth Cymru mewn termau arian parod, 2.2% mewn termau real. Derbyniodd Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnydd ychydig yn uwch o 4.57% mewn termau arian parod, 2.68% mewn termau real.

**4.3** Bwriad Llywodraeth y DU oedd cynnal adolygiad gwariant cynhwysfawr yn ystod haf 2019, a fyddai wedi rhoi syniad ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru am y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, gohiriwyd yr adolygiad hwn oherwydd y problemau'n ymwneud â Brexit a'r Etholiad Cyffredinol ym mis Rhagfyr 2019. Yna roedd y Llywodraeth Geidwadol newydd yn bwriadu cynnal yr adolygiad yn ystod haf 2020, ond eto canslwyd hwn o ganlyniad i'r pandemig. Mae'n debygol, felly, y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllideb am un flwyddyn eto yn 2021/22, yn seiliedig ar gyllideb 2020/21.

**4.4** Ar hyn o bryd, felly, mae'n anodd iawn rhagweld beth fydd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021/22, a sut y caiff y gyllideb ei dyrannu rhwng dwy brif elfen y gyllideb, iechyd a llywodraeth leol.

## 5 PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

**5.1** Mae Llywodraeth Leol yn gyffredinol yn wynebu nifer o bwysau cyllidebol ac, ar ben hynny, bydd Ynys Môn hefyd yn wynebu ei phwysau cyllidebol unigryw ei hun ac mae'n rhaid cynnwys y rhain yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Yn ddiweddar, yn ôl amcangyfrif Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), yn 2021/22 roedd cyfanswm y pwysau cyllidebol oedd yn wynebu llywodraeth leol drwy Gymru'n dod i £518m a byddai hwn yn codi i £734m yn 2022/23. Mae bron i 60% o'r ffigurau hyn yn ymwneud â phwysau'r gweithlu, gyda'r gweddill o ganlyniad i ddemograffeg a chwyddiant cyffredinol.

**i. Codiadau Cyflog**

Cytunwyd yn ddiweddar ar y codiad cyflog (nad yw'n ymwneud â dysgu) ar gyfer 2020/21 gyda dyfarniad cyflog o 2.75%. Mae'r ffigwr hwn yn uwch na'r 2% y caniatawyd amdano wrth bennu cyllideb 2020/21. Y gost ychwanegol sy'n uwch na'r hyn y caniatawyd amdano yng nghyllideb 2020/21 yw £315k, ond roedd y gyllideb yn cynnwys ffigwr wrth gefn o £235k, felly, dim ond £90k ychwanegol fydd ei angen i gywiro'r dan ddarpariaeth. Unwaith eto, nid oes llawer o fanylion ynglŷn â beth fydd y dyfarniad cyflog posibl yn 2021/22 ond mae'n debygol y bydd yr Undebau'n pwyso am ddyfarniad cyflog uwch na chwyddiant, yn enwedig i staff yn y sector gofal. Mae pob cynnydd o 1% yn ychwanegu tua £500k at gyllideb tâl (nad yw'n ymwneud â dysgu) y Cyngor. At ddibenion y CATC tybir y bydd y dyfarniad cyflog ar gyfer pob un o'r 3 blynedd yn 2%.

**ii. Dyfarniad Cyflog Athrawon**

Mae'r dyfarniad cyflog athrawon bellach wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddodd y byddai cyflogau athrawon yn cynyddu 2.75% o fis Medi 2020 ymlaen, gyda chynnydd uwch yn y cyflog cychwynnol a'r pwyntiau cyflog is. Mae rhagweld effaith lawn y dyfarniad cyflog ar gyllideb 2021/22 yn anodd gan fod y dyfarniad cyflog ar gyfer y flwyddyn academaidd ac nid y flwyddyn ariannol ac, felly, ni fydd y dyfarniad cyflog ar gyfer Medi 2021 yn hysbys tan haf 2021. At ddibenion y cynllun, gwnaed rhagdybiaeth o 2% unwaith eto. Yn seiliedig ar y codiadau a gyhoeddwyd a'r rhagybiaethau a wnaed, bydd costau cyflog athrawon yn codi tua £830k yn 2021/22 a thua £600k yn y ddwy flynedd ddilynol. Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido'r cynnydd yn nhâl athrawon yn y setliad.

**iii. Contract Casglu Gwastraff**

Yn dilyn proses dendro ffurfiol, mae'r Cyngor wedi cytuno ar gontract casglu gwastraff newydd gyda'i gontractwr presennol (Biffa). O dan delerau'r contract newydd, bydd gwerth amcangyfrifedig y contract yn cynyddu tua £800k y flwyddyn i adlewyrchu'r costau uwch sy'n wynebu Biffa, costau staffio yn bennaf. Yn ogystal â hyn, bydd y Cyngor yn cyllido'r gost o brynu fflyd newydd o gerbydau ac offer a fydd yn cynyddu taliadau cyllido cyfalaf y Cyngor tua £500k y flwyddyn. Gan fod y newid yng nghostau'r contract o ganlyniad i gytundeb contract lleol, ni dderbynnir unrhyw gyllid ychwanegol penodol gan Lywodraeth Cymru a bydd yn rhaid i'r gost gael ei gyllido gan arbedion a / neu gynnydd yn y Dreth Gyngor.

**iv. Costau Staffio TG**

Mae'r pandemig byd-eang wedi arwain at newid yn y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, gyda mwy o staff yn gweithio gartref a mwy o wasanaethau'n cael eu darparu'n ddigidol. Mae'r newid hwn yn gofyn am gapasiti ychwanegol i ddarparu a chefnogi'r feddalwedd ychwanegol ond hefyd i ddatblygu systemau i ganiatáu i fwy o wasanaethau'r Cyngor gael eu darparu'n ddigidol. Caniatawyd £250k ychwanegol yn y gyllideb ar gyfer 2021/22 ymlaen i gyllido'r gofyniad ychwanegol hwn.

**v. Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae nifer y plant mewn gofal yn parhau i godi drwy Gymru ac mae'r cynnydd hwn wedi digwydd hefyd ar Ynys Môn, gyda bron i ddwywaith nifer y plant sy'n derbyn gofal o gymharu â 10 mlynedd yn ôl. Yn 2019/20, llwyddodd y Cyngor i gynnal costau o fewn y gyllideb yn dilyn cyllideb ychwanegol o £1.4m a chynlluniau i ddarparu mwy o'r gwasanaethau ar yr Ynys, gan leihau'r angen am leoliadau arbenigol allsirol. Er gwaethaf y gwelliant yn sefyllfa'r gyllideb, mae'n ddarbodus caniatáu ar gyfer cynnydd parhaus yn nifer y plant a leolir. Felly, mae'r cynllun yn caniatáu cynnydd o 5% y flwyddyn uwchlaw chwyddiant. Mae hyn yn cyfateb i gost ychwanegol o £275k y flwyddyn.

**vi. Gofal Cymdeithasol Oedolion**

Mae canran y boblogaeth yng Nghymru sydd dros 65 oed yn parhau i godi, a Chymru yw'r 7fed wlad uchaf o ran canran y boblogaeth dros 65 oed yn y Byd. Mae Ynys Môn yn y trydydd safle yng Nghymru ac mae canran y trigolion sydd dros 65 oed ar yr Ynys bellach yn fwy na 25% o'r boblogaeth.

Yn 2019/20, gorwariwyd £1.08m gan y Gwasanaeth ond roedd y rhan fwyaf o'r gorwariant hwn wedi'i gynnwys yn y swm ychwanegol o £980k at gyllideb y Gwasanaeth ar gyfer 2020/21. Fodd bynnag, bu gostyngiad yn y gorwario yn sgil derbyn cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru na ellir ei warantu yn y dyfodol.

Mae'r cynllun yn rhagdybio cynnydd o 1% mewn costau sy'n uwch na chwyddiant, sy'n ychwanegu £200k ychwanegol at bwysau cyllidebol.

vii. **Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif**

Caiff y gost o adeiladu ysgolion newydd o dan y rhaglen foderneiddio ei chyllido 50% gan grant Llywodraeth Cymru a benthyca â chefnogaeth a 50% drwy fenthyca digefnogaeth ar gyfer cynlluniau Band A, ond mae'n cynyddu i gyfraniad o 65% gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau Band B. Gellir cyllido cynlluniau Band B mwy hefyd drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Mae'r elfen fenthyca digefnogaeth yn cael effaith ar y gyllideb refeniw ar ffurf y ddarpariaeth refeniw isaf (MRP) a thaliadau llog. Mae'r 2 ysgol newydd a adeiladwyd hyd yma yn cynhyrchu arbedion refeniw y gellir eu defnyddio i gyllido'r MRP a'r taliadau llog. Fodd bynnag, os bydd y Cyngor yn bwrw ymlaen gyda gweddill y prosiectau Band A a Band B (ardal Llangefni, Seiriol, Amlwch), yr arwyddion cychwynnol yw na fydd yr arbedion posibl yn talu cost lawn y MRP a'r taliadau llog. Mae hyn, yn ei dro, yn creu pwysau ar y gyllideb refeniw, pwysau a fydd, fe dybir, yn £550k erbyn 2023/24, gyda thaliadau MRP ychwanegol yn cael eu hysgwyddo yn 2024/25.

viii. **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

Ers i'r cyllid ar gyfer y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drosglwyddo i'r setliad ar gyfer llywodraeth leol, mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi aros heb ei newid. Wrth i lefelau'r Dreth Gyngor gynyddu, mae'r gost sy'n disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn, yn cynyddu er bod y cynnydd hwn wedi'i wrthbwyso gan gwymp yn nifer y bobl sy'n hawlio gostyngiad. Yn 2019/20, cododd y Dreth Gyngor 9.5% ac ni syrthiodd y llwyth achosion fel y rhagwelwyd. Creodd hyn orwariant yn 2019/20 a gafodd ei gywiro yng nghyllideb 2020/21. Fodd bynnag, mae'r dirywiad economaidd yn dilyn y pandemig yn debygol o gynyddu'r llwyth achosion ac nid yw'n glir ar hyn o bryd a fydd y cynnydd hwn yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn caniatáu cynnydd o 15% yn y llwyth achosion yn 2021/22 (o'i gymharu â ffigwr cyllideb 2020/21) gyda'r llwyth achosion yn dychwelyd i'r lefelau cyn pandemig erbyn 2023/24. Bydd hyn yn cynyddu cost y cynllun £900k yn 2021/22. Hefyd wrth i lefelau'r Dreth Gyngor godi, mae cost y cynllun gostyngiad hefyd yn codi. Mae pob cynnydd o 1% yn y Dreth Gyngor yn creu pwysau cyllidol ychwanegol o £60k.

ix. **Cais Twf Rhanbarthol**

Mae'r cais am gyllid twf rhanbarthol yn parhau gyda 6 awdurdod Gogledd Cymru yn ceisio dod i gytundeb gyda Llywodraethau'r DU a Chymru. Er y bydd y prif gyllid cyfalaf yn cael ei ddarparu gan y 2 lywodraeth, efallai y bydd yn ofynnol i'r Cynghorau gymryd benthyciadau tymor byr er mwyn sicrhau bod arian parod ar gael i gyllido'r gwariant sydd wedi'i broffilio. Hefyd, bydd costau refeniw yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect ac â darparu trefniadau llywodraethu addas. Bydd cyfran o'r costau hyn yn disgyn ar y 6 Chyngor i'w gyllido. Yn y CATC, rhoddir ystyriaeth i gyfran bosibl Ynys Môn o'r costau hyn ond dylid nodi mai amcangyfrif yn unig o'r costau yw'r rhain a gallant newid yn sylweddol (i fyny neu i lawr) wrth i'r prosiectau fynd yn eu blaenau ac yn dibynnu ar y model cyllido y cytunwyd arno.

x. **Gostyngiad mewn Grantiau Penodol**

Mae'r Cyngor yn parhau i dderbyn nifer o grantiau refeniw i gyllido gwasanaethau, gyda 6 phrif grant yn cael eu derbyn (grant Cefnogi Pobl, grant Cymorth Gwasanaethau Bws, grant Gwella Addysg, grant Amddifadedd Disgyblion, grant Addysg Ôl-16, grant Refeniw Sengl yr Amgylchedd). O ystyried bod darpariaeth y gwasanaethau a gyllidir gan grantiau wedi'i hintegreiddio i'r gwasanaethau a gyllidir gan gyllidebau craidd y Cyngor, mae'n anodd i'r Cyngor leihau'r gwasanaethau a gychwynnwyd pan ddechreuodd y grant. O ganlyniad, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud iawn am y gwahaniaeth er mwyn i'r gwasanaeth barhau i gael ei ddarparu ar yr un lefel. Er na chafwyd unrhyw arwydd y bydd unrhyw un o'r grantiau hyn yn cael eu lleihau, mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu'r fformiwla ar gyfer dosbarthu'r grant Cefnogi Pobl ac mae risg y bydd Ynys Môn yn gweld ei grant yn cael ei leihau yn dilyn yr adolygiad.

**xi. Niferoedd Disgyblion**

Caiff cyllideb ddatganoledig ysgolion ei diwygio bob blwyddyn i ystyried y newid yn nifer y disgyblion gyda'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod yn seiliedig ar niferoedd gwirioneddol y disgyblion fel yn y mis Medi blaenorol. Rhagwelir y bydd niferoedd disgyblion cynradd yn gostwng 2.9% dros y tair blynedd nesaf, tra bydd niferoedd disgyblion ysgolion uwchradd yn codi 6.8% dros yr un cyfnod. Disgwylir hefyd i niferoedd disgyblion barhau i godi i uchafswm capasiti o 120 o ddisgyblion. Bydd effaith net y newidiadau hyn yn golygu y bydd angen i'r gyllideb ddatganoledig ysgolion gynyddu £325k yn 2021/22 ac yna cynnydd o £167k a £120k yn y ddwy flynedd ddilynol.

**xii. Pwysau Amrywiol ar y Cyllid**

Bob blwyddyn, mae cyllideb y Cyngor yn cynnwys nifer o addasiadau (newidiadau yr ymrwymwyd iddynt) sy'n adlewyrchu penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn flaenorol, cynnydd mewn costau oherwydd ymrwymiadau cytundebol neu ddrifft cynyddrannol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn caniatáu ar gyfer unrhyw newidiadau y gwyddys amdanynt a chânt eu cwblhau pan fydd cyllideb gychwynnol 2020/21 yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

**xiii. Chwyddiant Prisiau Cyffredinol**

Mae cyllidebau blynyddol yn cael eu chwyddo i ystyried chwyddiant cyffredinol neu benodol. Defnyddir y mynegai prisiau defnyddwyr fel y prif ffactor chwyddiant. Ar hyn o bryd mae'n 0.8% ond gallai ostwng os bydd cyfyngiadau'n cael eu gorfodi eto neu gynyddu os ceir Brexit heb gytundeb. Yn y tymor hir, disgwylir i hyn aros ar neu oddeutu 2% hyd y gellir rhagweld. Yn ddieithriad, mae gan gontractau ddull o gyfrif chwyddiant blynyddol sydd wedi'i ymgorffori yn y contract ac sy'n seiliedig ar y mynegai prisiau defnyddwyr, y mynegai prisiau manwerthu neu fynegai sy'n benodol i'r diwydiant. Yn hanesyddol, mae mynegai prisiau manwerthu wedi bod rhwng 0.8% ac 1% yn uwch na'r mynegai prisiau defnyddwyr. Mae proses y gyllideb yn cymryd i ystyriaeth y gwahanol ffactorau chwyddiant hyn.

## 6 INCWM

**6.1** Ar hyn o bryd, mae cyllideb incwm y Cyngor (ac eithrio Grant Cynnal Refeniw, Treth Annomestig a'r Dreth Gyngor) yn dod i £26.6m, ac mae'n cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus, ffioedd a thaliadau a bennir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth neu gytundeb rhentu tymor hir a ffioedd a thaliadau lle mae gan y Cyngor y disgresiwn i osod y ffi neu'r tâl.

**6.2** Polisi'r Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf (cyn 2017/18) yw cynyddu'r ffioedd a'r taliadau dewisol 5% bob blwyddyn. Mae'n dod yn fwyfwy anodd parhau â'r polisi hwn gyda chwyddiant yn llawer is na 5% ac, yn benodol, ar gyfer y gwasanaethau hynny lle mae'r Cyngor yn cystadlu â'r sector preifat, e.e. Hamdden. Yn 2019/20, cytunwyd ar y rhagdybiaeth y byddai ffioedd anstatudol yn cael eu cynyddu 3% y flwyddyn neu CPI, pa un bynnag yw'r uchaf. Mae'r cynllun yn parhau ar y sail hon.

## 7 Y GYLLIDEB DDISYMUS RAGAMCANEDIG AR GYFER 2021/22 – 2023/24

**7.1** Trwy ystyried yr holl bwysau cyllidebol y gwyddys amdanynt a'r rhagamcanion ynghylch chwyddiant a rhagamcanion eraill, mae'n bosibl pennu cyllideb ddisymyd ar gyfer y cyfnod 2021/22 i 2023/24. Y gyllideb ddisymyd yw'r costau diwygiedig o barhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel, yn yr un modd ag y cânt eu darparu yn 2020/21. Dangosir y gyllideb ddisymyd ragamcanedig ar gyfer y tair blynedd nesaf yn Nhabl 3 isod:-

**Tabl 3**
**Cyllideb Ddisymyd Ragamcanedig 2021/22 i 2023/24**

| | 2021/22 £'m | 2022/23 £'m | 2023/24 £'m |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol** | **142.146** | **148.205** | **151.402** |
| Costau Unwaith ac am Byth a chostau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl sy'n syrthio allan o'r gyllideb | 0.079 | 0.027 | 0.064 |
| Chwyddiant Tâl, Costau Pensiwn a Drifft Cynyddrannol | 1.977 | 1.703 | 1.796 |
| Prif Gontractau'r Cyngor - Chwyddiant a Newidiadau o ran Cyfaint | 0.975 | 0.314 | 0.320 |
| Newidiadau yn y Gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y Galw | 1.444 | 1.203 | 1.018 |
| Chwyddiant nad yw'n ymwneud â Thâl | 0.424 | 0.586 | 0.599 |
| Ardollau | 0.072 | 0.073 | 0.075 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 0.919 | (0.352) | (0.670) |
| Cynnydd mewn Incwm | (0.831) | (0.609) | (0.623) |
| Costau Cyllido Cyfalaf | 1.000 | 0.252 | 0.430 |
| **Amcangyfrif o'r Gyllideb Ddigyfnewid** | **148.205** | **151.402** | **154.411** |
| | | | |
| **Cynnydd Blynyddol** | **+ 6.059** | **+ 3.197** | **+ 3.009** |

**7.2** Mae'r gyllideb ddisymud amcangyfrifedig yn cynrychioli cynnydd arian parod o 8.6% dros y cyfnod o 3 blynedd.

**7.3** Mae mwy o fanylion am y gyllideb ddisymyd a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm fel Atodiad 3 a 4.

**7.4** Nid yw'r ffigyrau a ddangosir uchod yn ystyried y gost o ddelio â'r pandemig a darparu gwasanaethau sy'n lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws. Os na cheir ateb i'r feirws a bod cadw pellter cymdeithasol a mwy o lanhau yn dod yn norm, yna bydd hyn nid yn unig yn cynyddu costau e.e. glanhau, llai o gapasiti ar gludiant cyhoeddus a chludiant ysgol, posibilrwydd o gostau salwch uwch, ond bydd hefyd yn effeithio ar brif ffynonellau incwm y Cyngor o ganolfannau hamdden, meysydd parcio ac ati.

## 8 CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

**8.1** Cyllidir y gyllideb ddisymud amcangyfrifedig o'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru (Grant Cymorth Refeniw a Chyllid Cyffredinol Trethi Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.

**8.2** Fel y nodwyd ym mharagraff 4 uchod, mae'r sefyllfa o ran y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2020/21 yn aneglur ac yn anodd iawn ei rhagweld, ac mae ceisio rhagweld y setliad tebygol ar gyfer y 2 flynedd ddilynol yn anos fyth.

**8.3** Yn 2019/20, derbyniodd Ynys Môn £101.005m mewn Cyllid Allanol Cyfun gan Lywodraeth Cymru.

**8.4** Ym mis Medi 2017, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gynyddu'r Dreth Gyngor 5% ym mhob un o'r 3 blynedd ddilynol, mae hyn yn cymharu â chynnydd o 2.5% yn 2017/18 a 4.8% yn 2018/19. Er iddynt nodi eu bwriad i gynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor, y cynnydd gwirioneddol ar gyfer 2019/20 oedd 9.5%, ac yna cynnydd o 4.5% yn 2020/21. Arhosodd canrannau premiwm y Dreth Gyngor yr un fath yn 2020/21 h.y. 35% ar gyfer ail gartrefi a 100% ar gyfer eiddo gwag.

**8.5** Mae Tabl 4 isod yn dangos yr incwm ychwanegol y byddai newidiadau amrywiol mewn AEF a chynnydd yn y Dreth Gyngor yn ei gael ar gyllid y Cyngor:-

**Tabl 4**

**Yr Effaith ar Gyllid y Cyngor ar gyfer Newidiadau mewn Cyllid Allanol Cyfun a'r Dreth Gyngor 2021/22**

| | | Newid mewn AEF - Swm Ariannol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | - 2% | -1% | 0% | +1% | +2% | +3% | +4% |
| | | £'m | | | | | | |
| Cynnydd yn y Dreth Gyngor (net cynnydd CGDG) | 0% | - 2.02 | -1.01 | 0.00 | +1.01 | +2.02 | +3.03 | +4.04 |
| | 1% | -1.67 | -0.60 | +0.35 | +1.36 | +2.37 | +3.38 | +4.39 |
| | 2% | -1.32 | -0.31 | +0.70 | +1.71 | +2.72 | +3.73 | +4.74 |
| | 3% | -0.97 | +0.04 | +1.05 | +2.06 | +3.07 | +4.08 | +5.09 |
| | 4% | -0.62 | +0.39 | +1.40 | +2.41 | +3.42 | +4.43 | +5.44 |
| | 5% | -0.27 | +0.74 | +1.76 | +2.76 | +3.77 | +4.78 | +5.79 |
| | 6% | +0.08 | +1.09 | +2.10 | +3.11 | +4.12 | +5.13 | +6.14 |
| | 7% | +0.43 | +1.44 | +2.45 | +3.46 | +4.47 | +5.48 | +6.49 |
| | 8% | +0.78 | +1.79 | +2.80 | +3.81 | +4.82 | +5.83 | +6.84 |
| | 9% | +1.13 | +2.14 | +3.15 | +4.16 | +5.17 | +6.18 | +7.19 |
| | 10% | +1.48 | +2.49 | +3.50 | +4.51 | +5.52 | +6.53 | +7.54 |

## 9 PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

**9.1** Gellir gweld o Dabl 4 y byddai unrhyw ostyngiad yn yr AEF yn 2021/22 yn gofyn am gynnydd sylweddol yn y Dreth Gyngor er mwyn sicrhau bod lefel y cyllid mewn termau arian parod yn parhau o leiaf ar lefel 2020/21 (+3% os bydd yr AEF yn gostwng 1% a +6% os bydd yr AEF yn gostwng 2%).

**9.2** Er mwyn bodloni'r cynnydd gofynnol yn y gyllideb ddisymyd ym mhob blwyddyn, mae Tabl 4 yn rhoi syniad o lefel y cynnydd yn yr AEF a'r Dreth Gyngor sydd ei angen.

**Tabl 5**

**Cynnydd Posibl yn yr AEF a'r Dreth Gyngor Sy'n Ofynnol i Gyllido'r Cynnydd yn y Gyllideb Ddisymud**

| | Cynnydd yn y Gyllideb Ddisymud £'m | Cynnydd mewn AEF % | | Cynnydd yn y Dreth Gyngor % | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf |
| **2021/22** | **6.06** | **+3%** | **+4%** | **+6%** | **+9%** |
| **2022/23** | **3.20** | **0%** | **+3%** | **+1%** | **+10%** |
| **2023/24** | **3.00** | **0%** | **+3%** | **+0%** | **+9%** |

**9.3** Felly, ar gyfer 2021/22 byddai'n ei gwneud yn ofynnol i AEF godi 3% a'r Dreth Gyngor 9% i gyllido'r cynnydd yn y Gyllideb Ddisymud. Os bydd yr AEF yn codi 4%, yna byddai angen cynnydd o 6% o hyd yn y Dreth Gyngor i gyllido'r cynnydd.

**9.4** Mae'n annhebygol iawn y bydd yr AEF yn codi o leiaf 3% ac, o ganlyniad, byddai hyn yn gofyn am gynnydd o fwy na 10% yn y Dreth Gyngor i gyllido'r gyllideb ddisymud o £148.2m. Felly, mae angen dod o hyd i lefel o arbedion yn 2021/22 er mwyn cydbwyso'r gyllideb. Er enghraifft, pe na bai cynnydd yn yr AEF a bod y Dreth Gyngor yn codi 5%, byddai hyn yn gofyn am arbedion o £4.3m (£6.06m - £1.76m) ac £1.4m yn 2022/23 ac £1.2m yn 2023/24. Mae hyn yn cyfateb i lefel o 3% o arbedion yn 2021/22 a 0.8% yn 2022/23 a 2023/24.

**9.5** Mewn gwirionedd, mae nifer o gyllidebau wedi'u cynnwys yn y cyllidebau disymud na ellir eu lleihau neu sy'n anodd iawn eu lleihau. Mae'r rhain yn cynnwys:-

Ardoll yr Awdurdod Tân - £3.59m yn 2020/21;
Costau Cyllido Cyfalaf £6.94m yn 2020/21;
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - £6.13m yn 2020/21;
Costau Pensiwn Hanesyddol - £1.02m yn 2020/21;
Taliad Blynyddol Diffyg Pensiwn - £0.67m yn 2020/21
Arian Wrth Gefn ar gyfer Argyfyngau Cyffredinol a Phenodol - £0.76m yn 2020/21.

Felly, bydd angen dod o hyd i'r arbedion gofynnol o £6.9m dros 3 blynedd (gan dybio na fydd unrhyw gynnydd mewn AEF a chynnydd blynyddol o 5% yn y Dreth Gyngor) o gyllidebau gwasanaeth, sef cyfanswm o £123.03m (cyllideb 2020/21). Mae hyn yn cyfateb i arbedion o 5.4% dros 3 blynedd.

**9.6** Strategaeth effeithlonrwydd y Cyngor yn y blynyddoedd blaenorol fu lleihau cyllidebau gwasanaethau trwy ofyn i wasanaethau adolygu cyllidebau presennol a lleihau'r gyllideb net gyffredinol trwy:-

- Ddileu penawdau cyllideb nas defnyddiwyd;
- Lleihau costau staffio trwy ailstrwythuro a diswyddiadau gwirfoddol;
- Codi ffioedd a thaliadau yn uwch na chyfradd chwyddiant;
- Nodi ffynonellau incwm newydd;
- Lleihau costau gweinyddu trwy fuddsoddi mewn technoleg gwybodaeth;
- Lleihau costau trwy gaffael nwyddau a gwasanaethau yn well;
- Rhoi'r gorau i roi grantiau i'r sector gwirfoddol / trydydd sector;
- Lleihau'r symiau a fuddsoddir mewn cynnal a chadw asedau;
- Rhesymoli gofod Swyddfa, a thrwy hynny leihau costau llety swyddfa.

**9.7** Mae'r strategaeth wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r Cyngor wedi gallu gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn heb orfod dibynnu ar ddefnyddio balansau cyffredinol. Cyflawnwyd hyn gan ddal i warchod cyllidebau'r Ysgolion a chynyddu cyllideb Gwasanaethau Plant a Gwasanaethau Oedolion.

**9.8** Fodd bynnag, wrth i ni symud i'r tair blynedd nesaf, mae'r sgôp i gynhyrchu'r lefel ofynnol o arbedion trwy'r dulliau hyn yn unig yn llawer llai. Mae'r gwasanaethau llai, h.y. ac eithrio Addysg a Gofal Cymdeithasol, wedi cynhyrchu'r holl arbedion y gallant ac i gyflawni'r lefel o arbedion sy'n ofynnol gan y gwasanaethau hyn yn unig, byddai angen toriadau sylweddol yn y ddarpariaeth o wasanaethau statudol ac anstatudol.

**9.9** Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i'r posibilrwydd o wneud arbedion trwy fodelau cyflawni amgen, e.e. trosglwyddo gwasanaethau i eraill, sefydlu cwmnïau masnachol neu ymddiriedolaethau hyd braich a gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat. Bellach, mae rhai gwasanaethau'n cael eu darparu trwy'r dull cyflawni amgen hwn, e.e. Melin Llynnon, Carchar Biwmares, Toiledau Cyhoeddus, Parc Caergybi, ond ni chynhyrchodd y rhain arbedion sylweddol. Ni chredir ei bod yn bosibl sicrhau arbedion sylweddol trwy ddulliau cyflawni amgen a hynny oherwydd maint gwasanaethau'r Cyngor, capasiti yn y Cyngor i gyflawni'r newid ac argaeledd a pharodrwydd sefydliadau allanol i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor ar Ynys Môn.

**9.10** Mae'r Cyngor wedi dechrau rhaglenni gwaith i foderneiddio gwasanaethau a'u darparu am gost is, e.e. y rhaglen moderneiddio ysgolion, darparu gwasanaethau dydd gofal cymdeithasol, ond mae'r prosesau hyn yn cymryd amser i'w cwblhau a bu gwrthwynebiad gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'n annhebygol, yn dilyn y strategaeth hyd yma, y bydd yn cyflawni lefel yr arbedion sydd eu hangen pe bai'r setliad llywodraeth leol yn wael heb fawr ddim twf mewn termau arian parod, os o gwbl. Er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys, bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac mae nifer o risgiau a allai atal y Cyngor rhag cyflawni'r holl gamau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau;
- Disgwyliad gan y cyhoedd y bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau i'r un lefel ag y mae wedi'i wneud o'r blaen;
- Bod Llywodraeth Cymru yn asesu’r ddarpariaeth o wasanaethau ac yn dal i ddisgwyl gwelliannau iddynt;
- Bod y cyhoedd yn gwrthwynebu codi’r Dreth Gyngor uwchlaw cyfraddau chwyddiant, yn enwedig os yw'r ystod o wasanaethau a ddarperir yn lleihau - talu mwy am lai;
- Gwrthwynebiad cryf gan gymunedau ac Aelodau i gau cyfleusterau yn eu hardaloedd;
- Y gallu i sicrhau newid o fewn y Cyngor. Wrth i strwythurau rheoli gael eu hadolygu a'u lleihau, mae nifer y staff profiadol wedi lleihau ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anos i'r staff sy'n weddill reoli'r gwasanaethau presennol tra ar yr un pryd yn gweithredu newidiadau sylweddol.

## 10 CASGLIADAU

**10.1** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynhyrchu cyllideb ddisymud amcangyfrifedig ar gyfer y 3 blynedd nesaf yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, ond mae'r pandemig presennol a'r effaith barhaus a gaiff ar gostau darparu gwasanaethau ac ar lefelau incwm yn effeithio ar gadernid y rhagdybiaethau hynny. Mae hyn ynghyd â'r diffyg gwybodaeth am gyllido Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol, yn ei gwneud yn anodd iawn rhagweld yn gywir ar gyfer y dyfodol.

**10.2** Hyd yn oed os yw Llywodraeth Cymru yn rhyddhau cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn ddigonol i gyllido’r gyllideb ddisymud, yn arbennig yn 2021/22. O ganlyniad bydd angen lefel o arbedion cyllidebol er mwyn gosod cyllideb gytbwys. Bydd lefel yr arbedion hynny’n dibynnu pa mor dda neu wael yw’r setliad llywodraeth leol a pha mor uchel mae Aelodau’n fodlon gosod y cynnydd yn y Dreth Gyngor.

**10.3** Bydd yn rhaid i'r toriadau cyllidebol ddod o newidiadau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau a gostyngiad yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bydd ceisio cyflwyno'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gyda gostyngiadau sylweddol mewn cyllid yn arwain at orwario parhaus yn y cyllidebau, gostyngiadau pellach yn lefel y balansau cyffredinol a risg sylweddol i hyfywedd ariannol y Cyngor. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd er mwyn i'r Cyngor ddarparu cyllideb gytbwys, sy'n adlewyrchu'n gywir gostau rhedeg y gwasanaethau y mae'n ei ddarparu.

| Gwariant Refeniw | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllidebau Datganoledig Ysgolion** | | | | |
| Tâl Athrawon | 21,398,700 | 21,999,104 | 22,474,180 | 22,958,619 |
| Tâl staff nad ydynt yn dysgu | 5,990,150 | 6,165,609 | 6,298,757 | 6,434,529 |
| Yswiriant Cenedlaethol - Athrawon | 2,236,630 | 2,299,385 | 2,349,041 | 2,399,675 |
| Yswiriant Cenedlaethol - Staff nad ydynt yn dysgu | 294,710 | 302,979 | 309,522 | 316,194 |
| Pensiynau Athrawon | 5,057,380 | 5,199,280 | 5,311,560 | 5,426,052 |
| Pensiynau staff nad ydynt yn dysgu | 1,133,950 | 1,167,165 | 1,192,370 | 1,218,072 |
| Ynni | 854,560 | 875,924 | 902,202 | 929,268 |
| Trethi Annomestig | 826,510 | 847,173 | 872,588 | 898,766 |
| Trwsio a Cynnal a Chadw - Adeiladau | 459,080 | 465,966 | 475,286 | 484,791 |
| Cynnal Tiroedd | 170,640 | 174,906 | 180,153 | 185,558 |
| Gwariant arall nad yw'n staff | 3,605,620 | 3,659,704 | 3,732,898 | 3,807,556 |
| Grantiau a Chyfraniadau Eraill | - 1,391,700 | - 1,433,451 | - 1,476,455 | - 1,520,748 |
| Incwm Anstatudol | - 27,860 | - 29,253 | - 30,716 | - 31,330 |
| Addasiad Niferoedd Disgyblion | - | 325,258 | 492,049 | 611,902 |
| Cyllidwyd gan Gronfeydd wrth Gefn Addysg | - 15,270 | - | - | - |
| **Cyfanswm Cyllidebau Datganoledig Ysgolion** | **40,593,100** | **42,019,748** | **43,083,436** | **44,118,904** |
| | | | | |
| **Costau Staff nad ydynt yn Ysgol** | | | | |
| Tâl Athrawon | 587,730 | 604,220 | 617,269 | 630,574 |
| Tâl staff nad ydynt yn dysgu | 32,951,407 | 33,916,596 | 34,904,433 | 35,656,810 |
| Yswiriant Cenedlaethol - Athrawon | 74,450 | 76,631 | 78,286 | 79,973 |
| Yswiriant Cenedlaethol - Staff nad ydynt yn dysgu | 2,981,060 | 3,068,379 | 3,134,642 | 3,202,210 |
| Pensiynau Athrawon | 132,760 | 136,485 | 139,432 | 142,438 |
| Cyfraniadau Cronfa Pensiwn | 6,186,318 | 6,367,523 | 6,505,032 | 6,645,250 |
| Lwfansau Car a Chynhaliaeth | 631,240 | 568,116 | 511,304 | 511,304 |
| Cyfandaliad Diffyg Pensiwn | 666,810 | 666,810 | 666,810 | 666,810 |
| Costau Pensiwn Hanesyddol | 1,024,920 | 999,037 | 973,808 | 949,216 |
| Costau Staff Arall | 820,530 | 832,838 | 849,495 | 866,485 |
| Ardoll Prentisiaeth | 346,770 | 356,927 | 364,635 | 372,495 |
| **Cyfanswm Costau Staffio** | **46,403,995** | **47,593,563** | **48,745,145** | **49,723,564** |
| | | | | |
| **Costau Unwaith ac am Byth** | | | | |
| Stem (3 mlynedd 2019/20 i 2021/22) | 37,500 | 37,500 | - | - |
| Gronfa Wrth Gefn ar gyfer Cyflogau (trosglwyddo i gostau staffio o 2021/22 ymlaen) | 235,030 | - | - | - |
| Cynnydd y Staffio T.G (trosglwyddo i gostau staffio o 2022/23 | - | 250,000 | - | - |
| Bid Twf Rhanbarthol - Costau Llog | - | 64,000 | 128,000 | 192,000 |
| Bid Twf Rhanbarthol - Costau'r Bwrdd Prosiect a'r Corff Atebol | 50,000 | 50,000 | 50,000 | 50,000 |
| **Cyfanswm Costau Unwaith ac am Byth** | **322,530** | **401,500** | **178,000** | **242,000** |
| | | | | |
| **Prif Gontractau'r Cyngor** | | | | |
| Casglu Gwastraff | 4,221,490 | 5,032,016 | 5,132,656 | 5,235,310 |
| Gwaredu Gwastraff | 1,313,100 | 1,313,100 | 1,313,100 | 1,313,100 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 4,589,240 | 4,681,025 | 4,774,645 | 4,870,138 |
| Prydau Ysgol | 2,299,680 | 2,299,680 | 2,345,674 | 2,392,587 |
| Cludiant Ysgol | 2,855,690 | 2,912,804 | 2,971,060 | 3,030,481 |
| Contractau Gwasanaeth Bysiau Cyhoeddus | 760,850 | 776,067 | 791,588 | 807,420 |
| **Cyfanswm Costau Prif Gontractau'r Cyngor** | **16,040,050** | **17,014,692** | **17,328,724** | **17,649,036** |
| | | | | |
| **Gwasanaethau ar y Cyd gydag Awdurdodau Eraiil** | | | | |
| GwE | 403,480 | 409,532 | 417,723 | 426,077 |
| Strategaeth ADY Môn / Gwynedd | 1,743,240 | 1,769,389 | 1,804,776 | 1,840,872 |
| Partneriaeth Gwynedd a Môn | 179,580 | 179,580 | 179,580 | 179,580 |
| Uned Polisi Cynllunio | 225,540 | 228,923 | 233,502 | 238,172 |
| Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol | 67,230 | 68,238 | 69,603 | 70,995 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau ar y Cyd gydag Awdurdodau Eraiil** | **2,619,070** | **2,655,662** | **2,705,184** | **2,755,696** |

| **Gwariant Refeniw** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** | **2023/24** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| | | | | |
| **Gwsanaethau Eraill a Arweinir gan y Galw** | | | | |
| Lleoliadau Plant | 5,458,330 | 5,813,121 | 6,220,040 | 6,468,842 |
| Darpariaeth Gwasanaeth Henoed | 9,715,190 | 9,958,070 | 10,256,812 | 10,564,516 |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anabledd Corfforol | 1,231,980 | 1,262,780 | 1,300,663 | 1,339,683 |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anableddau Dysgu | 3,276,930 | 3,358,853 | 3,459,619 | 3,563,407 |
| Darpariaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl | 1,528,970 | 1,567,194 | 1,614,210 | 1,662,636 |
| Byw Gyda Chefnogaeth | 2,621,520 | 2,687,058 | 2,767,670 | 2,850,700 |
| Lleoliadau All Siriol Ysgolion | 1,397,240 | 1,446,143 | 1,503,989 | 1,564,149 |
| Cefnogi Pobl | 37,300 | 37,860 | 38,617 | 39,389 |
| Digartrefedd | 147,830 | 153,004 | 159,124 | 165,489 |
| **Cyfanswm Gwsanaethau a Arweinir gan y Galw** | **25,415,290** | **26,284,083** | **27,320,743** | **28,218,811** |
| | | | | |
| **Gwariant Arall y Cyngor** | | | | |
| Trethi Annomestig | 1,042,800 | 1,068,870 | 1,100,936 | 1,133,964 |
| Ynni | 1,046,540 | 1,072,704 | 1,104,885 | 1,138,031 |
| Costau Safleoedd ac eithrio Ysgolion | 1,921,510 | 1,950,333 | 1,989,339 | 2,029,126 |
| Costau Cludiant | 72,420 | 73,506 | 74,976 | 76,476 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 16,470,280 | 16,717,334 | 17,051,681 | 17,392,715 |
| Lwfansau Aelodau | 757,200 | 778,137 | 793,699 | 809,573 |
| Ardoll Gwasanaeth Tán | 3,593,260 | 3,665,125 | 3,738,428 | 3,813,196 |
| Ardollau Eraill | 5,240 | 5,240 | 5,240 | 5,240 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 6,128,110 | 7,047,327 | 6,694,960 | 6,025,464 |
| Adenill Costau - CRT | - 1,388,450 | - 1,426,841 | - 1,455,377 | - 1,484,485 |
| Cronfeydd wrth Gefn | 742,770 | 753,912 | 768,990 | 784,370 |
| Rhyddhad Trethol Dewisol Trethi Annomestig | 70,000 | 70,000 | 70,000 | 70,000 |
| Costau Cyllido Cyfalaf - DRI | 2,743,750 | 3,349,400 | 3,346,580 | 3,512,360 |
| Costau Cyllido Cyfalaf - Llog | 4,195,350 | 4,589,953 | 4,844,933 | 5,108,761 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall y Cyngor** | **37,400,780** | **39,714,998** | **40,129,269** | **40,414,791** |
| | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT GROS** | **168,794,815** | **175,684,247** | **179,490,501** | **183,122,803** |
| | | | | |
| **Incwm** | | | | |
| Grantiau / Ad-dalu Cyrff Cyhoeddus | - 10,673,060 | - 10,833,156 | - 11,049,819 | - 11,270,815 |
| Incwm Statudol | - 10,574,229 | - 10,732,842 | - 10,947,499 | - 11,166,449 |
| Incwm Anstatudol | - 5,401,206 | - 5,913,242 | - 6,090,639 | - 6,273,359 |
| **Cyfanswm Incwm** | **- 26,648,495** | **- 27,479,241** | **- 28,087,958** | **- 28,710,623** |
| | | | | |
| **CYFANSWM GWARIANT NET** | **142,146,320** | **148,205,006** | **151,402,543** | **154,412,179** |

**RHAGDYBIAETHAU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG**

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Dyfarniad Tâl Athrawon | 2.6% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiynau Athrawon | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cyfraddau Yswiriant Cenedlaethol | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Dyfarniad Tâl nad yw'n ymwneud â dysgu | 2.8% | 2.0% | 2.0% |
| Pensiwn nad yw'n ymwneud â dysgu | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Costau Pensiwn Hanesyddol | -2.5% | -2.5% | -2.5% |
| Drifft Cynyddrannol | 0.2% | 0.2% | 0.2% |
| Chwyddiant Lwfans Car | -10.0% | -10.0% | 0.0% |
| CPI | 1.5% | 2.0% | 2.0% |
| RPI | 2.5% | 3.0% | 3.0% |
| Chwyddiant Ynni | 2.5% | 3.0% | 3.0% |
| Incwm Anstatudol | 3.0% | 3.0% | 3.0% |
| Llwyth Achosion Lleoli Plant | 5.0% | 5.0% | 2.0% |
| Lleoliadau Allsirol Ysgolion | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Llwyth Achosion Digartrefedd | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Tunelli Gwastraff y ceir gwared arnynt | -2.0% | -2.0% | -2.0% |
| Llwyth Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 15.0% | -5.0% | -10.0% |
| Cynnydd yn y Gyfradd Banc Sylfaenol | 0.3% | 0.3% | 0.3% |
| Ardoll Tân | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Ardollau Eraill | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Casglu Gwastraff (gan gynnwys chwyddiant) | 19.2% | 2.0% | 2.0% |
| Gwaredu Gwastraff (gan gynnwys chwyddiant) | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd (gan gynnwys chwyddiant) | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Prydau Ysgol (gan gynnwys chwyddiant) | 0.0% | 2.0% | 2.0% |
| Cludiant Ysgol (gan gynnwys chwyddiant) | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Contractau Bysiau Gwasanaeth Cyhoeddus (gan gynnwys chwyddiant) | 2.0% | 2.0% | 2.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth yr Henoed (yn ychwanegol ar chwyddiant) | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anableddau Corfforol (yn ychwanegol at chwyddiant) | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Anableddau Dysgu (yn ychwanegol at chwyddiant) | 1.0% | 1.0% | 1.0% |
| Darpariaeth Gwasanaeth Iechyd Meddwl (yn ychwanegol at chwyddiant) | 1.0% | 1.0% | 1.0% |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **28 MEDI 2020** |
| **Pwnc:** | **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2019/20** |
| **Aelod(au) Portffolio** | **Y CYNGHORYDD R WILLIAMS** |
| **Pennaeth / Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | **MARC JONES (EST. 2601)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **JEMMA ROBINSON**<br>**01248 752675**<br>**JemmaRobinson@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

- Noder y bydd y ffigurau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau'n rhai dros dro hyd nes y bydd yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2019/20 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir bod unrhyw addasiadau sylweddol dilynol i'r ffigurau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn briodol;
- Nodi dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys dros dro 2019/20 yn yr adroddiad hwn;
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20 a'i drosglwyddo i gyfarfod nesaf y Cyngor Llawn gydag unrhyw sylwadau.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

- Cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20 (Atodiad 8 Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2019/20). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, craffodd y Pwyllgor Archwilio ar yr adroddiad hwn ar 21 Gorffennaf 2020. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn unwaith y bydd wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor hwn.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)**(gorfodol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| **7** | **Caffael** | |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Arall** | Penderfynodd y Pwyllgor Archwilio:-<br><br>• Nodi y bydd y ffigyrau alldro yn yr adroddiad hwn yn parhau i fod yn rhai dros dro nes bod yr archwiliad o Ddatganiad Cyfrifon 2019/20 wedi'i gwblhau a'i lofnodi; adroddir fel sy'n briodol ar unrhyw addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r ffigyrau a gynhwysir yn yr adroddiad hwn;<br>• Nodi'r dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys dros dro ar gyfer 2019/20 yn yr adroddiad hwn;<br>• Derbyn adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2019/20 a'i argymell i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau. |
| **E – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol)** | | |
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?** | |
| 2 | **A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut:-** | |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy:-** | |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | |
| 5 | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg** | |
| **F - Atodiadau:** | | |
| Atodiad A – Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys am 2019/20 | | |
| **FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** | | |
| • Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2019/20<br>• Dangosyddion Pwyllog a Rheoli Trysorlys 2019/20<br>• Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli Trysorlys 2019/20<br>• Adroddiad Alldro Cyfalaf 2019/20 | | |

## 1. Rhagarweiniad

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, yn ôl rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad rheoli trysorlys blynyddol o weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2019/20. Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys (y Côd) a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol (y Côd Darbodus).

Yn ystod 2019/20, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau canlynol: -

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn y flwyddyn (derbyniwyd ar 27 Chwefror 2019);
- adroddiad diweddariad canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 10 Mawrth 2020);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac yn tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côd bod raid i'r Pwyllgor Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli trysorlys cyn yr adroddir arnynt i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i Aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod y flwyddyn, ar 7 Tachwedd 2019, er mwyn cefnogi rôl sgriwtini'r Aelodau.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac nad aethpwyd y tu hwnt i’r terfyn benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig).

At hynny, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2019/20: -

- Ffactorau allanol - gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn a'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit ac effaith Covid 19;
- Ffactorau mewnol - gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);
- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2019/20 - gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor, gweithredu’r polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) newydd, a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys - beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus - Cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda’r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2020/21 a’r tu draw i hynny; a
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o’r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog -** Y Gyfradd Banc ar ddechrau'r flwyddyn ariannol oedd 0.75%, ar ôl iddi godi o 0.50% ym mis Awst 2018. Ni fu newid wedyn tan fis Mawrth 2020, pan oedd yn amlwg iawn bod yr achosion o Coronafeirws yn fygythiad enfawr i economi'r DU. Bu dai doriad brys yn y Gyfradd Banc ym mis Mawrth, y cyntaf i lawr o 0.75% i 0.25% ac yna i lawr i 0.10%. Roedd hyn yn golygu bod cyfraddau llog sefydliadau gwrthbarti ar gyfrifon nodweddiadol yn amrywio o 0.10% i 0.65%.

**2.2 Yr Economi** – Yn y Deyrnas Unedig, mae 2019 wedi bod yn flwyddyn gyfnewidiol iawn gyda thwf economaidd chwarter 1 yn annisgwyl o gryf ar +0.5%, chwarter 2 yn wan ar -0.2%, chwarter 3 yn gwella eto i + 0.5% a chwarter 4 yn wastad ar 0.0%, +1.1% flwyddyn ar flwyddyn. Dechreuodd 2020 gydag arolygon busnes optimistaidd yn tynnu sylw at fwy o dwf ar ôl i'r ansicrwydd gwleidyddol ddod i ben yn sgil canlyniad pendant yr etholiad cyffredinol ym mis Rhagfyr a setlodd y mater Brexit. Fodd bynnag, roedd yr ystadegau Cynnyrch Domestig Gros (GDP) chwarterol ym mis Ionawr yn siomedig gan na fu cynnydd mewn twf ac arhosodd ar 0.0%. Ers hynny, mae'r holl fyd wedi newid o ganlyniad i'r achosion o Coronafeirws. Bellach mae'n edrych yn debygol y bydd cau rhannau cyfan o'r economi yn arwain at gwymp mewn GDP a fydd o leiaf 15% yn chwarter dau. Yr hyn sy'n ansicr, fodd bynnag, yw maint y difrod a fydd yn cael ei wneud i fusnesau erbyn diwedd y cyfnod clo, pa bryd y bydd y cyfnod clo yn dod i ben, a gawn ail don o achosion, pa mor fuan bydd brechlyn yn cael ei greu ac yna pa mor gyflym y gellir ei roi i'r boblogaeth. Mae hyn yn gadael ansicrwydd enfawr ynghylch pa mor gyflym y bydd yr economi yn gwella.

Ar ôl i'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) godi'r Gyfradd Banc o 0.5% i 0.75% ym mis Awst 2018, achosodd yr ansicrwydd oherwydd Brexit i'r MPC eistedd ar ei ddwylo a gwneud dim tan fis Mawrth 2020; erbyn hynny roedd yn gwbl amlwg bod yr achosion o Coronafeirws yn fygythiad enfawr i economi'r DU. Bu dau doriad brys yn y Gyfradd Banc 0.75% ym mis Mawrth, yn gyntaf i 0.25% ac yna i 0.10%. Ynghyd â'r toriadau hyn, gwelwyd mwy o liniaru meintiol (QE), sef, yn y bôn, Banc Lloegr yn prynu giltiau (yn bennaf) werth £200bn. Roedd y Llywodraeth a'r Banc hefyd yn awyddus iawn i atal pobl rhag colli eu swyddi yn ystod y cyfnod clo hwn ac, felly, cyflwynodd y Llywodraeth amrywiol gynlluniau i roi cymhorthdal tuag at gadw swyddi cyflogedig a hunangyflogedig am dri mis tra bod y wlad dan glo. Hefyd, rhoddodd lu o fesurau eraill ar waith i helpu busnesau i gael gafael ar fenthyciadau gan eu banciau (gyda'r Llywodraeth yn darparu gwarantau i'r banciau yn erbyn colledion), i'w cadw i fynd yn ystod y cyfnod clo pan fydd gan rai cwmnïau ychydig iawn o incwm neu ddim o gwbl efallai. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae hyn yn gadael cwestiwn ynghylch a fydd rhai cwmnïau'n solfent, hyd yn oed os byddant yn cymryd benthyciadau o'r fath, ac efallai y bydd rhai hefyd yn dewis cau oherwydd nad oes, ac na fydd, digon o alw eu gwasanaethau. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd hon yn sefyllfa sy'n esblygu'n gyflym, felly, efallai y bydd mesurau pellach i ddod gan y Banc a'r Llywodraeth yn y misoedd nesaf. Bydd y camau i gefnogi swyddi a busnesau a gymerwyd eisoes gan y Llywodraeth yn arwain at gynnydd enfawr yn y diffyg cyllidebol blynyddol yn 2020/21, o 2% i bron i 11%. Mae'r gymhareb dyled i GDP hefyd yn debygol o gynyddu o 80% i oddeutu 105%. Yn y Gyllideb ym mis Mawrth, cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd gynnydd mawr mewn gwariant ar isadeiledd; bydd hyn hefyd yn helpu'r economi i wella ar ôl i'r cyfnod clo ddod i ben. Ar yr amod bod yr achosion o Coronafeirws yn dod dan reolaeth yn gymharol gyflym, a bod y cyfnod clo yn cael ei lacio, yna gobeithir y byddai adferiad sydyn, ond un a fyddai'n cymryd cryn amser i adfer yn llawn y momentwm a gollwyd.

Nid yw chwyddiant wedi peri fawr o bryder i'r MPC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan y bu rhwng 1.5 - 2.0% ar y cyfan. Hefyd, ni fydd yn broblem yn y dyfodol agos gan y bydd economi'r byd yn mynd i ddirwasgiad sydd eisoes yn golygu bod gormodedd o olew ar gael ac mae hynny wedi arwain at ostyngiad sydyn yn ei bris. Bydd pwysau ar brisiau eraill i ostwng hefyd ac mae chwyddiant cyflogau hefyd wedi bod yn gostwng dros y chwe mis diwethaf ac mae'r duedd honno'n debygol o barhau yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Er y gallai chwyddiant droi'n negyddol hyd yn oed yn Ardal yr Ewro, nid yw hyn yn debygol yn y DU ar hyn o bryd.

Roedd cyflogaeth wedi bod yn tyfu'n dda trwy'r flwyddyn ddiwethaf ond mae'n amlwg y bydd wedi cael ergyd fawr ym Mawrth - Ebrill 2020. Y newyddion da dros y flwyddyn ddiwethaf yw bod chwyddiant cyflogau wedi bod yn sylweddol uwch na chwyddiant CPI, sy'n golygu bod pŵer gwario gwirioneddol defnyddwyr wedi bod yn cynyddu ac, felly, bydd hynny wedi helpu'r GDP i dyfu. Fodd bynnag, oherwydd na all pobl adael eu cartrefi i siopa am bethau heblaw am fwyd, bydd y sector manwerthu hefyd yn gweld gostyngiad sylweddol yn eu gwerthiant.

**2.3** **Brexit** - Y prif fater yn 2019 oedd y brwydrau dro ar ôl tro yn Nhŷ'r Cyffredin i gytuno ar un ffordd ymlaen i'r DU ynghylch Brexit. Arweiniodd hyn at ymddiswyddiad Teresa May fel arweinydd y Llywodraeth leiafrifol Geidwadol ac ethol Boris Johnson yn arweinydd newydd, ar sail safiad o dynnu'r DU allan o'r UE ar 31 Hydref 2019. Llesteiriwyd yr ymdrech newydd honno i adael yr UE gan Dŷ'r Cyffredin ac, felly, fe alwyd etholiad cyffredinol i'w gynnal ym mis Rhagfyr a setlwyd y mater unwaith ac am byth trwy fuddugoliaeth glir i'r Blaid Geidwadol; roedd hynny wedyn yn golygu y gallai'r DU adael yr UE ar 31 Ionawr 2020. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i adael llawer o ansicrwydd ynghylch a lwyddir i sicrhau cytundeb masnach rhesymol erbyn y dyddiad cau ar ddiwedd 2020. Nid yw'n eglur, ychwaith, a all Coronafeirws effeithio ar y dyddiad cau hwn ond bu'n rhaid canslo ail a thrydedd rownd y trafodaethau eisoes oherwydd y feirws.

## 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

**3.1** **Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2019/20** - Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai: -

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor I fenthyca; neu

- Trwy fenthyca: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at angen i fenthyca.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus gofynnol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut y cyllidwyd hyn:-

| | **Amcangyfrif 2019/20 (£'m)** | **Gwirioneddol 2019/20 (£'m)** |
|---|---|---|
| Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol | 30 | 18 |
| Gwariant Cyfalaf o'r CRT | 14 | 12 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **44** | **30** |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 22 | 15 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau | 4 | 4 |
| Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 1 | 1 |
| CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor | 10 | 8 |
| **Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthyca** | **7** | **2** |
| **Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthyca** | **0** | **0** |

Y prif reswm dros y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

| | Tanwariant £'m | Sylw |
|---|---|---|
| Safle Aros Dros Dro i Sipsiwn a Theithwyr | 0.524 | Trefniadau tendro heb eu cwblhau yn 2019/20 ond disgwylir iddynt gael eu cwblhau yn Chwarter 1 2020/21. |
| Grantiau cyfleusterau i'r Anabl | 0.491 | Arweinir gan y galw i raddau helaeth ac mae'n rhaid cwrdd â rhai meini prawf i fod yn gymwys i dderbyn grant. Yn benodol, mae'n rhaid cynnal prawf modd i bob darpar gleient a all effeithio'n negyddol ar nifer yr achosion sy'n mynd ymlaen i dderbyn grant. |
| Cynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif | 4.547 | Mae ymgynghori pellach wedi gohirio cychwyn y cynlluniau a ddewiswyd. Rhagwelir llithriad pellach yn 2020/21. |
| Isadeiledd Strategol Caergybi | 1.554 | Bu'n rhaid ail-dendro'r prosiect ac ni ddechreuodd tan Hydref 2019. Daeth y gwaith i stop ym mis Mawrth 2020 oherwydd Covid-19. |
| Porth Twristiaeth | 1.076 | Yn aros am ganiatâd i ddechrau'r prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, sy'n cyfrannu cyllid cyfatebol ar gyfer 2 brosiect. |
| Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd yn Nhraeth Coch | 0.638 | Nid yw dyluniad y prosiect wedi ei gwblhau hyd yma. |
| Caledwedd TG | 0.420 | Eitemau newydd sydd eu hangen yn llai nag a ragwelwyd. |
| Contractau Cynnal a Chadw a Gynlluniwyd | 0.970 | Amseriad y trefniadau tendro a dyfarnu'r contractau, nid oedd y gwariant gwirioneddol cymaint â'r disgwyl. |

**3.2** **Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Arian Parod** - mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau refeniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

| Cronfeydd wrth gefn a darpariaethau y gellir eu defnyddio | Drafft 31-Maw-2020 £'m | Terfynol 31-Maw-2019 £'m |
|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn cyffredinol Cronfa'r Cyngor | 7.060 | 5.912 |
| Cronfeydd wrth gefn clustnodedig | 8.760 | 8.728 |
| Cronfa wrth gefn y Gronfa Refeniw Trai (CRT) | 8.597 | 8.387 |
| Cronfeydd wrth gefn ysgolion | 0.197 | 0.631 |
| Derbyniadau cyfalaf wrth gefn | 1.330 | 1.186 |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio** | **25.944** | **24.844** |
| | | |
| **Darpariaethau** | **5.180** | **5.234** |
| | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn a'r darpariaethau y gellir eu defnyddio** | **31.124** | **30.078** |

**3.3** **Allanoli benthyca–** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2019/20 a gyllidwyd drwy fenthyca, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthyca yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthyca hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu sefyllfa arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gael ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthyca gan gyrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ym mis Mawrth 2020, cymerodd y Cyngor fenthyciad tymor byr gyda'r PWLB i gyllido gwariant cyfalaf a gynlluniwyd hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ar 18 Mawrth 2020, cymerodd y Cyngor fenthyg £10m ar gyfradd llog o 2.05% a bydd yn aeddfedu ar 18 Mawrth 2021.

**3.3.1 Benthyca Gros a'r GCC** - Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthyca'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, fe ddylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthyca fewnol bellach wedi bod yn cael ei gweithredu dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthyca gros o £139.2m ar 31 Mawrth 2020 yn uwch na'r GCC ar 31 Mawrth 2020 ond mae o fewn y GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn o fynd y tu hwnt i'r GCC wedi digwydd oherwydd y benthyciad o £10m a gymerwyd ym mis Mawrth 2020, ac roedd y pandemig byd-eang yn golygu bod gwariant cyfalaf yn y mis olaf yn is na'r disgwyl, a olygodd bod y benthyca allanol yn uwch na'r GCC. Dim ond ar gyfer y tymor byr fydd hyn gan y bydd lefel y benthyca allanol yn disgyn yn is na'r GCC yn 2020/21 wrth ad-dalu'r benthyciad allanol ac yn sgil gwario cyllid cyfalaf.

| | Gwirioneddol 2019/20 £'m | Amcangyfrif 2020/21 £'m | Amcangyfrif 2021/22 £'m |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Cyllid Cyfalaf | 136.9 | 148.0 | 163.3 |

**3.3.2 Benthyca mewnol** - yw pan, dros y tymor canol, y disgwylir i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthyca tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthyca mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthyca Gros. Fel y gwelir yn y tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn y sefyllfa fenthyca fewnol oedd £6.2m. Trwy gymryd un Benthyciad newydd gan y PWLB, fel y nodwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn, roedd y sefyllfa fenthyca fewnol ar 31 Mawrth 2020 wedi gostwng ac, mewn gwirionedd, roedd y Cyngor wedi gorgyllido'r GCC (fel yr eglurwyd yn 3.3.1 uchod).

| | 31 Mawrth 2019 Gwirioneddol £'m | 31 Mawrth 2020 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|
| Sefyllfa fenthyca gros | 132.5 | 139.2 |
| GCC | 138.7 | 136.9 |
| (Tan) / Gorgyllido'r GCC | (6.2) | 2.3 |

**3.4 Benthyciadau eraill -** Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor gymryd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill. Derbyniwyd benthyciad di-log o £1.878m yn ystod 2019/20 i gyllido gwariant cyfalaf ar brosiectau arbed ynni a bydd yn cael ei ad-dalu mewn rhandaliadau blynyddol.

**3.5 Ad-dalu dyledion** - Aeddfedodd Benthyciad gan y PWLB yn ystod y flwyddyn ar 20 Mai 2019 ac roedd am £5m. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol yn 2010 ar gyfradd llog o 3.52%. Ni chafwyd unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill yn ystod y flwyddyn.

**3.6 Buddsoddiadau** – Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er y cedwid y gallu i fuddsoddi am gyfnodau hwy. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £33m, yn amrywio rhwng £11m a £33m. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer llog ar £0.032m ar ôl addasu i adlewyrchu'r cyfraddau uwch ar y buddsoddiadau cyfredol. Fel y digwyddodd, dychwelodd y balansau cyfartalog o £22.4m log o £0.128m ar gyfradd 0.57% ar gyfartaledd. Cyfrannodd buddsoddiadau mewn Awdurdodau Lleol eraill at y cynnydd hwn yn y llog a dderbyniwyd.

Roedd rhai o adneuon y Cyngor mewn cyfrifon adneuo nad oes angen rhoi rhybudd ar gyfer tynnu arian allan ac maent yn talu llog ar gyfraddau sy'n agos i'r gyfradd sylfaenol gyffredinol, £14.208m ar 0.48% ar 31 Mawrth 2020 (31 Mawrth 2019 £14.333m ar 0.53%). Roedd dau fenthyciad i awdurdodau lleol eraill (£3.000m yr un) ar gyfraddau llog o 0.76% a 0.90% (£dim ar 31 Mawrth 2019). Roedd yr holl fuddsoddiadau am lai na blwyddyn.

**3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2020** - Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli'r Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, sicrwydd ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy adroddiadau i Aelodau a nodir yn y crynodeb, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2019/20. Nid aethpwyd y tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2019 | | | 31 MAWRTH 2020 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'m | Cyfradd Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) | £'m | Cyfradd Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled i'r PWLB<br>Dyledion eraill<br>**Cyfanswm** | 132.5 | 5.70 | 30.29 | 136.4<br>2.8<br>**139.2** | 4.53<br>0 | 28.21<br>4.04 |
| GCC | 138.7 | | | 136.9 | | |
| Gor / (Tan) fenthyciad | (6.2) | | | 2.3 | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un am gyfnod llai na blwyddyn, wedi eu rheoli'n fewnol ar gyfradd sefydlog) | | | | 6.000 | 0.83 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (pob un ohonynt wedi eu rheoli'n fewnol) | 14.333 | 0.53 | | 14.208 | 0.48 | |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **14.333** | **0.53** | | **20.208** | **0.58** | |

Dadansoddiad pellach o'r benthyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2019 | | 31 MAWRTH 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | £'m | % o'r cyfanswm | £'m | % o'r cyfanswm |
| **Cyfanswm benthyca** | **132.5** | **100** | **139.2** | **100** |
| Llai na 12 mis | 5.2 | 3.9 | 14.8 | 10.6 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 4.6 | 3.5 | 2.6 | 1.9 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 4.6 | 3.5 | 3.2 | 2.3 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 4.2 | 3.1 | 6.2 | 4.5 |
| 10 mlynedd a mwy | 113.9 | 86.0 | 112.4 | 80.7 |

Y rheswm dros y cynnydd yn nifer y benthyciadau sy'n llai na 12 mis o gymharu â 31 Mawrth 2019 yw'r benthyciad gan y BBGC a gafwyd yn ystod y flwyddyn, fel y soniwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn.

## 4. Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn 2019/20

**4.1 Aildrefnu dyledion -** Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

**4.2 Benthyca cyn bod angen -** Yn ystod y flwyddyn, ni chymerodd y Cyngor fenthyg fwy nag yr oedd ai angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.

**4.3 Polisi Buddsoddi** – mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei lywodraethu gan ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru, a weithredwyd yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 27 Chwefror 2019. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartïon buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddyfarnwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgaredd buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, wedyn ei hylifedd ac wedyn yr elw. Mae hyn yn ei hanfod yn golygu mai'r brif flaenoriaeth yw diogelwch yr arian, ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen ac wedyn y llog canrannol y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian dros ben fyddai benthyca tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.

**4.4 Y Strategaeth fenthyca a rheoli'r risg cyfradd llog** - Yn ystod 2019 a than fis Mawrth 2020, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthyca. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthyca cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddoeth gan fod enillion o fuddsoddiadau yn isel ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartïon wrth fuddsoddi hefyd. Fel y nodwyd ym mharagraff 3.3 o'r adroddiad hwn, ym mis Mawrth 2020 cymerodd y Cyngor fenthyciad tymor byr gan y PWLB er mwyn cyllido gwariant cyfalaf a gynlluniwyd hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol. Fel y disgrifir yn 3.3, arweiniodd hyn at fynd y tu hwnt i'r GCC ar ddiwedd y flwyddyn, ond dim ond yn y tymor byr fydd hyn wrth i fenthyciad allanol gael ei ad-dalu ac wrth wario cyllid cyfalaf.

**4.5 Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf** – Yn 2018/19, gweithredodd y Cyngor ei bolisi DRI newydd ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys ac ymgynghori â'r Archwilwyr Allanol. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus o godi ar Refeniw am gostau Cyllido Cyfalaf. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2019/20 a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 27 Chwefror 2019.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r Dangosyddion Darbodus canlynol wedi eu cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 o'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaeth rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2019/20.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf –** Dyma ragolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2019/20 a 2022/23, ac mae'n seiliedig ar Raglen Gyfalaf 2019/20 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2020/21.

- **Angen y Cyngor i Fenthyca (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) -** Dangosydd darbodus arall yw Gofyniad Cyllido Cyfalaf y Cyngor (GCC). Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill sydd heb gael ei dalu amdano eto un ai o refeniw neu adnoddau cyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthyca sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n uniongyrchol drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y ddarpariaeth refeniw isaf (DRI) yn dâl refeniw statudol flynyddol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthyca yn unol â hyd bywyd pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.

- **Doethineb ariannol – Dyledion Gros a'r GCC** – Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyledion gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2019/20 a'r ddwy flwyddyn ariannol ganlynol. Mae hyn yn golygu bod peth hyblygrwydd ar gyfer benthyca cyfyngedig cynnar ar gyfer y blynyddoedd i ddod ond mae'n sicrhau na fyddir yn benthyca at ddibenion refeniw**.**

- **Dyledion Allanol – Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol –** Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthyca i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthyca'n allanol y tu draw iddo ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellid ei gynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hwy. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli un ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi ei weithredu hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus yma yn y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymiadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Y terfyn gweithredol -** Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion a'r gallu i gyllido tanfenthyca drwy adnoddau arian parod eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwch ben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwn i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net –** Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthyca a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

## 6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r rhai a ddisgwyliwyd.

**6.1** Yn ystod 2019/20, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoliadol. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol | 2018/19 Gwirioneddol £'m | 2019/20 Gwreiddiol £'m | 2019/20 Gwirioneddol £'m |
|---|---|---|---|
| **Gwariant cyfalaf** | | | |
| • Dim CRT | 21.650 | 18.020 | 18.203 |
| • CRT | 9.028 | 13.110 | 11.812 |
| • **Cyfanswm** | **30.678** | **31.130** | **30.015** |
| **Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf:** | | | |
| • Dim-CRT | 97.847 | 104.103 | 96.903 |
| • CRT | 40.815 | 40.998 | 40.001 |
| • **Cyfanswm** | **138.662** | **145.101** | **136.904** |
| **Benthyca Gros** | **132.549** | **124.996** | **139.232** |
| **Dyledion allanol** | **132.549** | **124.996** | **139.232** |
| **Buddsoddiadau** | | | |
| • Hirach na blwyddyn | 0 | 0 | 0 |
| • Llai na blwyddyn | 14.333 | 15.000 | 20.208 |
| • **Cyfanswm** | **14.333** | **15.000** | **20.208** |
| **Terfyn Benthyca Awdurdodedig** | **177.0** | **178.0** | **139.2** |
| **Terfyn Gweithredol** | **164.0** | **173.0** | **139.2** |
| | | | |
| Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Dygwyd Ymlaen | 4.92% | 5.23% | 5.03% |
| Costau cyllido fel cyfran o'r ffrwd refeniw net – CRT | 16.88% | 15.57% | 18.78% |

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw'r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2019/20 oedd £31.130m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £30.015m. Esbonnir y rheswm dros y gwariant is ym mharagraff 3.1 yr adroddiad hwn, ac mae wedi digwydd yn bennaf oherwydd y tanwariant sylweddol ar rai prosiectau cyfalaf fel y disgrifiwyd.

**6.3** Yr ail Ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf. Ni chaniateir i'r GCC godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi ar refeniw dros oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI), er mwyn lleihau'r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, ad-daliad o'r angen benthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthyca neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd lleihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- codi mwy na'r tâl refeniw statudol (DRI) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Refeniw Gwirfoddol.

Y GCC a ragwelwyd ar adeg cynhyrchu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2019/20 oedd £145.101m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £136.904m. Un o'r rhesymau dros y GCC is oedd y tanwariant yn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a ostyngodd faint o Fenthyca Digefnogaeth yr oedd ei angen yn 2019/20. Rheswm arall oedd y grantiau ychwanegol a gafwyd yn ystod y flwyddyn i'w hychwanegu at ffynonellau cyllid eraill, megis Benthyca â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu bod angen llai o Fenthyca â Chefnogaeth ac felly'n lleihau'r ffigwr GCC. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd i ddod, bydd y ffynhonnell cyllido hon yn cael ei defnyddio i gyllido'r Gwariant Cyfalaf yn 2020/21 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd y tu hwnt i'r Terfyn Benthyca Awdurdodedig (£178m) na'r Terfyn Gweithredol (£173m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd £139.2m yn unig ar ei huchaf.

**6.5** Roedd y costau cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (5.03%), yn agos iawn at y cyfanswm a ragwelwyd (5.23%), gan olygu bod y dangosydd hwn wedi perfformio yn ôl y disgwyl, a hefyd yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Roedd y costau cyllido, fel cyfran o'r llif refeniw net ar gyfer yr CRT (18.78%), yn uwch na'r cyfanswm a ragwelwyd (15.57%) oherwydd bod y costau cyllido yn uwch a'r llif refeniw net yn is na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2019/20. Gostyngodd y tanwariant ar CRT swm y cyfraniadau Refeniw sydd eu hangen i gyllido'r rhaglen gyfalaf yn 2019/20 o £9.9m i £7.6m.

## 7. Edrych ymlaen at 2020/21 a'r tu draw i hynny

**7.1** Ar 10 Mawrth 2020, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2020/21. Roedd y Datganiad ar y Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthyg £9.6m ychwanegol yn 2020/21 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a'r CRT, cyfanswm o £19.2m yn 2021/22, ynghyd â £10.1m ychwanegol yn 2022/23 i gyllido ei Raglen Gyfalaf. Bydd y benthyca ychwanegol hwn yn effeithio ar y Gronfa Gyffredinol a bydd y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) yn codi er mwyn cyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2020/21, y rhagwelir y bydd y DRI yn £3.7m ac yn £3.9m, £3.9m yn 2021/220 a £4.4m yn 2022/23.

**7.2** Ni wnaed unrhyw fuddsoddiadau newydd yn y flwyddyn hyd yn hyn.

**7.3** Ar 24 Ebrill 2020, aeddfedodd buddsoddiad o £3.0m gyda Chyngor Metropolitanaidd Stockport ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn. Ar 1 Mai 2020, aeddfedodd buddsoddiad o £3.0m gyda Chyngor Dinas Salford ac fe'i had-dalwyd i Gyngor Sir Ynys Môn.

**7.4** Ar 08 Mehefin 2020, ad-dalodd Cyngor Sir Ynys Môn fenthyciad o £3.5m gan y PWLB. Cymerwyd y benthyciad hwn ar 16 Chwefror 1995 ar gyfradd llog o 8.625%.

**7.5** Gellir gweld y rhagolygon diweddaraf ynghylch cyfraddau llog gan Link Assets Services yn y tabl isod.

| Rhagolygon Cyfraddau Llog | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Banc** | Meh-20 | Medi-20 | Rhag-20 | Maw-21 | Meh-21 | Medi-21 | Rhag-21 | Maw-22 |
| Link | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% |

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / elw isel a benthycwyd mewn ffordd sy'n lleihau ffioedd llog i'r eithaf.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

**R MARC JONES**
**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) /**
**SWYDDOG ADRAN 151** **28 MEDI 2020**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 28 Medi 2020 |
| **Pwnc / Testun:** | Diweddariad o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Aelod Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd<br>Iola Richards, Pennaeth Dros Dro ar y Gwasanaethau Oedolion |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Emma Edwards<br>Dirprwy Reolwr Busnes, Gwasanaethau Oedolion<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i bob Aelod. |

**A –Argymhelliad a rhesymau**

**ARGYMHELLIAD**

- **Cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.**

**Cefndir – Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i aelodau o'r Pwyllgor Gwaith am y cynnydd a wnaed ers cyfarfod cychwynnol y Cyd-Banel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.

Er bod ein gwaith yn cael ei flaenoriaethu i roi sylw i ofynion statudol, rydym hefyd yn alinio ein hymdrechioner mwyn cynorthwyo i gwrdd â'r blaenoriaethau corfforaethol fel y'u rhestrir yng Nghynllun y Cyngor. Yr amcan perthnasol ar gyfer ein gwasanaethau yw: Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd Bregus i'w cadw'n Ddiogel, yn Iach ac mor Annibynnol â phosib

1. **Diweddariad gan y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:**

i) **i) Cynyddu nifer y Gofalwyr Maeth sydd gan yr Awdurdod Lleol -**
Trwy gynnig lefel uchel o gefnogaeth broffesiynol yn ogystal â gwella'r pecyn i gynnwys cynnydd o 10% yn y lwfans gofal maeth, gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor, cardiau aelodaeth gwasanaethau hamdden am ddim a thocyn parcio am ddim i'w ddefnyddio yn ein meysydd parcio .

Yn ystod 2019/20 recriwtiodd yr Awdurdod Lleol 7 Gofalwr Maeth ychwanegol, sy'n cynnig 13 o leoliadau maeth newydd i blant a phobl ifanc Ynys Môn. Trwy gydol Ch1 a Ch2 yn 2020/21 rydym wedi parhau i recriwtio, asesu a chyflwyno gofalwyr maeth i'r Panel Maethu sydd wedi bod yn cyfarfod yn rhithiol. Yn ystod Ch1 a Ch2 rydym wedi cymeradwyo 5 gofalwr maeth newydd sy'n golygu cyfanswm o 9 lleoliad ychwanegol.

Mae'r cynnydd yn y pecyn gofal maeth wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y gofalwyr maeth ac mae gennym ddewis llawer ehangach o leoliadau ar gael i blant Ynys Môn bellach.

**ii) Agor ein "Cartref Clyd" cyntaf:**

Gweithio tuag at gynnig cartrefi o fath teuluol ar yr ynys a fydd yn golygu y gall plant o Ynys Môn sy'n derbyn gofal gael y gofal y maent ei angen ar yr Ynys a mynychu ysgolion lleol a chymryd rhan mewn bywyd cymunedol yn hytrach na chael eu rhoi, o bosib, mewn llety sy'n bellach i ffwrdd o'r gymuned leol y maent wedi arfer â hi.

Rydym wedi llwyddo i gofrestru dau Gartref Clyd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru hyd yma. Ar hyn o bryd rydym yn hyfforddi'r staff trwy weithredu cynlluniau hyfforddi manwl ar gyfer pob aelod o staff.

Mae gennym berson ifanc yn ein heiddo un ystafell wely a bwriedir y bydd dau blentyn yn symud i'r ail gartref yn fuan iawn. Mae gennym drydydd eiddo sy'n cael ei adnewyddu ar hyn o bryd er mwyn paratoi ar gyfer y cais cofrestru.

Rydym wedi sicrhau cyllid o'r Gronfa Gofal Canolraddol i ddarparu un eiddo a fydd yn cynnig gofal i bobl ifanc anabl sydd ag anghenion cymhleth, fel bod modd iddynt aros yn yr ardal leol yn hytrach na gorfod symud i leoliadau preswyl arbenigol sydd i gyd y tu allan i'r sir.

**iii) Agor 'fflat hyfforddi' ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal fel y gallwn eu cefnogi i fyw'n annibynnol am y tro cyntaf.**

Fe ddaru ni agor "fflat hyfforddi" newydd yn Llangefni ym mis Ionawr 2020 i ddarparu lle canolog a chartrefol i roi cyfle i bobl sy'n gadael gofal gael profiad o fyw'n annibynnol ac fel bod modd iddynt ddysgu a datblygu sgiliau i fyw'n annibynnol yn y dyfodol. Mae hyn yn rhan o'u cynlluniau llwybr.

Ers agor, mae 8 o bobl ifanc wedi aros yn y fflat am gyfnodau byr cyn dychwelyd at eu gofalwyr maeth.

Mae'r atborth a gawsom gan y bobl ifanc wedi bod yn gadarnhaol iawn a dyma rai o'r sylwadau a gawsom:

**" fflat hyfryd, wedi mwynhau'r annibyniaeth"**

**"wedi mwynhau coginio i mi fy hun ac edrych ar beth i'w brynu"**

**"Ia. lle da''**

**"Lle defnyddiol i ddysgu am goginio a thrin arian ac ati"**

**2) Diweddariad gan y Gwasanaethau Oedolion:**

**i) Parhau i weithio ar gynllunio ar gyfer darpariaeth tai gofal ychwanegol newydd yn Ne'r Ynys -**

a fydd yn cynnig cartref am oes i bobl dros 60 oed sy'n dymuno byw'n annibynnol mewn cymuned ddiogel a chroesawgar gyda gwasanaethau gofal a chymorth ar y safle. Mae'r cynnydd ar gynllunio ar gyfer datblygu llety gofal ychwanegol yn ne'r ynys ar stop am y tro oherwydd y penderfyniad i ddiddymu'r penderfyniad blaenorol a wnaed ar ddyfodol Ysgol Gynradd Biwmares. Dros yr ychydig fisoedd nesaf, ac yn ddibynnol ar unrhyw oblygiadau yn sgil Coronafeirws, bydd cynllun gweithredu diwygiedig yn cael ei ystyried a'i ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i adolygu'r ddarpariaeth ledled yr ynys.

**i) ) Datblygu'r rhaglen Cysylltu Bywydau i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn ogystal â dylunio Strategaeth Dementia sy'n unol â Chynllun Dementia Llywodraeth Cymru -**

Mae'r rhaglen Cysylltu Bywydau yn darparu cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia a'u Gofalwyr. Mae'r ffocws ar ymyrraeth gynnar i unigolion sydd ag anghenion cymedrol, ac mae'n cynnig darpariaeth seibiant ac egwyliau byr yn benodol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda 3 galluogwr sydd ar wahanol gamau o'r broses gofrestru. Cynhaliwyd adolygiadau o bob adeilad ac ar hyn o bryd mae galluogwyr yn ymgymryd â rhaglen hyfforddi. Rydym yn rhagweld y byddant mewn sefyllfa i gynorthwyo unigolion yn ystod yr hydref.

**ii) ) Datblygu cyfleoedd i bobl ag anghenion iechyd meddwl gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn y gymuned-**

Yn ystod y flwyddyn, fe ddaru ni ddatblygu ymhellach raglen wythnosol o weithgareddau grŵp ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl, gyda ffocws ar adferiad, lles, gweithgaredd corfforol a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol. Mae peth o’r rhaglen yn cael ei rhedeg ar y cyd â sefydliadau’r trydydd sector, wardeiniaid parc natur y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Nodwedd allweddol yw cyd-gynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad byw, ynghyd â defnyddio adnoddau lleol ledled yr ynys.

**iii) Cynyddu lefelau cyfranogiad yn y modelau hyb cymunedol trwy hyrwyddo a datblygu'r hybiau ledled yr Ynys-**

Parhaodd yr Hybiau Cymunedol i dyfu yn ystod 2019/20 ac mae dros 1,100 o unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hyb cymunedol.

Rydym wedi sefydlu Cynghrair Hyb Cymunedol sy'n dod â'r hybiau at ei gilydd i gyfuno adnoddau a rhannu arfer da. Mae'r model presgripsiynau cymdeithasol trwy'r Cydlynwyr Asedau Lleol yn parhau i gefnogi pobl unig ac ynysig a'u cysylltu â gweithgareddau hyb cymunedol.

Datblygiad diweddar yw'r feddalwedd newydd o’r enw “Elemental” y gall meddygon teulu ei defnyddio i atgyfeirio unigolion yn uniongyrchol i'r gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol.

Fe wnaethom hefyd ddechrau gweithio ar ddatblygu rhaglen hybiau rhithiol trwy ddatblygu gwefan ac “ap” cysylltiedig, gyda gweithgareddau, gwybodaeth a chyngor. Bydd y gwaith

hwn yn parhau yn 2020/21.

**Sefydlu 3 Thîm Adnoddau Cymunedol, wedi'u lleoli yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll, a fydd yn dod â Staff y Cyngor a staff Betsi Cadwaladr ynghyd i wella mynediad i'n gwasanaethau gofal a chymorth cyn gynted ag y mo modd -**

Ymgymerwyd â gwaith i sefydlu tri Thîm Adnoddau Cymunedol (TAC) yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'u neilltuoi i'w TAC yn y tair ardal.

Mae gwaith adnewyddu llety, seilwaith TG a pholisïau a gweithdrefnau yn mynd rhagddo ym mhob ardal.

Bydd cynlluniau i drosglwyddo staff i TAC rhithwir yn cychwyn ar 14 Medi 2020.

**Ymgysylltu ac ymgynghori â defnyddwyr ar y Strategaeth Cyfleoedd Dydd i Oedolion yn y maes Anabledd Dysgu fel ein bod yn creu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel i unigolion yn eu cymunedau-**

Ymgymerwyd â phroses ymgynghori lawn ac agored gyda rhanddeiliaid ar y Strategaeth Cyfleon Dydd. Roedd lefel uchel o ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a darparwyr a rhoddwyd gwasanaeth eiriolaeth a chymorth lle'r oedd ei angen.

Cafodd canlyniadau'r ymarfer ymgysylltu eu bwydo i mewn i'r Gwerthusiad Opsiynau o Gyfleoedd Dydd ym mis Rhagfyr 2019 a chytunodd y Pwyllgor Gwaith ar raglen ymgynghori ar gyfer 2020-21.

**3) Diweddariad ar y cyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar COVID:**

Mae'r pandemig COVID-19 byd-eang wedi effeithio ar y ffordd yr ydym yn gweithio ers diwedd mis Chwefror 2020, gyda Chynlluniau Rheoli Parhad Busnes a Chorfforaethol wedi'u gweithredu yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac oherwydd effaith COVID-19 ganol mis Mawrth 2020:

- Defnyddio pwerau a chyllidebau cyfnod argyfwng
- Tîm Rheoli Ymateb i'r Argyfwng yn parhau, tra'n rheoli busnes fel arfer, gan baratoi ar gyfer codi'r cyfyngiadau a'r adferiad
- Adroddiadau Sefyllfa Dyddiol ac Wythnosol yn cael eu paratoi yn crynhoi penderfyniadau, materion a risgiau allweddol
- Cyfathrebu’n ddyddiol yn fewnol gyda'r Aelodau a'r staff ac yn allanol trwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol
- Mae cofrestr risg ffurfiol COVID-19 yn cael ei hadolygu a'i diweddaru bob wythnos

Defnyddio pwerau dirprwyedig brys sy'n galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau hollbwysig. Arweiniodd hyn at y mwyafrif o staff y Cyngor yn gweithio gartref lle bo hynny'n bosib, cau adeiladau'r Cyngor i ymwelwyr, cau ein canolfannau dydd anabledd dysgu, dim

mynediad i'n cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio i ymwelwyr nad ydynt yn hanfodol a gostyngiad yn ein gwasanaethau.

Yn ystod y cyfnod clo rydym wedi:

- Parhau i gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol), BIPBC, Darparwyr a chydweithwyr yn Nhîm Cydnerth Gogledd Cymru, yn ogystal â llawer o rai eraill
- Sefydlu storfa PPE Covid-19 i reoli danfoniadau PPE gan Lywodraeth Cymru. Rheolir y storfa o fewn adnoddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sefydlu'r broses ar gyfer cyfeirio pobl am brofion COVID, gyda staff y Cyngor yn rheoli'r broses 7 niwrnod yr wythnos
- Datblygu a defnyddio arferion gwaith arloesol i addasu i'r cyfnod pandemig i hwyluso cyswllt, asesiadau ac adolygiadau, gan sicrhau y cyflawnir ein dyletswyddau diogelu.
- Parhau i gydymffurfio ag achosion Llys a Chynllunio Gofal.
- Parhau i recriwtio Gofalwyr Maeth ar gyfer yr Awdurdod Lleol

**4) Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Adolygiad o Berfformiad yr Awdurdod Lleol.**

CIW - Annual Letter - Anglesey - 2019-20

Mae copi o'r Llythyr Blynyddol ynghlwm er gwybodaeth i chi.

| **B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|
| Amherthnasol. |

| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae'r gwasanaeth angen cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith ei fod yn fodlon â chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma o fewn y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. |

| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor** |
|---|

| **llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D – D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? Beth oedd eu sylwadau?** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | |
| **2** | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Fel uchod |
| **3** | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Fel uchod |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Sgriwtini** | |
| **9** | **Aelodau Lleol** | |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E – Risgiau a chamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrthdlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniadau** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| |
|---|
| |

| FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

CC-016749-LB/229501

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Gwaith |
| **Dyddiad:** | 28 Medi 2020 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2019/20 |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros-dro & Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.<br>Iola Richardson, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Dros-dro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>Swyddog Cyswllt:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol (Dros dro)<br><br>Emma Edwards<br>01248 751887<br>Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i'r holl Aelodau |

**A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**Pwrpas yr adroddiad:**
Derbyn a gwneud sylwadau ar yr adroddiad drafft terfynol a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Statudol. Pwrpas yr adroddiad yw hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf o ran darparu Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghyngor Sir Ynys Môn, er heriau COVID-19. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu'r ffocws ar gyfer gwelliant am y flwyddyn nesaf.

Nodwch os gwelwch yn dda y bydd yr adroddiad terfynol, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae'r templed ar gyfer yr adroddiad yn cael ei ddylunio gan ein Dylunydd Graffig a'n Swyddog Marchnata Digidol.

**Amserlen**
Roedd yr adroddiad wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 22 Medi 2020 ac mae'r adroddiad terfynol yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Gwaith ar y 28 Medi 2020 ac yna gyda'r Cyngor Llawn ar dyddiad yw gytuno yn Mis Hydref 2020. Mae y dyddiadau yn hwyrach eleni oherwydd her pandemic COVID-19. Ymhellach, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

__Argymelliadau__

| | |
|---|---|
| 1.1. | Gwahoddir aelodau i roi sylwadau ar gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr, Cyngor Sir Ynys Môn ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20. |
| 1.2. | Argymhellir bod yr aelodau'n ystyried:<br><br>a) a yw'r adroddiad yn cyfleu sefyllfa gyfredol y Cyngor o ran y modd y mae'n darparu ei Wasanaethau Cymdeithasol;<br>b) a yw'r adroddiad yn adlewyrchu'n gywir ei flaenoriaethau gwella mewn perthynas â'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd am y flwyddyn nesaf;<br>c) a yw'r adroddiad yn adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Cyngor mewn perthynas â'i Wasanaethau Cymdeithasol. |

| **B - Pa opsiynau eraill yr oeddech chi'n eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis y dewis hwn?** |
|---|
| Ddim yn berthnasol. |

| **C - Pam mae hyn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| Mae angen cael cadarnhad gan y Pwyllgor Gwaith bod yr adroddiad yn adlewyrchiad cywir o effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2019/20. |

| **CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi. |

| **D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
|---|
| Ydi. |

| **DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | | **Beth oedd eu sylwadau?** |
|---|---|---|
| **1** | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (gorfodol) | Fe ddaru hyn gael ei gymeradwyo gan yr UDA ar y 7 Gorffennaf 2020. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Fel yr uchod. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Amherthnasol |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | Amherthnasol |
| **7** | **Caffael** | Amherthnasol |
| **8** | **Craffu** | Cafodd yr Adroddiad ei ystyried gan Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 22 Medi 2020. |
| **9** | **Aelodau Lleol** | Amherthnasol |
| **10** | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | Amherthnasol |

| **E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | Amherthnasol |
| **2** | **Gwrth-dlodi** | Amherthnasol |
| **3** | **Trosedd ac Anrhefn** | Amherthnasol |
| **4** | **Amgylcheddol** | Amherthnasol |
| **5** | **Cydraddoldebau** | Amherthnasol |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | Amherthnasol |
| **7** | **Arall** | Amherthnasol |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2019/20 |
| **FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
| |

CC-016749-LB / 229501

# Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20

# Cynnwys


- Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Grynodeb o'r Perfformiad
- Y Sefyllfa Ddiweddaraf ynghylch COVID-19
- Sut mae pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?
- Safon Ansawdd 1 - Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y dymuna pobl eu cyflawni
- Safon Ansawdd 2 - Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo lles emosiynol ac iechyd corfforol a meddyliol pobl
- Safon Ansawdd 3 – Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed
- Safon Ansawdd 4 – Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
- Safon Ansawdd 5 -Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach
- Safon Ansawdd 6- Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael lles economaidd gwell, bywyd cymdeithasol ac i fyw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u gofynion.
- Ein gweithlu a sut y Cefnogwn eu Rolau Proffesiynol
- Ein hadnoddau Ariannol a Sut y Cynlluniwn am y Dyfodol
- Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd


Rhydd y ddogfen hon grynodeb o'n hunanasesiad blynyddol. Credwn ei bod yn amlinellu rhai o'n cyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â thynnu sylw at yr heriau y mae angen rhoi sylw iddynt yn ystod y flwyddyn i ddod.

Croesawn unrhyw sylw ar fformat a chynnwys yr adroddiad hwn er mwyn cynorthwyo ein taith gwella.

## Ein Gwasanaethau Cymdeithasol 2019-20

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm Cyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw **£37,599,160** | Cyllideb y Gwasanaethau Oedolion yw **£26,449,150** | Cyllideb y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yw **£11,150,010** |
| Cyfanswm y cyllid grant **£2,979,587**   | Rydym yn cyflogi 592 o bobl  | Mae 476 (83%) o'n gweithwyr yn siarad Cymraeg (L3 neu uwch)   |

## Pwy ydym wedi'u Helpu a'u Cefnogi

| | |
|---|---|
| **4,486** cysylltiad ag Oedolion | **3,956** cysylltiad â Phlant a'u Teuluoedd |

| | | |
|---|---|---|
| Mae 2,245 o oedolion yn derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth | Mae 1,752 o oedolion yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth | Mae 188 o blant yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth |
| Mae 194 o blant unigol yn derbyn Gofal | Mae 199 o blant unigol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (72 yw cyfartaledd nifer y plant ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn) | 550 o ofalwyr wedi'u hasesu yn ystod y flwyddyn |
| 52 o Ofalwyr Maeth | 245 o ddefnyddwyr System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (yr WCCIS) | 116 o Ofalwyr Ifanc yn cael Cefnogaeth Gweithredu dros Blant |

## Cyflwyniad y Cyfarwyddwr a'i Grynodeb o'r Perfformiad

Rwy'n falch o gyflwyno fy Adroddiad Blynyddol cyntaf yn fy rôl fel Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Gyngor Sir Ynys Môn. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld newid sylweddol yn Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor, yn dilyn ymddeoliad ein Prif Weithredwr, Dr Gwynne Jones, y caiff ei ymroddiad a'i gefnogaeth i gynorthwyo i wella ein gwasanaethau cymdeithasol ei gydnabod yn eang.

Hoffwn gyflwyno Mrs Annwen Morgan yn ffurfiol fel Prif Weithredwr newydd y Cyngor a Dylan Williams fel Dirprwy Brif Weithredwr. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am y strwythur diwygiedig dan ein diweddariad "Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd"

Hoffwn ddiolch i Alwyn Rhys Jones, a arweiniodd y gwaith a grybwyllir yn yr adroddiad hwn fel Cyfarwyddwr Statudol Cyngor Sir Ynys Môn. Penodwyd Alwyn yn ddiweddar i rôl Cyfarwyddwyr Statudol yn Wrecsam a dymunwn y gorau iddo yn ei rôl newydd.

Rydym wedi cychwyn ar siwrnai i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn mabwysiadu Strategaeth Cyfleoedd Diwrnod Anableddau Dysgu radical, newydd. Golyga hyn ymgynghori ar ddull newydd a chyffrous o'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau ar hyn o bryd, ac rydym wedi'n cyffroi i allu rhannu ein gweledigaeth ynglŷn â moderneiddio'r ddarpariaeth hanfodol hon.

Gyda'n partneriaid yn y maes iechyd a'r trydydd sector, rydym wedi gwneud cynnydd wrth sefydlu Timau Gofal Cymunedol mewn tair ardal yn Ynys Môn. Er nad yw'r prosiect wedi'i gyflawni'n llawn eto, oherwydd heriau wrth sicrhau eiddo priodol a materion technegol a logistaidd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo dros y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Wrth i ni ymdrechu i ddarparu gofal cymdeithasol o ansawdd da i drigolion Ynys Môn, mae'n parhau i fod yn her gyda phwysau cyllideb ariannol, gynyddol, parhaus a phoblogaeth sy'n heneiddio. Fodd bynnag, gyda gwaith caled parhaus ac ymroddiad ein gweithlu, cynllunio busnes clir a phrosiectau dyfeisgar a medrus, rwy'n hyderus y gallwn ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl.





Fôn Roberts,
Cyfarwyddwr Dros Dro'r Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth y Gwasanaethau

Plant a Theuluoedd

## Pandemig Coronafeirws-19 (COVID-19)

Mae pandemig COVID-19 ledled y byd wedi cael effaith ar y ffordd yr ydym yn gweithio ers diwedd mis Chwefror 2020, gyda chynlluniau Rheoli Parhad Busnes a Chorfforaethol ar waith yn dilyn arweiniad cenedlaethol ac, oherwydd effaith COVID-19 ganol mis Mawrth 2020:

- Defnyddiwyd pwerau a chyllidebau stad o argyfwng
- Parhaodd Tîm Rheoli Ymateb i Argyfyngau, wrth reoli busnes yn ôl yr arfer a pharatoi ar gyfer cam llacio’r cyfyngiadau symud a’r cam adfer
- Paratowyd Adroddiadau Dyddiol ac Wythnosol ar y Sefyllfa yn crynhoi penderfyniadau, materion a risgiau allweddol
- Bu cyfathrebu dyddiol yn fewnol gyda'r Aelodau a'r staff ac yn allanol trwy wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol
- Adolygwyd cofrestr risg ffurfiol COVID-19 a'i diweddaru bob wythnos

Defnyddiwyd pwerau dirprwyedig brys oedd yn ei gwneud yn bosib i’r Cyngor wneud penderfyniadau hanfodol. Arweiniodd hyn at fwyafrif Staff y Cyngor yn gweithio o gartref lle bo hynny'n bosibl, cau adeilad ein Cyngor i ymwelwyr, cau ein canolfannau dydd anabledd dysgu, gwahardd ymwelwyr nad oedd yn hanfodol rhag mynd i gartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio a gostyngiad yn ein gwasanaethau.

Yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud rydym wedi:

- Parhau i gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Darparwyr a chydweithwyr yn Nhîm Cydnerthu Gogledd Cymru, yn ogystal â llawer o rai eraill.
- Sefydlu storfa PPE Covid-19 i reoli PPE a ddanfonir gan Lywodraeth Cymru ac a reolir o fewn adnoddau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Sefydlu'r broses cyfeirio profion COVID gyda staff y Cyngor yn ei reoli saith niwrnod yr wythnos.
- Datblygu a defnyddio arferion gwaith arloesol i addasu i'r cyfnod pandemig er mwyn hwyluso cyswllt, asesiadau, adolygiadau, gan sicrhau y cyflawnir ein dyletswyddau diogelu.
- Parhau i gydymffurfio ag achosion Llys a Chynllunio Gofal.
- Parhau i recriwtio Gofalwyr Maeth yr Awdurdod Lleol.

## Sut mae Pobl yn Llunio ein Gwasanaethau?

Yr agenda Lles yw canolbwynt ein holl waith - rhoi'r unigolyn yn ganolog i bopeth a wnawn gan weithio gyda theuluoedd, cymunedau a gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau gwell canlyniadau i bawb.

Yn y ddogfen hon, byddwn yn adrodd yn erbyn pedair egwyddor y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant - lles, pobl (llais a rheolaeth), partneriaeth, ac integreiddio ac atal.

Er gwaethaf yr heriau ariannol cynyddol a wynebwyd, rydym wedi parhau i wneud cynnydd yn 2019-20 mewn sawl maes.

Ein blaenoriaeth allweddol i Oedolion yw hyrwyddo annibyniaeth ac atal angen sy'n cynyddu. I'n Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod ein plant sy'n derbyn gofal yn cael y gefnogaeth a'r cyfleoedd gorau posibl.

Mae atal yn sefyll yn gadarn ar agenda Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn. Mae yna lawer o enghreifftiau cadarnhaol o ymarferwyr yn darparu ac yn trefnu gofal a chefnogaeth i bobl yn eu cymunedau, i'w hatal rhag cyrraedd argyfwng. **"Arolygiaeth Gofal Cymru**

Rydym yn parhau i fod mewn cysylltiad rheolaidd ag Arolygiaeth Gofal Cymru trwy gydol y flwyddyn er mwyn sicrhau bod ein rheolyddion yn hyderus gyda'n taith gwella barhaus. Rhydd ein cyfarfod Blynyddol y cyfle i drafod ein cynlluniau a chynnig tystiolaeth o gerrig milltir perfformiad. Wrth weithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi gallu cofrestru ein cartrefi plant newydd yn Ynys Môn yn gyflym ac yn effeithlon, er gwaethaf heriau COVID-19.

Creodd y Gwasanaethau Cymdeithasol Gynllun Gweithredu mewn ymateb i **Mwy na Geiriau: Fframwaith Strategol Dilynol 2019-2020** Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod Lleol wedi gwneud gwaith mewn perthynas â recriwtio staff dwyieithog, gan godi ymwybyddiaeth o'r angen i wneud y Cynnig Gweithredol trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gynadleddau staff a sesiynau sefydlu staff, cynorthwyo staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg a gwella sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cofnodi'r Cynnig Gweithredol. Rhennir arfer da trwy Fforwm Mwy na Geiriau

Gogledd Cymru.

**Yn ystod y flwyddyn, mae ein gwasanaethau Plant a Theuluoedd wedi bod yn cymryd rhan mewn arbrawf - "Prosiect ymarfer" gyda Phrifysgol Bangor sy'n darparu methodoleg i newid ymddygiad ieithyddol staff trwy deilwra ymyraethau a chefnogaeth yn gost-effeithiol ac mewn ffordd nad yw'n gymhleth. Y nod yn y pen draw fydd creu pecyn cymorth i sefydliadau yng Nghymru i gynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.**

**Astudiaeth Achos:**



Rydym yn falch o Sian Morgan, Gweithiwr Cymorth yn y Tîm Teuluoedd Gwydn a anrhydeddwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Mae Sian yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ers bron i 15 mlynedd ac mae gan ei chydweithwyr a'i chyfoedion barch mawr tuag ati. Derbyniodd Sian y wobr 'Gofalu yn Gymraeg' gyda balchder yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ar y 7fed o Awst, 2019.

Yn y seremoni roedd Mark Drakeford, y Prif Weinidog ac Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg. Roedd Sian yn un o chwe pherson yn y rownd derfynol a ymgeisiodd am y wobr, ac fe'i dewiswyd fel enillydd trwy bleidlais gyhoeddus - lle cafodd mwy na 850 o bobl dweud eu dweud .

Nod y wobr yw cydnabod a dathlu gweithwyr gofal yn y maes gofal cymdeithasol, blynyddoedd cynnar a phlentyndod sy'n rhoi gofal rhagorol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Sian yn rhoi gofal a chefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau bod y bobl y mae'n gofalu amdanynt yn teimlo'n gyffyrddus, eu bod yn cael clust ac yn gallu cyfathrebu yn eu mamiaith.
.

Enwebwyd Sian am y wobr gan ei rheolwr, Dawn Hutchinson, a ddywedodd, "Mae Sian wedi gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl y mae'n rhoi cymorth iddynt ar Ynys Môn. Trwy gyfathrebu â phobl yn eu hiaith gyntaf a defnyddio'r dafodiaith leol, mae Sian wedi helpu teuluoedd i deimlo bod pobl yn eu deall a'u gwneud i deimlo'n llai ynysig."

Dywedodd Arweinydd y Cyngor a deiliad portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Llinos Medi, "Rydym yn hynod falch o Sian a'i hymrwymiad i ddarparu lefel mor uchel o ofal. Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ac, ar Ynys Môn, rydym yn falch iawn o weld ein hiaith yn cael effaith mor gadarnhaol ar fywydau trigolion lleol."

Ychwanegodd, "Mae Sian wedi dangos y gall siarad Cymraeg, yn ei rôl fel gweithiwr cymdeithasol, wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'r plant a'r teuluoedd ifanc sy'n derbyn ei gofal a'i chefnogaeth."

Cofnododd y Gwasanaethau Cymdeithasol 199 o **sylwadau cadarnhaol** a dderbyniwyd am eu gwasanaethau yn 2019/20. Hefyd, cofnododd y Gwasanaeth 65 o **sylwadau /**

**pryderon negyddol**, 37 o **gwynion** Cam 1 a saith o gwynion Cam 2. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw gamau sydd eu hangen i weithredu'r hyn a ddysgwyd o gwynion, ac adroddir ar adborth ar wasanaethau a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol.

Nod y **Gronfa Gofal Integredig** (CGI) yw gyrru a galluogi'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol gydweithio a gweithio'n integredig. Y bwriad yw helpu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu a phrofi dulliau a modelau darparu gwasanaeth newydd fydd yn cefnogi egwyddorion sylfaenol integreiddio ac atal. Rhaid i feysydd blaenoriaeth integreiddio a phob rhaglen CGI ranbarthol roi sylw cymesur iddynt, yn unol â'u hasesiadau poblogaeth rhanbarthol a chynlluniau ardal i bobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau tymor hir, gan gynnwys dementia; Pobl ag anableddau dysgu; Plant ag anghenion cymhleth; a Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc.

Trwy'r holl adroddiad hwn byddwch yn sylwi y cyfeirir at y gwahanol brosiectau ac arbrofion y mae Ynys Môn yn gweithio arnynt ar gyfer y grwpiau blaenoriaeth hyn, gyda'r nod o ddod o hyd i fodelau a dulliau darparu gwasanaeth integredig newydd fydd yn:

- galluogi pobl hŷn i gynnal eu hannibyniaeth ac aros gartref, gan osgoi gorfod mynd i'r ysbyty heb fod rhaid ac oedi cyn eu gadael;
- galluogi teuluoedd i gwrdd ag anghenion eu plant a'u helpu i aros gyda'i gilydd;
- cefnogi gofalwyr yn eu rôl ofalu a'u galluogi i gynnal eu lles eu hunain;
- cefnogi gwaith datblygu gwasanaethau gofal a chymorth integredig ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth gan gynnwys pobl ag anableddau dysgu, plant ag anghenion cymhleth ac awtistiaeth;
- cynnig cymorth cynnar ac atal anghenion rhag cynyddu; a
- hybu iechyd a lles emosiynol yn ogystal ag atal iechyd meddwl gwael.

**Gwaith Paratoi Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)**

Pwrpas y Bil yw diddymu amddiffyniad cyfraith gwlad rhag cosb resymol fel nad yw bellach ar gael yng Nghymru i rieni na'r rhai sy'n gweithredu *in loco parentis* fel amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu ei guro.

Ar hyn o bryd, mae'r amddiffyniad yn berthnasol mewn perthynas â'r gyfraith droseddol a'r gyfraith sifil. Dan y gyfraith droseddol, mae'n berthnasol mewn perthynas â throseddau cyfraith gwlad o ymosod a churo; a than gyfraith sifil, mewn perthynas â chamwedd tresmasu yn erbyn y person.

Bwriad y Bil yw cefnogi hawliau plant trwy wahardd defnyddio cosb gorfforol, trwy wneud i ffwrdd â'r amddiffyniad hwn. Effaith arfaethedig y Bil, ynghyd â chael ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chefnogaeth i rieni, yw sicrhau gostyngiad pellach yn y defnydd a wneir o gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru a'r goddefgarwch a ddangosir ati.

Mae'n debygol y bydd y Bil yn dod yn weithredol yn 2022. Isod mae dolen i gyflwyniad byr Llywodraeth Cymru i'r bil: https://youtu.be/iK4O-Cd6Q8I

Yn ein Hadroddiad 2018/19, bu i ni sôn am ein llwyddiant wrth dendro am ein model newydd o Ofal a Chymorth Cartref ar draws yr Ynys. Rydym yn falch o gael dweud y bu i'r **tîm trawsnewid Gofal cartref ennill y wobr Rhoi Pobl yn Gyntaf / Personoli yn rhagbrawf Cymru o'r *Great British Care Awards 2019*,** a hynny ar yr 8fed o Dachwedd 2019.



**Astudiaeth Achos:**

Cyfres o ddigwyddiadau rhanbarthol ledled y Deyrnas Unedig yw'r *Great British Care Awards* ac maent yn ddathliad o ragoriaeth ar draws y sector gofal. Pwrpas y gwobrau yw talu teyrnged i'r unigolion neu'r timau hynny sydd wedi dangos rhagoriaeth anhygoel yn eu maes gwaith.

Wrth ailfodelu'r gwasanaeth Gofal Cartref, cyflwynwyd contract sy'n gwella darpariaeth gwasanaethau, ansawdd a dewis i unigolion y mae angen cefnogaeth arnynt, trwy gael un darparwr ym mhob bro o'r Ynys (tair bro i gyd). Mae'r trawsnewidiad hwn wedi sicrhau bod pobl y mae angen cymorth arnynt gartref, neu yn dilyn cyfnod ganddynt yn yr ysbyty, yn derbyn y gofal hwnnw'n gyflym waeth lle maent yn byw ym Môn. Fel hyn, hefyd, mae modd i unigolion aros mor annibynnol â phosib yn eu cartrefi eu hunain.

## Safon Ansawdd 1
## Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y dymuna pobl eu cyflawni

***Oedolion***

**Tîm Adnoddau Cymunedol** – Mae pob un o'n tri safle, y mae ein timau dynodedig yn eu rhannu, wedi cael diweddaru ei TGCh i fod yn gydnaws fel bod modd i ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol weithio'n integredig.


Rhagwelir y bydd y timau cymunedol hyn yn dod yn weithredol ddiwedd Ebrill 2020 gyda'r holl staff amlddisgyblaethol ar yr un safle. Mae cynrychiolaeth darparwyr gofal y trydydd sector a gofal cartref yn rhan annatod o nod y Tîm er mwyn mireinio'r mynediad at ddarpariaeth leol.

Gyda chyllid o'r adolygiad Seneddol, bu modd datblygu tîm trawsnewid i yrru'r agenda drawsnewid hwn ymlaen ar draws yr ardal gyda thri swyddog trawsnewid wedi'u dynodi ar gyfer Ynys Môn.

Mae cyfres o hyfforddiant meithrin tîm 'Sylfaenol' wedi'i gynnal ar gyfer yr holl staff ar draws y gymuned iechyd a hwyluswyd hwn gan arweinyddion Trawsnewid Ynys Môn. Y nod oedd deall a rhoi sylw i unrhyw faterion lleol yn ystod y cyfnod trosglwyddo. Caiff strategaeth gyfathrebu ei datblygu i sicrhau ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r agenda integreiddio ac i godi ymwybyddiaeth o sut i gael yr hyfforddiant hwn yn lleol yn y tair ardal ddynodedig.

**Timau Adnoddau Cymunedol – Y Bwrdd Iechyd a Chyngor Sir Ynys Môn**
Byddir yn cwrdd â'r maes blaenoriaeth ar gyfer integreiddio trwy ddatblygu swyddfeydd timau mewn tri lleoliad strategol ar Ynys Môn. Timau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol integredig cwbl weithredol yw Timau Adnoddau Cymunedol fydd yn cyflwyno cydlyniant di-dor o iechyd a gofal cymdeithasol. Fel hyn, bydd modd sicrhau cyngor ac ymyrraeth ar yr amser cywir ac yn y lle iawn gan y gweithiwr proffesiynol iawn i helpu i gefnogi unigolion i fyw eu bywyd fel y maen nhw'n dymuno ei fyw. Bydd y Timau hyn yn gweithredu dan fodel gweithio integredig sy'n golygu bod â pherthynas waith agos rhwng gofal sylfaenol a chymunedol a chysylltiadau cryf â gofal eilaidd. Bydd Iechyd Meddwl Pobl Hŷn hefyd yn rhan o'r tîm craidd. Bydd y trydydd sector ac, yn benodol, rolau penodol Cydlynu Asedau Lleol, yn darparu gwasanaeth rhagnodi cymdeithasol cadarn a chysylltiadau cryfach yn ein cymunedau. Byddant yn gwneud hyn wrth fabwysiadu dull seiliedig ar asedau o ddatblygu cymunedol a chefnogi unigolion, er mwyn cyd-gynhyrchu atebion cymunedol i faterion sy'n cael effaith ar eu bywydau.

Mae angen cyfalaf y Gronfa Gofal Integredig i addasu / ymestyn swyddfeydd presennol y Bwrdd Iechyd / Llywodraeth Leol mewn tri lleoliad strategol ar draws Ynys Môn i ddarparu lle gweithio integredig addas i staff y Timau hyn.




Ar y 1af o Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chôd Ymarfer (Eiriolaeth) Rhan 10. Mae copi i'w weld yn https://gov.wales/advocacy-services-code- practice . Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am sicrhau y caiff y Côd Ymarfer newydd ei ddefnyddio'n feunyddiol, ac rydym yn gweithio i sicrhau bod hyn yn digwydd yn Ynys Môn.

Amlinella'r Côd Ymarfer diwygiedig nifer o fanteision - dylid ystyried eiriolaeth fel elfen gynhenid o Ddeddf (Gofal Cymdeithasol a Lles (Cymru)) 2014 i sicrhau bod gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar bobl a'u lles. Mae eiriolaeth yn helpu pobl i ddeall sut gallant gael eu cynnwys, sut gallant gyfrannu a chymryd rhan a, phryd bynnag y bo hynny'n bosibl, arwain neu gyfarwyddo'r broses.

Trwy eiriolaeth, mae pobl yn bartneriaid gweithredol yn y prosesau gofal a chymorth allweddol sy'n nodi ac yn sicrhau atebion trwy wasanaethau ataliol; gwybodaeth, cyngor a chymorth; asesiad; gofal a chymorth a chynllunio gofal; adolygu a diogelu.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnal adolygiad o'r dogfennau asesu er mwyn sicrhau y caiff yr angen am Eiriolaeth ei nodi a'i gofnodi'n glir ar bob cam o'r ymyraethau. Mae staff gofal cymdeithasol wedi cael hyfforddiant gloywi i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau gwasanaeth ac i godi ymwybyddiaeth ynghylch pryd y dylid defnyddio darpariaeth Eiriolaeth annibynnol. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu gwahodd gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru i gyfarfodydd tîm i rannu natur y gwaith dan sylw, i rannu profiadau dysgu ac atgyfnerthu llwybrau cyfeirio.

**Astudiaeth Achos:**



O’r chwith i’r dde: Arweinydd Cyngor Ynys Môn, y Cynghorydd Llinos Medi; Pennaeth Gwasanaethau Oedolion Ynys Môn, Alwyn Rhys Jones; Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething; Cadeirydd Cynghrair Pobl Seiriol, Dr Steve MacVicar; Cadeirydd Canolfan Biwmares, Alwyn Rowlands; a Phrif Weithredwr Cyngor Ynys Môn, Dr Gwynne Jones.

Ymwelodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Vaughan Gething, ag Ynys Môn ar y 6ed o Fehefin, 2019 a dysgodd sut mae **Cynghrair Pobl Seiriol** yn cynnwys preswylwyr wrth wneud penderfyniadau a helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Ymwelodd Mr Gething â Beaumaris lle llofnododd cynrychiolwyr o Gynghrair Pobl Seiriol, Canolfan Biwmares a Chyngor Sir Ynys Môn Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd - y cyntaf i'r Ynys - i gynorthwyo gwaith cydweithredu pellach a chynaliadwy.

Bydd y ddogfen yn arwain Cynghrair Pobl Seiriol wrth iddi archwilio ffyrdd y gall y gymuned ysgwyddo cyfrifoldebau mwy lleol a chomisiynu ei gwasanaethau ei hun. Mae hefyd yn nodi amcanion ac egwyddorion allweddol cydweithredu; yn ogystal â strwythurau llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau priodol.

Gyda chefnogaeth Medrwn Môn a Chyngor Ynys Môn, cadeirir Cynghrair Pobl Seiriol gan y meddyg teulu lleol sydd wedi ymddeol, y Dr Steve MacVicar.

Dywedodd Dr MacVicar, "*Mae hwn yn ddiwrnod pwysig i ward Seiriol a'i holl drigolion. Bydd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn chwarae rhan bwysig o ran Cydweithrediad parhaus rhwng partneriaid, wrth i ni geisio chwarae ein rhan i wella iechyd, lles a ffyniant yr ardal leol yn y dyfodol."*

*Ychwanegodd, "Rwy'n ddiolchgar i Medrwn Môn a'r Cyngor Sir am eu cefnogaeth i ddatblygu'r bartneriaeth arloesol hon; ac i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething, am ymuno â ni yma heddiw."*

Sefydlwyd prosiect **Creu Cymunedau Seiriol** yn gyntaf dair blynedd yn ôl ac roedd yn ymgysylltu â'r gymuned leol, y cynghorau tref a chymuned lleol a'i gynghorwyr sir lleol.

Cefnogir y prosiect hwn gan **Medrwn Môn**, sy'n gweithio gyda grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol a Chyngor Ynys Môn. Mae Cynghrair Pobl Seiriol eisoes wedi archwilio ffyrdd o ddatblygu darpariaeth gofal cymdeithasol a gallai nawr weithio i ddatblygu meysydd blaenoriaeth eraill, megis tai fforddiadwy, creu swyddi a thrafnidiaeth.

Ychwanegodd Arweinydd Cyngor Ynys Môn a deilydd portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Cynghorydd Llinos Medi, "*Mae llofnodi'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn tanlinellu ymrwymiad yr holl bartneriaid i barhau i weithio gyda'i gilydd. Mae hefyd yn adlewyrchu nod y Cyngor Sir o gwrdd ag egwyddorion arweiniol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015."*

**Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu** – Ymgysylltwyd ynghylch y strategaeth yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2019, a bu i ni ymgysylltu'n helaeth â'r bobl hynny sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaeth dydd ar hyn o bryd. Ymhlith enghreifftiau o'r gweithgareddau a gynhaliwyd mae:

- Copïau o'r strategaeth gyda holiaduron adborth a anfonwyd at holl ddefnyddwyr cyfredol gwasanaethau dydd a'u teuluoedd (gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen o'r holl ddogfennau) (Cyf atodiadau 1)
- Pedwar cyfarfod Grŵp Ffocws ar wahân ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth wedi'u hwyluso gan y Gwasanaethau Eiriolaeth sy'n annibynnol ar y Cyngor
- Cyfarfodydd un i un a gynhaliwyd gyda'r holl ddarparwyr ac, ar ôl hynny, roedd pob darparwr yn rhannu gwybodaeth â'u staff a wahoddwyd hefyd i roi sylwadau ar y strategaeth.

Yr hyn a ddywedodd ymatebwyr wrthym am y strategaeth:

- Cytunodd 96% o'r ymatebwyr fod y strategaeth yn edrych ar y meysydd cywir ac yn cwmpasu'r hyn sy'n bwysig i bobl ag anabledd dysgu a'u teuluoedd.
- Dywedodd y rhan fwyaf o bobl yr hoffent gael mwy o gyfleoedd i fod gyda'u ffrindiau yn gwneud gwahaniaeth yn eu cymuned leol.

***Plant a Theuluoedd***

Rydym wedi sefydlu prosiect gyda **Voices from Care** ynghylch sefydlu grŵp cyfranogi i blant sy’n derbyn gofal a phobl ifanc ym Môn. Mae tair elfen i’r prosiect:

- Datblygu grŵp Cyfranogi,
- Ymgyrch leol dan arweiniad Pobl Ifanc,
- Cefnogaeth Rhieni Corfforaethol

Asiantaeth wirfoddol Cymru Gyfan yw **Voices From Care Cymru** sy'n gweithio gyda phlant mewn gofal ar hyrwyddo eu hawliau a gwella'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer. Rydym wedi cytuno i sefydlu dull wedi'i dargedu wrth sefydlu grŵp cyfranogi misol i blant a phobl ifanc rhwng 14-22 oed. Pwrpas y grŵp cyfranogi yw cefnogi Cyngor Ynys Môn i ddatblygu ei Strategaeth ‘Plant sy’n Derbyn Gofal a’r Rhai sy’n Gadael Gofal’ a darparu platfform sy’n cefnogi gwaith creu perthynas rhwng plant, pobl ifanc a’u rhieni corfforaethol yn Ynys Môn. Bydd y grŵp yn datblygu ei hunaniaeth ei hun ac yn cyd-gynhyrchu ystod o ddeunydd hyrwyddo a marchnata. Bydd hefyd yn datblygu cyfres o adnoddau ac ymgyrchoedd lleol, sy'n unigryw i Ynys Môn.

Fel sefydliad, mae *Voices From Care Cymru* wedi penodi gweithiwr prosiect fydd wedi’i leoli gyda’n staff Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a bydd yn cynnig cyngor a chefnogaeth fel ‘ffrind beirniadol’ ar gyfranogi a rhiantu corfforaethol. Mae'r prosiect hwn yn ganlyniad uniongyrchol i gyllid ar y cyd gan wasanaethau yn yr Awdurdod Lleol - Plant a Theuluoedd, Gwasanaethau Tai ac Addysg - gyda'r nod o wrando ar leisiau plant mewn gofal a fydd yn llunio gwasanaethau fydd yn cryfhau ein cyfrifoldebau rhiantu corfforaethol tuag atynt

**Hwb cymorth Cynnar:**
Mae ein Hwb Iechyd Cynnar wedi’i ffurfio mewn ymateb i'r gwaith a gwblhawyd yn y “rhaglen Gweithredu Cynnar Gyda'n Gilydd” ar yr ymateb amlasiantaethol i brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gofynion deddfwriaethol a rheoliadol eraill. Ei nod yw darparu gwasanaethau cost-effeithiol o ansawdd gwell, sy'n sicrhau canlyniadau da i bawb yn Ynys Môn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â:

- Gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) i sicrhau bod teuluoedd yn gallu cael at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth berthnasol cymaint â phosibl yn eu cymunedau er mwyn meithrin lles a gwytnwch.
- Ymateb parhaus Cyngor Sir Ynys Môn i bedwar o 12 o argymhellion Arolwg o Wasanaethau Plant Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2015). Mae'r rhain yn ymwneud â sicrhau bod ymyrraeth gynnar, fwy integredig ar gael i blant a theuluoedd trwy waith partneriaeth agosach a rhannu gwybodaeth yn well.
- O 2014/15 ymlaen, mae Cynlluniau'r Heddlu a Throsedd wedi gosod amcanion clir ynghylch lleihau troseddau mynych, gan gynnwys yn benodol ar gyfer trais domestig. Ar ben hynny, mae Cynlluniau'r Heddlu a Throsedd yn cydnabod, er

mwyn lleihau trais domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, er enghraifft, bod y rhain yn *'cyffwrdd ac yn ymwneud â chyfrifoldebau asiantaethau eraill sy'n ymwneud â diogelwch ac iechyd y cyhoedd, ac mai mewn partneriaeth â'r asiantaethau eraill yn unig y gellir cyflwyno ymateb effeithiol. Wrth i waith canolbwyntio ar y troseddau hyn barhau I gael ei fireinio, bydd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth hefyd yn parhau i dyfu'.*

- Sylw newydd ar sut y gall cylch adfyd plentyndod garcharu cenedlaethau olynol o deuluoedd gydag iechyd gwael, canlyniadau cyfleon bywyd gwael ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (pob un ar gost uchel i wasanaethau cyhoeddus) trwy gydnabyddiaeth gynyddol o'r astudiaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2015). Cafodd y gwaith canolbwyntio ar atal a lliniaru effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yng nghenedlaethau'r dyfodol ysgogiad ychwanegol, hefyd, trwy ddyletswyddau statudol newydd sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

**Blaenoriaethau 2020-21:**

  - Cyflawni ein hagenda integreiddio gyda phartneriaid iechyd a'r Trydydd sector a symud staff amlddisgyblaethol i dri safle dynodedig ar yr ynys.
  - Cwblhau gwaith aildendro a gweithredu'r Gwasanaeth Byw â Chefnogaeth newydd.
  - Ymgynghori ynghylch ein Strategaeth Cyfleoedd Diwrnod Anableddau Dysgu newydd a'i mabwysiadu a'i gweithredu.
- Cytuno ar gyllideb gyfun gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer gwasanaethau Anabledd Dysgu.
- Parhau â gwelliannau'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth

| SA1 – Pa wahaniaeth wnaethom ni? |
|---|
| Roedd 63.08% o bobl yn byw'n annibynnol gartref ar ôl cael eu hailalluogi |
| Profodd 55 o bobl oedi yn yr ysbyty wrth aros am Ofal Cymdeithasol |
| Mae 89.62% o asesiadau Plant yn cael eu cwblhau cyn pen 42 diwrnod |
| 98.88% o Benderfyniadau ein Rheolwyr Gwasanaethau Plant wedi'u cwblhau o fewn 24 awr |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| *"Mae fy ngŵr a minnau'n hynod werthfawrogol o'r help a'r gefnogaeth a roddwyd i ni gan ein Darparwr Gofal pan gefais fy rhuthro i'r ysbyty yn ddiweddar. Rhoddodd y gofalwyr oedd wrth law amser ychwanegol i'm gŵr ac fe wnaethant i gyd sicrhau ei fod yn derbyn gofal da yn fy absenoldeb. Maen nhw'n bobl eithriadol."* |

| |
|---|
| *“Cynhadledd gadarnhaol iawn heddiw a diolch am gydweithredu cystal gyda mi… mae hi cymaint yn well i deuluoedd pan fydd Gweithiwr Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol mor rhagweithiol a hawdd mynd ato ag ydych chi.”* |
| *“Hoffem ddiolch o galon i chi fel teulu. Rydych chi wedi bod yn gefn anhygoel i ni i gyd fel teulu ac yn bennaf i [blentyn]. Rydych chi wedi gwneud cymaint o wahaniaeth yn ein bywydau ac rydych chi wedi bod yno bob amser. Hebddoch chi, ni fyddai [plentyn] wedi cael llais pan oedd angen help arno. Nid ydych erioed wedi ei siomi. Byddaf yn ddiolchgar iawn i chi am byth. Rydych chi'n berson mor anhygoel ac rydyn ni wedi bod mor ffodus i gael eich holl gefnogaeth a'ch help. Byddaf bob amser yn cofio'r hyn yr ydych wedi'i wneud. Mae'r byd yn gymaint gwell gyda phobl fel chi ynddo.”* |

## Safon Ansawdd 2

## Gweithio gyda phobl a phartneriaid i warchod a hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol pobl

***Oedolion***

Mae'r model Rhagnodi Cymdeithasol ar Ynys Môn yn cynnwys gwasanaeth **Cyswllt Cymunedol Môn** a'r **model Cydlynu Asedau Lleol**. Darperir y gwasanaethau o fewn Medrwn Môn fel y corff gwirfoddol cyffredinol. Pwynt Mynediad Sengl y Trydydd Sector yw Linc Gymunedol sy'n rhoi mynediad at wybodaeth, cyngor a chefnogaeth wedi'u teilwra i anghenion lefel isel unigolyn sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn eu cymuned eu hunain. Bydd Cyswllt Cymunedol Môn yn cynorthwyo i gynnal a hyrwyddo annibyniaeth a lles pobl trwy ei gwneud yn bosib i'r unigolyn wneud dewisiadau gwybodus o'r wybodaeth a gynigir, neu drwy ei gyfeirio at Gydlynydd Asedau Lleol.

Dull cymunedol yw prosiect Cydlynydd Asedau Lleol sy'n annog oedolion a'u teuluoedd i arwain gwaith datblygu eu systemau cymorth eu hunain wrth ganolbwyntio ar eu cryfderau a'u galluoedd. Model ataliol ydyw yn y bôn, ond mae bellach yn fuddiol, hefyd, i'r rhai a allai eisoes fod yn derbyn gwasanaethau statudol. Mae Cydlynwyr Asedau Lleol yn gweithio gydag unigolion a grwpiau i ddatblygu a defnyddio rhwydweithiau lleol i hyrwyddo atebion lleol i anghenion lleol.

**Linc a LAC (Cydlynu Asedau Lleol)**

Mae cynyddu gwerth cymdeithasol, hyrwyddo annibyniaeth a chyd-gynhyrchu wrth wraidd ein strategaeth ataliol i bobl hŷn. Mae Linc Gymunedol Môn yn rhoi Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i'n preswylwyr. Yn ystod chwe mis cyntaf eleni mae Linc Môn wedi derbyn 647 o ymholiadau lle rhoddwyd Gwybodaeth / Cyngor i unigolion trwy eu cyfeirio at gyfleoedd / gwasanaethau cymunedol a / neu eu cyfeirio at y gwasanaeth Cydlynydd Asedau Lleol am Gymorth. Cyfeiriwyd 273 at y gwasanaeth Cydlynu Asedau Lleol yn ystod y naw mis.

Dyfyniadau:

***"Rwyf nawr yn mynd i grwpiau unwaith eto. Rwy'n rhoi colur ymlaen ac yn teimlo fel fi."***

***"Rwy'n cael gweld B eto, rydyn ni wedi bod yn ffrindiau ers dros 35 mlynedd. Dim ond ar y ffôn yr oeddwn yn siarad â hi, ond rwy'n ei gweld bob dydd Mawrth yn y bore coffi."***

***"Dywedodd Mr C, "Heb gefnogaeth prosiect Linc, ni fyddwn erioed wedi ymuno â grŵp cymunedol. Mae wedi newid fy mywyd gan fod gen i bobl i siarad â nhw rŵan, sydd wedi bod yn yr un sefyllfa â mi yn gofalu am anwylyn"***

*Partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Medrwn Môn a Menter Môn yw'r* ***Rhaglen Llunio Lle ar Ynys Môn*** *i gyflawni'r weledigaeth gorfforaethol i* ***'ddatblygu a chryfhau ein hymgysylltiad â dinasyddion Ynys Môn a'n hymwneud ym mhrosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor'.***

Mae'r Rhaglen yn ceisio gweithio ar lefel ward ar draws yr Ynys gyda Chynghorau Tref a Chymuned i greu mapiau asedau cynhwysfawr o'u hardaloedd. Mae'r mapiau hyn yn nodi tair lefel o asedau, bylchau a blaenoriaethau ym mhob ward, ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

Gwneir hyn trwy ddefnyddio'r Model Creu Cymunedau a grëwyd gan Medrwn Môn, ac a gymeradwywyd gan y Cyd-Fwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori, i sicrhau bod cymaint o bobl yn ein cymunedau yn cymryd rhan mewn gwaith datblygu a dylunio gwasanaethau prawf yn y dyfodol sy'n mynd i'r afael ag anghenion a nodwyd.

Trwy gydol yr amser, caiff hyn ei lywio gan Raglen Waith a Chalendr Ymgynghori'r Cyngor Sir er mwyn osgoi dyblygu ac i sicrhau y caiff sgyrsiau eu llywio gan Bolisïau lleol a Chenedlaethol.

Dechreuodd y Rhaglen Llunio Lleoedd yn 2018 gyda mapio asedau o fewn pum Ward Etholiadol.

- Twrcelyn
- Llifon
- Aethwy
- Bro Rhosyr
- Canolbarth Môn

Cynhelir tri chyfarfod ym mhob un o'r wardiau a gwahoddir cynrychiolwyr o bob un o'r Cynghorau Tref a Chymuned, preswylwyr â diddordeb, grwpiau lleol ac ati i ddysgu mwy am y Rhaglen ac i ddatblygu'r sgiliau i ddefnyddio'r offer mapio eu hunain. Mae hyn yn sicrhau bod perchnogaeth a chyfranogiad lleol.

Ar ôl cwblhau'r gwaith mapio, sefydlir strwythurau tebyg i'r Gynghrair, cytunir ar dair blaenoriaeth allweddol a chrëir cynllun gweithredu i ddatblygu atebion amgen a chreadigol i roi sylw i'r blaenoriaethau a'r bylchau y maent wedi'u nodi. Caiff y gwaith hwn ei hwyluso gan Medrwn Môn ac mae Cyngor Ynys Môn wedi ymrwymo i sicrhau bod swyddogion ac adrannau yn y Cyngor yn cyfrannu at drafodaethau a chefnogaeth fel rhan o'r broses hon. Mae hon yn broses sydd wedi gweithio'n effeithiol yn ne'r Ynys, lle mae Cynghrair Seiriol, bellach, yn comisiynu ei gwasanaethau cymunedol ei hun mewn partneriaeth â Chyngor Ynys Môn.

| | | |
|---|---|---|
| Asedau | Gallai asedau fod yn unrhyw beth y mae'r preswylwyr yn ei werthfawrogi a'i ddefnyddio mewn cymuned ddaearyddol benodol - o adeiladau a mannau gwyrdd i sgiliau a gwybodaeth am breswylwyr, i wasanaethau penodol (llyfrgelloedd, trafnidiaeth ac ati) | Gall sgyrsiau edrych ar sut caiff asedau eu defnyddio, gan bwy, pryd ac ati. Gellir eu trafod o ran sut y gellid, o bosibl, eu defnyddio'n fwy effeithiol mewn cymuned. |
| Bylchau a Meysydd Gwasanaeth | Noda sgyrsiau sut y gall gweithio mewn grwpiau cymunedol partneriaeth, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus neu breifat, roi sylw i fylchau mewn gwasanaethau a gweithgareddau. Defnyddir y term 'meysydd gwasanaeth' i ddisgrifio'r cysylltiadau rhwng un neu fwy o wasanaethau sydd eu hangen i weithio gyda'i gilydd h.y. y trydydd sector, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i sicrhau bod gweithgareddau mewn Hybiau Cymunedol yn helpu i leihau'r effaith ar wasanaethau iechyd rheng flaen trwy gefnogi gweithgaredd cymunedol ac ailgyfeirio gwasanaeth | Lle'r oedd sgyrsiau'n nodi arfer da wrth weithio ar y cyd, oedd eisoes yn digwydd yn eu cymunedau, aethom i edrych ar sut gellid rhannu hyn a gwneud yr un fath.<br>Lle nodwyd bylchau, bu i ni ofyn i gymunedau gynnig atebion posibl i'r bylchau hynny. |
| Blaenoriaethau neu atebion | Roedd sgyrsiau bob amser yn edrych ar sut gellir edrych ar flaenoriaethau ac atebion ar ddull cymunedol cyfan - gan annog cymunedau i edrych ar y cysylltiad rhwng gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol ac annog gweithio ar y cyd yn hytrach nag atebion cyflym, unigol h.y. rhannu adeiladau cymunedol, lleoedd ac adnoddau i osgoi dyblygu, cystadlu am gyllid | Ceisia tystiolaeth nodi tebygrwydd ar draws yr wyth maes er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector gyda golwg gyffredinol ar fylchau a blaenoriaethau, yn ogystal â gwybodaeth ardal-benodol.<br>(gweler y taflenni excel) |

**Gwaith hyd yn hyn:**

- **Twrcelyn** – gwaith mapio asedau wedi'i gwblhau. Sefydlwyd y Gynghrair a nodi tair blaenoriaeth. Dau gyfarfod Cynghrair wedi'u cynnal ac yn awr yn edrych i ddefnyddio'r cyllid hadau sydd ar gael
- **Aethwy**- gwaith mapio Porthaethwy wedi'i gwblhau. Bydd gwaith mapio Llanfair PG a Phenmynydd yn cael ei gwblhau ym mis Ionawr. Dau brosiect mawr eisoes wedi'u nodi ac yn cael eu hwyluso gan Medrwn Môn (ceisiadau cyllid cyfalaf ar gyfer Neuadd Goffa Llanfair PG a Hen Ysgol, Penmynydd)
- **Canolbarth**- gwaith mapio Llangefni wedi'i gwblhau, ardaloedd anghysbell i'w cwblhau mis Ionawr / Canol mis Chwefror)
- Bydd gwaith mapio dwys **Bro Rhosyr a Llifon** yn dechrau ym mis Chwefror, digwyddiadau mapio bychain cychwynnol a Chynghorau Cymuned wedi'u cynnal. Mae gwaith a blaenoriaethau ymgysylltu ieuenctid Llais Ni wedi'u cwblhau (tasg a gorffen) gyda Chlwb Ieuenctid Llanfaelog.
- Dau Swyddog Cymunedol yn eu swydd ers dechrau mis Ionawr - 18.5 awr yr wythnos, yn gweithio gyda staff ym Medrwn Môn i wneud cysylltiadau yn y gymuned (gan gynnwys chwe Chydlynydd Asedau Lleol), cynnal y gwaith mapio a hwyluso cyfarfodydd gyda Chynghorau Cymuned.
- Wedi sicrhau uned arddangos symudol i'w defnyddio i ymgysylltu â phobl yn yr ardaloedd mwy gwledig lle nad oes ased cymunedol.

Ail rownd o bum ward i’w ddechrau ym mis Ebrill 2020.

Wrth gyflawni'r **Strategaeth Gyda'n Gilydd ar gyfer Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru,** mae Tîm Gweithredu Lleol y Gorllewin wedi blaenoriaethu dull ataliol yn seiliedig ar y fethodoleg ‘Medraf’. Mae hyn yn hyrwyddo gwaith defnyddio gwirfoddolwyr sydd, yn dilyn rhaglen recriwtio, dethol a hyfforddi trwyadl yn rhoi cefnogaeth i unigolion sy'n profi trallod meddwl. Rhoddir cefnogaeth fel a ganlyn:

- **Gofal ‘medraf’ nad yw wedi’i drefnu** – wrth weithio mewn partneriaeth â'r adran achosion brys yn Ysbyty Gwynedd, rhoddir cefnogaeth i unigolion rhwng 6pm ac 1am bob dydd mewn cyfleuster pwrpasol. Gall hyn gynnwys pobl sy'n aros am asesiad gan y tîm cyswllt seiciatryddol, pobl sy'n aros am asesiad ar gyfer anghenion meddygol a phobl sy'n profi trallod meddwl ac sydd angen cefnogaeth ar unwaith.
- **Hyb Cymunedol ‘medraf’ -** mewn partneriaeth â Chyngor ar Bopeth Ynys Môn, mae gwirfoddolwyr yn bresennol mewn canolfannau yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch i gynnig cefnogaeth i unigolion sy'n dod yno gydag ystod o faterion cymdeithasol ac emosiynol.
- **Gofal sylfaenol ‘medraf’ -** bydd gwirfoddolwyr ar gael mewn meddygfeydd i roi cefnogaeth i bobl sy'n arddangos trallod meddwl.

Canolbwynt gwaith prosiect ‘medraf’ yw sicrhau bod pobl yn cael cefnogaeth, gwybodaeth, cyngor a chymorth amserol a phriodol er mwyn atal eu trallod meddwl rhag gwaethygu a'r angen am gefnogaeth statudol ddwysach.

**Gwiriadau iechyd i bobl ag anableddau dysgu** - mae hon yn ffrwd waith a nodwyd yn strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru ac mae Ynys Môn wedi bod yn arwain ar gryfhau gweithio mewn partneriaeth â meddygfeydd er mwyn sicrhau y caiff pobl gefnogaeth i gael gwiriad iechyd blynyddol. Cydnabyddir bod gan bobl ag anableddau dysgu broblemau iechyd mwy cymhleth na'r boblogaeth gyffredinol a, hefyd, eu bod yn llai tebygol o gymryd rhan mewn sgrinio iechyd arferol.

Rydym yn gweithio gyda chydweithwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu **Gardd Gymunedol yn Ysbyty Cefni.** Gyda chefnogaeth Cyllid Gofal Integredig, caiff y llecyn canolog yn Ysbyty Cefni ei ailfodelu i'w wneud yn **gyfeillgar i bobl sydd â dementia** ac yn hawdd mynd iddo. Ar hyn o bryd, nid oes modd i’r grŵp cleifion, ei ddefnyddio oherwydd y lloriau a dyluniad. Fel hyn, byddai modd i'r ward ganiatáu i rywun fynd i ofod awyr agored diogel heb orfod eu rhwystro. Bydd gan y llwybr o’r ward ddyluniad ‘anfeidredd’, sy’n annog pobl i gerdded yn ystyrlon yn hytrach na cherdded yn ôl ac ymlaen. Bydd gwelyau plannu wedi'u codi yn cael eu gosod fel bod modd i gleifion wneud dipyn o arddio. Mae seddi wedi'u gosod i roi lle tawel i gleifion a pherthnasau.

**Astudiaeth Achos :**



Trefnodd staff a defnyddwyr gwasanaeth Canolfan Adnoddau Gors Felen ddigwyddiad i godi arian tuag at grwpiau cymdeithasol ar yr ynys sy'n cefnogi pobl y mae Clefyd Alzheimer a Dementia wedi cael effaith arnynt.

Trefnodd y ganolfan, sy'n cynnig cyfleoedd dydd i oedolion ag anableddau dysgu, ddiwrnod lle gallai staff a defnyddwyr gwasanaeth wisgo eu pyjamas a chodi arian er budd dau grŵp cymdeithasol lleol sy'n cefnogi pobl sydd â'r clefyd Alzheimer neu Ddementia.

**Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gogledd Cymru (Gwasanaethau Gofal Croesffyrdd)** oedd un o'r grwpiau a dderbyniodd gyllid. Maent yn cynnig gwasanaethau seibiant i ofalwyr di-dâl ledled yr Ynys a grwpiau galw heibio i bobl â phroblemau cof a'u gofalwyr. **Clwb Memory Lane** (yn Niwbwrch) oedd yr ail grŵp. Grŵp cymorth yw hwn a sefydlwyd gan wirfoddolwyr sy'n cwrdd bob mis i gynnal gweithgareddau a rhoi cyfeillgarwch i'r rhai y mae'r clefyd Alzheimer / Dementia yn cael effaith arnynt neu'r rheini ar draws yr ynys sy'n teimlo'n unig ac ar wahân.

Dywedodd Annwen Owen, Rheolwr Canolfan Adnoddau Gors Felen, "*Fe drefnon ni'r diwrnod pyjamas yn y ganolfan er mwyn codi arian i glefyd Alzheimer a Dementia ac i godi ymwybyddiaeth ohonynt."*

*"Roedd yn wych gweld cymaint o'n defnyddwyr gwasanaeth a'n staff yn troi allan yn eu hoff ddillad nos i gefnogi achos mor bwysig. Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr a chodwyd cyfanswm o £630. Mae'r ddau grŵp yn chwarae rhan hanfodol yn y gymuned leol, gan gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef o glefyd Alzheimer neu Ddementia a'u ffrindiau a'u teuluoedd. "*

> **“Partneriaethau, integreiddio a chydgynhyrchu** – gwelsom fod gwasanaethau gweithredol yn gweithio’n dda gyda’i gilydd yn bennaf i gynorthwyo pobl i aros gartref cyhyd ag y mae modd. Mae’r cyfathrebu’n dda rhwng ymarferwyr a chaiff gwasanaethau eu cymysgu á’u cymhathu’n greadigol i gwrdd ag anghenion pobl.**”** **Arolygiaeth Gofal Cymru**

***Plant a Theuluoedd***

Mae ein gwasanaeth Plant a Theuluoedd ar y cyd â Medrwn Môn wedi datblygu dwy swydd **Cydlynydd Teuluoedd a Chymunedau** newydd. Mae hwn yn ddatblygiad newydd cyffrous sy'n anelu at feithrin gwytnwch unigolion, teulu a chymunedau trwy eu llywio’n gymdeithasol ac effeithiol i mewn i wasanaethau o fewn cymunedau a allai atal plant a'u teuluoedd rhag bod angen defnyddio gwasanaethau statudol prif ffrwd, yn debyg i'n Swyddogion LAC yn ein Gwasanaethau Oedolion, y sonnir amdanynt uchod.

Gyda chreu'r swyddi, ein nod yw gwella cyfranogiad plant a theuluoedd a allai elwa o ymyrraeth gynnar ym mywyd y gymuned trwy ddatblygu a chydlynu systemau cymorth a gwybodaeth wedi'u creu ar fodel yr Hyb Cymunedol.

Bydd y cydlynwyr yn ceisio datblygu cyfleoedd a rhwydweithiau i blant a theuluoedd gyflawni eu potensial a lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn dioddef unrhyw brofiadau niweidiol plentyndod y gallent fod wedi'u dioddef yn y gorffennol neu'n lliniaru’r profiadau hyn. Gwneir hyn trwy greu'r cyfle iddynt weithio i greu eu datrysiadau eu hunain trwy gysylltu â gwasanaethau ac eraill yn eu cymunedau ac annog ffyrdd newydd o weithio gyda'r trydydd sector a statudol.

**Datblygu Cymunedau a Meithrin Tîm**

- Ychwanegu at yr ymarfer mapio asedau diweddar a chael dealltwriaeth glir o adnoddau, bylchau a chyfleoedd lleol
- Datblygu cryfderau cymunedol a nodwyd a chynnal a datblygu rhagor o gyfraniadau ac ymwneud dinasyddion i greu gwasanaethau cynhwysol
- Defnyddio dulliau newydd i dargedu anghenion nad ydynt wedi’u bodloni a'r rhai sydd wedi ymddieithrio o'u cymunedau ar hyn o bryd
- Galluogi cydweithredu effeithiol rhwng y sectorau cymunedol, statudol a gwirfoddol trwy ddatblygu seiliedig ar asedau a gwreiddio arferion gwaith traws-sector
- Hyrwyddo a hwyluso diwylliant ac arfer gwahanol ynghylch sut y caiff penderfyniadau am wasanaethau'r dyfodol eu gwneud - sicrhau bod y gymuned leol yn cymryd rhan yn y gwaith cynllunio a threfnu gwasanaethau sy'n rhoi gwell gwerth cymdeithasol, sy'n atebol i ddefnyddwyr lleol ac y caiff eu canlyniadau eu gyrru gan y gymuned

**Cydlynu**

- Datblygu a sefydlu modelau gweithio newydd i adlewyrchu gofynion newydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Datblygu a sefydlu'r theori a'r dull ymarferol o gyd-gynhyrchu yn y model Creu Cymunedau a chreu cymunedau mwy cynhwysol a chefnogol trwy ddatblygu partneriaethau rhwng cymunedau a sefydliadau yn y sector Statudol a Gwirfoddol.
- Cyfrannu at ddatblygiadau strategol fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y rhaglen atal ar gyfer plant a theuluoedd yn bennaf. Sefydlu systemau cymorth yn y gymuned ar gyfer yr ardal darged benodol honno yn y Rhaglen.
- Meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol gyda phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau
- Cyflwyno a sefydlu modelau ymyrraeth ataliol, amgen, sy'n annog ac yn dwyn unigolion i mewn i feithrin rhwydweithiau cryfach a gwytnach, sy'n cefnogi'r rhai sy'n fregus o ran profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
- Cefnogi mynediad at wybodaeth gywir, amserol a pherthnasol a chynorthwyo unigolion a'u teuluoedd i gael mynediad at wybodaeth mewn sawl ffordd a hyrwyddo hunaneiriolaeth
- Hyrwyddo dulliau sy'n seiliedig ar asedau i annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddefnyddio eu rhwydweithiau personol a lleol i ddatblygu atebion ymarferol i ddiwallu eu hanghenion a'r canlyniadau a ddymunir
- Meithrin partneriaethau a pherthynas waith effeithiol gyda gwasanaethau cymunedol a statudol, gan gynnwys meddygon teulu, yr heddlu, sefydliadau cymunedol, iechyd, gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau plant a theuluoedd.
- Trefnu a chynnal cofnodion gweinyddol / rhannu data o fewn protocolau'r sefydliad (System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru).
- Cyfeirio unigolion a theuluoedd at brosesau cymorth perthnasol
- Mynd i gyfarfodydd "hyb cymorth cynnar" yn wythnosol a chymryd rhan ynddynt.

SafeLives Ending domestic abuse

***Prosiect Arbrawf "Un Drws Ffrynt"***

Mae dadansoddiad o'n ffigurau wedi nodi bod camdriniaeth ddomestig yn nodwedd mewn 73% o'r cyfeiriadau a dderbyniwyd i'r gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn Ynys Môn. Mae hon yn ganran uchel a chamdriniaeth ddomestig yw nodwedd fwyaf cyffredin ailgyfeiriadau'r gwasanaeth.

Nod y prosiect fydd gwella proses nodi anghenion teulu unigol pan dderbynnir cyfeiriadau camdriniaeth ddomestig yn y gwasanaeth Plant a Theuluoedd. Rhagwelir y byddem yn edrych yn amlasiantaethol ar y cyfeiriadau hynny ac yn dod i benderfyniad mewn cyfarfod "un drws ffrynt" ar y camau gorau i'w cymryd e.e. pwy fydd orau am gynnig a chyflwyno ymyraethau.

Yn ail, bydd y prosiect yn edrych ar ein hymateb i ddarparu gwasanaethau ar hyd ystod y risg (uchel, canolig, isel).

Yn olaf, rydym yn y broses o ehangu briff y Tîm Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i weithio nid yn unig gyda theuluoedd lle mae cyffuriau a / neu alcohol yn nodwedd, ond hefyd i weithio gyda phlant ac, wedi hynny, ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig a thramgwyddwyr camdriniaeth ddomestig. Mae'r tair elfen, h.y cyffuriau, alcohol a chamdriniaeth ddomestig fel arfer yn 'driawd gwenwynig' mewn teuluoedd. Bydd y Tîm Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, ynghyd â staff yn yr Adran a'n partneriaid, yn cael hyfforddiant arbenigol gan *Safe Lives* yn ystod y misoedd i ddod.

Nod y **Rhaglen Y 1000 Diwrnod Cyntaf** yw ychwanegu at y dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer gwella canlyniadau a lleihau anghydraddoldebau yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf - yn ystod beichiogrwydd ac i ail ben-blwydd plentyn a lledaenu'r dystiolaeth hon. Trwy ofyn i rieni beth sy'n bwysig iddynt yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf, gallwn gael gwybodaeth werthfawr am welliannau y gellir eu gwneud i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu.

Er bod gwasanaethau'n anelu at sicrhau bod rhieni'n medru cael at wybodaeth a chymorth sy'n effeithiol ac yn ddiogel, dim ond un rhan o brofiad defnyddiwr gwasanaeth o'r gofal y mae'n ei dderbyn yw hwn. Mae'r ffordd y ceir at wasanaethau, y ffordd y caiff anghenion cymorth pobl eu hasesu a sut y rheolir cyfeiriadau rhwng gwahanol gydrannau o'r system Y 1000 diwrnod cyntaf, i gyd yn chwarae rhan bwysig ym mhrofiad cyffredinol defnyddwyr gwasanaeth o'r gofal a dderbyniant.

Mae Awdurdodau Lleol Ynys Mon a Gwynedd ochr yn ochr â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi penderfynu creu **tîm amlddisgyblaethol Peripatetig** sy'n gweithio gyda phobl ifanc / plant a'u teuluoedd rhwng 0-25 oed ar ffiniau gofal, sydd mewn perygl o fynd i ofal heb ymyrraeth ac unigolion sydd eisoes mewn gofal y mae'n briodol iddynt ddychwelyd adref. Bydd Ynys Môn yn arwain ar y prosiect hwn ar ôl sicrhau grant o £3 miliwn gan Lywodraeth Cymru.

**Blaenoriaethau 2020-21:**

- Un Drws Ffrynt - gwreiddio hyn er mwyn rhoi'r gefnogaeth gywir i ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig
- Agenda Atal - gwella hyn trwy barhau i ddatblygu Hyb Cymorth Cynnar
- Cydlynwyr Asedau Lleol Plant

| SA2 - Pa wahaniaeth wnaethom ni? |
|---|
| Roedd angen gofal preswyl ar 523 o oedolion ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn (o gymharu â 518 yn 2018/19 a 573 2017/18). |
| Roedd 316 o oedolion mewn gofal preswyl ar yr 31ain o Fawrth, 2019 (o gymharu â 375 ar 31/03/18, a 366 yn 31/03/17). |
| Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i 100% o Blant sy'n Derbyn Gofal |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| *"Mae'r rhan fwyaf o'r gweithwyr (gofal cartref) yn rhagorol ac yn fy nhrin â pharch ac urddas. Rwy'n mwynhau gweld Iona, yn arbennig, yn dod gan fod ei natur siriol a hapus yn bywiogi fy niwrnod, yn enwedig pan rydw i'n teimlo'n isel. Pan fydd hi'n cerdded i mewn i'r ystafell, mae hi'n gwneud i mi chwerthin ac yn codi fy nghalon."* |
| *"Hoffwn ddweud diolch am gadeirio cyfarfod cadarnhaol arall! Dw i wir yn teimlo bod gan y bechgyn dîm gwych bellach yn eu cefnogi! Hir y parhao! "* |
| *"Mae'r gwaith (y mae'r gweithiwr Teuluoedd Gwydn yn ei gwblhau gyda'r teulu) yn amhrisiadwy o ran asesiadau pellach a'r posibilrwydd o adsefydlu'r [plentyn] i ofal ei rieni. Dywedodd y Gwarchodwr fod y teulu hwn yn cael pob cyfle posib a roddir iddynt i wneud newidiadau a dod o hyd i ysgogwyr mewnol ac mae hyn, i raddau health, oherwydd gwaith Sian."* |

## Safon Ansawdd 3
## Gwarchod a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

### Trefniadau Diogelu Corfforaethol

Mae “diogelu” yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bawb yn y Cyngor. Mae'r Awdurdod Lleol wedi:

**Prif gyflawniadau**

- Sicrhau bod Prosesau, Gweithdrefnau a Systemau Perthnasol ar waith sy'n adlewyrchu deddfwriaeth, canllawiau a disgwyliadau statudol cyfredol ac arfer gorau a dderbynnir, fel bod swyddogion yn glir beth sy'n rhaid ei wneud neu y gellir ei wneud mewn amgylchiadau penodol ac sy’n diffinio terfynau disgresiwn proffesiynol.
- Lansio Canllawiau Arfer Da i Weithredwyr Trafnidiaeth Ysgol gyda'r nod o sicrhau diogelwch disgyblion a gyrwyr

***Gwasanaethau Oedolion***
**Prif gyflawniadau**

- Lansio'r Polisi a'r Weithdrefn Diogelu dros dro a darparu hyfforddiant diogelu uwch i ymarferwyr a rheolwyr
- Lansio'r Polisi Galluedd Meddyliol a darparu hyfforddiant i ymarferwyr a rheolwyr
- Ychwanegu at gyflawniadau blaenorol ein Tîm Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid er mwyn rheoli'r galw cynyddol am asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid a phrosesau gwell i asesu'n gyflym ac yn effeithiol.
- Monitro gwasanaethau yr ydym yn eu comisiynu yn agos o ran ansawdd y gofal yr oeddent yn ei ddarparu trwy ofal cartref, byw â chymorth a chartrefi gofal tymor hir.
- Dengys gwerthusiadau o ymarfer y gall y dinesydd fod yn hyderus
    - Bod gweithwyr cymdeithasol yn gweithio'n agos â gweithwyr proffesiynol eraill i gadw oedolion sydd mewn perygl yn ddiogel
    - Y bydd gweithwyr cymdeithasol yn ymateb yn amserol os oes pryderon am eu diogelwch.
    - Y bydd gweithwyr cymdeithasol yn ceisio eu gorau i sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i’w brofiad diogelu.

.

**Gwasanaethau Plant**
**Prif Gyflawniadau**

- Gweithredu dull newydd o amddiffyn plant - Cryfder ar y Cyd, sydd â’r nod o weithio gyda'r teulu i sicrhau newidiadau i gadw plentyn yn ddiogel.
- Gweithio'n galed i sicrhau bod plant â phrofiad gofal wrth wraidd eu proses adolygu.
- Gwneud gwahaniaeth i deuluoedd – Treulia plant y cafodd eu henwau eu rhoi ar gofrestr amddiffyn plant (242 diwrnod) ar gyfartaledd ar y gofrestr honno cyn i'r risg gael ei lleihau a bod eu henwau'n cael eu tynnu oddi ar y gofrestr. Mae nifer y plant hynny y mae eu henwau, wedi hynny, yn cael eu rhoi ar y gofrestr eto, o

fewn 12 mis, yn isel: sy’n awgrymu ein bod yn llwyddo i gynorthwyo teuluoedd i greu a chynnal newidiadau sy'n lleihau'r risg i'w plant.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2019/20**

- Gweithio i Weithdrefnau Diogelu newydd Cymru Gyfan
- Parhau i roi'r unigolyn wrth galon yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Paratoi ar gyfer dyfodiad y Safonau Gwarchod Rhyddid.

| **QS3 - Pa wahaniaeth wnaethom ni?** |
|---|
| Cwblhawyd 91.30% o ymholiadau Amddiffyn Oedolion o fewn saith diwrnod |
| Cwblhawyd 259 o asesiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn ystod y flwyddyn |
| Roedd 5.69% o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi’u cofrestru o’r blaen |
| 224 diwrnod (ar gyfartaledd) ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn |
| Cynhaliwyd 94.27% o'r holl Adolygiadau Amddiffyn Plant ar amser. |
| Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i 100% o Blant sy’n Derbyn Gofal |
| Mae gweithiwr cymdeithasol wedi'i neilltuo i 100% o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. |

## Safon Ansawdd 4

## Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

### *Oedolion*

Ymyrraeth bwrpasol oedd **Prosiect OPUS** a ddyluniwyd i gefnogi unigolion sydd dros 25 oed, sy'n ddi-waith yn y tymor hir neu'n economaidd anweithgar ag oedd â nifer o rwystrau rhag dod yn gyflogedig. Daeth y prosiect i fodolaeth ar y 1af o Ionawr, 2016 a daeth i ben ar y 31ain o Awst, 2019. Ariannwyd prosiect OPUS gan Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru sy'n rhan o Lywodraeth Cymru ac sy'n rheoli gwaith cyflwyno prosiectau Cronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru.

Yn ystod y prosiect, cafodd yr unigolion gyfle i fynd am amryw hyfforddiant achrededig fel *Lantra Strimmer & Ride on Mowers*, Codi a Thrin, Diogelwch Bwyd ac ati. Fel hyn, roedd modd i'r unigolion fod yn rhan o ystod ehangach o weithgareddau yn y Canolfannau Dydd. Bydd hyn yn fudd parhaus a bydd yn fodd i gleientiaid y Gwasanaethau Cymdeithasol gael dewis o raglen fwy diddorol ac amrywiol. Hefyd, datblygodd mentoriaid dwrnamaint pêl-droed blynyddol, lle byddai holl ddefnyddwyr y ganolfan ddydd yn dod at ei gilydd i gystadlu. Yn ogystal â'r hyfforddiant achrededig a'r pêl-droed, prynodd OPUS gamerâu, offer crefft ac offer pysgota fel bod yr unigolion yn cael mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chael mwy o ymwneud â phobl eraill.

Er bod canlyniadau'r prosiect yn is na'r targed a broffiliwyd, perfformiodd Ynys Môn yn dda iawn o'i gymharu â siroedd eraill Gogledd Cymru. Er na chafodd y prosiect niferoedd uchel o bobl i mewn i gyflogaeth, rhoddodd gyfleoedd hyfforddi a chymwysterau i'r rheini heb sgiliau neu oedd â sgiliau isel. Cafodd y canlyniadau meddal, megis datblygu sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio, magu hyder a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol effaith ar fywydau pobl na chawsant eu cyfleu, mewn gwirionedd, oherwydd nad ydynt yn allbynnau economaidd.

Gyda chefnogaeth y Gronfa Gofal Integredig, nod y prosiect Trafnidiaeth Gymunedol, a reolir gan Medrwn Mon, yw mynd i'r afael â theimladau pobl hŷn o ran arwahanrwydd a gwella'u rhwydweithiau cymdeithasol yn gyfannol trwy roi'r cyfle iddynt ddefnyddio gwasanaeth cyfeillio a chyfeillion gwirfoddol, gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli yn Ynys Môn. Gwneir hyn trwy ddatblygu rhwydwaith o wasanaethau Cyfeillio a Chynllun Tro Da newydd yn ogystal ag ychwanegu at ddarpariaethau presennol y Cynllun Troi Da a'u cefnogi, gan ddwyn i mewn gefnogaeth partneriaid fel y Gymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol.

**Taliadau Uniongyrchol Ynys Môn** - Trwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i gynnig Taliadau Uniongyrchol fel yr opsiwn gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth a theuluoedd reoli eu pecyn gofal, a byw'r bywyd hyblyg y maent yn dymuno'i arwain. Mae gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol Ynys Môn wedi tyfu'n sylweddol dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf o 162 i 210 (106 yn

2018/19) sy'n dangos cynnydd o 77.14%.

- Cyfanswm gwariant Taliadau Uniongyrchol - **£1,422,000**
- Cost gwasanaeth trwy ragamcan gwasanaeth wedi'i gomisiynu - **£2,717,102**
- Arbedion gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol o'i gymharu â gwasanaeth a gomisiynwyd - **£629,203**

**Hanesion am Lwyddiannau Taliadau Uniongyrchol** - Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r awdurdod lleol wedi parhau i weithio gyda nifer o bartneriaid:

**Leonard Cheshire Disability (LCD)** - Wrth edrych i mewn i ymarferoldeb ffurfio cwmnïau cydweithredol mawr, agor cyfrifon banc cydweithredol ac amlinellu pwy fyddai'n cyflogi'r staff a fyddai'n rhoi'r gefnogaeth, daethant ar draws nifer o rwystrau. O’r herwydd, bu iddynt ailbrisio opsiynau a gwneud newidiadau perthnasol i ostwng y rhwystrau neu gael gwared â nhw e.e. byddai cynorthwywyr personol sy'n gweithio ar y prosiect yn gweithio ar sail hunangyflogedig gyda chefnogaeth LCD, a byddai cyfrifon banc y cwmni cydweithredol hefyd yn cael eu rheoli gan LCD. Maent hefyd wedi cynnwys y syniad o weithio gyda busnes lleol yn yr ardal i greu cyfleoedd gwirfoddoli a gwaith i ddefnyddwyr gwasanaeth, rhywbeth yr ydym yn awyddus iawn i'w ddatblygu yma ar Ynys Môn. Ein gobaith yw symud ymlaen dros y flwyddyn ariannol nesaf.

Ar hyn o bryd, rydym yn gweithio gyda LCD gyda golwg ar i Ynys Môn dreialu Porth Gwefan diwygiedig LCD. Mae porth y wefan wedi’i brofi ac mae’n barod i fynd. Mae LCD wedi gwneud ychydig o newidiadau i’r prosiect i gynorthwyo gwelliant, er enghraifft mae’n rhaid i Gynorthwywyr Personol fod yn hunangyflogedig i gymryd y cyfrifoldeb oddi ar gleientiaid Taliadau Uniongyrchol i gyflogi staff cydweithredol. Yn anffodus, mae COVID-19 wedi atal unrhyw gynnydd pellach, ond bydd yn mynd yn fyw cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny.

**Cyfuno Taliadau Uniongyrchol**: Mae pedwar o'n defnyddwyr gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol sydd wedi bod yn rhan o'r prosiect LCD a phwyllgor Mencap Môn, unwaith eto eleni, wedi bod yn bancio rhai o'u horiau Taliadau Uniongyrchol a'u hadnoddau personol i gael seibiant. Byddant yn defnyddio'r arian a gynilwyd i fynd ar daith eu breuddwydion i Florida, UDA ym mis Chwefror 2020 am wythnos i ymweld â Universal Studios gyda chymorth dau o'u cynorthwywyr personol Taliadau Uniongyrchol. Mae'r unigolion hyn wedi cynilo eu holl hawl seibiant trwy gydol y flwyddyn er mwyn gwireddu eu breuddwyd. Mae holl ddefnyddwyr y gwasanaeth yn byw gartref gyda'u teulu. Bydd y gwyliau hefyd yn fodd i aelodau eu teulu gael seibiant bloc.

Sefydlwyd Hyb Mencap Môn dros bedair blynedd yn ôl gan grŵp o rieni oedd â meibion neu ferched ag anabledd dysgu. Mae gan y grŵp dros 300 o aelodau ar yr Ynys. Mae'r Hyb hefyd yn rhoi cyfleoedd i weithwyr cymdeithasol-fyfyrwyr a nyrsys-fyfyrwyr gysylltu a chael profiad o wahanol anableddau dysgu, yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwirfoddoli.

Mae gan Hyb Mencap Môn yn Llangefni leoliad gwych ar y Stryd Fawr sy'n annog gwir amgylchedd sy'n canolbwyntio ar y gymuned, gan fod yn fodd i'r rhai a ddaw yno brofi ymdeimlad o gael eu cynnwys yn gymdeithasol a'r cyfle i lunio a gyrru'r Hyb mewn ffordd y maen nhw a'r ymddiriedolwyr yn ei ddymuno. Mae Mencap wedi rhwydweithio a meithrin yn llwyddiannus gysylltiadau / partneriaethau cryf gyda nifer enfawr o sefydliadau lleol, gan sicrhau ein bod yn parhau i fod wrth galon y gymuned ac yn darparu'r gwasanaethau, gweithgareddau, prosiectau a gwybodaeth briodol i'n holl aelodau.

Bydd grant y Gronfa Gofal Integredig yn fodd i Mencap Môn brynu'r eiddo fel cam un, gan sicrhau bod yr hwb yn parhau i fod yn adnodd cymunedol hanfodol i nifer fawr yr aelodau sy'n defnyddio'r adeilad yn wythnosol, ac yn parhau gyda'r HYB Taliadau Uniongyrchol yng Ngogledd Cymru.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau a chryfhau ein perthynas â Mencap Môn.

Rydym yn gweithio gyda **Chymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru** i ddarparu Cwmni Cydweithredol i roi mwy o opsiynau yn y gymuned i gynorthwyo unigolion â'u hanghenion gofal a chymorth a mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd ymysg pobl hŷn. Y canlyniad yn y tymor hir yw cyflwyno ystod o opsiynau cymunedol ar gyfer gofal a chymorth. Bydd datblygu gweithwyr a chwmnïau cydweithredol defnyddwyr yn ei gwneud yn bosib i unigolion dderbyn gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, profi dewis go iawn a defnyddio’u buddion ariannol naill ai trwy daliadau uniongyrchol neu asedau personol i'w llawn botensial. Gall defnyddwyr gyfuno’u cyllid i ymgymryd â chyfleoedd / gweithgareddau tebyg ac, felly, leihau costau a, chyda

chysylltiadau agos â chwmnïau cydweithredol y gweithwyr, bydd defnyddwyr yn medru defnyddio cynorthwywyr personol.

Cefnogwyd y **Cynlluniau Trac ac Adtrac** gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru ac maent wedi'u lleoli gyda Gwasanaethau Ieuenctid Ynys Môn. Mae Trac yn cefnogi pobl ifanc 11-16 oed i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyflawni eu potensial llawn. Mae Adtrac yn darparu gwasanaeth mentora pwrpasol i helpu pobl ifanc rhwng 16 a 24 oed i fynd i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r ddau brosiect yn brosiectau ledled Gogledd Cymru, gyda chefnogaeth y chwe Awdurdod Lleol, ac mae'r ddau brosiect yn rhoi cyfleoedd hyfforddi ychwanegol, cefnogaeth therapiwtig neu iechyd meddwl a mentora i baratoi ar gyfer gwirfoddoli, profiad gwaith wedi'i deilwra neu gyflogaeth. Mae'r ddau brosiect yn gweithio gydag ystod o Bartneriaethau, ond, yn bennaf, gyda Gyrfaoedd Cymru, ac mae AdTrac, hefyd, yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Grŵp Llandrillo Menai.

Ddiwedd mis Ionawr 2020: -

O'r 584 o unigolion 11-16 oed sydd naill ai wedi'u cefnogi neu sy'n cael eu cefnogi gan TRAC ar hyn o bryd:

- Roedd 112 o'r cleientiaid oedd wedi gadael mewn llai o risg o beidio â bod mewn addysg, mewn hyfforddiant neu fod heb waith. Ar hyn o bryd, mae 298 o ddysgwyr byw lle nad yw'r risg lai sydd ganddynt o beidio â bod mewn addysg, mewn hyfforddiant neu fod heb waith, yn hysbys nes eu bod yn cwblhau'r rhaglen.
- 50 wedi mynd ar brofiad gwaith wedi'i deilwra, gyda chyflogwyr yn cynnal ymweliadau ychwanegol ag ysgolion i ddisgyblion nad ydynt yn cael eu hystyried yn barod ar gyfer y gweithle.
- Mae 36 wedi symud ymlaen i gwrs lefel uwch amser llawn yn y coleg.
- Ers 2018 mae 155 wedi gwrthod ymgysylltu â'r prosiect.
- Mae 88 wedi cwblhau dyfarniadau i lefel 1 neu uwch yn y meysydd a ganlyn: Iechyd a Diogelwch yn y gweithle, Cymorth Cyntaf, Dringo, Gofal Plant, sgiliau Cyflogadwyedd, Meddwl Canlyniadol, Sgiliau Diogelwch Adeiladu, unedau Cymru Agored mewn ystod o feysydd pwnc e.e. ffyrdd o fyw iach.
- Mae cyrsiau heb eu hachredu yn cynnwys: - Tymhorau ar gyfer Twf, Profedigaeth a Cholled, FFRINDIAU (gwytnwch), Coginio, gweithgareddau awyr agored, Gwobr Amgylcheddol John Muir, Garddio.
- Mae 148 wedi cael ymyrraeth therapiwtig

O'r 164 o unigolion 16-24 oed sydd wedi cael cefnogaeth gan ADTRAC neu sy'n cael eu cefnogi ganddo ar hyn o bryd:
Mae 19 wedi symud i gyflogaeth
Mae 48 wedi cael hyfforddiant a / neu gymwysterau pellach
Mae 10 wedi symud ymlaen i gwrs addysg llawn amser yn y Coleg neu'r Brifysgol
Mae 12 wedi treulio amser yn gwirfoddoli (5) neu mewn profiad gwaith (7)
Mae 48 wedi bod yn mynd i'r Hyb Lles

Canlyniadau cadarnhaol sy'n eu symud yn agosach at gyflogadwyedd ac yn cael eu mesur yn ystod taith yr unigolyn ar ADTRAC…

- Cyflawnwydd rhan o gymhwyster gan ddau
- Cyflawnwyd hyfforddiant / cymwysterau heb eu hachredu gan chwech
- Cyflawnodd 25 fwy nag un cymhwyster
- Dangosodd 26 welliant yn eu lles meddyliol wrth iddynt adael, o'i gymharu â phan bu iddynt ddechrau
- Dangosodd 25 welliant yn eu sgiliau cyflogadwyedd wrth iddynt adael, o'i gymharu â phan bu iddynt ddechrau (*Work star*)

Gwrthododd 53 ymgysylltu (fodd bynnag, mae hwn yn gymysgedd o'r rhai a wrthododd ymgysylltu mewn gwirionedd, y rhai a godwyd gan Gymunedau'n Gyntaf Môn neu C4W gan eu bod yn byw mewn ardal Côd Post Cymunedau'n Gyntaf, a'r rhai a ddatgysylltodd ar ôl ymgysylltu i ddechrau heb sicrhau canlyniad).

***Plant a Theuluoedd***

**Cronfa Dydd Dewi Sant -** pwrpas y gronfa yw cefnogi pobl ifanc sydd mewn gofal awdurdod lleol neu sydd wedi bod yno i gael at gyfleoedd a fydd yn eu harwain tuag at fywydau annibynnol a llwyddiannus. Aiff hwn yn uniongyrchol i ofalu am bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a gellir defnyddio'r arian fel ffordd o hyrwyddo annibyniaeth, datblygiad a dilyniant. Mae'r arian wedi'i wario ar addysg; cyflogaeth; iechyd a lles; tai a chael cyngor a chefnogaeth barhaus. Yn lleol, mae llawer o'n pobl ifanc wedi defnyddio'r arian ar wersi gyrru ac ar ffïoedd cyrsiau. Derbyniodd yr awdurdod lleol oddeutu £40,000 yn ychwanegol ar gyfer 2019-2020.

**Pan Fydda i'n Barod** – Mae 'Pan fydda i'n Barod' wedi hen ennill ei blwyf a chaiff ei argymell yn gryf yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gyda phump o bobl ifanc ar hyn o bryd yn aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Mae gan y cynllun 'Pan fydda i'n Barod' dri amcan craidd:

- Rhoi sefydlogrwydd a pharhad i bobl ifanc sy'n gadael gofal maeth wrth iddynt baratoi ar gyfer annibyniaeth.
- Gwella cyfleoedd bywyd ein plant 'sy'n Derbyn Gofal'.
- Sicrhau y gall plant 'sy'n Derbyn Gofal' a'r rhai sy'n Gadael Gofal arfer eu llais a chael rheolaeth dros y penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu bywydau.

Nod yr amcanion hyn yw gwella cyfleoedd bywyd plant 'sy'n Derbyn Gofal' trwy gynyddu eu cyfleoedd i gael eu cynnwys yn gymdeithasol a rhoi'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer annibyniaeth gan gynnwys rheoli tenantiaeth, rheoli arian a dod o hyd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Nodau craidd y **Tîm Teuluoedd Gwydn** yw *Atal, Dychwelyd, Lleihau ac Adolygu*; Atal plant rhag 'derbyn gofal' pan fo'n ddiangen (ymyrraeth 'ar ffiniau gofal'), **Dychwelyd** plant adref yn ystod wyth wythnos gyntaf y gofal, a gweithio gyda theuluoedd a nodwyd i'w plant gael mynd yn ôl i'w gofal, **Lleihau** natur llety sy'n rhoi gofal / gofal sy'n ofynnol, (e.e. o ofal preswyl i ofal maeth i'r teulu i ddirymu), ac **Adolygu** achosion o ddychwelyd yn ddiogel blant sydd mewn gofal tymor hir yn ddiogel.

Mae'r Tîm, sydd wedi'i gydnabod am ei ddull arloesol ac ymchwil mewn ymarfer, wedi'i sefydlu ers mis Hydref 2017, a chyhoeddwyd adroddiad dwy flynedd gan Arweinydd yr Ymarfer ym mis Hydref 2019 yn tynnu sylw at y ffaith bod 57 o deuluoedd a 123 o blant wedi'u cefnogi yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn gweithio tuag at y nodau craidd hyn, sef *Atal, Dychwelyd, Lleihau,* ac *Adolygu* a'u cyrraedd, mae'r Tîm, sef grŵp o weithwyr amlddisgyblaethol medrus iawn, yn ymyrryd â theuluoedd sy'n arddangos lefel uchel o angen sy'n peri i'w plant fod mewn perygl o gael eu Derbyn i Ofal, neu sydd wedi peri i'w plant fod mewn perygl o gael eu Derbyn i Ofal yn ddiweddar, neu sy'n atal eu plant rhag cael mynd yn ôl i'w gofal. Cyflawnir hyn trwy ganolbwyntio'n systematig a pharhaus a ledled y gweithlu ar ddarparu arfer wedi'i gyfoethogi gan dystiolaeth.

**Tîm IMPACT** - mae ein tîm, a ariennir gan brosiect y Gronfa Gofal Integredig, yn gweithio o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn cefnogi Therapi Cyfathrebu Awtistiaeth Cyn-ysgol (PACT) a Cherddoriaeth Ryngweithiol neu Therapi Rhyngweithio Cerddorol. Therapïau seiliedig ar dystiolaeth yw'r rhain, gyda'r ddau wedi'u cynllunio i wella "symptomau" craidd awtistiaeth trwy geisio adfer prosesau datblygu naturiol. Gweithia rhieni a therapyddion gyda'i gilydd fel partneriaid gan ddefnyddio adborth fideo i ddehongli

patrymau cyfathrebu, sy'n aml yn ddryslyd, a dod o hyd i ffyrdd o ymateb fydd yn helpu'r plentyn i ryngweithio a datblygu ffyrdd cliriach i gyfathrebu. Mae PACT yn gosod rhieni wrth galon gwaith helpu eu plentyn, gan anelu at eu hailsgilio gyda dealltwriaeth o'r hyn y mae eu plenty yn ei gyfathrebu, i'w grymuso ar sut i ymateb, a gwella eu morâl a'u hyder. Mae gweithio gyda rhieni, hefyd, yn fodd o wneud newidiadau buddiol wrth ryngweithio ym mywyd beunyddiol y plentyn, y cyd-destun y dysgir sgiliau cymdeithasol cynnar ynddo fel arfer.

**Blaenoriaethau ar gyfer 2020/21:**

- Cynyddu nifer y bobl hŷn sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol i hwyluso iddynt gomisiynu gwasanaethau eu hunain, rhywbeth sy'n hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol a lles.
- Hyrwyddo'r defnyddio a wneir o dechnoleg gwybodaeth mewn Hybiau Cymunedol.
- Cynllunio Blaenoriaethau'r Gweithlu mewn Gwasanaethau Oedolion

| **SA 4 - Pa wahaniaeth wnaethom ni?** |
| --- |
| 99.03% o Oedolion yn derbyn eu gwasanaeth yn eu dewis iaith |
| 52 o Ofalwyr Maeth Ynys Môn |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| "Roedd ymateb y gwasanaethau cymdeithasol yr oeddech chi'n rhan ohono yn galonogol iawn, ac rydyn ni'n dau'n hapus gyda'r canlyniad. Nid wyf yn ffan mawr o fiwrocratiaeth, ond mae'r system asesu cartref a thaliadau uniongyrchol yn ffordd syml ac ymarferol o ymdrin â phroblem ymarferol. Dim ffurflenni hir, dim amseroedd aros hir; mae modd eu haddasu ac maent yn bragmatig. Rwy'n ddiolchgar i chi am ei gwneud mor hawdd i ni.<br><br>Os nad oes angen yr help ar [defnyddiwr gwasanaeth] mwyach, byddwn yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol. Dyna nodwedd wych arall o'ch system; gall addasu i'n hanghenion cyfnewidiol a blaenoriaethau eraill.<br><br>Er mwyn i bawb gael gwybod, mae ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cwrdd â'n hanghenion yn berffaith ac rydym yn hapus iawn gyda'r canlyniad." |
| Fe wnaeth Gweithiwr Tîm o amgylch y Teulu wirioneddol fy helpu. Roedd hi'n gefnogol ac yn deall ac nid oedd yn fy marnu fel mam. Fe gododd fy hyder fel person. |

| |
|---|
| “Rwy’n siŵr bod eich e-bost wedi helpu - rwy’n ddiolchgar iawn am bopeth rydych chi wedi’i wneud i ni. Mae hi (Defnyddiwr gwasanaeth) wedi cael gwyliau haf gwych gyda'r taliadau uniongyrchol ac wedi gwneud yr hyn yr oedd hi eisiau ei wneud!! Diolch am yr holl help!! ” |
| “Mae (defnyddiwr gwasanaeth) yn llawer mwy hyderus, di-flewyn-ar-dafod. Mae ganddo nodau i’w cyrraedd ac mae’n gyffrous yn eu cylch, diolch i weithiwr y Tîm o amgylch y Teulu” |

## Safon Ansawdd 5

### *Cefnogi pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthynas ddomestig, deuluol a phersonol iach*

***Oedolion***

Nod **Prosiect y Gweithiwr Cymorth Dementia**, a ariennir trwy grant y Gronfa Gofal Integredig, yw darparu gwasanaethau cymorth Cymunedol i bobl hŷn ac oedolion iau sy'n arddangos problemau cymedrol i ddifrifol sy'n gysylltiedig â'r cof neu sydd â diagnosis o ddementia. Bydd y Gweithwyr Cymorth Dementia yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i wella gwaith adnabod unigolion a theuluoedd o fewn bröydd daearyddol dynodedig i roi cyngor a chefnogaeth amserol i lywio a chael mynediad at wasanaethau priodol. Bydd y Gweithwyr Cymorth Dementia yn gweithio'n agos gyda'r Cydlynydd Asedau Lleol i nodi atebion yn y gymuned i wella canlyniadau lles yr unigolyn sy'n byw gyda dementia a'i ofalwr. Byddant yn cefnogi gwaith datblygu gweithgareddau cymunedol o fewn hybiau lleol ac yn cefnogi Cynghreiriau Dementia lleol i roi blaenoriaethau lleol ar waith.

Nod **Prosiect y Gronfa Gofal Cartref,** a ariennir trwy grant y Gronfa Gofal Integredig, yw darparu gwasanaethau cymorth cymunedol sydd wedi'u hanelu'n bennaf at gefnogi gofalwyr unigolion sy'n byw gyda dementia ac sy'n arddangos nam gwybyddol cymedrol i ddifrifol. Ers i ni drawsnewid gwasanaethau gofal cartref yn Ynys Môn yn ddiweddar, mae'r arian hwn ar gael i bob darparwr gofal cartref, ym mhob un o'r tair bro gwasanaeth cymunedol dynodedig a chaiff ei reoli o fewn ein trefniadau comisiynu gwasanaeth.

**Rôl Ymgynghorol Alzheimer** - gyda chefnogaeth y Gymdeithas Alzheimer, drwy grant y Gronfa Gofal Integredig, mae'r gwasanaeth yn cynnig llwybr cymorth gyda chynghorwyr hyfforddedig fydd yn gyswllt dibynadwy, sicr â phopeth y gall Cymdeithas Alzheimer ei gynnig i rywun y mae dementia wedi cael effaith arno. Mae'r gwasanaeth yn cynnig Swyddog Ymgysylltu a Chyswllt rhan-amser i sefydlu cysylltiadau â meddygon teulu sy'n gweithio ledled Ynys Môn gyda'r nod o adeiladu ar y cysylltiadau a sefydlwyd eisoes gan y gwasanaeth Dementia RED. Mae gan y gwasanaeth bwyntiau gwybodaeth misol sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr mewn rhai meddygfeydd ar draws yr ynys.

bywyd LIFE
GWASANAETH CYNNAL GOFALWYR
CARERS OUTREACH SERVICE

Alzheimer's Society
United Against Dementia

Bydd **Swyddog Cymorth Gofalwyr** amser llawn, a ariennir gan grant y Gronfa Gofal Integredig mewn partneriaeth â Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr, ac sy'n gweithio o Ysbyty Gwynedd, yn cefnogi gofalwyr di-dâl cleifion ar wardiau clinigol. Mae ein swyddog yn ymweld â wardiau i adnabod gofalwyr a rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth pan fo angen. Y swydd fydd cefnogi gofalwyr yn ystod yr amser anodd. Dyma pryd bydd gofalwyr yn sylweddoli eu bod yn ofalwr neu'n sylweddoli y byddant yn ofalwr pan fydd eu hanwylyd yn dychwelyd adref. Nid yw mwyafrif y gofalwyr yn gwybod beth sydd ar gael iddynt, ac mae'r Swyddog yn achub ar y cyfle i esbonio proses gadael yr ysbyty, beth sydd i'w ddisgwyl pan fyddant yn mynd adref, eu tywys a rhoi pethau ar waith ac rydym yn cefnogi'r gofalwr yn emosiynol. Pan fydd y claf gartref, bydd y gofalwr wedyn yn derbyn cefnogaeth gan ein Swyddogion Cyswllt Gofalwyr a **Swyddogion Cynnal a Datblygu** yn y gymuned.

**Hybiau Cymunedol**. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyfleoedd yn y gymuned gan osgoi ymyrraeth statudol yn gyfan gwbl. Mae'r model Hyb Cymunedol ar yr ynys yn datblygu'n dda. Rydym wedi sefydlu Cynghrair Hyb Cymunedol ac erbyn hyn mae gennym 10 hyb gweithredol ar draws yr ynys. Ar hyn o bryd, mae dros 1000 o bobl / wythnos yn mynd i'r gweithgareddau hyb. Bydd rhagor o waith, yn cynnwys gweithio gyda mwy o hybiau cymunedol a chynyddu'r dewis o gyfleoedd i bobl hŷn yn nalgylchoedd amrywiol y Tîm Adnoddau Cymunedol.

***Plant a Theuluoedd***

Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyllid ledled Cymru i annog dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd y gwasanaeth yn rhoi cefnogaeth ymatebol a dwys sy'n ceisio meithrin gwytnwch teuluol gyda'r pwrpas o gadw teuluoedd gyda'i gilydd a dod â nhw ynghyd.

Mae partneriaeth Gogledd-orllewin Cymru yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol plant a theuluoedd Gwynedd ac Ynys Môn. At hyn, bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn darparu tîm peripatetig o weithwyr proffesiynol, amlddisgyblaethol a phrofiadol, yn gweithio ar yr un safle, fydd yn cydweithio i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i barhau i fyw gartref yn hytrach na mynd i mewn i'r system ofal. Bydd hyn yn cynnwys asesiad dwys a chadarn a chefnogaeth therapiwtig uniongyrchol i nifer fach o blant a'u teuluoedd.

Bydd y tîm newydd yn gweithio ar yr un safle ar draws Gwynedd ac Ynys Môn ac yn gwneud gwaith gyda phlant a theuluoedd mewn ystod o leoliadau, gan gynnwys y tu allan i'r rhanbarth. Mae gwaith recriwtio yn digwydd ar hyn o bryd (dros dro tan fis Mawrth 2021 oherwydd Cyllid y Gronfa Gofal Integredig).

***Blaenoriaethau ar gyfer 2020-21:***

- Datblygu ystod o opsiynau seibiant hyblyg ar gyfer Gofalwyr unigolion sydd â Dementia
- Cefnogi gwaith darparu ystod o wasanaethau ataliol sy'n gysylltiedig ag iechyd, a hynny mewn hybiau Cymunedol.
- Llunio'r farchnad mewn perthynas â gofal Oedolion Hŷn.

| SA5 - Pa wahaniaeth wnaethom ni? |
| --- |
| 98% o oedolion sy'n ofalwyr y cynigiwyd iddynt asesiad neu adolygiad o'u hanghenion trwy eu hawl eu hunain |
| Nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth tylluanod y nos yn ystod y flwyddyn - cyfanswm o 346 (Galw Gofal 254, WAST 57, Cynlluniwyd 35) |
| Nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth ailalluogi yn ystod y flwyddyn - 362 |
| 8.76% yn dychwelyd adref (Plentyn ar goll) |
| Derbyniwyd 246 o gyfeiriadau Tîm o amgylch y Teulu |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| "Rwy'n ddiolchgar iawn am eu holl gymorth (Gofal Cartref), eu hamynedd, caredigrwydd, pryder a'u ffordd gymwynasgar. Mae pawb bob amser wedi fy nhrin â pharch ac fy annog. Rwyf angen y gwmnïaeth sy'n dod gyda'r gofal. Diolch." |
| "A allech roi gwybod i'ch tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion mai hwn yw'r ateb cliriaf a gefais hyd yma a hefyd yr un sydd fwyaf cefnogol o ran grymuso personol a'r egwyddorion dewis a rheolaeth sy'n sail i Fyw'n Annibynnol. Byddwn yn eich annog i rannu'r arfer da hwn ar bob cyfle! " |
| "Rhoddodd Gweithiwr y Tîm o amgylch y Teulu fwy o hyder i mi, rhoi hwb iddi hi. Sylwodd ar fy mhroblemau personol a helpodd fi i gael cymorth. Helpodd y teulu i gyfathrebu gyda'i gilydd a dod ymlaen yn well. Mae hi wedi ein cynorthwyo'n aruthrol ac wedi ein helpu ni i gyd ymdopi'n well gydag offer dysgu newydd i ni i gyd weithio gyda nhw ac rydyn ni'n dysgu gweithio gyda'n gilydd. Mae'r Tîm o amgylch y Teulu wedi bod yn help hanfodol i ni i gyd fel teulu a hoffem ddiolch i chi i gyd. " |
| "Diolch yn ddiffuant i chi, (Gweithiwr Cymdeithasol) am eich caredigrwydd, eich dealltwriaeth a'ch empathi yr ydych wedi'i ddangos yn ystod yr amser y buoch yn gweithio gyda ni a sicrhau'r pecyn cymorth gorau i ni. Ni fyddwn byth yn eich anghofio. Rydych chi'n anhygoel. " |
| "Roedd y drafodaeth yn fuddiol iawn i [rhiant] a chynhaliwyd y cyfarfod mewn ffordd ddealladwy fel bod modd i [rhiant] gymryd rhan lawn." |

## Safon Ansawdd 6

## Gweithio gyda phobl a'u cefnogi i gael lles economaidd gwell, bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n cwrdd â'u hanghenion.

### *Oedolion*

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i gynllunio ar gyfer cyfleuster Gofal Ychwanegol newydd yn Ardal Seiriol, er bod sicrhau eiddo addas wedi parhau i fod yn her barhaus gan arwain at gynnydd araf. Mae'r cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r prosiect ac yn parhau i edrych ar opsiynau.

Mae **Gwasanaeth Tylluanod y Nos** yn ei gwneud yn bosib i weithwyr Gofal Cymdeithasol gefnogi pobl yr aseswyd bod ganddynt anghenion gofal yn ystod y nos rhwng 10pm ac 8am, saith noson yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys ymweliadau â chartref pobl i gael gofal wedi'i gynllunio neu i ymateb i sefyllfaoedd o argyfwng e.e. syrthio neu rwydweithiau gofalwyr anffurfiol yn torri. Mae Tylluanod y Nos yn ymateb i bobl sydd wedi syrthio ond heb eu hanafu ac mae hyn yn rhyddhau staff Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i ymdrin ag argyfyngau sy'n peryglu bywyd. Nod Tylluanod y Nos yw ymateb o fewn oddeutu 30 munud. Roedd y data cyfredol am y naw mis cyntaf yn nodi yr aethpwyd allan i 59 o alwadau oedd wedi'u cynllunio gyda 231 o alwadau brys eraill. Yn ogystal, ymatebodd gwasanaeth Tylluanod y Nos i 42 achos o syrthio nad oedd yn argyfwng, gan olygu nad oedd rhaid i'r gwasanaeth ambiwlans gael ei alw allan.

**Prosiect Llawr y dref** - gan ddefnyddio arian y Gronfa Gofal Integredig, mae'r tîm anabledd dysgu wedi gweithio mewn partneriaeth ag adran Dai'r Cyngor a'r darparwr mewnol, Gofal Môn, i ddatblygu dwy uned dai lle gall unigolion ag anableddau dysgu gael asesiad cynhwysfawr o'u galluoedd a chefnogaeth briodol i ddatblygu sgiliau ar gyfer byw'n annibynnol. Hyd yma, mae dau berson wedi elwa ar y gwasanaeth hwn ac ar hyn o bryd cânt eu cefnogi i ganfod llety addas i symud ymlaen iddo. Datblygwyd y prosiect hwn i sicrhau bod pobl yn derbyn y gefnogaeth gywir yn unol â'u hanghenion unigol a bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol iddynt allu byw'n llwyddiannus yn y gymuned.

### *Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd*

Er mwyn hyrwyddo dadsefydliadoli a lleihau gorwariant sylweddol a chaniatáu i'r plant a'r bobl ifanc sy'n dod o Ynys Môn barhau i dderbyn gofal ar yr Ynys, mae angen ystod o ddarpariaeth gofal amgen. Ar hyn o bryd, mae nifer o blant sy'n byw "y tu allan i'r Sir" yn annhebygol o gael eu hailintegreiddio neu eu lleoli gyda theulu, ffrindiau, teuluoedd maeth neu fabwysiadol yn y dyfodol rhagweladwy. Er mwyn sicrhau nad yw'r plant hyn yn cael eu 'gadael ar ôl', ac i wneud arbedion sylweddol, mae angen datblygu gwasanaethau gofal preswyl amgen.

Mae **Cartrefi Clyd Môn** yn golygu dim mwy na dau o blant yn byw gyda'i gilydd mewn amgylchedd 'cartrefol' ac yn gweithredu mewn ffordd debyg i blant gartref h.y. mynd allan i'r ysgol, byw yn y gymuned, cael cymdogion a ffrindiau ac ati. Bydd y tai wedi'u gwasgaru ledled y gymuned fel bod modd i'r plant preswyl ymdoddi'n haws i'r gymuned.

Bydd tîm bach o weithwyr gofal preswyl yn staffio pob cartref, gan sicrhau parhad gofal i'r plant preswyl. Ar hyn o bryd, mae dau eiddo Cartrefi Clyd yn cael eu cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'r bwriad yw cael agor y ddau ohonynt erbyn y 1af o Ebrill 2020, wedi'u hariannu gyda chymorth grant refeniw'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae'r prosiect Helpu Allan – **Cynnal Gofalwyr** yn rhoi cefnogaeth ataliol i oedi / osgoi achosion lle mae anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwaethygu yn y dyfodol a lleihau'r angen am wasanaethau statudol yn y dyfodol. Gyda chyllid o grant Gronfa Gofal Integredig, ei nodau yw:

- Gwella iechyd emosiynol, lles meddyliol a gwytnwch plant a theuluoedd.
- Hyrwyddo ffyrdd iachach o fyw a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Cefnogi pobl ifanc sydd ag anghenion gofal a chymorth wrth drosglwyddo i wasanaethau oedolion.

Bydd gan y prosiect system 'talebau' fydd yn cefnogi pobl i ddefnyddio cyfnodau o wyliau byr am y gorau trwy ddarparu ystod o gyfleoedd am gyfnod cyfyngedig. Mae hyn yn cynnwys:

- Grantiau ar gyfer gofalwyr / teuluoedd. Hyd at £400 tuag at gost gweithgareddau chwaraeon a hamdden fydd yn rhoi seibiant i bawb ac yn datblygu sgiliau a phrofiadau. Gall hyn gynnwys gwyliau, aelodaeth clwb, cefnogaeth a thrafnidiaeth i fynd i weithgareddau cymdeithasol.
- Cefnogaeth ychwanegol i deuluoedd eu cyflwyno a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd a mynd i grwpiau cymdeithasol arbenigol neu integredig fel Cylch Teulu, Creu Gwên ac ati.
- Gwyliau Gyda'n Gilydd. Hyd at £150 tuag at gost diwrnod allan, teithiau wedi'u cynllunio, gwyliau dros nos i'r teulu.

Yn dilyn lansio'r Cynnig Craidd, mae gwaith recriwtio Gofalwyr Maeth wedi cynyddu. Rydym wedi gweld ffigurau'n mwy na dyblu o ran Gofalwyr Maeth yn cael eu cymeradwyo. Yn yr un cyfnod amser yn ystod 2018 a 2019 (y ddau chwarter cyntaf) mae nifer Aelwydydd Gofalwyr Maeth a gymeradwywyd yn y Panel Maethu a'r Panel Sefydlogrwydd wedi codi o dri yn 2018 i wyth yn 2019 (Adroddiad y Panel Rhiantu Corfforaethol, Rhagfyr 2019). Rydym yn rhagweld y bydd nifer yr asesiadau'n cynyddu eto yn yr un cyfnod amser yn 2020

**Astudiaeth Achos:**






Cafodd Pythefnos Gofal Maeth (13-26 Mai 2019) ei ddathlu a'i hyrwyddo gan Staff, gofalwyr maeth a ffrindiau trwy gerdded 130 milltir o amgylch Llwybr Arfordir Ynys Môn. Wrth fwynhau'r arfordir hardd, llwyddodd y tîm, hefyd, i godi cyfanswm o £1,478.34 (oedd yn cynnwys y gystadleuaeth *Bake Off* a raffl) i Gymdeithas Gofalwyr Maeth Ynys Môn wrth hefyd hyrwyddo cyfleoedd maethu.

Yn ystod 2019, mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Tai wedi gweithio gyda'i gilydd i sefydlu **Fflat hyfforddi** i gefnogi pobl ifanc 16-19 oed sydd / a fydd yn gadael gofal i weld a allant **fyw'n annibynnol**. Bydd y person ifanc yn byw ar ei ben ei hun yn y fflat am hyd at 28 diwrnod. Caiff gefnogaeth gyda meithrin sgiliau a gwella hyder i allu byw'n annibynnol yn y dyfodol.

Caiff lleoliad maeth / lleoliad preswyl presennol y person ifanc ei gadw ar agor yn ystod y cyfnod. Byddai'r cyfnod asesu cyffredinol am hyd at 28 diwrnod. Yn agos at ddiwedd y cyfnod penodol, bydd yr Ymgynghorydd Personol, Gweithiwr Cymdeithasol, Gweithiwr Cymorth ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sydd wedi rhoi cymorth ychwanegol yn cynnal asesiad.

*Gwasanaethau Tai*


**Grant Cefnogi Pobl / Cymorth Tai**

Mae Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl, oedd wedi bod yn rhan o'r agenda ataliol ers ei sefydlu yn 2003, bellach yn rhan o'r Grant Cymorth Tai. Nid yw rhaniad Môn o'r Grant Cymorth Tai wedi newid ac mae wedi parhau ar £2,643,866 y flwyddyn y pedair blynedd ariannol ddiwethaf. Rhaglen grant ymyrraeth gynnar bwysig yw'r Grant Cymorth Tai, sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref. Mae'n sefydlogi eu sefyllfa dai, a gall helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gynnal. Mae'n cefnogi pobl fregus i roi sylw i'r problemau, sydd weithiau'n niferus, megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae'n helpu rhai o bobl fwyaf bregus Cymru i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain, boed yn berchennog y tŷ, yn rhentu'n breifat neu drwy dai cymdeithasol neu mewn prosiectau tai â chymorth dynodedig.

Yn ystod 2019/20, derbyniwyd y niferoedd a ganlyn o gyfeiriadau trwy Bwynt Mynediad Sengl Cefnogi Pobl.

| | |
|---|---|
| **Chwarter 1 Ebrill – Mehefin 2019** | 213 |
| **Chwarter 2 Gorffennaf - Medi 2019** | 205 |
| **Chwarter 3 Hydref-Rhagfyr 2019** | 230 |
| **Cyfanswm** | 648 |

Tynna'r graff isod sylw at anghenion cymorth defnyddwyr gwasanaeth sy'n arddangos anghenion cymorth tai. Cofnodwyd cyfanswm o 1356 o anghenion o 648 o gyfeiriadau ar gyfer tri o chwarteri adrodd llawn. Felly, mae'n amlwg bod gan fwyafrif y bobl sydd ar fin dod i mewn am gymorth a / neu bobl sydd ag anghenion yn seiliedig ar lety, anghenion lluosog, fel y dangosir isod:



Mae'r galw am gefnogaeth a llety wedi cynyddu o ganlyniad i faterion economaidd-gymdeithasol, ar adeg pan mae elfen ariannu Cefnogi Pobl y Grant Cymorth Tai yn profi'r cyfnod mwyaf ansicr ac ansefydlog ers ei sefydlu yn 2003. Gallai'r tebygolrwydd o ostyngiadau sylweddol ar draws llawer o awdurdodau yng Nghymru, o ganlyniad uniongyrchol i'r fformiwla ailddosbarthu arfaethedig a diwygiedig, gael effaith sylweddol iawn ar ein gallu ariannol i gynnal y ddarpariaeth gyfredol, ar adeg lle mae'n ymddangos bod y galw'n fwy na'r cyflenwad. Mae effaith gostyngiadau o'r fath ar ddarpariaeth statudol yn debygol o roi rhagor o bwysau ar wasanaethau statudol fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r System Cyfiawnder Troseddol, ac ni ddylid synied yn rhy isel am y gwasanaethau hyn na'u hanwybyddu.

**Blaenoriaethau 2020-21:**

- Gwerthuso opsiynau am lety gofal Ychwanegol yng ngogledd yr Ynys
- Cartrefi Clyd – agor un eiddo arall yn ystod 20/21
- Cynyddu nifer y Gofalwyr Maeth

| **SA6 - Pa wahaniaeth wnaethom ni?** |
|---|
| Llwyddodd 99.03% o oedolion i drafod eu problemau yn ystod eu hasesiad / hailasesiad yn eu dewis iaith |
| Roedd 44% o'r rhai oedd yn Gadael Gofal mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth ddwy flynedd ar ôl gadael gofal |
| **Beth mae ein pobl yn ei ddweud?** |
| "Bob amser yn gymwynasgar, tîm (Gofal Cartref) yn dosturiol yn eu gwaith i sicrhau bod fy rhieni yn ddiogel" |
| "Gwerthfawrogi'r holl garedigrwydd ac arbenigedd a dderbyniwyd gennych. Roedd [defnyddiwr gwasanaeth] wir yn gwerthfawrogi'r amser a gymerwyd i egluro a thrafod ei hanghenion, a gwnaethoch hi'n bosibl iddi barhau yn ein cartref tan y diwedd un. Diolch." |
| "Fe wnaethoch chi nid yn unig ofalu am [defnyddiwr gwasanaeth] gyda chymaint o dynerwch, gofal a chariad, fe ddaethoch o hyd i'r amser i'w theulu a dangos empathi tuag atynt. Roeddem i gyd yn colli'ch caredigrwydd a'ch gofal. Mae'n deyrnged wych i chi i gyd fod eich holl breswylwyr yn hapus, yn derbyn gofal da ac yn fodlon a hawdd gweld pam." |

## Sut ydym yn Gwneud yr Hyn a Wnawn

### A) Ein Gweithlu, a sut ydym yn Cefnogi eu Rolau Proffesiynol

*“Mewn perthynas â’r Ddeddf, strategaeth gweithlu sy’n cefnogi dealltwriaeth a’r gallu i weithredu’r newidiadau, rolau newydd (e.e. mewn partneriaethau ffurfiol ac ar gyfer gwasanaethau CSYM), gofynion dysgu a datblygu”.*

Mae Uned Datblygu'r Gweithlu yn parhau i weinyddu grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (SCWWDP) i roi cyfleoedd hyfforddi a datblygu i’r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol ehangach yn Ynys Môn. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth gynllunio cyfleoedd datblygu i’r gweithlu ac achubir ar bob cyfle i weithio mewn partneriaeth â'n Hawdurdodau Lleol cyfagos, y GIG ac Asiantaethau eraill er mwyn cyflawni'r cynllun.

Nodir isod y meysydd blaenoriaeth allweddol a gefnogir:

- Parhau i weithredu’r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) gan gynnwys:
  - Cefnogi’r gweithlu gofal cartref i baratoi ar gyfer cofrestru a chefnogi gwybodaeth / Rolau unigolion cyfrifol.
- cefnogi gwaith hyfforddi, datblygu a chymhwyso rheolwyr gofal cymdeithasol: gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canol; Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm; a'r rhai sydd angen cofrestru fel rheolwyr
- cefnogi datblygiad parhaus dulliau o ymarfer gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau
- cefnogaeth ar gyfer hyfforddiant cymhwyso gwaith cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwyso yng Nghymru
- cefnogi gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen i ddatblygu eu sgiliau yn gyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol, a chefnogi cyflwyno'r fframwaith sefydlu diwygiedig
- galluogi’r gweithlu i fodloni gofynion rheoliadol ar gyfer cymhwyso a / neu gofrestru gan ddefnyddio canllawiau sydd ar gael yn y Fframwaith Cymwysterau
- darparu dysgu a datblygu fel bod modd i'r gweithlu weithio'n effeithiol ochr yn ochr â gofalwyr a chyflawni dyheadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i ofalwyr, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o ofalwyr ac arfer da mewn asesiadau anghenion gofalwyr. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru’n darparu'r adnoddau cenedlaethol a ganlyn i gefnogi'r amcanion hyn:
  - modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth gofalwyr
  - pecyn cymorth i ymarferwyr sy’n cynnal asesiad o anghenion gofalwyr

Er mwyn cwrdd â gofynion y grant SCDWPP, enghreifftiau o'r math o gynlluniau a drefnwyd yn unol â'r amcan o gefnogi'r gweithlu oedd; Ymyrraeth AIM 3 / AIM Dan 12 / AIM - oherwydd diweddariadau i'r modelau a'r arweiniad; Cofnodi ac Adrodd, Defodau'r Llys a Darparu'r Dystiolaeth Orau, sesiynau ymwybyddiaeth fel OCD / Celcio, Hunanladdiad a hyfforddiant mwy penodol fel Cefnogi Cleientiaid ag Anhwylderau Personoliaeth a Chymorth Cyntaf Iechyd Meddwl. Datblygwyd a threfnwyd rhaglen lawn ar gyfer Gofalwyr Maeth, yn unol â'r anghenion hyfforddi a nodwyd.

Yn ogystal, hyrwyddwyd a threfnwyd nifer o sesiynau Rhanbarthol a Lleol gan yr Uned Datblygu'r Gweithlu er mwyn rhoi gwybodaeth gyfoes i sicrhau y caiff Rheolwyr wybod am ofynion y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol ac, yn sgil hyn, bod y Staff hefyd yn cael cefnogaeth i sicrhau eu bod yn gallu cwrdd â'r gofynion.

Yn ogystal, nodwyd nifer o feysydd datblygu â blaenoriaeth a'u cynnwys yn y cynllun datblygu i hyrwyddo a chefnogi cofrestriad y gweithlu gofal cartref. Nodir enghreifftiau o'r rhain isod:

- Wedi cefnogi rheolwyr y gweithlu i baratoi i gofrestru eu gweithlu gyda Gofal Cymdeithasol Cymru trwy ddarparu Gweithdai Cofrestru a chymorth un i un gan y tîm datblygu. O ganlyniad i'r cymorth hwn, cofrestrodd 80% o'r gweithlu cartref gyda Gofal cymdeithasol Cymru erbyn Rhagfyr 2019.
- Gweithiodd Canolfan Anterth mewn partneriaeth â Choleg Menai, gan gynnig y Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol, gan ei gwneud yn bosib i 20 dysgwr ennill y Cymhwyster gofynnol i gofrestru fel gweithiwr Gofal Cymdeithasol.
- Bu i ni gynnal pedwar gweithdy Egwyddorion a Gwerthoedd y Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (Uned 1) lle daeth 80 o ddysgwyr i sesiynau cefnogi. Cwblhaodd 60 o'r dysgwyr yr uned ar-lein, Egwyddorion a Gwerthoedd a'i gwnaeth yn bosib iddynt gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac maent bellach yn parhau i gwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan.
- Bu i ni barhau i gefnogi gweithwyr Gofal Cymdeithasol rheng flaen iddynt ddatblygu eu sgiliau cyffredinol mewn perthynas â gofal cymdeithasol a chefnogi gwaith cyflwyno'r Fframwaith Sefydlu diwygiedig trwy drefnu gweithdai Sefydlu. Cynigiai'r rhain sesiynau gwybodaeth sylfaenol i gefnogi dysgu a datblygu a gwaith cwblhau'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan o fewn yr arweiniad chwe mis.
- Cefnogodd ein cynllun hyfforddi feysydd datblygu â blaenoriaeth, gan gynnwys meysydd arbenigol hyfforddiant i gefnogi gwaith cofrestru staff gofal cartref a chwrdd â gofynion rheoleiddio am gymwysterau.

| Teitl y Cwrs | Cwrs | Niferoedd oedd yno |
|---|---|---|
| Dementia | Sesiwn codi ymwybyddiaeth i staff ar draws y sector gofal, gwirfoddolwyr a theuluoedd | 80 |
| Trefnwyd yr holl hyfforddiant yn unol â'r Cynllun Gweithredu Dementia a Fframwaith Gwaith Da yn ogystal â chwrdd â gofynion Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan / Cymwysterau Craidd | Colli synhwyrau | 40 |
| | Diwedd Oes/Gofal Lliniarol / Chwe Cham Diwedd Oes | 45 |
| | Dementia ac Anabledd Dysgu | 25 |
| | Cyfathrebu a gofal person-ganolog wrth ymdrin ag ymddygiad y gellir ei weld yn un heriol | 25 |
| Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar Ganlyniadau | Cyflwyniad i'r hyn yw canlyniadau a sut mae hyn yn trosi o bapur i ymarfer yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).<br>Deall y dull a ddefnyddir gyda chanlyniadau a sut caiff canlyniadau eu rhoi mewn cynlluniau ac arferion gofal a chymorth. | 75 |
| Cwrs sefydlu | Cefnogi gweithredu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan - Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol Gofal Cymdeithasol Cymru | 80 |
| Cymwysterau Gofal | Oedolion L2 | 120 |
| | Oedolion /Plant a Phobl ifanc L3 | 4 |
| | Gwobr Ymarferwyr Uwch L5 | 4 |
| Gweithlu Rheoledig | Sesiynau codi ymwybyddiaeth o sut i gofrestru gofalwyr cartref erbyn 2020 ac wedi hynny. Gweithdai cofrestru Gofal Cartref yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a rheoleiddio'r gweithlu o fewn yr arweiniad a roddwyd o ran amser. | 80 |

Bu i ni barhau gyda'n Partneriaeth â Phrifysgol Bangor a dau Awdurdod Lleol arall i gefnogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Rhoddodd yr Awdurdod gyfleoedd hyfforddeiaeth, astudio am gymwysterau MA / BA trwy Brifysgol Bangor neu drwy Brifysgol Agored Cymru gyda'r nod o sicrhau bod pob myfyriwr yn cael gwaith yn yr Awdurdod.

Buom yn gweithio ochr yn ochr â Phrifysgol Bangor ac Awdurdodau eraill ledled Gogledd Cymru i ddatblygu Rhaglen Addysgwyr Ymarfer Gogledd Cymru. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gennym bum gweithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol yn gweithio i gael y Dyfarniad.

Penodwyd gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn llwyddiannus. Roedd y tri yn fyfyrwyr o Brifysgol Bangor - cefnogwyd un ohonynt trwy ein cynllun hyfforddeion.

Bu i ni barhau i gefnogi ymarferwyr newydd gymhwyso trwy eu Tair Blynedd Gyntaf yn Ymarfer, sy'n cynnwys y Rhaglen Gyfuno, Porth Agored, gydag un aelod o staff yn cwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus yn ystod 2019-20.

Mae rhagor o wybodaeth am gyflawniadau gwaith cymdeithasol ôl-gymhwyso i'w gweld isod: -

| **Rhaglen** | **Nifer a Gyflawnwyd yn 2019-20** |
|---|---|
| Dyfarniad Dysgu Ymarfer | 1 |
| Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm | 2 |

Yn ogystal â'r uchod, bu i ni barhau i gefnogi ein staff nad oedd ganddynt gymwysterau i gymryd modiwlau a rhaglenni fel lefel 4 trwy Brifysgol Agored Cymru.

## SGILIAU GYDA'R GYMRAEG

Mae'r Awdurdod yn hynod gefnogol o staff sy'n defnyddio'r cyfleoedd a roddir iddynt i ddatblygu eu sgiliau iaith ac sy'n cefnogi'r agenda, "Mwy na Geiriau". Caiff staff eu hannog i fynd ar ystod o gyrsiau/sesiynau hyfforddi i roi sylw i'w hanghenion unigol /codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd sgiliau dwyieithrwydd. Gweler y tabl isod am fanylion:

| Cwrs | Nifer staff y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd yno |
|---|---|
| Cymraeg i ddysgwyr (**Sesiynau wythnosol**) | 4 |
| Nant Gwrtheyrn | 4 |

**HYFFORDDIANT DIOGELU**

Rhoddwyd mwy o bwyslais ar sicrhau bod staff ar draws yr holl wasanaethau’n cael hyfforddiant Diogelu perthnasol. Mae rhaglen gynlluniedig o gyrsiau Diogelu Sylfaenol a Chyffredinol wedi'u cynnwys yn y cynllun Datblygu Blynyddol sydd ar gael i'r holl staff gofal (Awdurdod Lleol / Sector Preifat / Gwirfoddol). Yn ogystal, trefnir cyrsiau penodol i sicrhau bod y gweithlu'n cael rhagor o sgiliau mewn meysydd arbenigol, gweler y manylion isod:

| Maes Pwnc Diogelu | Niferoedd oedd yno |
|---|---|
| Diogelu i Weithwyr Proffesiynol | 23 |
| Diogelu Cyffredinol (Diwrnod llawn) | 99 |
| Diogelu Sylfaenol (hanner diwrnod) | 8 |
| Beth? Pwy? Sut? Cofnodi a Rhoi gwybod am Hyfforddiant | 48 |
| Hyfforddiant Archwilio ar y Cyd | 6 |

Mae'r rhan fwyaf o staff yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant wedi cael hyfforddiant ar y Gweithdrefnau Diogelu newydd.

**E-Ddysgu**

Yn ystod 2019/2020 gwnaed gwaith pellach i ddatblygu darpariaeth E-Ddysgu fel dull cyfunol o Ddysgu. Cyflwynwyd platfform y Gronfa Ddysgu ym mis Hydref 2019 ac mae'r dull hwn o ddysgu yn cynnal amrywiaeth o raglenni; yn eu plith - hyrwyddo a chefnogi lles staff. Caiff staff eu hannog i gymryd rhan fel rhan o'u Datblygiad Personol a Phroffesiynol eu hunain. Mae ar gael trwy'r holl ddyfeisiau digidol.

Rhydd y tabl isod drosolwg o rai o'r modiwlau y mae staff Gofal Cymdeithasol yn eu cymryd:

| Modiwl | Nifer sydd wedi'u cwblhau |
|---|---|
| Trais yn erbyn Merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol | 413 |
| Caethwasiaeth Fodern | 230 |
| GDPR | 216 |
| Ymwybyddiaeth seibr | 182 |
| Atal | 157 |

Wrth allu defnyddio'r modiwlau E-ddysgu, mae'r Awdurdod wedi gallu cryfhau sgiliau a gwybodaeth y gweithlu Taliadau Uniongyrchol (Y Prosiect 'Eich Bywyd yn eich Dwylo'). Bu'n fodd i'r grŵp hwn gofrestru ar fodiwlau E-ddysgu, datblygu gwell dealltwriaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau sy'n dylanwadu ar eu gwaith; a, thrwy hyn, ei gwneud yn bosib iddynt rymuso'r unigolion y maent yn eu cefnogi i ffynnu wrth wneud dewisiadau ac i reoli eu bywydau.

## B) Ein Hadnoddau Ariannol a Sut ydym yn Cynllunio ar gyfer y Dyfodol

Mae cynllunio ariannol yn parhau i fod yn her ddifrifol i'r Cyngor dan bwysau ariannol parhaus ac estynedig, er bod y setliad gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn well na'r hyn oedd wedi'i ddisgwyl i ddechrau, gyda Chyllid Allanol gyda'i gilydd yn £101m am y flwyddyn. Roedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos gorwariant o £1,293k i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am 2019/20.

Gorwariodd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd £155k. Mae'r gostyngiad sylweddol yn y gorwariant o'i gymharu â 2018-19 yn ganlyniad uniongyrchol i'r £1.39m ychwanegol a ychwanegwyd at gyllideb 2019-20 i gydnabod y pwysau ariannol o fewn y gwasanaeth Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio'n ddiflino i gynnal lefel y Plant sy'n Derbyn Gofal. Fodd bynnag, ar 31-03-2020, roedd gennym 161 o Blant sy'n Derbyn Gofal dan ein gofal, o'i gymharu â 149 ar 31-03-2019. Er gwaethaf ymdrechion gorau'r gwasanaeth, dengys hyn bod y galw wedi cynyddu gan 12 o blant dros gyfnod o 12 mis. Rydym yn disgwyl agor y trydydd Cartref i grwpiau Bychain ar unwaith, fydd yn arwain at ostyngiad mewn costau mewn Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir a Lleoliadau nad ydynt yn rhai safonol.

Gorwariodd Gwasanaethau Oedolion £1,138k yn 2019/20, yn bennaf oherwydd (i) pwysau ffïoedd a achosir gan godiadau mewn Cyflog Byw Cenedlaethol, (ii) cynnydd yn y galw am Wasanaethau a iii) Tanariannu hanesyddol. Rydym wedi neilltuo cyllideb ychwanegol o £980k i'r Gwasanaethau Oedolion yn 2020-21 er mwyn rhoi sylw i'r mater o danariannu, gyda'r nod o gydbwyso'r gyllideb yn 2020-21. Mae grant y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Phwysau Cynaliadwyedd gan Lywodraeth Cymru, hefyd, wedi cynyddu o £670k yn 2019-20 i £894k yn 2020-21.

Er gwaethaf mwy o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2020-21, mae'r ddau Wasanaeth yn cydnabod nad yw'r mesurau llymder drosodd ac maent yn parhau i drawsnewid gwasanaethau a rheoli'r galw.

Mae gan y Cyngor brosesau gosod cyllideb a chynllunio ariannol effeithiol sydd wedi'u rheoli'n dda, ac mae aelodau etholedig yn chwarae rhan lawn yn y rhaglen gylchol o gynllunio, a chraffu gwaith pennu a monitro cyllidebau.

Mae amcangyfrif newidiadau i'r dyfodol yn heriol, oherwydd nad oes gwybodaeth gywir am setliadau'r dyfodol i lywodraeth leol ond rhagwelodd ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig, i ddechrau, y gallai fod gofyn gwneud hyd at £6.72m o doriadau ychwanegol dros y tair blynedd nesaf o 2020/21 i 2022/23. Er bod y setliad yn well na'r disgwyl yn 2020-21, bydd y rhagolygon economaidd presennol yn edrych ychydig yn wahanol mewn blynyddoedd i ddod yn dilyn Covid19.

Amlinella'r tabl isod gyfrifon ariannol ein Gwasanaethau Cymdeithasol am 2019/20:

| | Cyllideb £ | Gwirioneddol £ | Gwahaniaeth £ |
|---|---|---|---|
| **GWASANAETHAU PLANT a THEULUOEDD** | 10,268,480 | 10,423,621 | 155,141 |
| | | | |
| **GWASANAETHAU OEDOLION** | | | |
| POBL HŶN | 7,495,890 | 8,606,214 | 1,110,324 |
| ANABLEDDAU CORFFOROL | 1,924,900 | 2,030,856 | 105,956 |
| ANABLEDDAU DYSGU | 6,324,050 | 6,987,173 | 663,123 |
| IECHYD MEDDWL | 1,979,370 | 2,240,336 | 260,966 |
| GWASANAETHAU CYMORTH | 1,272,450 | 1,144,045 | (128,405) |
| **UNED DDARPARU** (GOFAL MÔN/ GWASANAETHAU ERAILL) | 6,027,430 | 5,153,302 | (874,128) |
| **CYFANSWM** | **35,292,570** | **36,585,547** | **1,292,977** |

## C) Gweithio mewn Partneriaeth, ein Harweinyddiaeth Wleidyddol a Chorfforaethol, Llywodraethu a'n Hatebolrwydd

Mae llywodraethu gwleidyddol o fewn y Cyngor wedi parhau i fod yn gadarn. Mae hyn wedi caniatáu cefnogaeth glir a chyson i'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd a gwaith craffu mesuredig ar gynnydd.

Y **Pwyllgor Gwaith** yw'r corff sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ac mae'n cynnwys yr Arweinydd ac wyth Deiliad Portffolio. Mae'r Arweinydd yn parhau i fod yn Ddeiliad Portffolio'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae wedi parhau i oruchwylio ein gwelliannau yn wleidyddol. Gwelir yr effeithiolrwydd cynyddol hwn wrth wneud penderfyniadau anodd fel *Rhaglen Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn* (er enghraifft adeiladu Tai Gofal Ychwanegol yn Llangefni, sydd wedi'i gwblhau ac sydd bellach â rhestr aros). Mae gwaith edrych am ragor o ddarpariaeth Gofal Ychwanegol yn parhau ac mae neilltuo adnoddau ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd i gynorthwyo i reoli'r galw wedi peri i arferion gwaith sefydlog wreiddio.

**Gweithio mewn Partneriaeth**

Mae'r Panel Aelodau Etholedig a sefydlwyd ar ôl etholiadau Mai 2017 i graffu, herio a chefnogi'r Cynllun Datblygu Gwasanaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, yn parhau â'i waith ac wedi gweld gwelliannau. Mae'r agenda bellach wedi troi'n Banel Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n goruchwylio agenda gofal cymdeithasol Plant ac Oedolion. Daw aelodaeth y panel o bob rhan o'r grwpiau gwleidyddol, ac mae'n parhau i roi'r cyfle i'r Aelodau wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r gwaith a wneir gan yr adran, gan arwain at graffu gwell.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth yn lleol, isranbarthol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cydnabuwyd hyn fel cryfder mewn adroddiadau arolygu allanol yn y gorffennol ac mae'n parhau i fod yn faes i ni adeiladu arno. Mae'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ac Oedolion yn parhau i chwarae rhan weithredol yn agendâu Cymru Gyfan a Gogledd Cymru i wella'r modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol trwy ddull cydweithredol.

Mae trefniadau llywodraethu'n parhau i fod ar waith trwy Gwmni Cydweithredol Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r Cwmni Cydweithredol wedi sefydlu rhaglen gynhwysfawr o welliannau trwy gydweithredu, sy'n canolbwyntio ar y gofynion dan Ran 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Gellir gweld rhagor o dystiolaeth o ethos y bartneriaeth hon trwy gydweithrediad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr trwy'r Bwrdd Cyflenwi Integredig. Pwrpas y Bwrdd Cyflenwi yw sicrhau y caiff anghenion iechyd a gofal pobl Ynys Môn eu gwasanaethu'n well trwy integreiddio gwasanaethau iechyd a'r awdurdodau lleol yn well. Model Môn yw cangen weithredol y Bwrdd Cyflenwi, gyda chyfrifoldeb am gyflawni'r Rhaglen Waith fanwl.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddarparu'r Gronfa Gofal Integredig ar Ynys Môn. Ymhlith y meysydd a dargedir yn benodol mae gwasanaethau ar gyfer oedolion hŷn, pobl ifanc a phlant ag anghenion cymhleth a System Gwybodaeth Gofal Cyfathrebu Cymru (WCCIS). Gwariwyd arian y Gronfa Gofal Integredig ar ddatblygu Garreglwyd fel cartref arbenigol sy'n cefnogi pobl hŷn sy'n byw gyda dementia, gwasanaethau Gofal Uwch a Thylluanod y Nos Môn o fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion.

Mae disgwyliadau Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn parhau i wreiddio ei arferion gwaith ymhlith gwasanaethau ac mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sefydledig yn goruchwylio ac yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu dyfodol gwell i bobl Cymru.

Rydym yn parhau i ddatblygu gwaith ymgynghori a gweithio agos mewn partneriaeth gyda'r Trydydd Sector trwy'r Pwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol, sy'n cyfarfod bob chwarter. Rydym yn cydnabod rôl y **Trydydd Sector** yn lleol fel partner strategol ac wedi datblygu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi hyn e.e. rôl Medrwn Môn ar Grŵp Gweithredol Model Môn, Bwrdd OPUS (prosiect a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd) a'r Bwrdd Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae'r grŵp partneriaeth trydydd sector sydd wedi hen ennill ei blwyf yn aeddfedu ac yn parhau i gael y dasg o gyflawni yn erbyn amcanion y Cyngor a sicrhau y cedwir at dechnegau ymgysylltu ac ymgynghori priodol o ran datblygu strategaethau a gwaith trawsnewid ar draws y gwahanol sefydliadau.

**Perfformiad**

Mae fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor wedi'i wreiddio yn ei drefniadau llywodraethu blynyddol. Mae'r fframwaith hwn wedi'i fabwysiadu i sicrhau bod meddylfryd o welliant parhaus wedi'i wreiddio yng ngwaith y Cyngor, ac y gallai ei waith monitro nodi materion cyn tanberfformio, rhywbeth a fyddai'n cael effaith ar ddarparu gwasanaeth i'r dinesydd. Gwneir hyn bob chwarter trwy gerdyn sgorio corfforaethol a gwaith dau fwrdd rhaglen trawsnewid corfforaethol.

Mae'r arferion hyn yn parhau i weld gwelliannau mewn nifer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol, gyda llwyddiant arbennig i'w weld ym mherfformiad dangosyddion sy'n gysylltiedig â'r gofal a ddarperir i Oedolion. Mae dangosyddion perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd hefyd wedi gwella a chyda pharhad yng ngwaith canolbwyntio'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol diwygiedig, rhagwelir y bydd rhagor o welliannau o ran perfformiad a chysondeb ymarfer oedd yn flaenoriaethau ar gyfer 2019-20. Y cafeat a allai, yn amlwg, gael effaith ar gyfeiriad hyn oll yw effaith Covid-19 ymhlith ein cymunedau. Er mwyn lliniaru hyn, mae strwythurau a systemau brys wedi'u mabwysiadu ac yn cael eu harwain gan yr Uwch Dîm Rheoli.


Mae gan yr Uwch Dîm Rheoli newydd a diwygiedig a benodwyd yn ystod y flwyddyn Brif Weithredwr a Dirprwy Brif Weithredwr newydd ac mae'n cynnwys yr unigolion a ganlyn –

- Y Prif Weithredwr
- Y Dirprwy Brif Weithredwr
- Y Cyfarwyddwr Cyllid a Swyddog Adran 151
- Y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol

- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc


**Isle of Anglesey County Council**

**Senior Leadership Team / Head of Service structure**




**Cyngor Sir Ynys Môn**

**Strwythur yr Uwch Dîm Rheoli / Penaethiaid Gwasanaeth**



Y Gwasanaethau Cymdeithasol

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

Ynys Môn

LL77 7HB

Cysylltwch â ni ar:

Ffôn: 01248 751887

E-bost: EmmaEdwards@ynysmon.gov.uk

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith** |
| **Dyddiad:** | **28/09/2020** |
| **Pwnc / Testun:** | **Tir ar Stad Ddiwydiannol Mona - Cais gan Gymdeithas Amaethyddol Ynys Môn i ddiwygio amodau'r brydles** |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Bob Parry – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo** |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Huw Percy – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffon:**<br>**E-bost:** | T. Dylan Edwards – Prif Swyddog Prisio<br>x 2277<br>tdehp@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Y Cyng. Nicola Roberts, Y Cyng. Dylan Rees a'r Cyng. Bob Parry |

**A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau**

Bod y Cyngor yn gwrthod y cais i ddiwygio'r cytundeb prydles cyfredol gyda Chymdeithas Amaethyddol Ynys Môn (Y Gymdeithas) am y rhesymau a ddisgrifir yn llawn yn yr adroddiad hwn, ond y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- Mae cyfyngiadau ar y teitl rhydd-ddaliad yn atal y defnydd arfaethedig yn yr is-les i bob pwrpas;

- Byddai cytuno i is-les ar y tir yn golygu fod risg o golli'r cyfleusterau parcio a theithio ar gyfer Sioe Môn gan olygu y gallai problemau parcio godi eto pan gynhelir y Sioe. Byddai hyn yn mynd yn groes i'r pwrpas dros ganiatáu'r brydles yn y lle cyntaf;

- Byddai'r defnydd arfaethedig yn yr is-les yn golygu y byddai cerbydau HGV mawr yn cael mynediad i'r safle drwy Walchmai, Rhostrehwfa a phentrefi eraill (gan gynnwys yn ystod y nos) a fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau trigolion lleol, ac o bosib yn cynyddu'r perygl i ddefnyddwyr ffyrdd eraill;

- Yn ei Arfarniad o Opsiynau, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o safleoedd eraill a fyddai'n fwy addas ar gyfer y pwrpas arfaethedig.

**Cefndir**

**Tir ym Mona**

Prynodd Cyngor Bwrdeistref Ynys Môn oddeutu 38 hectar (94 erw) o dir ym Mona gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (YWA) ym 1994 fel stad ddiwydiannol. Mae gan y tir dros 100 mlynedd o hanes o gael ei ddefnyddio i ddibenion milwrol / llu awyr ac mae ganddo doreth o lwybrau glanio concrit nad ydynt yn cael eu defnyddio a llecynnau wynebau caled. Erbyn hyn mae'r holl dir sy'n addas i'w ailddatblygu naill ai wedi'i ddatblygu eisoes neu wedi ei werthu fel plotiau datblygu diwydiannol. Yr eithriad yw'r darn mawr o dir i'r de-ddwyrain o'r llwybr glanio presennol sy'n mesur oddeutu 20 hectar (50 erw) ac a ddefnyddir fel clustogfa rhwng y llwybr glanio cyfredol a'r safle diwydiannol sydd wedi ei ddatblygu. Mae cynllun o'r safle perthnasol ynghlwm yn Atodiad 1 ac mae cynllun o'r safle perthnasol yn ei gyd-destun ehangach ynghlwm yn Atodiad 2. Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gorfodi rhai cyfyngiadau cyfreithiol ar yr Awdurdod a'i denantiaid mewn perthynas â'r tir a ddangosir yn Atodiad 1. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cynnwys:

a. Rhwymedigaeth i gynnal mynediad mewn argyfwng i'r llwybr glanio gweithredol;

b. Cyfyngiad ar adeiladu ar dir y parth clustogi;

c. Darpariaeth gorswm er budd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn erbyn unrhyw newid defnydd.

**Y Gymdeithas**

Mae'r Gymdeithas wedi bod yn defnyddio tir y Cyngor ar Stad Ddiwydiannol Mona yn llwyddiannus fel cyfleuster parcio a theithio sydd wedi gwella'r trefniadau rheoli traffig sy'n gysylltiedig â Sioe Môn yn fawr iawn. Mae'r llwybrau glanio concrit yn darparu llawr caled defnyddiol ar gyfer parcio cerbydau. Mae'r ddarpariaeth hon wedi'i rhoi ar waith trwy amrywiol gytundebau prydles a thrwyddedau tymor byr ers 2012.

Yng nghyd-destun y paratoadau ar gyfer BREXIT heb gytundeb, roedd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru wedi nodi'r safle fel lleoliad addas ar gyfer prosesu brys a thymor byr mewn perthynas â cherbydau HGV er mwyn gwirio / prosesu gwaith papur ynghylch mewnforio ac allforio heb amharu ar y rhwydwaith ffyrdd a'r cyfleusterau porthladd yng Nghaergybi. Y disgwyl oedd na fyddai ond angen y ddarpariaeth hon am gyfnod byr iawn (dim ond ychydig ddyddiau o bosib) nes y byddai proses weinyddol fwy parhaol yn cael ei rhoi ar waith. Gwnaethpwyd rhywfaint o waith galluogi i wella'r fynedfa a chlirio rhywfaint o'r malurion o'r hen lwybrau glanio concrit o dan drwydded ym mis Hydref 2019 gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Ni chafwyd unrhyw gyswllt / trafodaeth bellach nes i'r Cyngor dderbyn e-bost ddechrau Ebrill 2020 yn nodi bod Llywodraeth Cymru eisiau ailddechrau trafodaethau.

Ym mis Mehefin 2020 derbyniodd y Cyngor ohebiaeth gan Adain Eiddo Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, yn mynegi diddordeb yn y tir ar Stad Ddiwydiannol Mona er mwyn

darparu cyfleuster ar gyfer 100 o gerbydau HGV ynghyd â rhai adeiladau ategol dros dro yn barod ar gyfer gadael yr UE yn derfynol; yn benodol ar gyfer ei ddefnyddio i ddibenion tollau. Yn ogystal â chyfleuster bach yng Nghaergybi, mae Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi nodi eu bod angen y safle ym Mona am gyfnod o 5 mlynedd. Anfonwyd ymateb yn dweud bod y Cyngor yn berchen ar y rhydd-ddaliad, ond nad yw'r tir ym meddiant y Cyngor ac felly nad oedd y Cyngor mewn sefyllfa i drafod. Hysbyswyd Adran Cyllid a Thollau ei Mawrhydi fod teitl y Cyngor yn cynnwys cyfyngiadau a chyfamodau er budd y Weinyddiaeth Amddiffyn. Soniwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cadw diddordeb yn y tir ac awgrymwyd y dylai Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ystyried opsiynau eraill.

Ers hynny mae wedi dod i sylw'r Cyngor bod trafodaethau wedi datblygu'n sylweddol rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, a'r Gymdeithas, i'r Gymdeithas is-osod eu diddordeb yn safle Mona i Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

**Y Cytundeb gyda'r Gymdeithas ar hyn o bryd**

Gwnaeth y Cyngor y cytundeb prydles cyfredol gyda'r Gymdeithas ym mis Mawrth 2018 am oddeutu 17 hectar (41 erw) o'r tir o fewn y parth clustogi. Mae manylion telerau perthnasol y cytundeb fel a ganlyn:

**Dyddiad y Brydles**: 15 Mawrth 2018
**Ystyriaeth:** Prydles ffi isel ynghyd ag un llain am ddim yn Sioe Môn [Cymal 4]
**Hyd y Cytundeb**: 5 mlynedd i gychwyn, yn dechrau ar 15 Mawrth 2018 ac yn dod i ben ar 14 Mawrth 2023 gydag opsiwn i adnewyddu am 5 mlynedd arall tan 14 Mawrth 2028 [Cymal 3]
**Defnydd a ganiateir**: I'w ddefnyddio fel cyfleuster parcio a theithio gyda Sioe Môn [Cymal 21].
**Aseiniad**: Gyda chaniatâd y Landlord na fydd yn cael ei wrthod yn afresymol [Cymal 14]
**Materion eraill**: Gwaharddiad llwyr ar isosod a rhannu defnydd [Cymal 15]
**Diogelwch Statudol**: Wedi'i gontractio allan o adran 24 ac adran 28 Deddf Landlord a Thenant 1954 (dim hawl adnewyddu statudol ar ddiwedd y cyfnod) [Cymal 32] ac wedi ei gadarnhau trwy Ddatganiad Statudol.
**Opsiwn Torri ar gyfer y Landlord**: Ar ôl rhoi chwe mis o rybudd, dychwelyd rhan o'r tir (wedi'i farcio â "C" ar gynllun y brydles) i'r Landlord.

**Y Cais**

Derbyniwyd gohebiaeth gan gyfreithwyr yn gweithredu ar ran y Gymdeithas ar 19 Awst 2020, yn gofyn am ganiatâd i amrywio'r elfennau canlynol o'r brydles:

1. Mae cymal 15 o'r Brydles yn atal isosod. Gofynnir am gytundeb amrywio i ganiatáu isosod. Bydd angen trwydded i isosod o blaid yr Ysgrifennydd Gwladol maes o law hefyd.

2. Mae cymal 15 hefyd yn atal rhannu defnydd. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu rhannu'r defnydd o'r safle gydag adran arall o'r Llywodraeth - DEFRA.

3. Mae'r diffiniad o'r defnydd a ganiateir yn rhy gul i'r defnydd a fwriedir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Y defnydd a fwriedir fydd ar gyfer swyddfeydd / defnydd diwydiannol ysgafn a storio, gan gynnwys i gadw cerbydau. Bwriedir defnyddio’r safle i barcio ceir, beiciau modur a faniau ysgafn, tryciau mawr a cherbydau nwyddau trwm gan gynnwys at ddibenion archwilio, dadlwytho a llwytho nwyddau, gyda swyddfa ategol a chyfleusterau lles sy'n disgyn o fewn Dosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8. Cafwyd ar ddeall mai'r bwriad yw defnyddio'r safle fel cyfleuster archwilio a phrofi ar gyfer archwilio nwyddau, cynhyrchion planhigion ac anifeiliaid ac i gydgysylltu â'r Safle Rheoli Ffiniau. Byddai angen lleoli a gweithredu warysau, llociau wedi'u ffensio, cabanau symudol ac unedau oeri symudol, ynghyd â swyddfeydd ategol a chyfleusterau lles staff.

4. Mae’r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn gofyn am ddileu’r opsiwn sydd gan y Cyngor i derfynu'r Brydles mewn perthynas â’r ardal sydd wedi’i marcio ‘C’ ar y cynllun Prydles. Mae'r cymal torri sy'n rhoi'r opsiwn i derfynu i'w weld yng Nghymal 33 y Brydles.

Nid oes rheidrwydd cyfreithiol ar y Cyngor i gydsynio i unrhyw un o'r ceisiadau uchod o dan y brydles gyfredol.

Nid oes gan y Cyngor y grym i ganiatáu'r datblygiad arfaethedig gan Adran Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ar deitl rhydd-ddaliad y Cyngor.

Yn dilyn arfarniad ar wahân o safleoedd amgen ar hyd coridor yr A55, mae lleoliadau mwy addas na Mona wedi'u nodi.

Bydd defnyddio Mona at y diben hwn yn effeithio'n sylweddol ar gymunedau Gwalchmai a Rhostrehwfa ac, o bosib, bentrefi eraill os bydd cerbydau nwyddau trwm yn bwriadu troi oddi ar yr A55 cyn Cyffordd 5 er mwyn osgoi archwiliad, neu os caniateir iddynt wneud hynny. Bydd cyfyngu traffig HGV i Gyffordd 6 yn osgoi rhai effeithiau traffig, ond byddai pryderon yn parhau ynghylch gorfodaeth a'r llwybrau diogel i gerddwyr i ysgolion.

Mae diffyg pendant o fwynderau a chyfleusterau cymunedol a gwasanaethau cyfleustodau ar gyfer Mona.

Ar hyn o bryd nid oes llwybr cerdded diogel dynodedig na goleuadau stryd ar y ffordd tuag at y stad ddiwydiannol. Mae diogelwch y ffordd yn risg fawr ac mae nifer o ddamweiniau wedi digwydd ar y B4422 a'r A5 a bydd mwy o berygl yn cael ei greu os bydd mwy o draffig.

| **B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?** |
|---|

Gwneud dim - Ddim yn opsiwn.

Gohirio penderfyniad - Mae brys arbennig gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gael safle gweithredol erbyn 1 Ionawr 2021.

Cytuno i'r cais - Byddai'r opsiwn hwn yn golygu y byddai angen cymryd camau lliniaru sylweddol a fydd yn cynnwys, ond na fyddant wedi eu cyfyngu, i'r isod:

- Darparu cyffordd newydd sy'n darparu mynediad uniongyrchol o'r A55 i'r safle ynghyd â gwelliannau i'r rhwydwaith ffyrdd cyfagos rhwng Cyffyrdd 5 a 6. Bydd angen cyfleusterau parcio eraill ar gyfer trigolion sydd angen gallu parcio ar y briffordd yng Ngwalchmai . Darparu cyfyngiadau parcio, croesfannau i gerddwyr, cynlluniau arafu traffig ychwanegol a chyfyngiadau cyflymdra is.

- Codi'r cyfyngiadau cyfreithiol, y cyfamodau cyfyngu a'r ddarpariaeth gorswm a osodwyd gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ar deitl y Cyngor.

- Byddai cydsynio hefyd yn creu prydles fasnachol lle nad oes prydles fasnachol yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r brydles i'r Gymdeithas i ddefnyddiwr penodol at ddiben penodol ac anfasnachol - h.y. parcio i ymwelwyr â Sioe Môn neu ddigwyddiadau tebyg eraill. Gall colli'r safle hwn ar gyfer parcio greu problemau o ran y trefniadau parcio mewn Sioeau yn y dyfodol, ac mae'n amlwg nad yw hynny er budd gorau'r Cyngor fel yr awdurdod priffyrdd lleol. Mae hefyd yn mynd yn groes i'r pwrpas dros ganiatau'r brydles yn y lle cyntaf;

| **C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?** |
|---|
| O dan delerau Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau'r Cyngor mae gan y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo rym dirprwyedig i roi caniatâd mewn perthynas â thelerau ac amodau prydlesi o dan adran 4. Ar gais y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo cyfeiriwyd y cais hwn at y Pwyllgor Gwaith i'w ystyried yn unol â pharagraff 3.5.1.6. |

| **Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson a'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol |

| Dd – Effaith ar Genedlaethau'r Dyfodol (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys** | Mae risg pe bai'r tir ym Mona yn cael ei ddatblygu fel y cynigiwyd y bydd y penderfyniad hwn yn cael effaith negyddol ar gymunedau lleol penodol Gwalchmai a Rhostrehwfa oherwydd cynnydd sylweddol mewn traffig cerbydau nwyddau trwm. |
| 2 | **A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol. Os felly, sut:-** | Nac ydi |
| 3 | **A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy-** | Nac ydym |
| 4 | **A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut:-** | Nac ydynt |
| 5 | **Nodwch effeithiau'r penderfyniad hwn ar yr agenda cydraddoldeb a'r Gymraeg** | Dim effaith ar yr iaith Gymraeg |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Rheoli (UDRh) (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| 2 | **Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)** | Dim sylwadau |
| 3 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)** | Arsylwadau a ymgorfforir yn yr adroddiad |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | Y Gwasanaethau Eiddo sydd wedi paratoi'r adroddiad hwn. |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth (TG)** | |
| 7 | **Caffael** | |

| | | |
|---|---|---|
| 8 | **Sgriwtini** | |
| 9 | **Aelodau Lleol** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| |

| **FF – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Safle | Mona_5000.pdf | Prydles y Gymdeithas | Scanned Lease.pdf |
| Teitl Cofrestredig | 589247 - Official Copy (Register) - WA | Datganiad Statudol | Stat Dec re Lease.pdf |
| Cynllun Teitl | 589246 - Title Plan WA714484.pdf | Opsiwn y Landlord | Stat Dec re Option.pdf |
| Trawsgludiad 1994 | 589245 - Official Copy (Conveyance) 3 | Cynllun y Cynnig | 418703-MMD-06-AG-SK-C-0004.pdf |

V1.2 GM10.9.19

This page is intentionally left blank